# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

Dydd Mercher, 7 Mawrth 2012
Wednesday, 7 March 2012

**Cynnwys**
**Contents**


| | |
|---|---|
| 3 | Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Questions to the Minister for Health and Social Services |
| 29 | Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol<br>Questions to the Counsel General |
| 34 | Datganiad: Remploy<br>Statement: Remploy |
| 49 | Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad<br>Questions to the Assembly Commission |
| 58 | Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Teithio Cynaliadwy<br>Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Sustainable Travel |
| 79 | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Dreth Gyngor<br>Welsh Conservatives Debate: Council Tax |
| 111 | Pwynt o Drefn<br>Point of Order |
| 111 | Dadl Plaid Cymru: Buddsoddiad Cyfalaf<br>Plaid Cymru Debate: Capital Investment |
| 139 | Cyfnod Pleidleisio<br>Voting Time |
| 152 | Dadl Fer: 'Clywch, Clywch'—Gwella Acwsteg yn yr Ystafell Ddosbarth<br>Short Debate: 'Fair Hearing'—Improving Acoustics in the Classroom |


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
## Questions to the Minister for Health and Social Services

### Cynghorau Iechyd Cymuned

### Community Health Councils

***1. Mark Isherwood:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu swyddogaeth Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru. OAQ(4)0089(HSS)*

***1. Mark Isherwood:*** *Will the Minister outline the role of Community Health Councils in Wales. OAQ(4)0089(HSS)*

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I am committed to ensuring effective engagement with patients and the general public in planning service provision and the quality of those services. Community health councils are the independent voice of their communities in that process. I recently announced a review of the current CHC arrangements and expect to receive a report in June.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau yr ymgysylltir yn effeithiol â chleifion a'r cyhoedd wrth gynllunio'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau ac ansawdd y gwasanaethau hynny. Y Cynghorau Iechyd Cymuned yw llais annibynnol eu cymunedau yn y broses honno. Yn ddiweddar, cyhoeddais adolygiad o drefniadau presennol y Cynghorau Iechyd Cymuned, ac rwyf yn disgwyl i adroddiad ddod i law ym mis Mehefin.

**Mark Isherwood:** You will be aware that when your predecessor restructured CHCs concern was expressed by the outgoing CHCs that they would be weakened as a voice for the patient. You will also be aware that Betsi Cadwaladr CHC last month said that it should have been consulted before wards were closed this winter. Its chief officer said:

**Mark Isherwood:** Byddwch yn ymwybodol bod y Cynghorau Iechyd Cymuned blaenorol, pan gawsant eu hailstrwythuro gan eich rhagflaenydd, wedi mynegi pryder y byddent yn cael eu gwanhau fel llais ar ran y claf. Byddwch hefyd yn ymwybodol bod Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr wedi dweud fis diwethaf y dylid bod wedi ymgynghori ag ef cyn cau wardiau'r gaeaf hwn. Meddai prif swyddog y Cyngor:

'We are supposed to be the watchdog, not poodles.'

Dylid ein trin fel ci gwarchod, ac nid fel ci bach.

and its vice chair said:

Ac meddai Is-gadeirydd y Cyngor:

'I'm beginning to share some of my colleagues' concerns about the way the health board does business.'

Rwyf finnau, fel fy nghydweithwyr, yn dechrau pryderu am y modd y mae'r bwrdd iechyd yn gweithredu.

How will your review address such concerns to ensure that the protocol that is now promised in north Wales ensures that these sorts of incidents do not recur and that the voice of the patient is strengthened rather

Sut y bydd eich adolygiad yn mynd i'r afael â phryderon o'r fath i wneud yn siŵr bod y protocol a gaiff ei addo'n awr yn y gogledd yn sicrhau nad yw'r mathau hyn o ddigwyddiadau'n codi eto, a bod llais y claf

than the opposite?

yn cael ei gryfhau yn hytrach na'i wanhau?

**Lesley Griffiths:** Community health councils have a very important role to play in providing a voice for patients in Wales and in monitoring the quality of services provided by local health boards. It is very important that both work together. That can be looked at in the review.

**Lesley Griffiths:** Mae gan Gynghorau Iechyd Cymuned ran bwysig iawn i'w chwarae o ran rhoi llais i gleifion yng Nghymru a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan fyrddau iechyd lleol. Mae'n bwysig iawn bod y ddau'n gweithio gyda'i gilydd. Gellir edrych ar hynny yn ystod yr adolygiad.

**Keith Davies:** Chwaraewyd rôl hanfodol gan gynghorau iechyd cymunedol, yn enwedig lle bu rheolwyr y byrddau iechyd yn ymddangos yn bell oddi wrth y cymunedau maent yn eu cynrychioli. Yn y broses gyswllt gyfredol, maent yn bwysig i sicrhau bod lleisiau cleifion yn cael eu clywed a bod pob gwasanaeth er mantais y claf. A ydych yn cytuno bod cynghorau iechyd cymunedol yn darparu dolen gyswllt bwysig rhwng cleifion â rheolwyr y byrddau iechyd?

**Keith Davies:** Community health councils play a crucial role, in particular where the managers of the health boards appear distant from the communities that they represent. In the current engagement process, they are important to ensure that patients are heard and that all services benefit the patient. Do you agree that community health councils provide an important link between patients and the managers of the health boards?

**Lesley Griffiths:** Yes, I do, as I said in response to Mark Isherwood, and I am committed to ensuring that there is effective engagement with patients and the general public in planning service provision and on the quality of the services provided. CHCs are the independent voice of their communities in that process.

**Lesley Griffiths:** Ydw, rwyf yn cytuno â hynny, fel y dywedais wrth ymateb i Mark Isherwood, ac rwyf wedi ymrwymo i sicrhau yr ymgysylltir yn effeithiol â chleifion a'r cyhoedd wrth gynllunio'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau ac wrth sicrhau ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Y Cynghorau Iechyd Cymuned yw llais annibynnol eu cymunedau yn y broses honno.

**Lindsay Whittle:** What assurances can you give that an important part of the review of CHCs will be a reassessment of their funding, which, as you will be aware, was seriously reduced as a result of the NHS reorganisation in 2009?

**Lindsay Whittle:** Pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd ailasesu cyllid y Cynghorau Iechyd Cymuned yn rhan bwysig o'r adolygiad—cyllid a gafodd ei leihau'n ddifrifol, fel y gwyddoch, o ganlyniad i ad-drefnu'r GIG yn 2009?

**Lesley Griffiths:** All aspects of the CHC will be considered in the review, including funding, governance and performance, so that will all be in that review process as we take it through.

**Lesley Griffiths:** Caiff holl agweddau'r Cynghorau Iechyd Cymuned eu hystyried yn yr adolygiad, gan gynnwys cyllid, llywodraethu a pherfformiad. Felly, bydd y cyfan yn rhan o'r broses adolygu honno wrth inni ei chynnal.

### Swyddogaeth Byrddau Gwasanaethau

### Role of Service Boards

***2. Yr Arglwydd Elis-Thomas:*** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Byrddau Iechyd Lleol ynglyn â swyddogaeth byrddau gwasanaethau o ran trefniadau cydgyllido rhwng GIG Cymru a gwasanaethau cymdeithasol llywodraeth leol.*

***2. Lord Elis-Thomas:*** *What discussions has the Minister had with Local Health Boards regarding the role of service boards in joint funding arrangements between NHS Wales and local government social services. OAQ(4)0100(HSS)*

*OAQ(4)0100(HSS)*

**Lesley Griffiths:** I am assuming that you are referring to local service boards, by means of which local health boards, local government and the third sector are able to work strategically together to improve service delivery. I have had no discussions with local health boards on this issue, but my officials have.

**Lesley Griffiths:** Rwyf yn cymryd eich bod yn cyfeirio at fyrddau gwasanaethau lleol, lle y mae byrddau iechyd lleol, llywodraeth leol a'r trydydd sector yn gallu gweithio gyda'i gilydd yn strategol i wella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu. Nid wyf wedi cael dim trafodaethau â'r byrddau iechyd lleol ynghylch y mater hwn, ond mae fy swyddogion wedi bod yn trafod â hwy.

**Lord Elis-Thomas:** Diolch i'r Gweinidog am yr ateb. A gaf awgrymu, ac a wnaiff hi gytuno, ei bod hi'n allweddol, pan fo newidiadau'n cael eu harloesi i ddarparu gwasanaethau gofal ac iechyd yn nes at ei gilydd, bod y cyhoedd yn gallu gweld sut y mae gwasanaethau newydd yn rhagori ar wasanaethau blaenorol? A yw hi hefyd yn cytuno mai'r anhawster sy'n cael ei wynebu mewn sawl ardal yng Nghymru ynglŷn â diwygio'r gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau gofal yw'r rhaniad mewn gweinyddiad a chyllido?

**Lord Elis-Thomas:** I thank the Minister for that response. May I suggest, and would she agree, that is it crucial, when changes are put in place that are innovative and provide health and social care services close together, that the public can see how those new services are better than what was available previously? Does she also agree that the difficulty faced in many areas of Wales in making changes to health and care services is the split in administration and funding?

**Lesley Griffiths:** Yes, and it is important that we look at all future options to ensure that we have much more integrated working. More needs to be done to optimise collaborative working between local authority social services and the health service, and we will be taking that forward in the social services Bill. The proposals in the consultation document include new powers aimed at promoting collaboration and integrated services, including pooled budgets, formal partnership and other flexibilities. I hope that stakeholders will engage in that consultation process and comment on the proposals that we are making in that area.

**Lesley Griffiths:** Mae hynny'n wir, ac mae'n bwysig ein bod yn ystyried yr holl opsiynau ar gyfer y dyfodol i sicrhau ein bod yn gweithio mewn modd llawer mwy integredig. Mae angen gwneud mwy i wella trefniadau gweithio cydweithredol rhwng gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd, a byddwn yn datblygu hynny yn y Bil gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori yn cynnwys pwerau newydd y bwriedir iddynt hybu cydweithredu a gwasanaethau integredig, gan gynnwys cyllidebau cyfun, partneriaeth ffurfiol a dulliau hyblyg eraill o weithio. Gobeithiaf y bydd rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn y broses ymgynghori honno ac yn gwneud sylwadau ar y cynigion yr ydym yn eu cyflwyno yn y maes hwnnw.

**Antoinette Sandbach:** Could you confirm what recent discussions you have had with local health boards on the funding of cross-border arrangements with hospitals in England? I ask this question because a constituent who has been having tests and cancer treatment at a specialist centre in England was told recently that, because he was a patient from Wales, his file had been put to one side as a result of changes in arrangements. Could you clarify what recent

**Antoinette Sandbach:** A allech gadarnhau pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael yn ddiweddar â'r byrddau iechyd lleol ynghylch ariannu trefniadau trawsffiniol gydag ysbytai yn Lloegr? Gofynnaf y cwestiwn hwn oherwydd bod un o'm hetholwyr sydd wedi bod yn cael profion a thriniaeth ar gyfer canser mewn canolfan arbenigol yn Lloegr wedi cael gwybod yn ddiweddar bod ei ffeil wedi'i rhoi i'r naill ochr o ganlyniad i'r newidiadau mewn trefniadau, oherwydd ei

changes have been made to cross-border treatment protocols? What role do you think that there should be for using private sector facilities when they offer the only means of treating cancer patients such as my constituent because the service is located in England and there is no equivalent service in north or mid Wales?

fod yn glaf o Gymru. A allech egluro pa newidiadau a wnaed yn ddiweddar i brotocolau ar gyfer triniaeth drawsffiniol? Yn eich barn chi, pa rôl ddylai fod i ddefnyddio cyfleusterau'r sector preifat pan nad oes ffordd arall o drin cleifion â chanser, megis fy etholwr i, gan fod y gwasanaeth yn Lloegr a chan nad oes gwasanaeth cyfatebol ar gael yn y gogledd na'r canolbarth?

**Lesley Griffiths:** There have been no changes to any cross-border issues.

**Lesley Griffiths:** Ni wnaed dim newidiadau i unrhyw faterion trawsffiniol.

**William Powell:** Perhaps one of the best examples of the NHS in Wales working in close partnership with local government is the Builth Wells health and social care project. Since 2007, Powys County Council, the local health board and Builth Wells general practitioners have been working closely together to develop health and social care services in that area. Through an extensive stakeholder engagement process from the outset, they argue that they have been able

'to develop a new model of care that is sustainable and acceptable to the public.'

Will you join me in welcoming this engagement process and development? Do you feel that it is an appropriate model to roll out across Wales, particularly in the Hywel Dda Local Health Board area with Carmarthenshire County Council?

**William Powell:** Efallai mai un o'r enghreifftiau gorau o'r GIG yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth agos â llywodraeth leol yw prosiect iechyd a gofal cymdeithasol Llanfair-ym-Muallt. Er 2007, mae Cyngor Sir Powys, y bwrdd iechyd lleol a meddygon teulu yn Llanfair-ym-Muallt wedi bod yn cydweithio'n agos i ddatblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ardal honno. Trwy ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid o'r cychwyn cyntaf, maent yn dadlau eu bod wedi gallu:

'datblygu model newydd o ofal sy'n gynaliadwy ac sy'n dderbyniol i'r cyhoedd.'

A wnewch chi ymuno â mi i groesawu'r broses ymgysylltu a'r datblygiad dan sylw? A yw'n fodel priodol i'w gyflwyno ledled Cymru, yn eich barn chi, yn enwedig yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda gyda Chyngor Sir Caerfyrddin?

**Lesley Griffiths:** I do welcome it. We have other projects, such as the Gwent frailty project, that are similar. I want to see best practice rolled out across Wales. If local health boards were not using best practice, then I would want to know why. It is certainly the sort of model that we want to see being used throughout Wales.

**Lesley Griffiths:** Rwyf yn croesawu'r model. Mae gennym brosiectau eraill tebyg iddo, megis prosiect eiddilwch Gwent. Rwyf am weld arfer gorau'n cael ei weithredu ar draws Cymru. Os nad yw byrddau iechyd lleol yn defnyddio arfer gorau, byddwn am wybod pam. Yn sicr, dyma'r math o fodel yr ydym am ei weld yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru.

## Ysmygu

## Smoking

***3. Gwyn R. Price:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i atal plant rhag dechrau ysmygu. OAQ(4)0098(HSS)*

***3. Gwyn R. Price****: What is the Welsh Government doing to stop children from taking up smoking. OAQ(4)0098(HSS)*

**Lesley Griffiths:** We recently published our tobacco control action plan for Wales, which sets out how we aim to tackle smoking in

**Lesley Griffiths:** Yn ddiweddar, bu inni gyhoeddi cynllun gweithredu Cymru ar reoli tybaco, sy'n nodi sut rydym yn bwriadu

Wales. The action plan includes continuing to invest in measures to discourage children from starting smoking. The tobacco control delivery board will ensure that these actions are taken forward.

mynd i'r afael ag ysmygu yng Nghymru. Mae'r cynllun gweithredu'n cynnwys parhau i fuddsoddi mewn mesurau i annog plant i beidio â dechrau ysmygu. Bydd y bwrdd cyflenwi rheoli tybaco yn sicrhau bod y camau hyn yn cael eu gweithredu.

**Gwyn R. Price:** Thank you for that answer. Research shows that the best way to stop your children from smoking is to set a good example by stopping smoking yourself. We are aware of the proven dangers of second-hand tobacco smoke for children. What more can the Welsh Government do to get this very important health message across, especially in the run-up to 14 March, which is No Smoking Day?

**Gwyn R. Price:** Diolch am yr ateb hwnnw. Mae ymchwil yn dangos mai'r ffordd orau o atal eich plant rhag ysmygu yw gosod esiampl dda trwy roi'r gorau i ysmygu eich hun. Rydym yn ymwybodol o beryglon mwg tybaco ail-law i blant, sy'n beryglon a brofwyd. Beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gyfleu'r neges bwysig iawn hon ynghylch iechyd, yn enwedig yn ystod y cyfnod cyn 14 Mawrth, sef Diwrnod Dim Ysmygu?

**Lesley Griffiths:** The Chief Medical Officer for Wales launched Fresh Start Wales last month, which is our three-year national media campaign to reduce children's exposure to second-hand smoke. That will obviously help to protect them. Children are very vulnerable to second-hand smoke in cars.

**Lesley Griffiths:** Lansiodd Prif Swyddog Meddygol Cymru ymgyrch Cychwyn Iach Cymru fis diwethaf, sef ein hymgyrch genedlaethol yn y cyfryngau, a fydd yn para tair blynedd, i leihau'r mwg ail-law y daw plant i gysylltiad ag ef. Bydd hynny'n amlwg yn helpu i'w diogelu. Mae plant yn agored iawn i niwed gan fwg ail-law mewn ceir.

**The Presiding Officer:** Before we continue, I ask whoever has their mobile phone on to please turn it off. [*Interruption*.] I do not want a conversation; I want you all to turn your mobile phones off. Do not leave them on silent; please turn them off completely.

**Y Llywydd:** Cyn inni barhau, gofynnaf i bwy bynnag sydd â'i ffôn symudol ymlaen i'w ddiffodd. [*Torri ar draws*.] Nid wyf am gael sgwrs; rwyf am i bob un ohonoch ddiffodd eich ffonau symudol. Diffoddwch hwy'n gyfan gwbl, os gwelwch yn dda; peidiwch â diffodd eu sŵn yn unig.

**William Graham:** Minister, you will be aware of the information recently published by Cancer Research UK that almost 160,000 children between the ages of 11 and 15 start smoking every year in the UK—around 440 each day. Could you outline how you are liaising with law enforcement agencies to impose maximum fines on those adults who sell cigarettes to young children or buy them for them?

**William Graham:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r wybodaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ymchwil Canser y DU, sef bod bron i 160,000 o blant rhwng 11 a 15 oed yn dechrau ysmygu bob blwyddyn yn y DU—sef oddeutu 440 bob dydd. A allech egluro sut rydych yn trafod ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith er mwyn cyflwyno'r dirwyon uchaf posibl i'r oedolion hynny sy'n gwerthu sigaréts i blant ifanc neu sy'n prynu sigaréts ar eu cyfer?

**Lesley Griffiths:** We are very concerned about this, which is why we have the tobacco control action plan. The tobacco control delivery board is being set up later this month. You mentioned the ages at which children start smoking, and that is why we have projects such as ASSIST, A Stop

**Lesley Griffiths:** Rydym yn pryderu llawer am hyn, a dyna'r rheswm dros gael y cynllun gweithredu ar reoli tybaco. Caiff y bwrdd cyflenwi rheoli tybaco ei sefydlu yn nes ymlaen y mis hwn. Roeddech yn sôn am yr oedrannau pan fydd plant yn dechrau ysmygu, a dyna pam mae gennym brosiectau

Smoking in Schools Trial, which is aimed at that age group. It is a peer nomination group, which has been welcomed by many such agencies.

megis Treial Rhoi'r Gorau i Ysmygu mewn Ysgolion, sydd wedi'i anelu at y grŵp oedran dan sylw. Mae'n grŵp enwebu cyfoedion, ac mae wedi'i groesawu gan lawer o asiantaethau o'r fath.

**Vaughan Gething:** As Gwyn R. Price has already outlined, the attitude and example of adults is a key factor in children taking up smoking. In that regard, I welcome the campaign that the Welsh Government has launched to try to stop people from smoking in cars when children are also travelling in them. There is obviously a wider health impact to that as well, and I recognise the figures that have already been referred to about the number of boys and girls taking up smoking in Wales. Minister, can you provide an update on the current campaign on smoking in cars and how the Government expects to measure its success?

**Vaughan Gething:** Fel y mae Gwyn R. Price wedi egluro eisoes, mae agwedd oedolion a'r esiampl y maent yn ei dangos yn ffactorau allweddol o safbwynt plant yn dechrau ysmygu. Yn y cyswllt hwn, rwyf yn croesawu'r ymgyrch y mae Llywodraeth Cymru wedi'i lansio i geisio atal pobl rhag ysmygu mewn ceir pan fydd plant hefyd yn teithio ynddynt. Yn amlwg, bydd hynny'n cael effaith ehangach ar iechyd yn ogystal, ac rwyf yn cydnabod y ffigurau y cyfeiriwyd atynt eisoes ynghylch nifer y bechgyn a'r merched sy'n dechrau ysmygu yng Nghymru. Weinidog, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am yr ymgyrch bresennol ar ysmygu mewn ceir a sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu mesur ei llwyddiant?

**Lesley Griffiths:** Through Fresh Start Wales, as I have said, we are having a media campaign for three years. We have already received a significant amount of media coverage since its launch last month. On the day of the launch, we had some very good coverage on the BBC and ITV, not just within Wales but across the UK. Before we launched the campaign, people from across Wales, both smokers and non-smokers, were surveyed to establish their current knowledge and attitudes towards smoking in cars and there was strong support for the action that we as a Government are taking on smoking in cars when children are present. We will have to evaluate the campaign as we progress to see what the success rate is, and the next survey will be undertaken this month, which will help me to assess whether there is any reduction and how successful the campaign is.

**Lesley Griffiths:** Fel y dywedais, rydym yn cynnal ymgyrch yn y cyfryngau, a fydd yn para tair blynedd, drwy ymgyrch Cychwyn Iach Cymru. Rydym eisoes wedi cael cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau ers lansio'r ymgyrch fis diwethaf. Ar ddiwrnod y lansiad, cawsom sylw da iawn ar y BBC ac ar ITV, nid yn unig yng Nghymru ond ledled y DU. Cyn inni lansio'r ymgyrch, cynhaliwyd arolwg o bobl o bob cwr o Gymru—ysmygwyr a phobl nad oeddent yn ysmygu—i ddarganfod eu gwybodaeth gyfredol am ysmygu mewn ceir a'u hagweddau at hynny, a chafwyd cefnogaeth gref i'r camau gweithredu yr ydym ni fel Llywodraeth yn eu cymryd yng nghyswllt ysmygu mewn ceir pan fydd plant yn bresennol. Bydd yn rhaid inni werthuso'r ymgyrch wrth inni fynd ymlaen, er mwyn gweld pa mor dda y mae'n llwyddo. Cynhelir yr arolwg nesaf y mis hwn, a bydd yn fy helpu i asesu a oes unrhyw ostyngiad, a pha mor llwyddiannus yw'r ymgyrch.

**Kenneth Skates:** A recent report by Public Health Wales highlighted that NHS professionals' interventions with regard to smoking and alcohol misuse can save millions of pounds—there are savings of up to £2.3 million in fewer pre-operative complications and of up to £2.8 million from

**Kenneth Skates:** Roedd adroddiad diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn tynnu sylw at y ffaith y gall ymyriadau gan weithwyr proffesiynol y GIG yng nghyswllt ysmygu a chamddefnyddio alcohol arbed miliynau o bunnoedd—ceir arbedion o hyd at £2.3 miliwn oherwydd llai o gymhlethdodau cyn

reducing smoking during pregnancy. Will you examine how to improve further such preventative interventions to save money so that can be reinvested in the front line of the NHS?

llawdriniaeth, ac arbedion o hyd at £2.8 miliwn o leihau nifer y bobl sy'n ysmygu yn ystod beichiogrwydd. A wnewch chi archwilio dulliau o wella ymyriadau ataliol o'r fath ymhellach er mwyn arbed arian, fel y gellir ailfuddsoddi'r arian hwnnw yn rheng flaen y GIG?

**Lesley Griffiths:** You are quite right. Smoking is the leading preventable cause of premature death in Wales, and the Welsh Government recognises the major costs for the NHS that are incurred as a result of the significant burden of illness due to smoking. However, it is not just about money, but also about improving people's lives. A key theme in 'Our Healthy Future' is further reducing smoking and exposure to second-hand smoke, which you have just heard about. The tobacco control action plan for Wales will seek to address these issues. The same goes for alcohol. On 19 March, we will build upon our existing Change4Life programme by launching an alcohol campaign specifically to communicate the harm to health of drinking alcohol at levels above the safe guidelines.

**Lesley Griffiths:** Rydych yn llygad eich lle. Ysmygu yw'r prif ffactor y gellir ei osgoi sy'n achosi marwolaethau cyn pryd yng Nghymru, ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y costau sylweddol i'r GIG o ganlyniad i'r baich sylweddol o ran salwch y mae ysmygu'n ei achosi. Fodd bynnag, nid arian yw'r unig ystyriaeth, oherwydd mae a wnelo â gwella bywydau pobl hefyd. Un thema allweddol yn 'Ein Dyfodol Iach' yw lleihau ymhellach nifer y bobl sy'n ysmygu a chysylltiad pobl â mwg ail-law, yr ydych newydd glywed amdano. Bydd cynllun gweithredu Cymru ar reoli tybaco yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r un peth yn wir am alcohol. Ar 19 Mawrth byddwn yn adeiladu ar ein rhaglen Newid am Oes sy'n bodoli eisoes, trwy lansio ymgyrch alcohol yn benodol er mwyn cyfleu'r niwed i iechyd a achosir pan fydd pobl yn yfed alcohol ar lefelau sydd uwchlaw'r canllawiau ynghylch lefelau diogel.

**Polisi Presgripsiynau**

**Prescriptions Policy**

***4. Mohammad Asghar:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi presgripsiynau yng Nghymru. OAQ(4)0092(HSS)*

***4. Mohammad Asghar:*** *Will the Minister make a statement on prescriptions policy in Wales. OAQ(4)0092(HSS)*

**Lesley Griffiths:** The Welsh Government's free prescriptions policy, introduced in 2007, is a long-term investment to improve people's health in Wales. Providing people with the medication that they need helps to keep them well and out of hospital, thereby reducing the cost to the NHS.

**Lesley Griffiths:** Mae polisi presgripsiynau am ddim Llywodraeth Cymru, a gyflwynwyd yn 2007, yn fuddsoddiad hirdymor i wella iechyd pobl yng Nghymru. Mae darparu'r feddyginiaeth y mae ei hangen ar bobl yn helpu i'w cadw'n iach ac allan o'r ysbyty, gan leihau'r gost i'r GIG.

**Mohammad Asghar:** Thank you for that reply, Minister. According to the latest figures, on average, 23 prescription items are issued per person in Wales every year. I recently met a constituent who had fallen ill and had been prescribed two packets of medicine. Following her recovery, she decided to return the unused and unopened packet of medicine to the chemist. The

**Mohammad Asghar:** Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Yn ôl y ffigurau diweddaraf, caiff 23 o eitemau presgripsiwn eu rhoi i bob unigolyn yng Nghymru bob blwyddyn ar gyfartaledd. Yn ddiweddar, cyfarfûm ag etholwr a aeth yn sâl ac a gafodd bresgripsiwn ar gyfer dau becyn o feddyginiaeth. Ar ôl iddi wella, penderfynodd ddychwelyd y pecyn o feddyginiaeth nad

chemist said that they would not reuse it and threw it into the bin in front of my constituent. What is the Minister doing to stop this scandalous waste of prescribed drugs and to encourage the return and reissuing of unused and unopened prescribed medicines in Wales?

oedd wedi'i ddefnyddio na'i agor i'r fferyllfa. Dywedodd staff y fferyllfa na fyddent yn ailddefnyddio'r feddyginiaeth, a chafodd ei thaflu i'r bin o flaen llygaid fy etholwr. Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i atal y gwastraff gwarthus hwn o gyffuriau a roddir ar bresgripsiwn, ac i annog pobl i ddychwelyd meddyginiaethau a roddwyd ar bresgripsiwn yng Nghymru, nad ydynt wedi'u defnyddio na'u hagor, ac annog fferyllfeydd i'w hailddefnyddio?

**Lesley Griffiths:** Medicine wastage is a matter of concern, because it costs the NHS a significant amount of money. We had a strategic delivery group back in March 2010 that recommended implementing a campaign, and that campaign has been successful in reducing wastage since that time.

**Lesley Griffiths:** Mae gwastraffu meddyginiaeth yn fater sy'n peri pryder, gan ei fod yn costio swm sylweddol o arian i'r GIG. Cyfarfu grŵp cyflenwi strategol yn ôl ym mis Mawrth 2010, a argymhellodd y dylid rhoi ymgyrch ar waith, ac mae'r ymgyrch honno wedi bod yn llwyddiannus o ran lleihau gwastraff ers hynny.

**Llyr Huws Gruffydd:** Weinidog, a fedrwch roi unrhyw amcangyfrifon penodol o'r arbedion ariannol rydych yn eu rhagweld y bydd yn cael eu cyflawni yn sgîl diddymu taliadau presgripsiwn? Gwyddom y bydd llai o fiwrocratiaeth o ran prosesu taliadau, ond beth am yr arbedion ehangach rydych yn eu disgwyl o ran iechyd cyhoeddus gwell a llai o bobl yn mynd i'r ysbyty?

**Llyr Huws Gruffydd:** Minister, can you give any specific estimates of the financial savings that you foresee will be achieved as a result of the abolition of prescription payments? We know that there will be less bureaucracy in terms of processing payments, but what about the broader savings that you expect through better public health and fewer people going to hospital?

**Lesley Griffiths:** I have not looked into the cost of it, because, while I am Minister, we will not be abolishing free prescriptions.

**Lesley Griffiths:** Nid wyf wedi edrych ar gost hynny oherwydd, tra byddaf i'n Weinidog, ni fyddwn yn diddymu presgripsiynau am ddim.

### Gofal i Gleifion

### Patient Care

***5. Paul Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gofal i gleifion yng ngorllewin Cymru. OAQ(4)0095(HSS)*

***5. Paul Davies:*** *Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to improve patient care in west Wales. OAQ(4)0095(HSS)*

**Lesley Griffiths:** Our plans and priorities for the health service for the whole of Wales can be found in our programme for government.

**Lesley Griffiths:** Mae ein cynlluniau a'n blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth iechyd i Gymru gyfan i'w gweld yn ein rhaglen lywodraethu.

**Paul Davies:** Thank you for that answer, Minister. I have been contacted by constituents regarding the progress of the much-awaited permanent renal unit at Withybush General Hospital, and I am given to understand that the health board and the renal network are now renewing and reviewing their initial costings.

**Paul Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae etholwyr wedi bod yn cysylltu â mi ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud o safbwynt yr uned arennol barhaol yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg, y mae disgwyl mawr amdani. Rwyf wedi cael ar ddeall bod y bwrdd iechyd a'r rhwydwaith arennau wrthi ar hyn o bryd yn adnewyddu ac

yn adolygu eu manylion gwreiddiol ynghylch costau.

1.45 p.m.

As you can appreciate, this is a much-needed facility in my constituency, which would improve patient care substantially in Pembrokeshire. Concerns over delays and potential relocation are causing much distress. Could the Minister reassure my constituents that this investment and the much-needed permanent renal unit will go ahead at Withybush hospital?

Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, mae angen mawr am y cyfleuster hwn yn fy etholaeth, a byddai'n gwella gofal cleifion yn sylweddol yn Sir Benfro. Mae pryderon ynghylch oedi ac adleoli posibl yn achosi llawer o ofid. A allai'r Gweinidog roi sicrwydd i'm hetholwyr y bydd y buddsoddiad hwn a'r uned arennol barhaol y mae angen mawr amdani'n mynd yn eu blaen yn ysbyty Llwynhelyg?

**Lesley Griffiths:** I can reassure them. I just need to ensure that we have value for money and I am looking very closely at the costings, as are my officials.

**Lesley Griffiths:** Gallaf roi'r sicrwydd hwnnw iddynt, ond mae angen imi sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian, ac rwyf fi a'm swyddogion yn edrych yn ofalus iawn ar y manylion ynghylch costau.

**Joyce Watson:** Minister, you have been quoted as saying—unequivocally and quite rightly—that the Government will not accept any proposals that might jeopardise patient safety in west Wales or anywhere else. Do you also agree, Minister, that quality of life for patients must be considered, especially in respect of patients who need regular treatment over a period of time for ongoing chronic conditions? Whether services are delivered at a hospital or in the community, closer to home, the time it takes people to access those services, especially when they have to do so regularly, is something that health boards must consider.

**Joyce Watson:** Weinidog, rydych wedi'ch dyfynnu yn dweud—yn ddiamwys ac yn gywir ddigon—na fydd y Llywodraeth yn derbyn unrhyw gynigion a allai beryglu diogelwch cleifion yn y gorllewin nac yn unman arall. A ydych hefyd yn cytuno, Weinidog, bod yn rhaid ystyried ansawdd bywyd cleifion, yn enwedig o safbwynt cleifion y mae arnynt angen triniaeth reolaidd dros gyfnod ar gyfer cyflyrau cronig parhaus? P'un a gaiff gwasanaethau eu darparu mewn ysbyty ynteu yn y gymuned, yn nes at adref, rhaid i'r byrddau iechyd ystyried yr amser y mae'n ei gymryd i bobl gyrraedd y gwasanaethau hynny, yn enwedig pan fyddant yn gorfod gwneud hynny'n rheolaidd.

**The Presiding Officer:** Order. Are you coming to the question?

**Y Llywydd:** Trefn. A ydych yn dod at y cwestiwn?

**Joyce Watson:** Minister, I would very much like to welcome, from a rural perspective, the announcement on the national strategy on minor ailments and community pharmacies.

**Joyce Watson:** Weinidog, o safbwynt gwledig, byddwn yn croesawu'n fawr iawn cael cyhoeddiad ynghylch y strategaeth genedlaethol ar fân anhwylderau a fferyllfeydd cymunedol.

**Lesley Griffiths:** Thank you for that comment at the end of your question. Quality of life is absolutely important, and that is why we want to see safe, sustainable, high-quality services in the community and in hospitals. It is absolutely vital that we get this absolutely right.

**Lesley Griffiths:** Diolch am y sylw hwnnw ar ddiwedd eich cwestiwn. Mae ansawdd bywyd yn hollbwysig, a dyna pam rydym am weld gwasanaethau diogel a chynaliadwy o safon yn y gymuned ac mewn ysbytai. Mae'n gwbl hanfodol ein bod yn sicrhau nad ydym yn gwneud unrhyw gamgymeriadau.

**Simon Thomas:** Minister, the proposals in

**Simon Thomas:** Weinidog, mae'r cynigion

the scenario planning from Hywel Dda Local Health Board foresee one emergency department in the area and three urgent care centres. The hospitals slated for urgent care centres are Bronglais General Hospital and Prince Philip Hospital. Could you tell the Senedd what the difference is between an emergency department and an urgent care centre, how they differ from the current accident and emergency service that is available, and what assessment you have made of the safety of these proposals?

yn y gwaith cynllunio senarios a wnaed gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn rhagweld y dylid lleoli un adran achosion brys yn yr ardal a thair o ganolfannau gofal brys. Yr ysbytai a nodwyd ar gyfer canolfannau gofal brys yw Ysbyty Cyffredinol Bronglais ac Ysbyty'r Tywysog Philip. A allech ddweud wrth y Senedd beth yw'r gwahaniaeth rhwng adran achosion brys a chanolfan gofal brys, sut maent yn wahanol i'r gwasanaeth damweiniau ac achosion brys sy'n bodoli eisoes, a pha asesiadau yr ydych wedi'u cynnal o ddiogelwch y cynigion hyn?

**Lesley Griffiths:** This is one thing that I am looking at. The different names for these departments—such as emergency departments, UCCs, minor injuries units and local emergency centres—are very confusing for patients and the public. It is very important that we get the terminology right. However, I am interested in services and people. I am not getting very hung up on buildings and names.

**Lesley Griffiths:** Dyma'r union beth yr wyf yn ei ystyried. Mae'r enwau gwahanol a roddir ar yr adrannau hyn—megis adrannau achosion brys, canolfannau gofal brys, unedau mân anafiadau a chanolfannau achosion brys lleol—yn ddryslyd iawn i'r cleifion a'r cyhoedd. Mae'n bwysig iawn inni gael y derminoleg yn gywir. Fodd bynnag, nid wyf yn poeni gormod am adeiladau ac enwau. Gwasanaethau a phobl sydd o ddiddordeb i mi.

**Darren Millar:** Minister, timely access to an ambulance is essential in delivering high-quality patient care to people in west Wales and elsewhere in the country. The Wales Air Ambulance service provides vital emergency services in this respect. What financial support is the Welsh Government giving to the 'Act Now' appeal of the Wales Air Ambulance, which is seeking to raise £600,000 to replace a soon-to-be decommissioned helicopter in mid Wales?

**Darren Millar:** Weinidog, mae cael gafael yn brydlon ar ambiwlans yn hanfodol i ddarparu gofal cleifion o safon i bobl yn y gorllewin ac mewn mannau eraill yn y wlad. Mae gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru yn darparu gwasanaethau brys hanfodol yn y cyswllt hwnnw. Pa gymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i ymgyrch 'Gweithredwch Nawr' Ambiwlans Awyr Cymru, sy'n ceisio codi £600,000 i gael hofrennydd newydd yn lle hofrennydd a gaiff ei ddigomisiynu'n fuan yn y canolbarth?

**Lesley Griffiths:** As Darren Millar knows from the answer that I gave to his written question, the Wales Air Ambulance has not asked us for any specific money in relation to that.

**Lesley Griffiths:** Fel y gŵyr Darren Millar o'r ateb a roddais i'w gwestiwn ysgrifenedig, nid yw Ambiwlans Awyr Cymru wedi gofyn inni am unrhyw arian penodol mewn perthynas â hynny.

**Darren Millar:** I find your answer astonishing, Minister. Only today, my office spoke to the Wales Air Ambulance service, which said that it has been constantly in touch with you regarding the need for support for its services. Such support, quite frankly, is going to be even more crucial going forward, particularly if proposals to axe emergency services from hospitals are approved in the Hywel Dda area and perhaps

**Darren Millar:** Mae eich ateb yn syfrdanol, Weinidog. Mor ddiweddar â heddiw, bu fy swyddfa'n siarad â gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru a ddywedodd ei fod wedi cysylltu'n gyson â chi ynghylch yr angen am gymorth ar gyfer ei wasanaethau. Bydd cymorth o'r fath, a dweud y gwir, yn bwysicach fyth wrth symud ymlaen, yn enwedig os caiff cynigion i gael gwared ar wasanaethau brys o ysbytai eu cymeradwyo

elsewhere. Minister, tell me this: if the Welsh NHS can afford to give paracetamol to millionaires and free toothbrushes to children, which their parents should be providing, why can it not afford to provide a sizeable contribution to this extremely valuable and essential service across the whole of Wales?

yn ardal Hywel Dda, ac mewn mannau eraill hefyd efallai. Weinidog, dywedwch hyn wrthyf: os gall GIG Cymru fforddio rhoi parasetamol i filiwnyddion a brwshis dannedd rhad ac am ddim i blant, y dylai eu rhieni fod yn eu darparu, pam na all fforddio rhoi cyfraniad sylweddol i'r gwasanaeth hynod werthfawr a hanfodol hwn ar draws Cymru gyfan?

**Lesley Griffiths:** It is a very valuable service across Wales. I have nothing but praise for the air ambulance service, but it has not asked me for funding. [*Interruption.*] It has not asked me for funding.

**Lesley Griffiths:** Mae hwn yn wasanaeth gwerthfawr iawn ar draws Cymru. Nid oes gennyf ddim ond canmoliaeth i'r gwasanaeth ambiwlans awyr, ond nid yw wedi gofyn imi am arian. [*Torri ar draws.*] Nid yw wedi gofyn imi am arian.

**The Presiding Officer:** Order. Excuse me, but he is not standing up.

**Y Llywydd:** Trefn. Esgusodwch fi, ond nid yw'n sefyll.

**Lesley Griffiths:** He has just asked me a question—

**Lesley Griffiths:** Mae newydd ofyn cwestiwn imi—

**The Presiding Officer:** Yes, but he is not standing up; he is sitting down. I call the spokesperson for the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

**Y Llywydd:** Ydy, ond nid yw'n sefyll; mae'n eistedd. Galwaf ar y llefarydd dros Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Thank you very much, Presiding Officer. Minister, last week we saw that Wales is experiencing a rise in the number of stillbirths. Yesterday, the First Minister, in answering questions, committed the Government to looking at international best practice to try to reduce the level of stillbirths in Wales. Do you agree with the First Minister, and will you be bringing forward a statement that will outline the actions that your Government will take in response to what the First Minister said yesterday?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Weinidog, yr wythnos diwethaf gwelsom fod cynnydd yn nifer yr achosion o farw-enedigaethau yng Nghymru. Ddoe, addawodd y Prif Weinidog, wrth ateb cwestiynau, y byddai'r Llywodraeth yn edrych ar arfer gorau rhyngwladol i geisio lleihau nifer y marw-enedigaethau yng Nghymru. A ydych yn cytuno â'r Prif Weinidog, ac a fyddwch yn cyflwyno datganiad a fydd yn amlinellu'r camau y bydd eich Llywodraeth yn eu cymryd i ymateb i'r hyn a ddywedodd y Prif Weinidog ddoe?

**Lesley Griffiths:** Yes, this is certainly something that concerns me. I read your article in the *Western Mail* on Monday and the figures were very startling. It is something that I will look at and I will certainly make a statement in due course.

**Lesley Griffiths:** Mae hynny'n sicr yn rhywbeth sy'n peri gofid imi. Darllenais eich erthygl yn y *Western Mail* ddydd Llun, ac roedd y ffigurau'n hynod frawychus. Mae hwn yn rhywbeth y byddaf yn ei ystyried, a byddaf yn sicr yn gwneud datganiad maes o law.

**Kirsty Williams:** I am grateful for that and I look forward to the statement. In carrying out work in this area, will you give a

**Kirsty Williams:** Rwyf yn ddiolchgar am hynny, ac edrychaf ymlaen at y datganiad. Wrth wneud gwaith yn y maes hwn, a

commitment that you will look at three crucial areas that could result in a drop in the number of stillbirths? First would be an increase in the scanning of pregnant women to correctly identify the size and weight of their unborn babies. Secondly, will you look at the issue of reduced foetal movement, which can be an early warning sign that a baby is in distress? Thirdly, will you also look at whether you could review the management of inductions in pregnancy? Women who are well over their due date can be induced, but that process can be disrupted by emergencies on hard-pressed maternity wards, which can lead to further delays in the induction process. Will you give a commitment that all three of those areas will be looked at when you carry out this review?

wnewch chi ymrwymo i edrych ar dri maes allweddol a allai arwain at ostyngiad yn nifer y marw-enedigaethau? Yn gyntaf, a wnewch chi ystyried cynyddu nifer y sganiau a gaiff menywod beichiog i ddarganfod maint a phwysau cywir eu baban yn y groth. Yn ail, a wnewch chi edrych ar y mater sy’n ymwneud â sefyllfa lle y mae’r ffetws yn symud llai, sy’n gallu bod yn arwydd cynnar bod y baban mewn trafferthion? Yn drydydd, a wnewch chi ystyried a allech adolygu’r modd y caiff achosion o ysgogi genedigaeth eu rheoli? Gellir ysgogi genedigaeth yn achos menywod sydd, ers cryn amser, wedi pasio’r dyddiad pan oedd disgwyl iddynt roi genedigaeth, ond gall achosion brys amharu ar y broses honno ar wardiau mamolaeth prysur, a all arwain at oedi pellach yn y broses ysgogi. A wnewch chi addo y bydd pob un o’r tri maes hyn yn cael sylw pan fyddwch yn cynnal yr adolygiad?

**Lesley Griffiths:** Part of that work is already being done in the strategic vision for maternity services that we set out last September. All aspects of that can be covered when we look at that.

**Lesley Griffiths:** Mae rhan o’r gwaith hwnnw eisoes ar y gweill yn y weledigaeth strategol a gyflwynwyd gennym fis Medi diwethaf ar gyfer gwasanaethau mamolaeth. Gellir ymdrin â phob agwedd ar y gwaith hwnnw pan fyddwn yn edrych ar y weledigaeth strategol.

**The Presiding Officer:** I remind people that it is one question that you are supposed to be asking the Minister, not four or five.

**Y Llywydd:** Hoffwn atgoffa pobl mai un cwestiwn yn unig y dylech fod yn ei ofyn i’r Gweinidog, nid pedwar neu bump.

### Newidiadau i Wasanaethau

### Service Changes

***6. Keith Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog atgyfnerthu’r arweiniad a gyhoeddwyd i fyrddau iechyd ar ddisgwyliadau yng nghyswllt ymgynghori â’r cyhoedd ynghylch newidiadau i wasanaethau. OAQ(4)0087(HSS)*

***6. Keith Davies:*** *Will the Minister re-enforce the guidance issued to health boards on expectations in relation to consulting with the public over service changes. OAQ(4)0087(HSS)*

**Lesley Griffiths:** I have made my expectations perfectly clear in this respect. All health boards in Wales will ensure comprehensive public engagement and formal consultation in line with the national guidance on service change.

**Lesley Griffiths:** Rwyf wedi mynegi fy nisgwyliadau’n gwbl glir yn y cyswllt hwn. Bydd pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn sicrhau ei fod yn ymgysylltu’n gynhwysfawr â’r cyhoedd ac yn ymgynghori’n ffurfiol â hwy yn unol â’r canllawiau cenedlaethol ynghylch newid i wasanaethau.

**Keith Davies:** Minister, you will be aware that Hywel Dda Local Health Board has just extended the listening period with residents in mid and west Wales. Despite the board

**Keith Davies:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda newydd ymestyn y cyfnod gwrando gyda thrigolion yn y canolbarth a’r gorllewin.

appearing to listen, I have received many concerns about the process from constituents, including reports that health bosses closed engagement days early and refused to attend public meetings that could have allowed them to further engage. Minister, can you assure me that you and your officials will be monitoring the effectiveness of the engagement process being undertaken by our health boards?

Er ei bod yn ymddangos bod y bwrdd yn gwrando, mae etholwyr wedi sôn wrthyf am lawer o bryderon ynghylch y broses, sy'n cynnwys adroddiadau bod penaethiaid iechyd wedi cau diwrnodau ymgysylltu'n gynnar, ac wedi gwrthod mynychu cyfarfodydd cyhoeddus a allai fod wedi'u galluogi i ymgysylltu ymhellach. Weinidog, a allwch fy sicrhau y byddwch chi a'ch swyddogion yn monitro effeithiolrwydd y broses ymgysylltu a gynhelir gan ein byrddau iechyd?

**Lesley Griffiths:** I expect health boards to pay considerably more attention to continuous engagement to ensure that all organisations and members of the public feel that they have had their needs and views listened to. I do not think that the listening period has been extended; it has always been the intention to have engagement before the consultation.

**Lesley Griffiths:** Rwyf yn disgwyl i'r byrddau iechyd roi llawer mwy o sylw i waith ymgysylltu parhaus er mwyn sicrhau bod pob sefydliad ac aelod o'r cyhoedd yn teimlo bod rhywun wedi gwrando ar eu hanghenion a'u safbwyntiau. Nid wyf yn credu bod y cyfnod gwrando wedi'i ymestyn; y bwriad ers y dechrau oedd ymgysylltu cyn ymgynghori.

Hywel Dda health board has been invited to many meetings. Its representatives cannot attend them all. The health board has its own meetings, which have been very well attended, and I know that Joyce Watson and Rebecca Evans both felt that the one they attended in Aberystwyth was a very good and constructive meeting.

Mae bwrdd iechyd Hywel Dda wedi cael gwahoddiad i lawer o gyfarfodydd. Ni all cynrychiolwyr y bwrdd fynychu pob un ohonynt. Mae'r bwrdd iechyd yn cynnal ei gyfarfodydd ei hun, ac mae presenoldeb yn y cyfarfodydd hynny wedi bod yn dda, a gwn fod Joyce Watson a Rebecca Evans o'r farn bod y cyfarfod a fynychwyd ganddynt yn Aberystwyth yn gyfarfod da ac adeiladol iawn.

**Angela Burns:** I would like to follow on from Keith Davies's question, Minister. I read the guidance for engagement in consultation on changes in the health service with interest, and you will know that I have raised the issue of consultation and listening engagement exercises with you on a number of occasions. Keith Davies is quite right: they have closed events early, which means that people turned up and found them not there.

**Angela Burns:** Hoffwn ddilyn trywydd cwestiwn Keith Davies, Weinidog. Darllenais y canllawiau ar gyfer ymgysylltu wrth ymgynghori ynghylch newidiadau yn y gwasanaeth iechyd gyda chryn ddiddordeb, a gwyddoch imi godi'r mater ynghylch ymgynghori a chynnal ymarferion ymgysylltu a gwrando gyda chi droeon. Mae Keith Davies yn llygad ei le: maent wedi cau digwyddiadau'n gynnar, sy'n golygu bod pobl wedi mynd iddynt a gweld nad oedd y bwrdd iechyd yno.

I have also raised the specific issue of this wonderful little DVD that they have sent out to a number of people in the land. However, of course, a huge number of our constituents are unable to use this kind of format, and when I have approached the health board to find an alternative way of getting the information, I have found that I, as an Assembly Member, end up having to print

Rwyf hefyd wedi codi'r mater penodol sy'n ymwneud â'r DVD bach hyfryd y mae'r bwrdd iechyd wedi'i anfon i lawer o bobl yn y wlad. Wrth gwrs, ni all llawer o'n hetholwyr ddefnyddio'r math hwn o fformat, a phan gysylltais â'r bwrdd iechyd i ddod o hyd i ffordd arall o gael y wybodaeth, bu'n rhaid i mi, fel Aelod Cynulliad, argraffu'r holl wybodaeth fy hun a'i danfon i'r etholwr.

out the whole lot and deliver it to the constituent. This cannot be acceptable. Surely, it is not in keeping with the ethics of having a proper, true and open consultation. Minister, what might you be able to do to influence that?

Ni all hynny fod yn dderbyniol. Rhaid nad yw hynny'n cyd-fynd â moeseg cynnal ymgynghoriad priodol, cywir ac agored. Weinidog, beth y gallech ei wneud i ddylanwadu ar hynny?

**Lesley Griffiths:** I accept that not everybody would be able to use the DVD, but I do think that it was an innovative way of getting information out. However, it is not acceptable that you, as an Assembly Member, or your staff have to print out reams of paper. It is something that I will take up with the chair of the health board. I am meeting the chair a week on Monday and I will take up the matter with him.

**Lesley Griffiths:** Rwyf yn derbyn na fyddai pawb yn gallu defnyddio'r DVD, ond rwyf yn credu ei fod yn ddull arloesol o gyflwyno gwybodaeth. Fodd bynnag, nid yw'n dderbyniol eich bod chi, fel Aelod Cynulliad, neu eich staff yn gorfod argraffu pentwr o bapur. Mae'n rhywbeth y byddaf yn ei drafod â chadeirydd y bwrdd iechyd. Byddaf yn cyfarfod â'r cadeirydd wythnos i ddydd Llun, a byddaf yn trafod y mater ag ef.

**Elin Jones:** O ystyried y pryderon am ddulliau ymgynghori'r byrddau iechyd lleol ynghylch eu cynlluniau, a ydych am weld un NHS cenedlaethol o dan eich cyfarwyddyd chi, neu saith NHS lleol?

**Elin Jones:** Considering the concerns about the methods used by the local health boards to consult on their plans, do you wish to see one national NHS under your direction, or seven local versions of the NHS?

**Lesley Griffiths:** It is important that the health boards, particularly where they border each other, work across borders. It is up to each health board, however, to decide which services they want for their local population.

**Lesley Griffiths:** Mae'n bwysig bod y byrddau iechyd, yn enwedig mewn mannau lle y maent yn ffinio â'i gilydd, yn gweithio ar draws y ffiniau hynny. Mater i bob bwrdd iechyd, fodd bynnag, yw penderfynu pa wasanaethau y maent am i'w poblogaeth leol eu cael.

**Elin Jones:** So, that is seven local health boards rather than a national health service, then.

**Elin Jones:** Felly, rydych am weld saith bwrdd iechyd lleol yn hytrach nag un gwasanaeth iechyd gwladol.

Last week, the Assembly voted to support you in instructing three of those local health boards to work together across administrative boundaries to meet the needs of people in mid Wales in relation to Bronglais hospital. How do you intend to issue that instruction to those three health boards, and do you believe, as I do, that that instruction should entail the health board rethinking the current Hywel Dda proposals for Bronglais?

Yr wythnos diwethaf, pleidleisiodd y Cynulliad i'ch cefnogi i roi cyfarwyddyd i dri o'r byrddau iechyd lleol hynny weithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau gweinyddol i ddiwallu anghenion pobl yn y canolbarth mewn perthynas ag Ysbyty Bronglais. Sut rydych yn bwriadu cyflwyno'r cyfarwyddyd hwnnw i'r tri bwrdd iechyd dan sylw, ac a ydych chithau, fel finnau, o'r farn y dylai'r cyfarwyddyd hwnnw gynnwys y ffaith bod angen i'r bwrdd iechyd ailfeddwl ynghylch cynigion presennol Hywel Dda ar gyfer Bronglais?

**Lesley Griffiths:** It already has been given to the chairs and is already happening. I understand that Powys, Betsi Cadwaladr and Hywel Dda health boards are talking. Any service changes have to be viewed in the

**Lesley Griffiths:** Mae'r cyfarwyddyd hwnnw eisoes wedi'i roi i'r cadeiryddion ac mae eisoes ar waith. Deallaf fod byrddau iechyd Powys, Betsi Cadwaladr a Hywel Dda wrthi'n siarad â'i gilydd. Bydd yn rhaid

light of working across boundaries; I have said that all along.

ystyried unrhyw newidiadau i wasanaethau yng ngoleuni gweithio ar draws ffiniau; rwyf wedi dweud hynny ers y dechrau.

**Rhoi Organau**

**Organ Donation**

***7. Mike Hedges:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru ar roi organau yng Nghymru. OAQ(4)0097(HSS)*

***7. Mike Hedges:*** *Will the Minister provide an update on the recent Welsh Government consultation on organ donation in Wales. OAQ(4)0097(HSS)*

**Lesley Griffiths:** We received an excellent response to the consultation, with 1,234 replies received before it closed on 31 January. I will be publishing a summary analysis of the responses tomorrow, 8 March, together with a written statement to Assembly Members.

**Lesley Griffiths:** Cawsom ymateb ardderchog i'r ymgynghoriad, a daeth 1,234 o ymatebion i law cyn i'r ymgynghoriad gau ar 31 Ionawr. Byddaf yn cyhoeddi dadansoddiad cryno o'r ymatebion yfory, ar 8 Mawrth, ynghyd â datganiad ysgrifenedig i Aelodau'r Cynulliad.

**Mike Hedges:** I am sure that you are aware that the British Medical Association has called on the UK Government to follow the actions being taken by this Welsh Labour Government. Does the Minister agree that when it comes to health policy, whether it is on organ donation or helping Poly Implant Prothese victims, Wales is clearly leading the way?

**Mike Hedges:** Rwyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol bod Cymdeithas Feddygol Prydain wedi galw ar Lywodraeth y DU i ddilyn y camau a gaiff eu cymryd gan y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru. A yw'r Gweinidog yn cytuno, pan ddaw'n fater o greu polisi iechyd, boed ynghylch rhoi organau neu ynghylch helpu'r sawl sydd wedi dioddef oherwydd mewnblaniadau Poly Implant Prothese, bod Cymru yn amlwg yn arwain y ffordd?

**Lesley Griffiths:** Yes, absolutely. I am always pleased to show the UK Government the error of its ways. Wales, as you say, is already leading the way on organ donation and I welcome the support of the BMA. I have worked closely with the association as we have developed the proposals so that we can make even more progress. I am more than happy to share our learning with any other administration that is interested.

**Lesley Griffiths:** Yn sicr. Rwyf bob amser yn falch o ddangos i Lywodraeth y DU yr hyn y mae'n ei wneud yn anghywir. Fel yr oeddech yn sôn, mae Cymru eisoes yn arwain y ffordd ym maes rhoi organau, ac rwyf yn croesawu cefnogaeth Cymdeithas Feddygol Prydain. Rwyf wedi gweithio'n agos gyda'r Gymdeithas wrth inni ddatblygu'r cynigion er mwyn gallu gwneud mwy fyth o gynnydd. Rwyf yn fwy na pharod i rannu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu ag unrhyw weinyddiaeth arall sydd â diddordeb.

**Darren Millar:** Minister, Wales is certainly not leading the way when it comes to NHS finances, which, of course, are facing record-breaking cuts of over £0.5 billion. Getting back to the issue of organ donation, one of the issues that has been raised with me is that many people, on the basis of their religious or faith beliefs, have strong feelings about organ donation. Some of them object to presumed consent because of those beliefs. Can you outline in some detail what discussions and

**Darren Millar:** Weinidog, yn sicr nid yw Cymru yn arwain y ffordd o safbwynt cyllid y GIG, sydd, wrth gwrs, yn wynebu'r toriadau mwyaf erioed o dros £0.5 biliwn. O fynd yn ôl at y mater sy'n ymwneud â rhoi organau, un o'r materion a godwyd gyda mi yw bod gan lawer o bobl, oherwydd credoau eu crefydd neu'u ffydd, deimladau cryf ynghylch rhoi organau. Mae rhai ohonynt yn gwrthwynebu cydsyniad tybiedig oherwydd y credoau hynny. A allwch amlinellu'n fanwl

interactions you may have had with faith groups or religious leaders in the development of your proposals, and what are you doing to take into account the strong beliefs of some people in some faith communities?

pa drafodaethau ac achosion o ryngweithio yr ydych efallai wedi'u cael â grwpiau ffydd neu arweinwyr crefyddol wrth ddatblygu eich cynigion, a beth yr ydych yn ei wneud i ystyried credoau cryf rhai pobl mewn rhai cymunedau ffydd?

**Lesley Griffiths:** You are right that some people have strong views and we have met with faith groups. My medical director has met with the race forum. Obviously, we have just come to the end of the consultation process. As I said, I will be publishing an analysis tomorrow.

**Lesley Griffiths:** Rydych yn iawn i ddweud bod gan rai pobl safbwyntiau cryf, ac rydym wedi cyfarfod â grwpiau ffydd. Mae fy nghyfarwyddwr meddygol wedi cyfarfod â'r fforwm hil. Mae'n amlwg ein bod newydd gyrraedd diwedd y broses ymgynghori. Fel y dywedais, byddaf yn cyhoeddi dadansoddiad yfory.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, gan ddilyn gwestiwn Darren Millar, os oes gan bobl deimladau cryf ar y mater hwn mae modd iddynt optio allan o'r system. Nid does gorfodaeth arnynt i gydymffurfio. Dangosodd pôl piniwn diweddaraf BBC Cymru bod y mwyafrif helaeth o bobl Cymru yn cymeradwyo'r cynllun hwn. A ydych yn cytuno â mi bod y pôl piniwn hwnnw yn tanlinellu'r ffaith bod llawer iawn mwy o bobl yn cefnogi'r syniad o gyfrannu organau nag oedd wedi cofrestru eu barn ac a oedd wedi sicrhau byddai hynny'n digwydd, a bod y cynllun hwn yn dangos bod modd iddynt wneud hynny heb fod angen iddynt gofrestru?

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, to follow on from Darren Millar's question, if people have strong feelings on this matter, they can opt out of the system. There is no compulsion for them to conform. The latest opinion poll from BBC Wales showed that the majority of people in Wales approve of this scheme. Do you agree with me that that opinion poll underlines the fact that many more people support the idea of organ donation than had registered their opinion and had ensured that that would happen, and that this scheme shows that it is possible for them to do that without the need to register?

**Lesley Griffiths:** Yes, absolutely. The BBC Wales poll last week was helpful. I think that 67% of people were in support of what we are doing and, as you said, people can opt out, which they do not have the option to do at the moment. Therefore, I think that the new system will be helpful in that way. I believe that it is absolutely the right thing. When you see and meet people like I do, as we all probably do, who are waiting for organ donations, you see that their quality of life is poor, and we know that bringing forward this legislation will ensure that we have an extra 15 donors a year, donating four or five organs. That can only help people here in Wales.

**Lesley Griffiths:** Yn sicr. Roedd y pôl piniwn a gynhaliwyd gan BBC Cymru yr wythnos diwethaf yn ddefnyddiol. Rwyf yn credu bod 67% o bobl o blaid yr hyn yr ydym yn ei wneud, ac fel roeddech yn dweud, gall pobl ddewis optio allan, nad oes modd iddynt ei wneud ar hyn o bryd. Felly, credaf y bydd y system newydd yn ddefnyddiol yn hynny o beth. Dyma'r peth hollol gywir i'w wneud yn fy marn i. Pan fyddwch chithau i gyd, mae'n debyg, fel finnau'n gweld ac yn cyfarfod pobl sy'n aros i organau gael eu rhoi, rydych yn sylweddoli bod eu hansawdd bywyd yn wael, ac rydym yn gwybod y bydd cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yn sicrhau y bydd gennym 15 o roddwyr ychwanegol bob blwyddyn, a fydd yn rhoi pedwar neu bum organ yr un. Ni all hynny ond helpu pobl yma yng Nghymru.

**Eluned Parrott:** Minister, we are supportive of the policy that you have put forward, but I am sure that many Members will have

**Eluned Parrott:** Weinidog, rydym yn cefnogi'r polisi yr ydych wedi'i gyflwyno, ond rwyf yn siŵr y bydd llawer o Aelodau

received a huge number of representations from constituents who are concerned about religious, moral and ethical issues. What reassurance can you give to people that those concerns are being taken into account adequately in the opt-out process that you suggest?

wedi cael peth wmbredd o sylwadau gan etholwyr sy'n pryderu am faterion crefyddol, moesol a moesegol. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i bobl bod y pryderon hynny'n cael eu hystyried yn ddigonol yn y broses optio allan yr ydych yn ei hawgrymu?

**Lesley Griffths:** As I have just said, I realise that there are many people who have genuine concerns about our plans. Some want to see the current system remaining, but I am committed to this and, as Rhodri Glyn pointed out, people can opt out once we have taken this proposal through.

**Lesley Griffths:** Fel rwyf newydd ddweud, rwyf yn sylweddoli bod llawer o bobl yn pryderu'n wirioneddol am ein cynlluniau. Mae rhai am weld y system bresennol yn parhau, ond rwyf wedi ymrwymo i hyn, ac fel y nododd Rhodri Glyn, gall pobl ddewis optio allan pan fydd y cynnig wedi cyrraedd pen ei daith.

**Rebecca Evans:** Minister, has the Welsh Government proactively engaged with organisations representing people whose consent it may not be easy to presume, such as homeless people, people addicted to drugs or alcohol or people with chaotic lifestyles?

**Rebecca Evans:** Weinidog, a yw Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau rhagweithiol i ymgysylltu â mudiadau sy'n cynrychioli pobl y mae'n anodd tybio y byddant yn cydsynio, megis pobl ddigartref, pobl sy'n gaeth i gyffuriau neu alcohol neu bobl sydd â ffordd gythryblus o fyw?

**Lesley Griffiths:** Yes, we have proactively engaged with Shelter Cymru. We need to do more around that issue, however. It is also important to remember that organ donation is only possible when people die in specific circumstances. It means that they have to have been in an intensive care facility so that they can be identified and family members contacted. If those conditions are not met, organ donation cannot go ahead.

**Lesley Griffiths:** Ydym, rydym wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â Shelter Cymru. Mae angen inni wneud mwy ynghylch y mater hwnnw, serch hynny. Mae hefyd yn bwysig cofio mai dim ond pan fydd pobl yn marw mewn amgylchiadau penodol y bydd modd rhoi organau. Mae'n golygu y bydd yn rhaid iddynt fod wedi bod mewn cyfleuster gofal dwys fel y gellir eu hadnabod ac fel y gellir cysylltu ag aelodau'r teulu. Os na fodlonir yr amodau hynny, ni all y broses rhoi organau fynd rhagddi.

2.00 p.m.

**Cyllid i Epilepsi Cymru**

**Funding for Epilepsy Wales**

***8. Bethan Jenkins***: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid i Epilepsi Cymru. OAQ(4)0094(HSS)*

***8. Bethan Jenkins:*** *Will the Minister make a statement on funding for Epilepsy Wales. OAQ(4)0094(HSS)*

**Lesley Griffiths:** Health boards are responsible for meeting the needs of people with epilepsy and should work closely with all partners, including the third sector, to improve services and meet patients' needs.

**Lesley Griffiths:** Byrddau iechyd sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion pobl ag epilepsi, a dylent weithio'n agos gyda phob partner, gan gynnwys y trydydd sector, i wella gwasanaethau a diwallu anghenion cleifion.

**Bethan Jenkins:** Diolch am yr ateb hwnnw. Deallaf fod Epilepsi Cymru eisoes wedi codi pryderon ynglŷn â'r cytundebau lefel

**Bethan Jenkins:** Thank you for that answer. I understand that Epilepsy Wales has already raised concerns regarding the service level

gwasanaeth sydd eu hangen â phob un o'r byrddau iechyd lleol er mwyn i'r elusen barhau â'i gwaith. Deallaf ei bod wedi gofyn am grant arbennig i gefnogi'i gwaith hyd nes bod cytundeb ar y cytundebau lefel gwasanaeth hynny. A ydych wedi ymateb i Epilepsi Cymru, ac os felly, beth ydych wedi'i ddweud am y gwaith hwn?

agreements that the charity has to secure with each of the local health boards in order to continue with its work. I understand that it has asked for a special grant to support its work until the service level agreements are agreed. Have you responded to Epilepsy Wales, and if so, what have you said regarding this work?

**Lesley Griffiths:** Yes, I have responded, but unfortunately I was not in a position to consider its request for funding. I tried to help it identify where it could get some additional funding while it waited for its SLAs to be decided.

**Lesley Griffiths:** Ydw, rwyf wedi ymateb, ond yn anffodus nid oeddwn mewn sefyllfa i ystyried cais yr elusen am gyllid. Ceisiais ei helpu i adnabod ffynonellau a allai ddarparu rhywfaint o arian ychwanegol wrth iddi aros am benderfyniad ynghylch ei chytundebau lefel gwasanaeth.

**David Rees:** As you will be aware, I have written to you on numerous occasions relating to the funding for epilepsy support services across Wales and in my constituency. In your replies, as you have already stated, you have said that health boards have a responsibility to ensure that there are sufficient services for adults suffering from long-term neurological conditions, including epilepsy. What monitoring of these responsibilities does your department undertake, and what actions will be taken to ensure that health boards adhere to their responsibilities?

**David Rees:** Fel y gwyddoch, rwyf wedi ysgrifennu atoch droeon ynghylch y cyllid sydd ar gael i wasanaethau cymorth epilepsi ar draws Cymru ac yn fy etholaeth. Yn eich atebion, fel rydych wedi nodi eisoes, rydych wedi dweud bod gan fyrddau iechyd gyfrifoldeb i sicrhau bod gwasanaethau digonol ar gael ar gyfer oedolion sy'n dioddef o gyflyrau niwrolegol hirdymor, gan gynnwys epilepsi. Pa waith y mae eich adran yn ei wneud i fonitro'r cyfrifoldebau hyn, a pha gamau a fydd yn cael eu cymryd i sicrhau bod byrddau iechyd yn cyflawni eu cyfrifoldebau?

**Lesley Griffiths:** I know that you have written to me on several occasions and take a great deal of interest in this work. The service development and commissioning directive for epilepsy was put in place in 2009, and local health boards have been required to report on progress against the actions specified in the directive. Each of the three annual audits has shown steady progress year-on-year, and as of March 2011, LHBs showed 85% compliance with the SDCD for epilepsy. Those results are available on the Welsh Government website. In terms of how we monitor LHB implementation of the neurosciences review recommendations that followed on, we are establishing a national specialist advisory group for the neurosciences that will be able to provide a national overview of the ongoing implementation.

**Lesley Griffiths:** Gwn ichi ysgrifennu ataf droeon, a gwn fod gennych lawer o ddiddordeb yn y gwaith hwn. Yn 2009, rhoddwyd y gyfarwyddeb datblygu a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer epilepsi ar waith, a bu'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol adrodd ynghylch cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a nodir yn y gyfarwyddeb. Mae pob un o'r tri archwiliad blynyddol wedi dangos cynnydd cyson o'r naill flwyddyn i'r llall, ac ym mis Mawrth 2011 dangosodd byrddau iechyd lleol eu bod yn cydymffurfio ag 85% o'r gyfarwyddeb datblygu a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer epilepsi. Mae'r canlyniadau hynny ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. O ran sut rydym yn monitro'r modd y mae byrddau iechyd lleol yn gweithredu argymhellion yr adolygiad niwrowyddorau a ddilynodd, rydym wrthi'n sefydlu grŵp cynghori arbenigol cenedlaethol ar gyfer y niwrowyddorau, a fydd yn gallu darparu trosolwg cenedlaethol o'r broses weithredu sy'n mynd rhagddi.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** In relation to the service development directive for epilepsy, which your predecessor launched three years ago, and on which you touched in your answer to the previous question, are you confident that all LHBs are meeting the directive? How do you monitor the situation to ensure that the aspirations set out in the directive are being met across Wales, so that everyone who has a problem with epilepsy can have a joined-up service?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Mewn perthynas â'r gyfarwyddeb datblygu gwasanaethau ar gyfer epilepsi, a lansiwyd gan eich rhagflaenydd dair blynedd yn ôl ac yr ydych wedi sôn yn fras amdani yn eich ateb i'r cwestiwn blaenorol, a ydych yn hyderus bod pob bwrdd iechyd lleol yn bodloni'r gyfarwyddeb? Sut rydych yn monitro'r sefyllfa i sicrhau y caiff y dyheadau a nodir yn y gyfarwyddeb eu gwireddu ar draws Cymru, er mwyn i bawb sydd â phroblem yn ymwneud ag epilepsi gael gwasanaeth cydgysylltiedig?

**Lesley Griffiths:** I addressed that in my previous answer to David Rees. I said that there was 85% compliance, so obviously there is some room for improvement, but I am confident that all local health boards are doing that. I recently met with two specialist epilepsy nurses who work in the Welsh Epilepsy Centre, and they are certainly carrying out very valuable and innovative work. I was very pleased to meet with them, particularly to discuss the work that they are doing with general practitioners to show how you can have community management of the condition of epilepsy.

**Lesley Griffiths:** Rhoddais sylw i hynny yn fy ateb blaenorol i David Rees. Dywedais fod y byrddau'n cydymffurfio ag 85% o'r gyfarwyddeb, felly mae'n amlwg bod rhywfaint o le i wella, ond rwyf yn hyderus bod pob bwrdd iechyd lleol yn gwneud hynny. Yn ddiweddar cyfarfûm â dwy nyrs sy'n arbenigo mewn epilepsi ac sy'n gweithio yng Nghanolfan Epilepsi Cymru, ac maent yn sicr yn gwneud gwaith gwerthfawr ac arloesol iawn. Roeddwn yn falch iawn o gael cyfarfod â hwy, yn enwedig i drafod y gwaith y maent yn ei wneud gyda meddygon teulu i ddangos sut y gallwch reoli epilepsi yn y gymuned.

### Canlyniadau Iechyd

### Health Outcomes

***9. Suzy Davies:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella canlyniadau iechyd yng Ngorllewin De Cymru. OAQ(4)0088(HSS)*

***9. Suzy Davies:*** *What action is the Welsh Government taking to improve health outcomes in South Wales West. OAQ(4)0088(HSS)*

**Lesley Griffiths:** Our plans and priorities for the health service for the whole of Wales can be found in our programme for government.

**Lesley Griffiths:** Mae ein cynlluniau a'n blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth iechyd i Gymru gyfan i'w gweld yn ein rhaglen lywodraethu.

**Suzy Davies:** Thank you for that answer. Patients in my area have been complaining that they are now being asked to renew their repeat prescriptions for long-term conditions on a monthly basis. This causes inconvenience for people who work, and people whose condition affects their mobility or communication skills, particularly if a surgery discourages renewal by phone. Does monthly requesting of repeat prescriptions for medication that is reviewed annually improve health outcomes for people in my region?

**Suzy Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw. Mae cleifion yn fy ardal i wedi bod yn cwyno eu bod bellach yn cael cais i adnewyddu eu presgripsiynau amlroddadwy ar gyfer cyflyrau hirdymor yn fisol. Mae hynny'n achosi anghyfleustra i bobl sy'n gweithio a phobl y mae eu cyflwr yn effeithio ar eu gallu i symud neu'u sgiliau cyfathrebu, yn enwedig os na fydd meddygfa'n croesawu adnewyddu presgripsiynau amlroddadwy dros y ffôn. A yw gofyn yn fisol am bresgripsiynau amlroddadwy ar gyfer meddyginiaeth a gaiff

ei hadolygu bob blwyddyn yn gwella canlyniadau iechyd i bobl yn fy rhanbarth i?

**Lesley Griffiths:** Twenty-eight-day prescribing has been a perennial debating point; certainly, I have received quite a bit of correspondence from Members across the Chamber on this. It is believed that 28-day prescribing as the standard rather than the exception does lead to reduced levels of waste, which was referred to in a previous question. However, I have asked my officials to review the 28-day prescribing policy, to assess the impact in light of the correspondence that I have received.

**Lesley Griffiths:** Mae rhagnodi ar gyfer 28 diwrnod wedi bod yn destun dadlau parhaus; yn sicr, rwyf wedi cael cryn dipyn o ohebiaeth gan Aelodau ar draws y Siambr ynghylch hynny. Credir bod sefydlu patrwm rhagnodi ar gyfer 28 diwrnod fel patrwm arferol yn hytrach na phatrwm eithriadol yn arwain at leihau gwastraff, sy'n fater y cyfeiriwyd ato mewn cwestiwn blaenorol. Fodd bynnag, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion adolygu'r polisi rhagnodi ar gyfer 28 diwrnod, er mwyn asesu'r effaith yng ngoleuni'r ohebiaeth yr wyf wedi'i chael.

**Mike Hedges:** Does the Minister agree that one of the best ways to improve health outcomes in the South Wales West area is to develop and maintain state-of-the-art medical services, like cardiac services at Morriston Hospital?

**Mike Hedges:** A yw'r Gweinidog yn cytuno mai un o'r ffyrdd gorau o wella canlyniadau iechyd yng Ngorllewin De Cymru yw datblygu a chynnal gwasanaethau meddygol o'r radd flaenaf, megis gwasanaethau cardiaidd yn Ysbyty Treforys?

**Lesley Griffiths:** Absolutely, and I recognise the very high quality of cardiac services provided by the tertiary centre at Morriston Hospital. I am committed to the continued provision of those services. Our £700 million capital investment, planned over the next three years, will include £25 million for the phase 1A redevelopment of Morrison Hospital.

**Lesley Griffiths:** Yn bendant, ac rwyf yn cydnabod ansawdd uchel iawn y gwasanaethau cardiaidd a ddarperir gan y ganolfan drydyddol yn Ysbyty Treforys. Rwyf wedi ymrwymo i barhau i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Bydd ein buddsoddiad cyfalaf o £700 miliwn, a gynllunnir dros y tair blynedd nesaf, yn cynnwys £25 miliwn ar gyfer cam 1A y gwaith o ailddatblygu Ysbyty Treforys.

**Bethan Jenkins:** I was pleased to hear that the new 42-bed purpose-built Angelton clinic at Glanrhyd Hospital in Bridgend is to take mental health patients from one ward in Maesteg Hospital. While this is good news, such moves can be quite traumatic for any patient. Can you assure us that those patients, particularly those who may not have wanted to move initially, will be moved in the most sensitive and comfortable way?

**Bethan Jenkins:** Roeddwn yn falch o glywed y bydd clinig Angelton yn Ysbyty Glanrhyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy'n glinig newydd pwrpasol â 42 gwely, yn cymryd cleifion iechyd meddwl o un ward yn Ysbyty Maesteg. Er bod hynny'n newyddion da, gall prosesau symud o'r fath fod yn eithaf trawmatig i unrhyw glaf. A allwch ein sicrhau y bydd y cleifion hynny, yn enwedig y sawl nad oeddent yn awyddus i symud ar y dechrau efallai, yn cael eu symud yn y modd mwyaf sensitif a chyfforddus?

**Lesley Griffiths:** Yes. That is an important point that Bethan Jenkins raises. I was pleased to open the unit last week, and I was absolutely blown away by it; it is an incredible unit. I met several of the young people, and you could see that some of them were in a vulnerable state. The staff are doing

**Lesley Griffiths:** Gallaf. Mae Bethan Jenkins yn codi pwynt pwysig. Roeddwn yn falch o gael agor yr uned yr wythnos diwethaf, a chefais fy syfrdanu ganddi; mae'n uned anhygoel. Cyfarfûm â llawer o'r bobl ifanc, a gallech weld bod rhai ohonynt yn agored i niwed. Mae'r staff yn gwneud gwaith

excellent work and I am sure that the patients will settle. However, the move must be dealt with in a sensitive way.

ardderchog, ac rwyf yn siŵr y bydd y cleifion yn ymgartrefu. Fodd bynnag, rhaid symud y cleifion mewn modd sensitif.

**Peter Black:** A constituent of mine recently approached me to complain that, when she was taken to the Morriston Hospital accident and emergency unit, she had to wait to be removed from the ambulance—as there were six ambulances waiting outside—and then had to wait 23 hours on a trolley to be given a bed in the hospital. That is a clear indication that the problems in that accident and emergency unit and in that hospital are still live. What steps are you taking to ensure that the accident and emergency unit at Morriston is meeting the standards that you have set and which the public expect of it?

**Peter Black:** Daeth un o'm hetholwyr ataf yn ddiweddar i gwyno ynghylch y ffaith, pan gafodd ei chludo i'r uned damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Treforys, ei bod wedi gorfod aros i gael ei symud o'r ambiwlans—gan fod chwe ambiwlans yn aros y tu allan—ac wedi gorfod aros ar droli am 23 awr cyn cael gwely yn yr ysbyty. Mae hynny'n arwydd clir bod y problemau yn yr uned damweiniau ac achosion brys honno ac yn yr ysbyty hwnnw'n parhau. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod yr uned damweiniau ac achosion brys yn Nhreforys yn bodloni'r safonau a bennwyd gennych a'r hyn y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl ganddi?

**Lesley Griffiths:** It is concerning to hear such stories. I cannot comment on individual cases, but we must ensure that we have the capacity to deal with unscheduled care. We do not want to hear about ambulances queuing outside hospitals. We have had a particular issue with ambulances in the past couple of weeks, which I hope has now been addressed.

**Lesley Griffiths:** Mae clywed straeon o'r fath yn destun pryder. Ni allaf roi sylwadau ynghylch achosion unigol, ond rhaid inni sicrhau bod gennym y capasiti i ymdrin â gofal nad yw wedi'i drefnu. Nid ydym am glywed am ambiwlansys yn ciwio y tu allan i ysbytai. Rydym wedi cael problem benodol gydag ambiwlansys yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, a gobeithiaf fod y broblem honno wedi'i datrys bellach.

### Gwasanaethau Meddygon Teulu

### GP Services

***10. Ann Jones:*** *Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ddarpariaeth gwasanaethau meddygon teulu yn Nyffryn Clwyd. OAQ(4)0099(HSS)*

***10. Ann Jones:*** *What assessment has the Welsh Government made of the provision of GP services in the Vale of Clwyd. OAQ(4)0099(HSS)*

**Lesley Griffiths:** The provision of GP services is a matter for the health board. Health boards have responsibility for ensuring that services, including the provision of GP services, meet the needs of patients within their local area.

**Lesley Griffiths:** Mae darparu gwasanaethau meddygon teulu yn fater i'r bwrdd iechyd. Byrddau iechyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau, gan gynnwys y ddarpariaeth o ran gwasanaethau meddygon teulu, yn diwallu anghenion cleifion yn eu hardal leol.

**Ann Jones:** Thank you for that answer, Minister. Many people in the Vale of Clwyd are pleased by the Welsh Government's commitment to extend GP opening hours in the evenings and at weekends. Access to GP services is a concern for everyone, which is why I joined, supported and fought alongside some successful campaigns to save Dyserth surgery and Rhuddlan GP surgery, and is now why I am supporting the residents of

**Ann Jones:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae llawer o bobl yn Nyffryn Clwyd yn fodlon ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymestyn oriau agor practisiau meddygon teulu gyda'r nos ac ar benwythnosau. Mae mynediad i wasanaethau meddygon teulu yn bryder i bawb, a dyna pam y bu imi ymuno â rhai ymgyrchoedd llwyddiannus i achub meddygfa meddygon teulu Diserth a Rhuddlan, a'u cefnogi ac

Bodelwyddan as they attempt to keep their branch surgery open. Do you agree that GP practices, and in particular practice staff, have a specific responsibility to ensure that accessible healthcare is available to everyone in the community?

ymgyrchu ochr yn ochr â hwy, a dyna pam rwyf yn awr yn cefnogi trigolion Bodelwyddan wrth iddynt geisio cadw eu cangen hwy o feddygfa ar agor. A ydych yn cytuno bod gan bractisiau meddygon teulu, ac yn arbennig staff practisiau, gyfrifoldeb penodol i sicrhau bod gofal iechyd hygyrch ar gael i bawb yn y gymuned?

**Lesley Griffiths:** Yes. You refer to your constituency and welcome our commitment to improve access to GP services across Wales by ensuring that appointments are available at times that are convenient to the people who need to use the services. I agree that GP practices and their staff need to ensure that their access arrangements meet the specific needs of the people living in their local communities.

**Lesley Griffiths:** Ydw. Rydych yn cyfeirio at eich etholaeth ac yn croesawu ein hymrwymiad i wella mynediad i wasanaethau meddygon teulu ar draws Cymru drwy sicrhau bod apwyntiadau ar gael ar adegau sy'n gyfleus i'r bobl y mae angen iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau hynny. Rwyf yn cytuno bod angen i bractisiau meddygon teulu a'u staff sicrhau bod eu trefniadau o ran mynediad yn diwallu anghenion penodol y bobl sy'n byw yn eu cymunedau lleol.

**Mark Isherwood:** How do you respond to concerns recently expressed to me by GPs in north-east Wales that some GP surgeries are becoming clinically unsafe? Welsh Government statistics reported an average of 1,838 patients for a full-time equivalent GP. However, one particular practice had over 2,000 patients and it reported that another, not far away, had 2,200 patients. It told me that it is bursting at the seams and that lots of practices are in the same situation.

**Mark Isherwood:** Sut rydych yn ymateb i bryderon a fynegwyd wrthyf yn ddiweddar gan feddygon teulu yn y gogledd-ddwyrain, sef bod rhai meddygfeydd meddygon teulu yn mynd yn anniogel o safbwynt clinigol? Dangosodd ystadegau Llywodraeth Cymru fod gan bob meddyg teulu cyfwerth ag amser llawn 1,838 o gleifion ar gyfartaledd. Fodd bynnag, roedd yn nodi bod gan un practis penodol dros 2,000 o gleifion, a bod gan bractis arall nad oedd yn bell i ffwrdd 2,200 o gleifion. Roedd yr ystadegau'n dangos i mi bob y practis yn orlawn a bod llawer o bractisiau eraill yn yr un sefyllfa.

**Lesley Griffiths:** It is important that GP lists are safe, and I am discussing this issue with general practitioners. I recently met with some GPs in my own constituency and discussed this issue with them. It is about finding the right level, but it must be a safe level.

**Lesley Griffiths:** Mae'n bwysig bod rhestrau meddygon teulu yn ddiogel, ac rwyf wrthi'n trafod y mater hwn â meddygon teulu. Yn ddiweddar, cyfarfûm â rhai meddygon teulu yn fy etholaeth fy hun, a bûm yn trafod y mater hwn â hwy. Mae a wnelo â dod o hyd i'r lefel gywir, ond rhaid iddi fod yn lefel ddiogel.

**Llyr Huws Gruffydd:** We have already heard reference to a key manifesto commitment of both our parties, namely extending GP opening hours. However, while we await details of how you intend to implement this commitment, can you give us an assurance that, as well as extending the opening hours of GP surgeries, you will also ensure that they are accessible to people relying on public transport? We have heard

**Llyr Huws Gruffydd:** Rydym eisoes wedi clywed cyfeiriad at ymrwymiad allweddol ym maniffesto fy mhlaid i a'ch plaid chi i ymestyn oriau agor practisiau meddygon teulu. Fodd bynnag, wrth inni aros am fanylion ynghylch sut rydych yn bwriadu rhoi'r ymrwymiad hwn ar waith, a allwch roi sicrwydd inni y byddwch, yn ogystal ag ymestyn oriau agor meddygfeydd meddygon teulu, yn gwneud yn siŵr bod y meddygfeydd

reference to Bodelwyddan already, but there is a concern that surgeries in less-populated areas might close, in order to create centralised surgeries that are able to fulfil your opening hours pledge.

hynny'n hygyrch i bobl sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus? Rydym eisoes wedi clywed cyfeiriad at Fodelwyddan, ond ceir pryder y gallai meddygfeydd mewn ardaloedd llai poblog gau er mwyn creu meddygfeydd canolog sy'n gallu gwireddu eich addewid ynghylch oriau agor.

**Lesley Griffiths:** I have not heard concerns about that, but that would need to be considered closely. I have conversations with my colleague Carl Sargeant, the Minister for Local Government and Communities, in relation to service change plans to ensure that public transport is there to support them.

**Lesley Griffiths:** Nid wyf wedi clywed pryderon am hynny, ond byddai angen ystyried y mater hwnnw'n ofalus. Byddaf yn cael sgyrsiau â'm cydweithiwr, Carl Sargeant, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, ynghylch y cynlluniau newid gwasanaethau er mwyn sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus ar gael i'w cefnogi.

### Gwasanaethau'r GIG

### NHS Services

***11. Antoinette Sandbach:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau'r GIG yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0090(HSS)*

***11. Antoinette Sandbach:*** *What is the Welsh Government doing to improve NHS services in North Wales. OAQ(4)0090(HSS)*

**Lesley Griffiths:** Our plans and priorities for the health service in Wales can be found in our programme for government. Last month, I was pleased to announce the final go-ahead for the £89.9 million major redevelopment and refurbishment of Ysbyty Glan Clwyd.

**Lesley Griffiths:** Mae ein cynlluniau a'n blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru i'w gweld yn ein rhaglen lywodraethu. Fis diwethaf, roeddwn yn falch o gyhoeddi y byddai'r gwaith ailddatblygu ac ailwampio sylweddol yn Ysbyty Glan Clwyd, a fydd yn costio £89.9 miliwn, yn mynd rhagddo.

**Antoinette Sandbach:** Minister, will you join me in thanking those who work at Claire House Children's Hospice and commend the service that it provides to children and families in north-east Wales? Are you embarrassed by the First Minister's comments on 28 February that, because Claire House is not located within Wales's borders, the Welsh NHS would never provide funding, despite the fact that it delivers care in family homes in the region, and that the hospice facilities are the most convenient for the local population, who would otherwise face considerably longer journeys to Tŷ Gobaith?

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i ddiolch i'r sawl sy'n gweithio yn Hosbis Plant Claire House a chanmol y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i blant a theuluoedd yn y gogledd-ddwyrain? A wnaeth sylwadau'r Prif Weinidog ar 28 Chwefror godi cywilydd arnoch, pan ddywedodd, gan nad oedd hosbis Claire House yng Nghymru, na fyddai GIG Cymru byth yn darparu cyllid iddi, er gwaethaf y ffaith ei bod yn darparu gofal mewn cartrefi teuluoedd yn y rhanbarth ac mai cyfleusterau'r hosbis yw'r rhai mwyaf cyfleus i'r boblogaeth leol, a fyddai fel arall yn wynebu siwrneiau llawer hwy i Dŷ Gobaith?

**Lesley Griffiths:** Claire House hospice provides services to a very small number of children in north Wales; the number is as low as two per annum. Referrals are made as and when patient needs arise. You will appreciate

**Lesley Griffiths:** Mae hosbis Claire House yn darparu gwasanaethau i nifer bach iawn o blant yn y gogledd; mae'r nifer mor isel â dau blentyn y flwyddyn. Caiff cleifion eu cyfeirio yno'n ôl eu hanghenion. Byddwch yn

that I have an ever-reducing amount of money that I can give to hospices because of the cuts to the Welsh Government budget by your UK Government. I aim to ensure that everybody has access to palliative and end-of-life care as and when they need it.

gwerthfawrogi bod yr arian y gallaf ei roi i hosbisau'n lleihau o hyd oherwydd y toriadau a wnaed i gyllideb Llywodraeth Cymru gan eich Llywodraeth chi yn y DU. Fy nod yw sicrhau bod pawb yn cael mynediad i ofal lliniarol a gofal diwedd oes pan fydd angen gofal o'r fath arnynt.

**Alun Ffred Jones:** A ydych wedi cael trafodaeth gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr am y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth iechyd yn y gogledd? Pryd fydd y bwrdd iechyd yn cyhoeddi ei argymhellion?

**Alun Ffred Jones:** Have you had a discussion with the Betsi Cadwaladr University Local Health Board about proposed changes to the health service in north Wales? When will the health board publish its recommendations?

**Lesley Griffiths:** The service change plans are currently being developed. I will meet both chairs and chief executives to discuss the service change plans later this month. You will have seen the timetable for pre-consultation engagement and then consultation, which will take us through the summer.

**Lesley Griffiths:** Mae'r cynlluniau newid gwasanaethau wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Byddaf yn cyfarfod â'r cadeiryddion a'r prif weithredwyr i drafod y cynlluniau newid gwasanaethau yn nes ymlaen y mis hwn. Byddwch wedi gweld yr amserlen ar gyfer y broses ymgysylltu cyn ymgynghori ac yna'r broses ymgynghori, a fydd yn parhau drwy'r haf.

**Aled Roberts:** Weinidog, rwy'n cydnabod y buddsoddiad o £65 miliwn gan Betsi Cadwaladr mewn theatrau newydd yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Gwynedd, ond mae'r rhestrau aros orthopedig yn cynyddu o hyd. Y llynedd, cafodd 1,230 o gleifion driniaeth yn Lloegr a 500 driniaeth gan y sector preifat. Mae Betsi Cadwaladr wedi dweud bod y trefniadau hynny ar fin dod i ben. A ydych yn poeni am y rhestrau aros orthopedig yn y gogledd?

**Aled Roberts:** Minister, I recognise Betsi Cadwaladr's investment of £65 million in new theatres at Wrexham Maelor Hospital and Ysbyty Gwynedd, but orthopaedic waiting lists continue to rise. Last year, 1,230 patients were treated in England and 500 patients were treated in the private sector. Betsi Cadwaladr has said that those arrangements are about to come to an end. Are you concerned about orthopaedic waiting lists in north Wales?

**Lesley Griffiths:** No; orthopaedic waiting times in north Wales have reduced significantly. You will be aware that my predecessor announced additional funding for orthopaedics, which has had a massive impact on waiting times. I am assured that nobody will have to wait more than 36 weeks after March.

**Lesley Griffiths:** Nac ydw; mae amseroedd aros am wasanaethau orthopedig yn y gogledd wedi gostwng yn sylweddol. Byddwch yn ymwybodol i'm rhagflaenydd gyhoeddi y byddai cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer gwasanaethau orthopedig, ac mae hynny wedi cael effaith enfawr ar amseroedd aros. Rwyf wedi cael sicrwydd na fydd yn rhaid i neb aros am fwy na 36 wythnos ar ôl mis Mawrth.

### Bwydo ar y Fron

### Breast Feeding

***12. Jenny Rathbone:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu'r nifer sy'n bwydo ar y fron. OAQ(4)0093(HSS)*

***12. Jenny Rathbone:*** *What action is the Welsh Government taking to increase breast feeding. OAQ(4)0093(HSS)*

**Lesley Griffiths:** To encourage breastfeeding, the Welsh Government has developed a national breastfeeding programme with funded activities across the NHS, communities, schools and the voluntary sector. Over 550 premises are members of the Breastfeeding Welcome scheme and all maternity and community healthcare facilities are working towards the baby-friendly accreditation.

**Lesley Griffiths:** Er mwyn cynyddu'r nifer sy'n bwydo ar y fron, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu rhaglen genedlaethol bwydo ar y fron, sy'n cynnwys gweithgareddau a ariennir ar draws y GIG, mewn cymunedau, mewn ysgolion ac ar draws y sector gwirfoddol. Mae dros 550 o safleoedd yn aelodau o'r cynllun Croesawu Bwydo ar y Fron, ac mae pob cyfleuster mamolaeth a phob cyfleuster gofal iechyd cymunedol yn gweithio tuag at gael eu hachredu fel mannau cyfeillgar i fabanod.

**Jenny Rathbone:** Minister, that is welcome. However, breastfeeding rates are unfortunately going down in Cardiff. Some 67% of babies are breastfed at birth, but that drops to 21% by the age of 6 weeks. That is worse than the baseline figure from September 2010. What strategies can the Welsh Government deploy alongside health boards to reverse the drop in breastfeeding rates? Strategies could include training breastfeeding peer supporters—people in the community—as well as ensuring that consistent advice is given by maternity units.

**Jenny Rathbone:** Mae hynny i'w groesawu, Weinidog. Fodd bynnag, mae cyfraddau bwydo ar y fron yn gostwng yng Nghaerdydd yn anffodus. Caiff oddeutu 67% o fabanod eu bwydo ar y fron ar ôl cael eu geni, ond mae'r gyfradd yn gostwng i 21% erbyn y byddant yn 6 wythnos oed. Mae hynny'n waeth na'r ffigur gwaelodlin ym mis Medi 2010. Pa strategaethau y gall Llywodraeth Cymru eu defnyddio ochr yn ochr â byrddau iechyd i wrthdroi'r gostyngiad yn y nifer sy'n bwydo ar y fron? Gallai'r strategaethau gynnwys hyfforddi cyfeillion cefnogol bwydo ar y fron—pobl yn y gymuned—yn ogystal â sicrhau bod unedau mamolaeth yn rhoi cyngor yn gyson.

**Lesley Griffiths:** It is important that we do things to help sustain breastfeeding and not only encourage it at the beginning. A range of interventions have been implemented to help sustain breastfeeding. The Welsh Government funds Agored peer support training for mums. Grants are provided to local health boards to set up peer support groups. The Breastfeeding Welcome scheme is increasing its reach.

**Lesley Griffiths:** Mae'n bwysig ein bod yn helpu i gynnal yr arfer o fwydo ar y fron, ac nid annog hynny ar y dechrau yn unig. Mae ystod o ymyriadau wedi'u rhoi ar waith i helpu i gynnal yr arfer o fwydo ar y fron. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu hyfforddiant cyfeillion cefnogol Agored i famau. Rhoddir grantiau i fyrddau iechyd lleol sefydlu grwpiau cyfeillion cefnogol. Mae'r cynllun Croesawu Bwydo ar y Fron yn cyrraedd cynulleidfa ehangach.

**William Graham:** Minister, when my children were small the mantra was 'Breast is best', but for those people who are not able to breastfeed, are you familiar with the human milk bank service? Could that be extended to Wales?

**William Graham:** Weinidog, pan oedd fy mhlant i'n ifanc, y mantra oedd mai bwydo ar y fron oedd orau, ond ar gyfer y bobl hynny nad ydynt yn gallu bwydo ar y fron, a ydych yn gyfarwydd â gwasanaeth Cronfa Llaeth y Fron? A allai'r gwasanaeth hwnnw gael ei ymestyn i Gymru?

**Lesley Griffiths:** William, you are quite right, it is an individual choice. There are many reasons why women choose to breastfeed, or not. That is something that we can look at.

**Lesley Griffiths:** William, rydych yn llygad eich lle, yr unigolyn sydd i ddewis. Ceir llawer o resymau pam mae merched yn dewis bwydo ar y fron, neu'n dewis peidio â gwneud hynny. Mae'n rhywbeth y gallwn ei

ystyried.

2.15 p.m.

**Leanne Wood:** Minister, according to the UK infant feeding survey of 2010, breastfeeding rates in Wales lag behind those in Scotland and England, and one of the possible reasons for the disparity between Wales and Scotland, at least, is that it has become illegal in Scotland to prevent a mother from breastfeeding her baby in a public place. This legislation has sent a clear message to mothers in Scotland that breastfeeding is not something to be ashamed of or anxious about; it is a perfectly natural thing to do. Will you look at the legislation in Scotland and will you consider introducing similar legislation in Wales in order to encourage and enable mothers to give the best possible start in life to their babies through breastfeeding?

**Leanne Wood:** Weinidog, yn ôl arolwg bwydo babanod y DU yn 2010, mae cyfraddau bwydo ar y fron yng Nghymru ar ei hôl hi o'u cymharu â'r Alban a Lloegr, ac un o'r rhesymau posibl am y gwahaniaeth, rhwng Cymru a'r Alban o leiaf, yw ei bod bellach yn anghyfreithlon yn yr Alban i atal mam rhag bwydo ei baban ar y fron mewn man cyhoeddus. Mae'r ddeddfwriaeth wedi anfon neges glir at famau yn yr Alban, sef nad yw bwydo ar y fron yn rhywbeth i fod â chywilydd ohono neu'n rhywbeth i bryderu yn ei gylch; mae'n beth cwbl naturiol i'w wneud. A wnewch chi edrych ar y ddeddfwriaeth yn yr Alban ac ystyried cyflwyno deddfwriaeth debyg yng Nghymru, er mwyn annog a galluogi mamau i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i'w babanod drwy eu bwydo ar y fron?

**Lesley Griffiths:** I will certainly commit to having a look at the legislation in Scotland. We have some initiatives: the UNICEF baby-friendly initiative is a key mechanism in improving breastfeeding support provided by health professionals. I will commit to having a look at it in the first instance.

**Lesley Griffiths:** Rwyf yn sicr yn fodlon ymrwymo i fwrw golwg ar y ddeddfwriaeth yn yr Alban. Mae gennym ninnau rai mentrau: mae menter cyfeillgar i fabanod UNICEF yn adnodd allweddol i wella'r cymorth a roddir gan weithwyr iechyd proffesiynol i'r sawl sy'n bwydo ar y fron. Rwyf yn fodlon ymrwymo i fwrw golwg ar y ddeddfwriaeth i ddechrau.

**Julie Morgan:** Has the Minister considered ways of encouraging breastfeeding in the workplace in view of the fact that there was a survey last year that showed that four out of five new mothers felt forced to quit breastfeeding when they went back to work?

**Julie Morgan:** A yw'r Gweinidog wedi ystyried ffyrdd o annog mamau i fwydo ar y fron yn y gweithle, o ystyried y ffaith bod arolwg a gynhaliwyd y llynedd wedi dangos bod pedair o bob pump o famau newydd yn teimlo bod yn rhaid iddynt roi'r gorau i fwydo ar y fron pan oeddent yn mynd yn ôl i'r gwaith?

**Lesley Griffiths:** Yes, we have. Combining breastfeeding and work can be successfully achieved, but we recognise that it is a challenge and that many women stop breastfeeding upon returning to work. We have produced advice for both employers and mothers on breastfeeding and returning to work through our Healthy Working Wales workplace health programme, and we have produced an information leaflet, 'Breastfeeding and returning to work', which was distributed to mothers by health visitors.

**Lesley Griffiths:** Rydym wedi ystyried hynny. Gellir cyfuno bwydo ar y fron a gweithio'n llwyddiannus, ond rydym yn cydnabod ei bod yn her a bod llawer o fenywod yn rhoi'r gorau i fwydo ar y fron pan fyddant yn dychwelyd i'r gwaith. Rydym wedi cynhyrchu cyngor i gyflogwyr a mamau ynghylch bwydo ar y fron a dychwelyd i'r gwaith, drwy ein rhaglen sy'n hybu iechyd yn y gweithle, Cymru Iach ar Waith, ac rydym wedi cynhyrchu taflen wybodaeth, 'Bwydo ar y Fron a Dychwelyd i'r Gwaith', a ddosbarthwyd i famau gan ymwelwyr

iechyd.

## Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol
## Questions to the Counsel General

### Perthynas Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU

**William Powell:** With the possibility of Scottish independence in the distance and the Silk commission busily at work, there have been increasing calls—

**The Presiding Officer:** Order. You have to ask the tabled question.

***1. William Powell:*** *A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am ei swyddogaeth ym mherthynas Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU. OAQ(4)0030(CGE)*

**The Counsel General (Theodore Huckle):** Good afternoon. That was nearly too much of a surprise. The answer that I have is: I take the lead for the Welsh Government on particular matters as appropriate and also hold meetings and discussions with other law officers, including the Attorney General for England and Wales.

**William Powell:** I am grateful for that answer and I apologise for the procedural mistake. With the possibility of Scottish independence coming up the track and the Silk commission busily at work, there have been increasing calls for a rebalancing of Wales's relationship within the UK. Recently, the First Minister has even called for a more federal approach to governance in Britain, which has been a long-term policy of my party. What role do you envisage for yourself as Counsel General in providing advice and support to the First Minister in his endeavours?

**Theodore Huckle:** It is always necessary to distinguish between the political questions and the legal questions. I anticipate that my advice will be sought, as appropriate, on legal questions.

### Setliad Datganoli

### Welsh Government Relations with the UK Government

**William Powell:** Gyda'r posibilrwydd o annibyniaeth i'r Alban ar y gorwel pell a chomisiwn Silk yn brysur wrth ei waith, bu galwadau cynyddol—

**Y Llywydd:** Trefn. Rhaid ichi ofyn y cwestiwn a gyflwynwyd.

***1. William Powell:*** *Will the Counsel General make a statement on his role in Welsh Government relations with the UK Government. OAQ(4)0030(CGE)*

**Y Cwnsler Cyffredinol (Theodore Huckle):** Prynhawn da. Roedd hynny bron yn ormod o syndod. Yr ateb sydd gennyf yw: Rwyf yn arwain ar ran Llywodraeth Cymru ar faterion penodol fel y bo'n briodol, ac rwyf hefyd yn cynnal cyfarfodydd a thrafodaethau â swyddogion eraill y gyfraith, gan gynnwys Twrnai Cyffredinol Cymru a Lloegr.

**William Powell:** Rwyf yn ddiolchgar am yr ateb hwnnw ac ymddiheuraf am y camgymeriad gweithdrefnol. Gyda'r posibilrwydd o annibyniaeth i'r Alban yn dod yn nes a chomisiwn Silk yn brysur wrth ei waith, bu galwadau cynyddol i ailgloriannu perthynas Cymru yn y DU. Yn ddiweddar, mae'r Prif Weinidog wedi galw hyd yn oed am ddull mwy ffederal o lywodraethu ym Mhrydain, sydd wedi bod yn bolisi hirdymor gan fy mhlaid i. Pa rôl yr ydych yn ei rhagweld i chi eich hun fel Cwnsler Cyffredinol wrth ddarparu cyngor a chymorth i'r Prif Weinidog yn ei ymdrechion?

**Theodore Huckle:** Mae bob amser yn angenrheidiol gwahaniaethu rhwng y cwestiynau gwleidyddol a'r cwestiynau cyfreithiol. Rwyf yn rhagweld y gofynnir am fy nghyngor, fel y bo'n briodol, ar gwestiynau cyfreithiol.

### Devolution Settlement

***2. Bethan Jenkins:** A yw'r Cwnsler Cyffredinol wedi cael unrhyw drafodaethau gyda swyddogion y gyfraith ynghylch y canlyniadau posibl i Gymru yn sgil setliad datganoli diwygiedig yn yr Alban. OAQ(4)0028(CGE)*

***2. Bethan Jenkins:** Has the Counsel General held any discussions with law officers regarding the possible consequences for Wales of a changed devolution settlement in Scotland. OAQ(4)0028(CGE)*

**Theodore Huckle:** As I have mentioned previously, it is not my intention to make statements about the discussions that I have had or will have with UK law officers or to disclose the content of any such discussions. That is an established convention designed to preserve the integrity of those discussions and the relationship between law officers.

**Theodore Huckle:** Fel yr wyf wedi'i grybwyll o'r blaen, nid yw'n fwriad gennyf wneud datganiadau ynghylch y trafodaethau yr wyf wedi'u cael neu y byddaf yn eu cael â swyddogion y gyfraith yn y DU na datgelu cynnwys unrhyw drafodaethau o'r fath. Mae hwnnw'n arfer sydd wedi'i sefydlu a fwriadwyd i gadw integriti'r trafodaethau hynny a'r berthynas rhwng swyddogion y gyfraith.

**Bethan Jenkins:** Diolch am yr ateb hwnnw. Credir yn gyffredinol y bydd newid yn nhrefniadau datganoli yn yr Alban yn cael effaith anochel, fel sydd eisoes wedi ei ddweud, ar rannau datganoledig eraill o Brydain. Yn wir, efallai y byddai'n synhwyrol i gynllunio ar gyfer digwyddiad o'r fath. Pa rôl fyddech chi'n rhagdybio ei chwarae os oes ystyriaeth ystyrlon o drefniadau datganoli Cymru yn dilyn unrhyw newid posibl yn yr Alban?

**Bethan Jenkins:** Thank you for that response. It is generally thought that any change to the devolution arrangements for Scotland will have an inevitable effect, as has already been mentioned, on the other devolved areas of Britain. Indeed, it may be sensible to plan for such an eventuality. What role do you foresee for yourself if there is a meaningful consideration of the devolution arrangements for Wales following any possible changes in Scotland?

**Theodore Huckle:** At the risk of giving the same answer that I gave a few moments ago, I will advise and, to some extent, take a lead in relation to legal issues. As Members will know, the Government is in the process of preparing to issue a consultation on whether Wales should have—or the extent to which Wales should have—a separate legal jurisdiction. That is an important matter in the context of the overall devolution settlements. You may anticipate that I will be involved in relation to those legal issues rather than the more general political issues affecting the democratic settlement.

**Theodore Huckle:** Os caf fentro rhoi'r un ateb a roddais ychydig funudau yn ôl, byddaf yn cynghori ac, i ryw raddau, yn cynnig arweiniad o ran materion cyfreithiol. Fel y gŵyr yr Aelodau, mae'r Llywodraeth wrthi'n paratoi i gyhoeddi ymgynghoriad ynghylch a ddylai Cymru gael—neu i ba raddau y dylai Cymru gael—awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân. Mae hynny'n fater pwysig yng nghyd-destun y setliadau datganoli yn gyffredinol. Gallwch ragweld y byddaf yn ymwneud â'r materion cyfreithiol hynny yn hytrach na'r materion gwleidyddol mwy cyffredinol sy'n effeithio ar y setliad democrataidd.

### Comisiwn Silk

### Silk Commission

***3. Simon Thomas:** Pa sylwadau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u gwneud i Gomisiwn Silk. OAQ(4)0031(CGE)*

***3. Simon Thomas:** What representations has the Counsel General made to the Silk Commission. OAQ(4)0031(CGE)*

**Theodore Huckle:** The Welsh Government has submitted evidence to the Silk commission for part I of the commission's review, on financial accountability. I have

**Theodore Huckle:** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno tystiolaeth i gomisiwn Silk ar gyfer rhan I o adolygiad y comisiwn, ar atebolrwydd ariannol. Nid wyf wedi gwneud

not made any representations to the commission.

unrhyw sylwadau i'r comisiwn.

**Simon Thomas:** Diolch, Cwnsler Cyffredinol, am yr ateb hwnnw. Yn rhan II, mae cylch gorchwyl y comisiwn yn dweud ei fod yn edrych ar y ffin rhwng yr hyn sydd wedi ei ddatganoli a'r hyn nad ydyw wedi ei ddatganoli, ei fod yn edrych ar y posibiliad o newid y ffin honno ac, yn benodol, ar y materion cyfreithiol sy'n deillio o unrhyw newidiadau iddo. O ystyried hynny, a ydych yn bwriadu cyflwyno tystiolaeth ar gyfer rhan II o gomisiwn Silk, ac a fydd eich sylwadau yn gyhoeddus?

**Simon Thomas:** Thank you, Counsel General, for that answer. In part II, the remit of the commission states that it will look at the boundary between what is devolved and what has not been devolved, that it will look at the possibility of changing that boundary and, specifically, at the legal issues arising from any changes to it. Given that, do you intend to present evidence to part II of the Silk commission, and will your comments be public?

**Theodore Huckle:** It is fair to anticipate that the Government will give evidence to the Silk commission, but, as to whether I am invited to be party to the giving of evidence or not, I do not yet know. However, I anticipate being involved, it I may put it that way, generally in the consideration of those issues and the preparation of responses and representations that the Welsh Government will make to Silk part II, certainly. We anticipate that that will all flow from the consultation on a separate legal jurisdiction and the results of that consultation, the position that the Welsh Government takes as a result of that consultation, and engaging with the Silk commission.

**Theodore Huckle:** Mae'n deg rhagweld y bydd y Llywodraeth yn rhoi tystiolaeth i gomisiwn Silk, ond, o ran p'un a fyddaf yn cael fy ngwahodd i roi tystiolaeth ai peidio, nid wyf yn gwybod eto. Fodd bynnag, rwyf yn rhagweld y byddaf yn cymryd rhan, os caf ddweud felly, yn gyffredinol yn y gwaith o ystyried y materion hynny a pharatoi ymatebion a sylwadau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno i ran II Silk, yn sicr. Rydym yn rhagweld y bydd hynny i gyd yn deillio o'r ymgynghoriad ar awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân a chanlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw, y safbwynt y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gymryd o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwnnw, ac ymgysylltu â chomisiwn Silk.

### Trafodaethau gyda'r Gwasanaeth Llysoedd

### Discussions with the Court Service

***4. Mick Antoniw:*** *A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol amlinellu manylion unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Gwasanaeth Llysoedd yng Nghymru ynghylch y newidiadau ar gyfer cychwyn achosion cyfreithiol. OAQ(4)0029(CGE)*

***4. Mick Antoniw:*** *Will the Counsel General outline the details of any discussions he has had with the Court Service in Wales with regard to the changes for the issuing of legal proceedings. OAQ(4)0029(CGE)*

**Theodore Huckle:** I have not had any such discussions.

**Theodore Huckle:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau o'r fath.

**Mick Antoniw:** Counsel General, it has been announced that there will be no further issuing of legal proceedings in Wales, except in situations of urgency and as a dropping off point. All proceedings will be transferred to Salford for issue. That really is quite an insult to the Welsh legal service and system. With a legislature here, we will not be able to undertake in Wales one of the fundamental

**Mick Antoniw:** Gwnsler Cyffredinol, cyhoeddwyd na fydd rhagor o achosion cyfreithiol yn cael eu dechrau yng Nghymru, ac eithrio mewn sefyllfaoedd brys ac fel man gollwng. Bydd pob achos yn cael ei drosglwyddo i Salford i'w ddechrau. Mae hynny yn wir yn dipyn o sarhad ar wasanaeth a system gyfreithiol Cymru. Gyda deddfwrfa yn y fan hon, ni fyddwn yn gallu ymgymryd

functions of the legal service, which is to issue proceedings. Will you consider making representations to whatever authorities you consider relevant with a view to trying to rectify this or to seek some explanation as to why we have not been consulted properly and in detail and why the Welsh court service is being treated in this way?

ag un o swyddogaethau sylfaenol y gwasanaeth cyfreithiol yng Nghymru, sef dechrau achosion. A wnewch chi ystyried gwneud sylwadau i ba awdurdodau bynnag sy'n berthnasol yn eich barn chi gyda'r bwriad o geisio unioni hyn neu i ofyn am eglurhad ynghylch pam nad ymgynghorwyd â ni yn briodol ac yn fanwl a pham mae gwasanaeth llysoedd Cymru yn cael ei drin fel hyn?

**Theodore Huckle:** Thank you for the question. It raises, once again, issues that I touched upon the last time that I was before the Assembly in relation to the role that Ministers and I have in making representations broadly on matters affecting Wales. I am concerned to ensure that, where there are matters affecting Wales that might be considered to be within my remit, that I consider making representations and, where appropriate, that I make such representations.

**Theodore Huckle:** Diolch am y cwestiwn. Unwaith eto, mae'n codi materion y cyffyrddais â hwy y tro diwethaf imi fod gerbron y Cynulliad mewn perthynas â'r rôl sydd gan y Gweinidogion a minnau wrth wneud sylwadau cyffredinol ar faterion sy'n effeithio ar Gymru. Rwyf yn awyddus i sicrhau, os oes materion yn effeithio ar Gymru a allai gael eu hystyried yn rhan o'm cylch gwaith, fy mod yn ystyried gwneud sylwadau a, lle y bo'n briodol, fy mod yn gwneud sylwadau o'r fath.

The history of this matter, as I understand it, is that, on 29 March last year, the Ministry of Justice published a formal consultation on solving disputes in the county court. That consultation ran until the end of June last year. Members will remember that I took up post formally in the middle of June. It is right to say that I was not particularly aware of the issue at that stage, although the Government was aware of it. There is a tendency, and there has been a tendency—and I do not criticise it—to take the view that justice is not a devolved matter and therefore it was not something upon which we could work much influence. However, in the early part of this year, I became aware of this proposed change. It does not just affect Wales; there are considerable concerns about it across the United Kingdom, and across England and Wales in particular. The proposal is that all court proceedings will be filed centrally in Salford County Court. A very big unit must be being built to accommodate that. In any event, obviously, on the face of it, it is an administrative matter, which could be a matter of good administration. However, having become aware of it in the early part of this year, I have raised it, and I am in the process of writing on the matter. I am concerned that the consultation was last year and I am not sure whether much can be done

Hanes y mater hwn, yn ôl a ddeallaf yw, ar 29 Mawrth y llynedd, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ymgynghoriad ffurfiol ar ddatrys anghydfodau yn y llys sirol. Bu'r ymgynghoriad hwnnw'n rhedeg tan ddiwedd mis Mehefin y llynedd. Bydd yr Aelodau yn cofio imi ddechrau yn y swydd yn ffurfiol yng nghanol mis Mehefin. Mae'n iawn dweud nad oeddwn yn ymwybodol iawn o'r mater bryd hynny, er bod y Llywodraeth yn ymwybodol ohono. Mae tuedd, a bu tuedd—ac nid wyf yn ei beirniadu—i gymryd y farn nad yw cyfiawnder yn fater datganoledig ac nad oedd, felly, yn rhywbeth y gallem ddylanwadu llawer arno. Fodd bynnag, yn gynnar eleni, deuthum yn ymwybodol o'r newid arfaethedig hwn. Nid ar Gymru yn unig y mae'n effeithio; mae llawer yn pryderu amdano ar draws y Deyrnas Unedig, ac ar draws Cymru a Lloegr yn arbennig. Y cynnig yw y bydd pob achos llys yn cael ei gofnodi yn ganolog yn Llys Sirol Salford. Mae'n rhaid bod uned fawr iawn yn cael ei hadeiladu i ddarparu ar gyfer hynny. Beth bynnag, yn amlwg, ar yr olwg gyntaf, mater gweinyddol ydyw, a allai fod yn fater o weinyddu da. Fodd bynnag, wedi dod yn ymwybodol o'r mater yn gynnar eleni, rwyf wedi ei godi, ac rwyf wrthi'n ysgrifennu ar y mater. Rwyf yn pryderu bod yr

at this stage. However, it is certainly a matter in which I am interested, and I am taking steps to investigate it. I will make such representations as it seems that I can do in due course.

ymgynghoriad wedi'i gynnal llynedd, ac nid wyf yn siŵr a ellir gwneud llawer erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'n sicr yn fater y mae gennyf ddiddordeb ynddo, ac rwyf yn cymryd camau i ymchwilio iddo. Byddaf yn gwneud y sylwadau hynny yr ymddengys y gallaf eu gwneud maes o law.

While the legal jurisdiction of England and Wales is undivided, it may be that there cannot be great complaint about effective administration of that system. If that means that a single centre is to be used, that may be a good thing, but it depends. The feel of the matter is that it does not feel like it goes with the trend that there has been in recent years for the localism of justice services in relation to the arrangements of courts and administrative tribunals in Wales, which has been very much directed at ensuring that there is local justice for the people of Wales. I very much believe in that, and I will take such steps as I can to see what effects this proposal will have.

Tra bydd awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr heb ei gwahanu, hwyrach na ellir cwyno llawer am gael dull effeithiol o weinyddu'r system honno. Os yw hynny'n golygu defnyddio un ganolfan, gallai hynny fod yn beth da, ond mae'n dibynnu. Y teimlad yw bod hyn yn teimlo fel pe bai'n mynd yn groes i'r duedd a fu yn y blynyddoedd diwethaf i leoleiddio gwasanaethau cyfiawnder o ran trefniadau llysoedd a thribiwnlysoedd gweinyddol yng Nghymru, sydd wedi canolbwyntio'n fawr iawn ar sicrhau cyfiawnder lleol i bobl Cymru. Rwyf yn credu'n gryf yn hynny, a byddaf yn cymryd y camau a allaf i weld pa effeithiau y bydd y cynnig hwn yn eu cael.

**Simon Thomas:** I listened carefully to what you had to say there. We have started to take evidence in the Constitutional and Legislative Affairs Committee regarding the establishment of a legal jurisdiction for Wales. One of the issues raised has been that of a perceived lack of work for any such legal jurisdiction in Wales. Moving the issue of court proceedings out of Wales will, surely, not add to that case, and reinforces the need to make such representations on behalf not only of the Welsh Government but also of the potential for a future Welsh jurisdiction.

**Simon Thomas:** Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a oedd gennych i'w ddweud. Rydym wedi dechrau cymryd tystiolaeth yn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol ar gyfer Cymru. Un o'r materion a godwyd oedd bod canfyddiad bod diffyg gwaith ar gyfer unrhyw awdurdodaeth gyfreithiol o'r fath yng Nghymru. Bydd symud y gwaith o ddechrau achosion llys y tu allan i Gymru, yn sicr, yn ychwanegu at hynny, ac mae'n atgyfnerthu'r angen i wneud sylwadau o'r fath nid yn unig ar ran Llywodraeth Cymru, ond hefyd o ran y potensial o gael awdurdodaeth yng Nghymru yn y dyfodol.

**Theodore Huckle:** As I understand it, depending on the area of legal work concerned, there are issues about how much of those particular types of work are to be handled in Wales. The obvious example that has been the subject of some joking in the legal community in Wales is shipping law, as there is no great call for shipping specialists based in Wales. Leaving those jokes aside, at one level, this is a matter of principle as to whether Wales should conduct its own affairs. At another level, it is a matter of administrative efficiency. Those two

**Theodore Huckle:** Fel a ddeallaf, yn dibynnu ar faes y gwaith cyfreithiol dan sylw, ceir problemau o ran faint o'r mathau arbennig hynny o waith a gaiff eu trin yng Nghymru. Yr enghraifft amlwg sydd wedi bod yn destun cellwair yn y gymuned gyfreithiol yng Nghymru yw cyfraith llongau, gan nad oes galw mawr am arbenigwyr llongau yng Nghymru. Ond ar wahân i hynny, ar un lefel, mae hwn yn fater o egwyddor ynghylch a ddylai Cymru reoli ei materion ei hun. Ar lefel arall, mae'n fater o effeithlonrwydd gweinyddol. Rhaid cadw

positions have to be balanced.

cydbwysedd rhwng y ddau beth hynny.

## Datganiad: Remploy
## Statement: Remploy

**The Presiding Officer:** In accordance with Standing Order No. 12.16, I have agreed to a Government statement without notice on Remploy.

**Y Llywydd:** Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.16, rwyf wedi cytuno i ganiatáu datganiad heb rybudd gan y Llywodraeth ar Remploy.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** Late this morning, I was informed by Maria Miller, Minister for Disabled People in the UK Government, that she would be making a written statement at 12.30 p.m. announcing that she would be accepting the recommendations of the Sayce review.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Ddiwedd y bore yma, cefais wybod gan Maria Miller, y Gweinidog dros Bobl Anabl yn Llywodraeth y DU, y byddai'n gwneud datganiad ysgrifenedig am 12.30 p.m. a fyddai'n cyhoeddi y byddai'n derbyn argymhellion adolygiad Sayce.

The Welsh Government is profoundly disappointed with the decision by the UK Government to reduce its current subsidy to Remploy, resulting in the closure of Remploy factories in Wales, England and Scotland. This has wide-reaching implications not only for the lives of individuals, but also for families and communities across Wales. It is clear that Wales has been disproportionately hit by the closures announced.

Mae Llywodraeth Cymru yn eithriadol o siomedig ynghylch penderfyniad Llywodraeth y DU i ostwng ei chymhorthdal presennol i Remploy, a fydd yn arwain at gau ffatrïoedd Remploy yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae goblygiadau hynny'n bellgyrhaeddol, nid yn unig i fywydau unigolion, ond hefyd i deuluoedd a chymunedau ledled Cymru. Mae'n amlwg bod Cymru wedi cael ei tharo'n anghymesur gan yr achosion a gyhoeddwyd o gau ffatrïoedd.

The announcement accepts proposals for the closure of seven Remploy factories in Wales—in Aberdare, Abertillery, Bridgend, Croespenmaen, Merthyr, Swansea and Wrexham, with 272 workers affected. I understand that the factories in Porth and in Neath are considered, in the words of the UK Government, to be 'potentially viable'.

Mae'r cyhoeddiad yn derbyn cynigion i gau saith o ffatrïoedd Remploy yng Nghymru—yn Aberdâr, Abertyleri, Pen-y-bont ar Ogwr, Croespenmaen, Merthyr, Abertawe a Wrecsam, a fydd yn effeithio ar 272 o weithwyr. Deallaf fod y ffatrïoedd yn y Porth a Chastell-nedd yn cael eu hystyried yn ffatrïoedd a allai fod yn hyfyw, yng ngeiriau Llywodraeth y DU.

This announcement will be devastating for those workers, their families and the local communities. In our submissions to the UK Government, the Welsh Government has made clear our vigorous opposition to such closures, not least at a time of economic hardship and an extremely unfavourable labour market. This situation is particularly acute for those who are already facing considerable obstacles and are one of the groups at greatest disadvantage in today's labour market.

Bydd y cyhoeddiad hwn yn dorcalonnus i'r gweithwyr hynny, eu teuluoedd a'r cymunedau lleol. Yn ein cyflwyniadau i Lywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi'n glir ei gwrthwynebiad chwyrn i achosion o'r fath o gau ffatrïoedd, yn enwedig ar adeg o gyni economaidd a marchnad lafur anffafriol tu hwnt. Mae'r sefyllfa hon yn arbennig o ddifrifol i'r sawl sy'n wynebu rhwystrau sylweddol eisoes ac sy'n perthyn i un o'r grwpiau sydd dan yr anfantais fwyaf yn y farchnad lafur heddiw.

Employment, including specialist

Mae cyflogaeth, gan gynnwys cymorth o ran

employment support for disabled people, is a matter reserved to the UK Government. I regret that repeated requests by Welsh Ministers for a constructive dialogue on Remploy factories in Wales have not been taken up by the UK Government.

cyflogaeth arbenigol i bobl anabl, yn fater a gadwyd i Lywodraeth y DU. Rwyf yn gresynu nad yw Llywodraeth y DU wedi manteisio ar geisiadau niferus gan Weinidogion Cymru i gael trafodaeth adeiladol ynghylch ffatrïoedd Remploy yng Nghymru.

2.30 p.m.

We understand that Remploy will now proceed to a 90-day consultation on the closure of the affected factories. I have asked the UK Minister for full details of the background to this decision, including the publication of any studies undertaken on the viability of the factories. There needs to be an immediate discussion regarding the Remploy assets in Wales so that the Welsh Government can work in a meaningful way with disabled people, the relevant trade unions and others wishing to form social enterprises as suggested in the Sayce review. The UK Government has said that it will provide an £8 million package of support for those affected by the closures. Support will extend for 18 months and will include a personal budget. It is clear that the UK Government must bear its responsibility, including the costs of any associated redundancy and transitional support. These are costs that fall to the UK Government, not to the Welsh Government.

Deallwn y bydd Remploy yn awr yn symud ymlaen i gynnal ymgynghoriad 90 diwrnod ynghylch cau'r ffatrïoedd yr effeithir arnynt. Rwyf wedi gofyn i Weinidog y DU am fanylion llawn ynghylch cefndir y penderfyniad hwn, ac rwyf wedi gofyn iddi gyhoeddi unrhyw astudiaethau a gynhaliwyd o hyfywedd y ffatrïoedd. Mae angen cael trafodaeth ar unwaith am asedau Remploy yng Nghymru fel y gall Llywodraeth Cymru weithio mewn modd ystyrlon gyda phobl anabl, yr undebau llafur perthnasol ac eraill sydd am ffurfio mentrau cymdeithasol fel yr awgrymir yn adolygiad Sayce. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn darparu pecyn cymorth gwerth £8 miliwn ar gyfer y sawl yr effeithir arnynt gan yr achosion o gau ffatrïoedd. Bydd y cymorth yn para am 18 mis, a bydd yn cynnwys cyllideb bersonol. Mae'n amlwg bod yn rhaid i Lywodraeth y DU ysgwyddo ei chyfrifoldeb, gan gynnwys costau unrhyw ddiswyddiadau cysylltiedig a chymorth pontio. Mae'r rhain yn gostau i Lywodraeth y DU ac nid i Lywodraeth Cymru.

The Welsh Government will wish to explore with Remploy what may be done to maintain the factories in Wales. As a Government, we have worked to highlight the opportunities for ourselves and public sector partners to utilise the Remploy factories for goods and services. My office sought to telephone the chief executive of Remploy today. He referred my office back to the Department for Work and Pensions. Notwithstanding this, we will examine closely the options for future support for the factories in Wales, including the development of social enterprises. It would be premature for us as a Government to say more at this stage until we have more detailed information from the UK Government and Remploy. Our focus as a Government will be on maintaining employment opportunities for Remploy workers. I will keep Members informed.

Bydd Llywodraeth Cymru am archwilio gyda Remploy beth y gellir ei wneud i gadw'r ffatrïoedd yng Nghymru. Fel Llywodraeth, rydym wedi gweithio i dynnu sylw at y cyfleoedd sydd i ni ac i'n partneriaid yn y sector cyhoeddus ddefnyddio ffatrïoedd Remploy i gael nwyddau a gwasanaethau. Ceisiodd fy swyddfa ffonio prif weithredwr Remploy heddiw. Cyfeiriodd fy swyddfa'n ôl at yr Adran Gwaith a Phensiynau. Er hynny, byddwn yn archwilio'n fanwl yr opsiynau ar gyfer cynnig cymorth yn y dyfodol i'r ffatrïoedd yng Nghymru, gan gynnwys datblygu mentrau cymdeithasol. Mae'n rhy gynnar i ni fel Llywodraeth ddweud mwy ar hyn o bryd nes byddwn wedi cael rhagor o wybodaeth fanylach gan Lywodraeth y DU a Remploy. Fel Llywodraeth, byddwn yn canolbwyntio ar gynnal cyfleoedd o ran cyflogaeth ar gyfer gweithwyr Remploy.

Byddaf yn sicrhau bod yr Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

**The Presiding Officer:** I have, as you can imagine, a long list of speakers, so I remind people that this is an opportunity to question the Minister, not to make long statements.

**Y Llywydd:** Fel y gallwch ddychmygu, mae gennyf restr hir o siaradwyr. Felly, hoffwn atgoffa pobl bod hwn yn gyfle i holi'r Gweinidog ac nid i wneud datganiadau hir.

**Christine Chapman:** As you can imagine, Minister, this will be devastating news for my constituents who work at the Aberdare site, although not wholly surprising. I have visited the company many times. Over the years, the whole issue has been difficult for all concerned. We know that excellent skilled work has gone on there for many years, but in Aberdare in particular, the uncertainty has been very demoralising for people, which is unforgivable.

**Christine Chapman:** Fel y gallwch ddychmygu, Weinidog, bydd y newydd hwn yn dorcalonnus i'm hetholwyr sy'n gweithio ar safle Aberdâr, er na fydd yn syndod llwyr. Rwyf wedi ymweld â'r cwmni droeon. Dros y blynyddoedd, mae'r holl fater wedi bod yn anodd i bawb dan sylw. Rydym yn gwybod bod gwaith crefftus ardderchog wedi'i gyflawni yno ers blynyddoedd lawer, ond yn Aberdâr yn benodol, mae'r ansicrwydd wedi effeithio'n fawr iawn ar forâl pobl, sy'n anfaddeuol.

On the proposal to close, I am very sceptical that alternative work can be found for the employees, given the current economic climate, particularly in areas such as the Cynon Valley. As you and others have said, this is an absolutely callous decision. It is unacceptable that the UK Government has been so lax in having that constructive dialogue with the Welsh Government and it has missed a huge opportunity. People will not look at this with favour. As you know, Minister, I visited the Porth site in your constituency recently—

O ran y bwriad i gau, rwyf yn amau'n fawr a fydd modd dod o hyd i waith arall ar gyfer y gweithwyr, o ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, yn enwedig mewn ardaloedd megis Cwm Cynon. Fel rydych chi ac fel y mae pobl eraill wedi dweud, mae hwn yn benderfyniad hollol ddidrugaredd. Mae'n annerbyniol bod Llywodraeth y DU wedi bod mor ddiofal ynghylch cael y drafodaeth adeiladol honno â Llywodraeth Cymru, ac mae wedi colli cyfle pwysig. Ni fydd pobl yn edrych yn ffafriol ar y sefyllfa. Fel y gwyddoch, Weinidog, ymwelais â safle'r Porth yn eich etholaeth yn ddiweddar—

**The Presiding Officer:** Order. Could you come to the question, please?

**Y Llywydd:** Trefn. A allech ddod at y cwestiwn, os gwelwch yn dda?

**Christine Chapman:** I know that you say that the Neath and Porth sites are seen as viable. What work could the Welsh Government do to see whether those companies could support the sites that are marked for closure? There is an opportunity there for partnership work. Secondly, what support can the Welsh Government give in terms of advice and training if the situation gets worse and those workers are made redundant?

**Christine Chapman:** Gwn eich bod yn dweud bod safleoedd Castell-nedd a'r Porth yn cael eu hystyried yn safleoedd hyfyw. Pa waith y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i weld a allai'r cwmnïau hynny gynnal y safleoedd y nodwyd y byddant yn cau? Ceir cyfle yno i weithio mewn partneriaeth. Yn ail, pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei roi o ran cyngor a hyfforddiant os bydd y sefyllfa'n gwaethygu ac os bydd y gweithwyr hynny'n cael eu diswyddo?

**Leighton Andrews:** My colleague the Member for Cynon Valley is right in what she says about the impact of the closure of

**Leighton Andrews:** Mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Gwm Cynon, yn iawn o ran yr hyn a ddywed am effaith cau ffatri Aberdâr ar

the Aberdare factory on her constituents. I was pleased that she was able to visit the Porth factory in my constituency recently. I take the view at this stage that what we do as a Welsh Government will depend firstly on the information that is made available to us by the UK Government and Remploy with regard to the operating situation of the individual factories. It is clear that we do not have the full range of information that would enable us to make judgments about the viability of those factories. The Porth factory is termed potentially viable in the statement from the UK Minister, as is the Neath factory, but that statement itself does not mean necessarily that either the Porth or Neath factories are secure. There are still issues there that will have to be explored and I will be visiting the Porth factory in my own constituency on Friday.

ei hetholwyr. Roeddwn yn falch ei bod wedi gallu ymweld â ffatri’r Porth yn fy etholaeth yn ddiweddar. Fy marn i ar hyn o bryd yw y bydd yr hyn y byddwn yn ei wneud fel Llywodraeth Cymru yn dibynnu’n gyntaf ar y wybodaeth a fydd ar gael inni gan Lywodraeth y DU a Remploy o ran sefyllfa weithredu’r ffatrïoedd unigol. Mae’n amlwg nad oes gennym yr ystod lawn o wybodaeth a fyddai’n ein galluogi i lunio barn am hyfywedd y ffatrïoedd hynny. Nodir yn y datganiad gan Weinidog y DU y gallai ffatri’r Porth fod yn hyfyw, a ffatri Castell-nedd hefyd, ond nid yw’r datganiad hwnnw ynddo’i hun yn golygu o reidrwydd bod ffatri’r Porth na ffatri Castell-nedd yn ddiogel. Ceir problemau yno o hyd y bydd yn rhaid eu harchwilio, a byddaf yn ymweld â ffatri’r Porth yn fy etholaeth i ddydd Gwener.

The question as to what support, advice and training will be provided will depend on the package that is being given by the UK Government. It is not the Welsh Government’s responsibility to take up the obligations of the UK Government. These are its decisions; it says that it is putting a package of support in place and we will look to hold it to that. Clearly, our priority would be to try to keep Remploy workers in their jobs.

Bydd y cwestiwn ynghylch pa gymorth, cyngor a hyfforddiant a ddarperir yn dibynnu ar y pecyn sy’n cael ei roi gan Lywodraeth y DU. Nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cyflawni rhwymedigaethau Llywodraeth y DU. Penderfyniadau i’r Llywodraeth honno yw’r rhain; dywed ei bod yn rhoi pecyn cymorth ar waith, a byddwn yn ceisio sicrhau ei bod yn gwneud hynny. Mae’n amlwg mai ein blaenoriaeth ni fyddai ceisio cadw gweithwyr Remploy yn eu swyddi.

**Mark Isherwood:** It is a sad day for the seven factories affected, the 271 employees and the 1,700 across the UK, following the closures in 2008 when 2,500 were made unemployed by Remploy when the previous Government carried out a similar exercise. This follows the Sayce review—Liz Sayce is the chief executive of disability rights organisation, Radar—of employment and support for disabled people. The review concluded that resources should be focused on disabled people themselves rather than on specific institutions. However, I believe that there is still a place for sheltered employment for those who cannot access safe and secure employment elsewhere.

**Mark Isherwood:** Mae’n ddiwrnod trist i’r saith ffatri yr effeithir arnynt, y 271 o weithwyr a’r 1,700 o weithwyr ar draws y DU, ar ôl i ffatrïoedd gau yn 2008 pan gafodd 2,500 eu diswyddo gan Remploy pan gynhaliodd y Llywodraeth flaenorol ymarfer tebyg. Mae’r weithred hon yn dilyn adolygiad Sayce—Liz Sayce yw prif weithredwr Radar, sy’n sefydliad hawliau anabledd—o gyflogaeth a chymorth i bobl anabl. Daeth yr adolygiad i’r casgliad y dylai adnoddau gael eu cyfeirio at bobl anabl eu hunain yn hytrach nag at sefydliadau penodol. Fodd bynnag, credaf fod lle o hyd i gyflogaeth warchodol ar gyfer y sawl nad ydynt yn gallu cael mynediad i gyflogaeth ddiogel a sicr rywle arall.

I welcome aspects of your statement. I have previously asked the Welsh Government what action it would take to support the Sayce review recommendation that

Rwyf yn croesawu agweddau ar eich datganiad. Rwyf wedi gofyn o’r blaen i Lywodraeth Cymru pa gamau y byddai’n eu cymryd i gefnogi argymhelliad adolygiad

employees should be offered advice and support to develop their businesses as co-operatives. Therefore, I welcome your comment that the Welsh Government will seek to work in a meaningful way with disabled people, trade unions and others on that basis.

Sayce, sef y dylai gweithwyr gael cynnig cyngor a chymorth i ddatblygu eu busnesau fel cwmnïau cydweithredol. Felly, rwyf yn croesawu eich sylw sy’n nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithio mewn modd ystyrlon gyda phobl anabl, undebau llafur ac eraill ar y sail honno.

You referred to the £8 million package of support. Will you join me in reassuring those affected that that is a comprehensive support package to support every single individual member of staff affected for up to 18 months? Clearly, you indicated that length of time in your statement. Will you also join me in welcoming the fact that there is no cut in the £320 million budget for disability employment and that that is being protected, with funding being redirected to other programmes?

Bu ichi gyfeirio at y pecyn cymorth gwerth £8 miliwn. A wnewch chi ymuno â mi i roi sicrwydd i’r sawl yr effeithir arnynt bod y pecyn hwnnw’n becyn cymorth cynhwysfawr i gynorthwyo pob aelod unigol o staff yr effeithir arnynt, am hyd at 18 mis? Bu ichi nodi hyd y cyfnod yn eich datganiad, wrth gwrs. A wnewch chi ymuno â mi hefyd i groesawu’r ffaith nad oes toriad yn y gyllideb o £320 miliwn ar gyfer cyflogaeth i bobl anabl a bod y gyllideb honno’n cael ei diogelu, gyda chyllid yn cael ei ailgyfeirio i raglenni eraill?

You referred to future employment, but what action can the Welsh Government take with colleagues in the business department to urge employers in Wales to look hard at their recruitment and work practices to ensure that they do not miss out on the extensive talents of disabled people? How will you work with the Remploy employment services, which the Sayce review commended, but which I believe are being moved into more of a social enterprise model? They have been particularly successful in Wales; for example, they found jobs for over 2,000 people in 2010-11. That is 10 times the number affected by this announcement today. The Sayce review acknowledged those employment services. The Government has also talked about opportunities for businesses to be commercially viable—

Bu ichi gyfeirio at gyflogaeth yn y dyfodol, ond pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd gyda chydweithwyr yn yr adran fusnes i annog cyflogwyr yng Nghymru i edrych yn fanwl ar eu harferion recriwtio a’u harferion gwaith i sicrhau nad ydynt yn colli cyfle i fanteisio ar ddoniau helaeth pobl anabl? Sut y byddwch yn gweithio gyda gwasanaethau cyflogaeth Remploy, yr oedd Sayce yn eu canmol, ond sydd, mi gredaf, yn cael eu symud i fodel sy’n fwy o fodel mentrau cymdeithasol? Maent wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yng Nghymru; er enghraifft, daethant o hyd i swyddi ar gyfer dros 2,000 o bobl yn 2010-11. Mae’r nifer hwnnw 10 gwaith yn fwy na nifer y bobl y mae’r cyhoeddiad hwn yn effeithio arnynt heddiw. Cafodd y gwasanaethau cyflogaeth hynny eu cydnabod gan adolygiad Sayce. Mae’r Llywodraeth wedi sôn hefyd am gyfleoedd i fusnesau fod yn hyfyw o safbwynt masnachol—

**The Presiding Officer:** Order. Mark Isherwood, I do not want to stop you asking questions, but it would help if they were shorter questions.

**Y Llywydd:** Trefn. Mark Isherwood, nid wyf am eich atal rhag gofyn cwestiynau, ond byddai o gymorth pe baent yn gwestiynau byrrach.

**Mark Isherwood:** I will finish—

**Mark Isherwood:** Rwyf am orffen—

**The Presiding Officer:** You do not need to finish; just ask shorter questions, please.

**Y Llywydd:** Nid oes angen ichi orffen; ond gofynnwch gwestiynau byrrach, os gwelwch yn dda.

**Mark Isherwood:** What action will the Welsh Government take once it has the dialogue it seeks with the UK Government to ensure that Wales gets its full share of the financial and other support that has been promised by the Remploy board and the UK Government to support the businesses and individuals affected?

**Mark Isherwood:** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd pan fydd wedi cael y drafodaeth y mae'n ceisio ei chynnal â Llywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru yn cael ei chyfran lawn o'r cymorth ariannol a'r cymorth arall a addawyd gan fwrdd Remploy a Llywodraeth y DU i gynorthwyo'r busnesau a'r unigolion yr effeithir arnynt?

**Leighton Andrews:** It is clear in the announcement made today by the UK Government that Wales is disproportionately hit by the closure programme. The UK Government makes it clear in its statement that it is reducing the current subsidy to Remploy. That reduction in subsidy is the cause of the closures that are now to be considered by Remploy. Clearly, our objective is to seek to preserve the employment of Remploy workers. That is the conversation that we wish to engage in with Remploy itself. However, in order to facilitate that kind of conversation with any degree of intelligence and method, we have to have a better understanding of the finances of those individual factories, their relation to the overall business lines within Remploy, the level of management overhead each of those factories has been asked to bear in recent years, and is currently being asked to bear, as well as the answers to a range of other questions.

**Leighton Andrews:** Mae'n amlwg yn y cyhoeddiad a wnaed heddiw gan Lywodraeth y DU bod Cymru yn cael ei tharo'n anghymesur gan y rhaglen cau ffatrïoedd. Mae Llywodraeth y DU yn mynegi'n glir yn ei datganiad ei bod yn gostwng y cymhorthdal presennol i Remploy. Y gostyngiad hwnnw mewn cymhorthdal sy'n golygu bod Remploy yn awr yn ystyried cau ffatrïoedd. Ein nod, wrth gwrs, yw ceisio cadw swyddi gweithwyr Remploy. Dyna'r sgwrs yr ydym yn dymuno ei chael gyda Remploy ei hun. Fodd bynnag, er mwyn hwyluso sgwrs o'r fath â rhyw fesur o ddeallusrwydd a method, rhaid inni ddeall sefyllfa ariannol y ffatrïoedd unigol hynny'n well, eu perthynas â'r llinellau busnes cyffredinol yn Remploy, lefel y costau rheoli cyffredinol y gofynnwyd i bob un o'r ffatrïoedd eu talu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a lefel y costau rheoli cyffredinol y gofynnir iddynt eu talu ar hyn o bryd, yn ogystal â'r atebion i ystod o gwestiynau eraill.

I can tell the Chamber that the Minister for Disabled People, Maria Miller, wrote to me in July last year saying that she was setting up a cross-Government group to address disability employment in relation to the recommendations of the Sayce review. In the letter, she said that she would like to invite me to a future meeting of the group to discuss issues of particular relevance to Scotland and Wales. She wrote to me in July and that letter said that the meeting was likely to be in the autumn. That meeting has still not taken place.

Gallaf ddweud wrth y Siambr bod y Gweinidog dros Bobl Anabl, Maria Miller, wedi ysgrifennu ataf ym mis Gorffennaf y llynedd i ddweud ei bod yn sefydlu grŵp trawslywodraethol i fynd i'r afael â chyflogaeth i bobl anabl yng nghyswllt argymhellion adolygiad Sayce. Yn y llythyr, dywedodd y byddai'n hoffi fy ngwahodd i gyfarfod o'r grŵp yn y dyfodol i drafod materion a oedd yn arbennig o berthnasol i Gymru a'r Alban. Ysgrifennodd ataf ym mis Gorffennaf, ac roedd y llythyr hwnnw'n dweud bod y cyfarfod yn debygol o gael ei gynnal yn yr hydref. Nid yw'r cyfarfod hwnnw wedi'i gynnal o hyd.

**Leanne Wood:** Minister, this announcement could not have come at a worse time. Welfare reform is only just with us and, already, many

**Leanne Wood:** Weinidog, ni allai'r cyhoeddiad hwn fod wedi dod ar adeg waeth. Mae diwygio lles yn broses sydd newydd

people are very concerned about their future income and are asking questions such as, 'Will I qualify for benefits in the future?' and 'Will I get a job if I'm knocked off benefits?'. It is only a short time ago that we lost the Treforest factory and other Remploy factories. Anecdotally, I have heard that many of those sacked workers—who, remember, were sacked by a Labour Government—are still out of work and have all but given up on finding a job in the current economic climate. I am sure that you will agree, Minister, that that is a terrible waste. All of those workers have a contribution to make. None of them deserves to be on the scrapheap. This is yet another example of the worst off in our society being forced to pay for a financial crisis that was not of their making. How many such examples do we all need?

gael ei chyflwyno inni, ac yn barod mae llawer o bobl yn pryderu'n fawr iawn am eu hincwm yn y dyfodol ac yn gofyn cwestiynau megis 'A fyddaf yn gymwys i gael budd-daliadau yn y dyfodol?' ac 'A fyddaf yn cael swydd os na fyddaf yn cael budd-daliadau?'. Bu inni golli ffatri Trefforest a ffatrïoedd Remploy eraill yn ddiweddar iawn. Yn anecdotaidd, rwyf wedi clywed bod llawer o'r gweithwyr hynny a ddiswyddwyd—a ddiswyddwyd, cofiwch, gan Lywodraeth Lafur—yn dal yn ddi-waith a'u bod, fwy neu lai, wedi anobeithio ynghylch dod o hyd i swydd yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Rwyf yn siŵr y cytunwch, Weinidog, bod hynny'n wastraff ofnadwy. Mae gan bob un o'r gweithwyr hynny gyfraniad i'w wneud. Nid oes yr un ohonynt yn haeddu bod ar y domen. Dyma enghraifft arall eto o'r bobl dlotaf yn ein cymdeithas yn cael eu gorfodi i dalu am argyfwng ariannol nad oeddent hwy'n gyfrifol amdano. Faint o enghreifftiau o'r fath y mae arnom eu hangen i gyd?

Minister, what representations did you make regarding the devolution of the budget and responsibilities for the Remploy factories in Wales? You tell us that the UK Government did not listen, but I would like to know whether you made the point. What discussions have there been between the Government's health department from a public procurement perspective to see what business can be provided to guarantee the future of the Aberdare factory in my region? Does the Government, in principle, support supported employment? What concrete measures can you take to try to safeguard at least some of these jobs, if you cannot safeguard all of them? Finally, with the Jobs Growth Wales programme, will you commit to making a percentage of the jobs available for disabled people who may otherwise have found work within the Remploy network?

Weinidog, pa achos a gyflwynwyd gennych ynghylch datganoli'r gyllideb a'r cyfrifoldebau am ffatrïoedd Remploy yng Nghymru? Rydych yn dweud wrthym na wrandawodd Llywodraeth y DU, ond hoffwn wybod a wnaethoch y pwynt. Pa drafodaethau a gafwyd rhwng adran iechyd y Llywodraeth, o safbwynt caffael cyhoeddus, i weld pa fusnes y gellir ei ddarparu i sicrhau dyfodol ffatri Aberdâr yn fy ardal i? A yw'r Llywodraeth, mewn egwyddor, yn cefnogi cyflogaeth warchodol? Pa fesurau pendant y gallwch eu cymryd i geisio diogelu o leiaf rhai o'r swyddi hyn, os na allwch ddiogelu pob un ohonynt? Yn olaf, gyda'r rhaglen Twf Swyddi Cymru, a wnewch chi ymrwymo i sicrhau bod canran o'r swyddi ar gael i bobl anabl, a allai fel arall fod wedi dod o hyd i waith yn rhwydwaith Remploy?

**Leighton Andrews:** The First Minister raised the issue of the devolution of the overall budget for Remploy factories in Wales with the Secretary of State for Wales. I have to say that that proposition was seen by the trade unions representing Remploy workers as very much a last resort when I discussed the issue with them. Of course, the issue is that Remploy factories have operated

**Leighton Andrews:** Cododd y Prif Weinidog y mater sy'n ymwneud â datganoli'r gyllideb gyffredinol ar gyfer ffatrïoedd Remploy yng Nghymru gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Rhaid imi ddweud bod y cynnig hwnnw wedi'i ystyried yn ddewis olaf yn niffyg dim arall gan yr undebau llafur sy'n cynrychioli gweithwyr Remploy, pan fûm yn trafod y mater â hwy. Wrth gwrs, y broblem

across Great Britain on specific lines of employment and that, for us as a Government, there would be a need to disaggregate the overall budget of those factories from those specific business lines, which operate on a Great Britain basis. We have not been given access to that information. Therefore, it has been impossible for us to make a calculation as to whether that would make those factories more or less viable. It has also been a situation on which we have wanted very much to work with the trade unions representing the Remploy workers, and we have sought to do so.

yw bod ffatrïoedd Remploy wedi gweithredu ar draws Prydain Fawr ar linellau penodol o ran cyflogaeth, ac y byddai angen i ni fel Llywodraeth wahanu cyllideb gyffredinol y ffatrïoedd hynny oddi wrth y llinellau busnes penodol hynny sy'n gweithredu ar lefel Prydain Fawr. Nid ydym wedi cael mynediad i'r wybodaeth honno. Felly, ni fu'n bosibl inni gyfrifo a fyddai hynny'n gwneud y ffatrïoedd dan sylw'n fwy neu'n llai hyfyw. Mae hefyd wedi bod yn sefyllfa lle'r ydym wedi bod yn awyddus iawn i weithio gyda'r undebau llafur sy'n cynrychioli gweithwyr Remploy, ac rydym wedi ceisio gwneud hynny.

With regard to procurement, not only the health department, but other Welsh Government departments have extended opportunities for Remploy factories to be considered in the supply of goods and services, as I said in my statement. With regard to supported employment, we recognise the role for supported employment. Currently, the responsibility for that lies with the UK Government. We believe—I still believe today—that it is for the UK Government to take its responsibilities to these workers seriously and to demonstrate that it is putting the support behind them. In respect of Jobs Growth Wales, we will look at the opportunities there may be for specific support for workers with disabilities. My colleague the Deputy Minister for Skills will make a statement on that in due course.

O ran caffael, yn ogystal â'r adran iechyd, mae adrannau eraill Llywodraeth Cymru wedi cynnig cyfleoedd i ffatrïoedd Remploy gael eu hystyried i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau, fel y dywedais yn fy natganiad. O ran cyflogaeth â chymorth, rydym yn cydnabod y rôl ar gyfer cyflogaeth â chymorth. Ar hyn o bryd, Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am hynny. Credwn—rwyf yn dal i gredu heddiw—mai mater i Lywodraeth y DU yw cymryd ei chyfrifoldebau tuag at y gweithwyr hyn o ddifrif a dangos ei bod yn rhoi cymorth i'w cefnogi. O ran Twf Swyddi Cymru, byddwn yn edrych ar y cyfleoedd a allai fod i gynnig cymorth penodol i weithwyr ag anableddau. Bydd fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Sgiliau, yn gwneud datganiad ynghylch hynny maes o law.

**Mick Antoniw:** Minister, in my past life as a trade union solicitor and as a lifelong GMB member, many of the people I represented who suffered severe disability in work managed to obtain employment in Remploy factories. Many of these are people who, if these factories shut, will never work again. Let us be absolutely clear about that. What is being proposed is the total abolition of Remploy. With two thirds closing—mark my words—they will try to sell off whatever bits of the rest they consider viable.

**Mick Antoniw:** Weinidog, yn fy mywyd yn y gorffennol fel cyfreithiwr undeb llafur ac fel aelod gydol oes o undeb y GMB, roedd llawer o'r bobl yr oeddwn yn eu cynrychioli, a oedd wedi dioddef anabledd difrifol yn y gwaith yn llwyddo i gael swyddi yn ffatrïoedd Remploy. Mae llawer o'r rhain yn bobl na fyddant yn gweithio byth eto os bydd y ffatrïoedd hyn yn cau. Gadewch inni fod yn hollol glir ynglŷn â hynny. Yr hyn a gynigir yw diddymu Remploy yn gyfan gwbl. Gyda dwy o bob tair ffatri'n cau—coeliwch chi fi—byddant yn ceisio gwerthu'r rhannau sy'n weddill y maent o'r farn eu bod yn hyfyw.

2.45 p.m.

We have to start thinking seriously about an alternative vision that protects Remploy's ethos of supporting disabled people in the

Rhaid inni ddechrau meddwl o ddifrif am weledigaeth amgen sy'n diogelu ethos Remploy o gynorthwyo pobl anabl yn y

workplace. Minister, I would like to see serious consideration being given to the idea of a Remploy Wales, protecting a commercial, viable, not-for-profit or co-operative body that would retain Remploy's ethos, not only to employ existing people, but to grow, expand and employ additional people. I believe that there is massive support within Wales for the ethos of a Remploy Wales and it would be a tragedy if we were to lose that ethos.

gweithle. Weinidog, hoffwn weld y syniad o greu Remploy Cymru yn cael ei ystyried o ddifrif, a fyddai'n diogelu corff masnachol, hyfyw, di-elw neu gydweithredol a fyddai'n cadw ethos Remploy, nid yn unig er mwyn cyflogi pobl sy'n cael eu cyflogi eisoes, ond er mwyn tyfu, ehangu a chyflogi pobl ychwanegol. Credaf fod cefnogaeth enfawr yng Nghymru i ethos Remploy Cymru, a byddai'n drueni pe baem yn colli'r ethos hwnnw.

**Leighton Andrews:** Although he was not an Assembly Member at the time of the closure of the Treforest factory, my colleague the Member for Pontypridd may recall that a number of departments in the Welsh Government worked alongside the Wales Co-operative Centre and others to explore the opportunity for a social enterprise involving workers there. We are certainly open to exploring the approaches that he is talking about. However, I am not going to commit the Welsh Government to picking up the bills that should be met by the UK Government: this is its decision and the consequences flow from it. We need to understand in full the package that it is announcing for those workers. We need to see what the alternatives might be for the use of any investment and we need to understand what Remploy itself, as the operator of those factories and the owner of those assets, is willing to explore in conversation with us before we can make any sensible judgment as to what would be a viable future for any remaining Remploy factories or for the Remploy workforce in Wales. There are too many unanswered questions at this point. We have to have the answers to those questions and we are still awaiting detail from both the UK Government and Remploy itself.

**Leighton Andrews:** Er nad oedd yn Aelod Cynulliad adeg cau ffatri Trefforest, efallai fod fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Bontypridd, yn cofio bod nifer o adrannau yn Llywodraeth Cymru wedi gweithio ochr yn ochr â Chanolfan Cydweithredol Cymru ac eraill i archwilio'r cyfle i gael menter gymdeithasol a fyddai'n cynnwys gweithwyr yno. Rydym yn sicr yn fodlon archwilio'r dulliau y mae'n sôn amdanynt. Fodd bynnag, nid wyf am addo y bydd Llywodraeth Cymru yn talu'r biliau y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu talu: penderfyniad y Llywodraeth honno yw hwn, ac mae canlyniadau'n tarddu ohono. Mae angen inni ddeall yn llawn y pecyn y mae'n ei gyhoeddi ar gyfer y gweithwyr hynny. Mae angen inni weld beth allai'r dewisiadau eraill fod ar gyfer defnyddio unrhyw fuddsoddiad, ac mae angen inni ddeall yr hyn y mae Remploy ei hun, fel gweithredwr y ffatrïoedd hynny a pherchennog yr asedau hynny, yn barod i'w archwilio mewn sgwrs â ni cyn y gallwn lunio unrhyw farn synhwyrol ynghylch beth fyddai'n ddyfodol hyfyw ar gyfer unrhyw ffatrïoedd Remploy sy'n weddill, neu ar gyfer gweithlu Remploy yng Nghymru. Mae gormod o gwestiynau heb eu hateb ar hyn o bryd. Rhaid inni gael yr atebion i'r cwestiynau hynny, ac rydym yn dal i aros am fanylion gan Lywodraeth y DU a chan Remploy ei hun.

**Peter Black:** I welcome this statement and thank the Minister for the action that he has taken so far on these factories. I have always believed that there is a place for sheltered employment, regardless of which Government is in power. We are aware of the huge pressure on Remploy factories since this Assembly came into being in 1999 and again since 2007, when some factories were closed. Of course, the level of support that the

**Peter Black:** Rwyf yn croesawu'r datganiad hwn ac yn diolch i'r Gweinidog am y camau y mae wedi eu cymryd hyd yma yng nghyswllt y ffatrïoedd hyn. Rwyf wedi credu erioed bod lle i gyflogaeth warchodol, waeth pa Lywodraeth sydd mewn grym. Rydym yn ymwybodol o'r pwysau enfawr ar ffatrïoedd Remploy ers i'r Cynulliad hwn ddod i fodolaeth yn 1999 ac unwaith eto er 2007, pan gaewyd rhai ffatrïoedd. Wrth gwrs, nid

present Government is offering was not available to them. In fact, in 1999, when Rhodri Morgan, who was the Minister for Economic Development and European Affairs, answered an urgent question on Remploy, he told the Chamber that he supported a switch from sheltered to supported employment and the mainstreaming of employment for disabled workers, which is exactly what is being proposed here. I am not so convinced about that. I believe that there is a place for sheltered employment in this, although it is important that Remploy continues to provide the 1,500 and more workers with supported employment and tries to build on that number. However, it is quite clear that there are a number of workers in these factories for whom that is not an option. Therefore, like you, I will do anything that I can to oppose these closures and to try to protect the place of Remploy factories within Wales.

oedd lefel y cymorth y mae'r Llywodraeth bresennol yn ei gynnig ar gael iddynt. Mewn gwirionedd, yn 1999, pan atebodd Rhodri Morgan, a oedd yn Weinidog dros Ddatblygu Economaidd a Materion Ewropeaidd, gwestiwn brys am Remploy, dywedodd wrth y Siambr ei fod yn cefnogi newid o gyflogaeth warchodol i gyflogaeth â chymorth a phrif ffrydio swyddi i weithwyr anabl, sef yr union beth a gynigir yma. Nid wyf fi mor bendant ynghylch hynny. Credaf fod lle i gyflogaeth warchodol, er ei bod yn bwysig bod Remploy yn parhau i ddarparu cyflogaeth â chymorth i'r 1,500 a mwy o weithwyr ac yn ceisio adeiladu ar y rhif hwnnw. Fodd bynnag, mae'n eithaf amlwg nad yw hynny'n opsiwn i nifer o weithwyr yn y ffatrïoedd hyn. Felly, fel chithau, rwyf yn fodlon gwneud popeth o fewn fy ngallu i wrthwynebu cau'r ffatrïoedd hyn a cheisio diogelu lle ffatrïoedd Remploy yng Nghymru.

On the way forward, I accept your case that the UK Government should pick up the cost of this decision. I fully support that. However, a wider campaign will now get under way to try to keep these factories open. Will the Welsh Government assist that campaign in building the wider business case for keeping those factories open, in terms of the cost to the Government of additional disability living allowance and other benefits, to demonstrate that it may cost more to close the factories than the subsidy that is being put into them? In terms of public procurement, a lot of work has been done since 2007 in trying to direct public procurement to the Remploy factories to make them more sustainable and to try to reduce their subsidy. Will the Welsh Government renew that effort, particularly for the factories that may survive this cull, but also in terms of the social enterprise initiative that you are looking into as part of this proposal?

O ran y ffordd ymlaen, rwyf yn derbyn eich achos y dylai Llywodraeth y DU dalu am gost y penderfyniad hwn. Rwyf yn cefnogi hynny'n llwyr. Fodd bynnag, bydd ymgyrch ehangach yn dechrau'n awr i geisio cadw'r ffatrïoedd hyn ar agor. A fydd Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo'r ymgyrch honno i lunio'r achos busnes ehangach dros gadw'r ffatrïoedd ar agor, o ran y gost i'r Llywodraeth o dalu lwfans byw i'r anabl ychwanegol a budd-daliadau eraill, er mwyn dangos y gallai cost cau'r ffatrïoedd fod yn uwch na'r cymhorthdal sy'n cael ei roi iddynt? O ran caffael cyhoeddus, mae llawer o waith wedi'i wneud er 2007 i geisio cyfeirio gwaith caffael cyhoeddus at ffatrïoedd Remploy i'w gwneud yn fwy cynaliadwy a cheisio gostwng eu cymhorthdal. A fydd Llywodraeth Cymru yn adnewyddu'r ymdrech honno, yn enwedig yng nghyswllt y ffatrïoedd a allai oroesi'r broses ddifa hon, ond hefyd o ran y fenter mentrau cymdeithasol yr ydych yn ymchwilio iddi'n rhan o'r cynnig hwn?

**Leighton Andrews:** The Welsh Government of course supports the wider campaign that is being led by my colleague the Member for Pontypridd. He will be bringing a large number of Remploy workers to the Assembly next week, and I believe that the First Minister will also be in attendance at that

**Leighton Andrews:** Mae Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, yn cefnogi'r ymgyrch ehangach sy'n cael ei harwain gan fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Bontypridd. Bydd yn dod â nifer mawr o weithwyr Remploy i'r Cynulliad yr wythnos nesaf, a chredaf y bydd y Prif Weinidog hefyd yn

event. We have made it clear to the trade unions representing the Remploy workforce that we will work with them in the development of appropriate business plans in Wales. We did so when we met them before Christmas. We are committed to working with the trade unions that represent the Remploy workforce.

bresennol yn y digwyddiad hwnnw. Rydym wedi dweud yn glir wrth yr undebau llafur sy'n cynrychioli gweithlu Remploy y byddwn yn gweithio gyda hwy i ddatblygu cynlluniau busnes priodol yng Nghymru. Gwnaethom hynny yn ein cyfarfod â hwy cyn y Nadolig. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r undebau llafur sy'n cynrychioli gweithlu Remploy.

In respect of public procurement, we as a Government have made significant efforts and have managed to ensure that there are lines of procurement from central Government, local government and other agencies to Remploy factories, and we will continue with those efforts.

O ran caffael cyhoeddus, rydym ni fel Llywodraeth wedi ymdrechu'n fawr ac wedi llwyddo i sicrhau bod llinellau caffael gan y Llywodraeth ganolog, llywodraeth leol ac asiantaethau eraill â ffatrïoedd Remploy, a byddwn yn parhau â'r ymdrechion hynny.

**The Presiding Officer:** We have had speakers from all the parties. I request that the following speakers just ask questions.

**Y Llywydd:** Rydym wedi clywed siaradwyr o'r holl bleidiau. Gofynnaf i'r siaradwyr canlynol ofyn cwestiynau'n unig.

**Alun Ffred Jones:** This is a dark day, and it is a dark day in Wrexham, as it is in all the other communities affected. I am shocked at the lack of consultation, and it is a great pity that we did not ask for the Remploy budget to be devolved to Wales when we had the chance. I press you to consider the setting up of a Remploy Wales as a not-for-profit company. Are you willing to consider that possibility, given all the caveats that you have already expressed?

**Alun Ffred Jones:** Mae hwn yn ddiwrnod du, ac mae'n ddiwrnod du yn Wrecsam fel y mae ym mhob un o'r cymunedau eraill yr effeithir arnynt. Rwyf wedi fy synnu gan y diffyg ymgynghori, ac mae'n drueni mawr na fu inni ofyn i gyllideb Remploy gael ei datganoli i Gymru pan gawsom gyfle i wneud hynny. Pwysaf arnoch i ystyried sefydlu Remploy Cymru fel cwmni di-elw. A ydych yn fodlon ystyried y posibilrwydd hwnnw, o gofio'r holl gafeatau yr ydych wedi eu mynegi'n barod?

**Leighton Andrews:** I think that I made it clear in my earlier answer to my colleague the Member for Pontypridd that we will look at all options that could secure employment for the Remploy workforce. The issue for us—I will keep repeating this, particularly today—is that we expect the UK Government to fulfil its obligations. These are its decisions. It has made the decision to reduce the subsidy to Remploy. It is not for us to pick up bills that rightly fall to the UK Government. However, we are willing to explore all viable options for carrying forward support for sheltered employment for the Remploy workforce in Wales.

**Leighton Andrews:** Rwyf yn credu imi egluro yn fy ateb cynharach i'm cydweithiwr, yr Aelod dros Bontypridd, y byddwn yn ystyried yr holl opsiynau a allai sicrhau swyddi ar gyfer gweithlu Remploy. Y mater i ni—rwyf am barhau i ddweud hynny, yn enwedig heddiw—yw ein bod yn disgwyl i Lywodraeth y DU gyflawni ei rhwymedigaethau hi. Penderfyniadau'r Llywodraeth honno yw'r rhain. Hi sydd wedi penderfynu gostwng y cymhorthdal i Remploy. Nid ein cyfrifoldeb ni yw talu'r biliau y dylai Llywodraeth y DU eu talu, yn gywir ddigon. Fodd bynnag, rydym yn barod i archwilio'r holl opsiynau ymarferol ynghylch cynnig cymorth ar gyfer cyflogaeth warchodol i weithlu Remploy yng Nghymru.

**David Rees:** Thank you for your statement this afternoon, Minister. I stand today with

**David Rees:** Diolch am eich datganiad y prynhawn yma, Weinidog. Rwyf yn sefyll

mixed feelings, because the factory identified as located in Neath is actually located in Baglan Energy Park in my constituency, and like the factory in your constituency, it has been identified as remaining open. The press release that has been sent out says that the Neath factory supplies assembled parts and ‘potentially could be commercially viable’. The word ‘potentially’ is there, so we must be careful about what is going on. I am also disappointed and hugely angered by the decision to shut the other seven factories. This will affect not only the people working there but their families as well, because Remploy does a lot more than simply give people work; it gives them confidence and an environment in which they feel comfortable. I have a couple of simple questions. Has the Welsh Government decided whether it will meet with the managers of the factories? Will it, as I have mentioned before, undertake both a financial audit and a business management process audit, to ensure that they are potentially viable, as identified? Has the Welsh Government looked at ways in which it could help with procurement policies to ensure that there could be more creative and cleverer ways for us to help through procurement contracts?

heddiw gyda theimladau cymysg, gan fod y ffatri y nodwyd ei bod yng Nghastell-nedd wedi’i lleoli mewn gwirionedd ym Mharc Ynni Baglan yn fy etholaeth i, ac fel sy’n wir am y ffatri yn eich etholaeth chi, nodwyd y bydd yn parhau ar agor. Mae’r datganiad i’r wasg sydd wedi’i ddosbarthu yn dweud bod ffatri Castell-nedd yn cyflenwi cydrannau wedi’u cydosod ac y gallai fod yn hyfyw o safbwynt masnachol. Mae’r gair ‘gallai’ yno, felly rhaid inni fod yn ofalus ynghylch yr hyn sy’n digwydd. Rwyf hefyd wedi fy siomi ac wedi fy ngwylltio’n fawr gan y penderfyniad i gau’r saith ffatri arall. Bydd hynny’n effeithio nid yn unig ar y bobl sy’n gweithio yno ond ar eu teuluoedd hefyd, oherwydd mae Remploy yn gwneud llawer mwy na rhoi gwaith yn unig i bobl; mae’n rhoi hyder iddynt ac amgylchedd lle y maent yn teimlo’n gyfforddus. Mae gennyf rai cwestiynau syml. A yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu a fydd yn cyfarfod â rheolwyr y ffatrïoedd? A fydd, fel rwyf wedi crybwyll o’r blaen, yn cynnal archwiliad ariannol ac archwiliad o’r broses rheoli busnes, er mwyn sicrhau y gallai’r ffatrïoedd fod yn hyfyw, fel y nodwyd? A yw Llywodraeth Cymru wedi edrych ar ffyrdd o helpu gyda pholisïau caffael, er mwyn sicrhau y gallai fod ffyrdd mwy creadigol a chlyfar inni helpu drwy gontractau caffael?

**Leighton Andrews:** On procurement, I have made the point in answer to earlier questions that the Welsh Government has been working actively to ensure that lines of business are secured for Remploy factories from not only the Government but from other public sector partners, too; we will continue to do so. My colleague the Member for Aberavon is right to say that the phrase in the press release is ‘potentially…viable’, so we still do not know the absolute future of the factories in his constituency or in mine.

**Leighton Andrews:** O ran caffael, rwyf wedi gwneud y pwynt, wrth ateb cwestiynau cynharach, bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn cymryd camau gweithredol i sicrhau bod llinellau busnes yn cael eu sicrhau ar gyfer ffatrïoedd Remploy, nid yn unig gan y Llywodraeth ond gan bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus hefyd; byddwn yn parhau i wneud hynny. Mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Aberafan, yn iawn wrth ddweud mai’r hyn a nodir yn y datganiad i’r wasg yw’r ffaith y gallent fod yn hyfyw. Felly, nid ydym yn gwybod o hyd beth yw dyfodol absoliwt y ffatrïoedd sydd yn ei etholaeth ef na’m hetholaeth innau.

We would be open to auditing the financial viability and the business management processes within Remploy, but that rather requires a dialogue to be opened up by the UK Government and by the management of Remploy. Had I had the opportunity of a conversation with the chief executive of

Byddem yn fodlon archwilio hyfywedd ariannol a phrosesau rheoli busnes yn Remploy, ond i wneud hynny mae angen i Lywodraeth y DU a rheolwyr Remploy ddechrau trafodaeth. Pe bawn i wedi cael cyfle i gael sgwrs â phrif weithredwr Remploy heddiw, roedd y rhain ymhlith y

Remploy today, those were some of the issues that I wanted to explore.

materion yr oeddwn am eu gwyntyllu.

**Bethan Jenkins:** It is fair to say that the decision today by the UK Government has been an utter disgrace. These people are working because Remploy is their lives. When they clock off at 3 p.m. or 4 p.m., they go home and do not have the independence that we have to go about our daily lives. Therefore, it is a disgrace. I ask again whether you will consider my colleague Leanne Wood's proposition of devolving this responsibility to Wales. I did not hear you say 'yes' or 'no'. I would urge you, given Labour's mantra of standing up for Wales, to stand up for Wales in this regard.

**Bethan Jenkins:** Mae'n deg dweud bod y penderfyniad a wnaed heddiw gan Lywodraeth y DU yn hollol warthus. Mae'r bobl hyn yn gweithio gan mai Remploy yw eu bywyd. Pan fyddant yn gorffen gweithio am 3 p.m. neu 4 p.m., maent yn mynd adref ac nid oes ganddynt yr annibyniaeth sydd gennym ni i fyw ein bywydau pob dydd. Felly, mae'n gywilyddus. Gofynnaf eto a fyddech yn fodlon ystyried cynnig fy nghydweithiwr, Leanne Wood, i ddatganoli'r cyfrifoldeb hwn i Gymru. Ni chlywais mohonoch yn cytuno nac yn anghytuno. Byddwn yn eich annog, o gofio mantra'r Blaid Lafur ynghylch sefyll o blaid Cymru, i sefyll o blaid Cymru yn hyn o beth.

The spin from the Department for Work and Pensions is that 1,500 people are in supported employment through the access to work scheme, compared with 434 people supported in Remploy factories. Surely, this should be a message to the UK Government to expand the work within Remploy, as opposed to minimising it. I can cite post offices as one reason why we should be putting more services into Remploy rather than taking them away. I recently visited the Remploy factory in Bridgend, for example, which is taking part in the UK Government's social enterprise pilot scheme. It was recycling mattresses and making pet beds for the local area. It is unfortunate that many of these factories did not have contracts with local councils, so how will you work to ensure that, if we can retain Remploy in Wales, it will win contracts from public service organisations and the private sector? Also, how will you assure staff at all of the Remploy factories, who are very worried, that their futures will be secure, and that the £8 million mentioned in today's statement will go any way to securing a viable future for them?

Sbin yr Adran Gwaith a Phensiynau yw bod 1,500 o bobl mewn swyddi â chymorth drwy'r cynllun mynediad i waith, o'u cymharu â'r 434 o bobl a gaiff gymorth yn ffatrïoedd Remploy. Siawns na ddylai hynny ddangos i Lywodraeth y DU y dylai ehangu'r gwaith yn Remploy yn hytrach na'i leihau. Gallaf ddyfynnu swyddfeydd post fel un rheswm pam y dylem fod yn rhoi mwy o wasanaethau yn Remploy yn hytrach na'u symud oddi yno. Yn ddiweddar, er enghraifft, ymwelais â ffatri Remploy ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy'n cymryd rhan yng nghynllun treialu mentrau cymdeithasol Llywodraeth y DU. Roedd yn ailgylchu matresi ac yn gwneud gwelyau anifeiliaid anwes ar gyfer yr ardal leol. Mae'n anffodus nad oedd gan lawer o'r ffatrïoedd hyn gontractau gyda chynghorau lleol. Felly, sut y byddwch yn gweithio i sicrhau, os gallwn gadw Remploy yng Nghymru, y bydd yn ennill contractau gan sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a'r sector preifat? At hynny, sut y byddwch yn rhoi sicrwydd i'r staff ym mhob un o ffatrïoedd Remploy, sy'n pryderu'n fawr, y bydd eu dyfodol yn ddiogel ac y bydd yr £8 miliwn a grybwyllwyd yn y datganiad heddiw yn cyfrannu at sicrhau dyfodol hyfyw ar eu cyfer?

**Leighton Andrews:** The first thing that I want to say to the Member for South Wales West is that it is for the UK Government to assure the workforce at Remploy that the money announced today will be available to

**Leighton Andrews:** Y peth cyntaf yr wyf am ei ddweud wrth yr Aelod dros Orllewin De Cymru yw mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw rhoi sicrwydd i weithlu Remploy y bydd yr arian a gyhoeddwyd heddiw ar gael

them. It is the UK Government's decision. It is its money. It is its package. In respect of the proposal to devolve funding of Remploy factories to Wales, as I said in my earlier answer, the First Minister raised that issue with the Secretary of State, and I have discussed the issue with the trade unions that represent the Remploy workforce. In those conversations, the unions made it clear to me that that step would be very much a matter of last resort for them. Remploy factories were integrated in particular business lines, and they would need to be disaggregated. If Plaid Cymru does not want to listen to the views of the trade unions representing the Remploy workforce, that is a matter for Plaid Cymru. However, I have been discussing this issue with them, and I have listened to what they have had to say. We will now look to explore any options—as I said in my answer to my colleague the Member for Pontypridd—for securing what employment we can for the Remploy workforce. This includes looking at opportunities for social enterprises. In respect of procurement, there is clearly a role for sheltered employment, and European Union law allows specific exemptions for enterprises that are sheltered employment enterprises. We will continue to ensure that there are opportunities for them to bid. However, as we move forward, we have to do so alongside the trade unions representing the Remploy workers.

iddo. Penderfyniad Llywodraeth y DU ydyw. Hi sydd biau'r arian. Hi sydd biau'r pecyn. O ran y cynnig i ddatganoli gwaith cyllido ffatrïoedd Remploy i Gymru, fel y dywedais yn fy ateb cynharach, cododd y Prif Weinidog y mater hwnnw gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, ac rwyf wedi trafod y mater â'r undebau llafur sy'n cynrychioli gweithlu Remploy. Yn y sgyrsiau hynny, dywedodd yr undebau'n glir wrthyf mai'r dewis olaf yn niffyg dim arall fyddai'r cam hwnnw iddynt. Roedd ffatrïoedd Remploy wedi eu hintegreiddio mewn llinellau busnes penodol, a byddai angen iddynt gael eu gwahanu. Os nad yw Plaid Cymru am wrando ar farn yr undebau llafur sy'n cynrychioli gweithlu Remploy, mater i Blaid Cymru yw hynny. Fodd bynnag, rwyf fi wedi bod yn trafod y mater â hwy, ac rwyf wedi gwrando ar yr hyn yr oedd ganddynt i'w ddweud. Yn awr, byddwn yn ceisio archwilio unrhyw opsiynau—fel y dywedais yn fy ateb i'm cydweithiwr, yr Aelod dros Bontypridd—i ddiogelu pa swyddi bynnag y gallwn eu diogelu ar gyfer gweithlu Remploy. Mae hynny'n cynnwys edrych ar gyfleoedd ar gyfer mentrau cymdeithasol. O ran caffael, mae'n amlwg bod rôl ar gyfer cyflogaeth warchodol, ac mae cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn caniatáu eithriadau penodol ar gyfer mentrau sy'n fentrau cyflogaeth warchodol. Byddwn yn parhau i sicrhau bod cyfleoedd iddynt gyflwyno cynigion. Fodd bynnag, wrth inni symud ymlaen, rhaid inni wneud hynny ochr yn ochr â'r undebau llafur sy'n cynrychioli gweithwyr Remploy.

**Sandy Mewies:** Thank you for your statement, Minister. I think that we are all very pleased to hear that we will do what we can, but you are quite right to say that it is for the UK coalition Government to meet its responsibilities in this matter. However, it is rather cynical at this stage, given the current economic situation in the country, where jobs are going and disabled people are already finding it terribly difficult to find jobs, to close two thirds of the Remploy factories and to put the future of two others in doubt. I know that you have done a lot of work in the Cabinet to look at procurement responsibilities. Perhaps we should recall that, in 2007, Chris Grayling said in Parliament:

**Sandy Mewies:** Diolch am eich datganiad, Weinidog. Credaf ein bod i gyd yn falch iawn o glywed y byddwn yn gwneud yr hyn a allwn, ond rydych yn iawn i ddweud mai cyfrifoldeb Llywodraeth glymblaid y DU yw cyflawni ei chyfrifoldebau o safbwynt y mater hwn. Fodd bynnag, cam braidd yn sinigaidd ar hyn o bryd, o ystyried y sefyllfa economaidd bresennol yn y wlad, lle y mae swyddi'n diflannu a lle y mae pobl anabl eisoes yn ei chael yn ofnadwy o anodd dod o hyd i swyddi, yw cau dwy o bob tair o ffatrïoedd Remploy a chodi amheuaeth ynghylch dyfodol dwy arall. Gwn eich bod wedi gwneud llawer o waith yn y Cabinet i edrych ar gyfrifoldebau caffael. Efallai y dylem gofio, yn 2007, i Chris Grayling

ddweud yn Senedd y DU:

'Let me assure Remploy and its employees that the next Conservative Government will continue the process of identifying additional potential procurement opportunities for them and the public sector workforce.'

Gadewch imi sicrhau Remploy a'i weithwyr y bydd y Llywodraeth Geidwadol nesaf yn parhau â'r broses o adnabod cyfleoedd caffael ychwanegol posibl ar eu cyfer hwy a gweithlu'r sector cyhoeddus.

I hope that we are successful in what we can do. Minister, when you have had a chance to step back and see what these effects are, will you consider bringing another statement to us so that we can move this matter on?

Gobeithio y byddwn yn llwyddo yn yr hyn y gallwn ei wneud. Weinidog, pan fyddwch wedi cael cyfle i gamu'n ôl a gweld beth yw'r effeithiau hyn, a wnewch chi ystyried cyflwyno datganiad arall inni fel y gallwn symud y mater hwn yn ei flaen?

**Leighton Andrews:** My colleague the Member for Delyn is right to remind the Chamber of statements made in opposition by Conservative spokespersons who are now Ministers within the Department for Work and Pensions. She highlights the issue of procurement, and I think that we as a Government have done well in terms of our support for procurement—during the period of this Government, during the One Wales Government and before that. The opportunities that we have sought have been recognised by the Remploy workforce and its trade unions. As she rightly says, there are still many issues on which we need further clarity. We will progress on those issues on the assumption that we can have intelligent and useful dialogue with the Department for Work and Pensions and Remploy on the potential future for Remploy factories in Wales and the potential future employment of Remploy workers. Obviously, I will bring further statements to the Assembly to outline how we are progressing in those discussions.

**Leighton Andrews:** Mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ddelyn, yn iawn i atgoffa'r Siambr o ddatganiadau a wnaed gan lefarwyr Ceidwadol pan oeddent yn yr wrthblaid, sydd bellach yn Weinidogion yn yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'n tynnu sylw at gaffael, a chredaf ein bod ni fel Llywodraeth wedi gwneud yn dda o ran ein cefnogaeth i waith caffael—yn ystod cyfnod y Llywodraeth hon, yn ystod Llywodraeth Cymru'n Un a chyn hynny. Mae'r cyfleoedd a geisiwyd gennym wedi eu cydnabod gan weithlu Remploy a'i undebau llafur. Fel y dywed yn gywir ddigon, ceir llawer o faterion o hyd y mae angen inni gael eglurder pellach yn eu cylch. Byddwn yn symud ymlaen yng nghyswllt y materion hynny, gan ragdybio y gallwn gael trafodaeth ddeallus a defnyddiol â'r Adran Gwaith a Phensiynau a Remploy ynghylch y dyfodol a allai fod ar gyfer ffatrïoedd Remploy yng Nghymru a'r swyddi a allai fod ar gael i weithwyr Remploy yn y dyfodol. Wrth gwrs, byddaf yn cyflwyno datganiadau pellach i'r Cynulliad i amlinellu sut rydym yn gwneud cynnydd yn y trafodaethau hynny.

3.00 p.m.

**Andrew R.T. Davies:** I speak as a regional Member with two Remploy factories in that region. I was fortunate to visit the Porth factory last Friday and see the excellent work that goes on there. What struck me when I spoke to everyone there was the diminution of opportunities for people—the Porth factory is down to about 76 employees now, from about 270 at its height. We have to accept that, sadly, the Remploy model has not been affording those opportunities over the years. However, we have a guarantee that the budget for specialist disability

**Andrew R.T. Davies:** Siaradaf fel Aelod rhanbarthol ar gyfer rhanbarth lle y mae dwy o ffatrïoedd Remploy. Roeddwn yn ffodus o gael cyfle i ymweld â ffatri'r Porth ddydd Gwener diwethaf a gweld y gwaith rhagorol sy'n digwydd yno. Yr hyn a'm trawodd pan siaredais â phawb yno oedd y modd y mae cyfleoedd i bobl wedi prinhau—tua 76 o weithwyr sydd yn ffatri'r Porth yn awr, ond roedd tua 270 yno pan oedd y lle ar ei anterth. Rhaid inni dderbyn, yn anffodus, nad yw model Remploy wedi bod yn cynnig y cyfleoedd hynny dros y blynyddoedd. Fodd

employment is protected, and that money is there. I would just lend my voice in support of the Minister in taking action to see what opportunities exist, so that we can increase the platform of opportunities for people to find employment and ensure sustainable levels of employment. However, I acknowledge that this is a very difficult day, particularly for the workers at the Aberdare factory, which I visited some 18 months ago.

bynnag, rydym wedi cael sicrwydd y bydd y gyllideb ar gyfer cyflogaeth arbenigol i bobl anabl yn cael ei diogelu, a bod arian ar gael. Hoffwn gefnogi'r Gweinidog wrth iddo gymryd camau i weld pa gyfleoedd sydd, fel y gallwn ehangu'r llwyfan o gyfleoedd sydd ar gael i bobl ddod o hyd i swyddi a sicrhau lefelau cynaliadwy o gyflogaeth. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod bod hwn yn ddiwrnod anodd iawn, yn enwedig i'r gweithwyr yn ffatri Aberdâr, yr ymwelais â hi ryw 18 mis yn ôl.

**Leighton Andrews:** If the Member visited the Porth factory last week, he will have seen that it is engaged in some very high-tech work in e-cycling and data cleansing. It has undertaken work for both the public sector and the private sector. The work that is being done there is certainly skilled work that, in my view, has a long-term future. I have visited the factory on many occasions, and I will be visiting it again this week.

**Leighton Andrews:** Os ymwelodd yr Aelod â ffatri'r Porth yr wythnos diwethaf, bydd wedi gweld ei bod yn ymwneud â rhywfaint o waith e-gylchu a glanhau data, sy'n waith ar lefel uchel iawn o safbwynt uwch-dechnoleg. Mae'r ffatri wedi cyflawni gwaith ar gyfer y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'r gwaith a gyflawnir yno'n sicr yn waith crefftus y mae iddo ddyfodol hirdymor, yn fy marn i. Rwyf wedi ymweld droeon â'r ffatri, a byddaf yn ymweld â hi eto'r wythnos hon.

There is no question about where this decision has come from. The UK Government has confirmed today that it is reducing its subsidy to Remploy. As a consequence of that reduction, Remploy is proposing the closure of 36 factories across England, Wales and Scotland. Seven of those factories are in Wales. That is a disproportionate hit for Wales. We have to be clear about that.

Nid oes amheuaeth o ble y mae'r penderfyniad hwn wedi dod. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau heddiw ei bod yn gostwng ei chymhorthdal i Remploy. O ganlyniad i'r gostyngiad hwnnw, mae Remploy yn bwriadu cau 36 o ffatrïoedd ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae saith o'r ffatrïoedd hynny yng Nghymru. Mae hynny'n golygu bod Cymru yn cael ei tharo'n anghymesur. Rhaid inni fod yn glir ynghylch hynny.

We will do what we can to seek to protect the employment of Remploy workers in Wales. We will explore viable options to maintain factory-based employment for Remploy workers.

Byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i geisio diogelu swyddi gweithwyr Remploy yng Nghymru. Byddwn yn archwilio opsiynau ymarferol i gynnal swyddi mewn ffatrïoedd ar gyfer gweithwyr Remploy.

## Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad
## Questions to the Assembly Commission

### Cefnogaeth Staffio

### Staffing Support

***1. Simon Thomas:** A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am gefnogaeth staffio ar gyfer gwaith Pwyllgorau'r Cynulliad. OAQ(4)0043(AC)*

***1. Simon Thomas:** Will the Commission make a statement on staffing support for the work of Assembly Committees. OAQ(4)0043(AC)*

**Assembly Commissioner (Peter Black):**

**Comisiynydd y Cynulliad (Peter Black):**

Enabling committees to undertake their work is a high priority for the Commission. The vast majority of staff employed by the Commission contribute to the effective operation of committees in some way. Clerking teams provide core support for the day-to-day work of the Assembly's committees, planning and organising the business of each committee. They work closely with staff who provide specific expertise, including research, legal, communications or logistical support. In addition, we ensure that resources are available to access external expertise so that committees are able to benefit from expert advice of the highest possible calibre during their work.

Mae galluogi pwyllgorau i ymgymryd â'u gwaith yn flaenoriaeth uchel i'r Comisiwn. Mae mwyafrif helaeth y staff a gyflogir gan y Comisiwn yn cyfrannu mewn rhyw fodd at sicrhau bod y pwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol. Mae timau clercio yn darparu cymorth craidd ar gyfer gwaith pwyllgorau'r Cynulliad o ddydd i ddydd, gan gynllunio a threfnu busnes pob pwyllgor. Maent yn gweithio'n agos gyda staff sy'n darparu arbenigedd penodol, gan gynnwys cymorth ymchwil, cyfreithiol neu logistaidd neu gymorth o ran cyfathrebu. Yn ogystal, rydym yn sicrhau bod adnoddau ar gael i fanteisio ar arbenigedd allanol fel y gall pwyllgorau elwa o gyngor arbenigol o'r safon uchaf posibl yn ystod eu gwaith.

**Simon Thomas:** Diolch i'r Comisiynydd am yr ateb hwnnw. Y ffaith amdani yw bod cymorth staffio i Aelodau wneud eu gwaith craffu a'u gwaith ymchwil yn rhywbeth gweddol ddiweddar yn yr ynysoedd hyn—efallai y dylem gofio mai Norman St John-Stevas, a fu farw'r wythnos hon, a gyflwynodd y system gyntaf i San Steffan. Yn awr mae cyfle fan hyn yn y Cynulliad i wneud y system orau bosibl i gefnogi Aelodau'r meinciau cefn ac aelodau pwyllgorau. Pa asesiad sy'n cael ei wneud o ddydd i ddydd, neu o flwyddyn i flwyddyn, gan y Comisiwn i sicrhau bod gennym y lefel staffio cywir ar gyfer pwyllgorau o'i gymharu â chynulliadau a seneddau eraill ynysoedd Prydain, a pha asesiad sy'n cael ei wneud o'r anghenion o ran deddfwriaeth a'r pwysau y bydd yn ei rhoi ar bwyllgorau, er mwyn sicrhau bod gennym y nifer gywir o staff i gefnogi pwyllgorau, boed hynny'n mynd i fyny neu i lawr?

**Simon Thomas:** I thank the Commissioner for that response. The fact is that staffing support for Members to carry out their scrutiny and research work is a relatively recent development in these isles—we should perhaps remember that Norman St John-Stevas, who died this week, first introduced this system in Westminster. We now have an opportunity in the Assembly to provide the best system possible to support backbench Members and committee members. What assessment is made day to day, or year to year, by the Commission to ensure that we have the correct staffing levels for committees in comparison with other assemblies and parliaments in the British isles, and what assessment is currently is being made of the requirements in relation to legislation and the pressures that it will put on committees, in order to ensure that we have the right number of staff to support committees, whether that goes up or down?

**Peter Black:** Thank you for that question, Simon. I echo your tribute to the work of Norman St John-Stevas in bringing this system into place in the first place.

**Peter Black:** Diolch am y cwestiwn hwnnw, Simon. Rwyf innau'n ategu eich teyrnged i waith Norman St John-Stevas wrth roi'r system hon ar waith yn y lle cyntaf.

The Commission carried out a detailed assessment of the needs of the Assembly given its new powers before the last election and tried to ensure the right level of staff to meet those needs in terms of legal support and research support. We keep this under constant review, and we will take account of any feedback from Members regarding deficiencies or improvements in the support necessary, as we continue to review that

Cynhaliodd y Comisiwn asesiad manwl o anghenion y Cynulliad o ystyried ei bwerau newydd cyn yr etholiad diwethaf a cheisiodd sicrhau bod y lefel gywir o staff ar gael i ddiwallu'r anghenion hynny o ran cymorth cyfreithiol a chymorth ymchwil. Rydym yn adolygu hyn yn barhaus, a byddwn yn ystyried unrhyw adborth gan Aelodau ynghylch diffygion neu welliannau yn y cymorth angenrheidiol, wrth inni barhau i

support.

adolygu'r cymorth hwnnw.

**Gwastraff Bwyd**

**Food Waste**

***2. Jenny Rathbone:*** *Pa gamau sy'n cael eu cymryd i leihau gwastraff bwyd yn adeiladau'r Cynulliad. OAQ(4)0050(AC)*

***2. Jenny Rathbone:*** *What action is being taken to reduce food waste in Assembly buildings. OAQ(4)0050(AC)*

**Peter Black:** The Assembly Commission is committed to reducing all waste, including food waste. Measures are taken to implement best practice catering guidance to minimise waste. All food waste generated in the Assembly is collected, composted and used for landfill reclamation and landscaping projects in Cardiff.

**Peter Black:** Mae Comisiwn y Cynulliad wedi ymrwymo i leihau pob math o wastraff, gan gynnwys gwastraff bwyd. Caiff camau eu cymryd i weithredu canllawiau arfer gorau ym maes arlwyo i leihau gwastraff. Mae'r holl wastraff bwyd a gynhyrchir yn y Cynulliad yn cael ei gasglu, ei gompostio a'i ddefnyddio ar gyfer prosiectau tirlunio ac adfer safleoedd tirlenwi yng Nghaerdydd.

**Jenny Rathbone:** I am delighted that the 8.6 million tonnes of waste in 2010-11 was composted, as per the answer to Simon Thomas. However, I really want to know what the Assembly is doing to reduce the amount of food waste, because all of that 8.6 million tonnes of food has, in itself, taken up a lot of resource and it is just going into compost.

**Jenny Rathbone:** Rwyf yn falch iawn bod yr 8.6 miliwn o dunelli o wastraff yn 2010-11 wedi'i gompostio, fel y nodwyd yn yr ateb i Simon Thomas. Fodd bynnag, rwyf yn awyddus iawn i wybod beth y mae'r Cynulliad yn ei wneud i leihau'r gwastraff bwyd a gynhyrchir, oherwydd mae'r cyfan o'r 8.6 miliwn tunnell hynny o fwyd wedi defnyddio llawer o adnoddau ynddo'i hun a dim ond cael ei droi'n gompost y mae.

**Peter Black:** I think that it would be very difficult for us to reach 8.6 million tonnes of food in consumption, never mind waste. It was actually 8.6 tonnes. We are doing everything that we can to reduce waste. For example, we reuse fresh vegetables for soup. We try to plan menus to ensure that any uncooked ingredients can be utilised in making other dishes. Food orders ensure that only the correct amount of food is ordered at any one time to avoid unnecessary expenditure and waste. The popularity of menu dishes is monitored and poor selling dishes are not usually repeated. We also have a process of batch cooking, which is cooking in set portions from raw based on demand, to avoid cooking unnecessary volumes of food. That can then be used in other dishes. Therefore, we do everything that we can to reduce waste. Inevitably, there will be some waste and we try to ensure that, where waste is generated, it is disposed of in an environmentally friendly way, as you have already mentioned in relation to the amount of waste that was composted in 2010-11.

**Peter Black:** Rwyf yn credu y byddai'n anodd iawn inni fwyta 8.6 miliwn tunnell o fwyd, heb sôn am ei wastraffu. Y ffigur mewn gwirionedd oedd 8.6 tunnell. Rydym yn gwneud popeth a allwn i leihau gwastraff. Er enghraifft, rydym yn ailddefnyddio llysiau ffres ar gyfer cawl. Rydym yn ceisio cynllunio bwydlenni i sicrhau bod modd i unrhyw gynhwysion heb eu coginio gael eu defnyddio i wneud prydau eraill. Mae archebion bwyd yn sicrhau mai dim ond y swm cywir o fwyd a gaiff ei archebu ar unrhyw adeg er mwyn osgoi gwariant a gwastraff diangen. Caiff poblogrwydd prydau ar y fwydlen ei fonitro ac ni fydd prydau nad ydynt yn gwerthu'n dda yn cael eu cynnig eto fel rheol. Mae gennym broses o goginio fesul swp hefyd, sef coginio dognau penodol o gynhwysion amrwd ar sail y galw amdanynt, er mwyn osgoi coginio bwyd yn ddiangen. Gall y bwyd hwnnw wedyn gael ei ddefnyddio mewn prydau eraill. Felly, rydym yn gwneud popeth a allwn i leihau gwastraff. Mae'n anochel y bydd rhywfaint o wastraff ac rydym yn ceisio sicrhau, os oes gwastraff yn cael ei gynhyrchu, ei fod yn cael ei

waredu mewn modd ecogyfeillgar, fel yr ydych eisoes wedi'i grybwyll o ran faint o wastraff a gafodd ei gompostio yn 2010-11.

**Russell George:** Anaerobic digestion is a good option for recovering energy from waste. I know that Cardiff Council was looking seriously at developing anaerobic digestion facilities for the city. Has the Commission had any further discussions with the local authority on this issue?

**Russell George:** Mae treulio anaerobig yn ddewis da ar gyfer adennill ynni o wastraff. Gwn fod Cyngor Caerdydd yn edrych o ddifrif ar ddatblygu cyfleusterau treulio anaerobig ar gyfer y ddinas. A yw'r Comisiwn wedi cael unrhyw drafodaethau pellach â'r awdurdod lleol ynghylch y mater hwn?

**Peter Black:** In terms of the waste that we generate, we dispose of it in accordance with the facilities that are available. If anaerobic digestion becomes available in Cardiff then no doubt we will be making use of that facility, just as we are currently making use of the composting facility.

**Peter Black:** O ran y gwastraff yr ydym yn ei gynhyrchu, rydym yn ei waredu yn ôl y cyfleusterau sydd ar gael. Os bydd cyfleusterau treulio anaerobig yn dod ar gael yng Nghaerdydd, yna'n sicr byddwn yn defnyddio'r cyfleuster hwnnw, yn yr un modd ag yr ydym yn defnyddio'r cyfleuster compostio ar hyn o bryd.

### Darpariaeth Gwasanaethau Cyfieithu

### The Provision of Translation Services

***3. Aled Roberts:*** *A yw Comisiwn y Cynulliad yn bwriadu adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau cyfieithu sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad. OAQ(4)0051(AC)*

***3. Aled Roberts:*** *Does the Assembly Commission intend to review the provision of translation services available to Assembly Members. OAQ(4)0051(AC)*

**Comisiynydd y Cynulliad (Rhodri Glyn Thomas):** Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yn monitro'r defnydd a wneir o'r gwasanaeth cyfieithu testun Cymraeg-Saesneg/Saesneg-Cymraeg presennol ar gyfer Aelodau Cynulliad yn rheolaidd.

**Assembly Commissioner (Rhodri Glyn Thomas):** The Translation and Reporting Service routinely monitors usage of the current Welsh-English/English-Welsh text translation service for Assembly Members.

**Aled Roberts:** Mae ffigurau'n dangos cynnydd sylweddol o 78 o ofynion cyfieithu y llynedd i 106 o fewn 11 mis eleni. Nid yw'r lwfans wedi cynyddu ers sefydlu'r Cynulliad. A oes angen adolygiad ar hyn o bryd?

**Aled Roberts:** The figures show a substantial increase from 78 translation requests last year to 106 in 11 months this year. The allowance has not increased since the inception of the Assembly. Is there a need for a review at present?

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'r Comisiwn yn cadw llygad ar y sefyllfa. Mae'r ffigurau o'm blaen. Mae lwfans o £400 y pen i bob Aelod a chaiff ei ddyfarnu i'r grwpiau yn unol â nifer yr Aelodau o fewn y grŵp. Mae'r ffigurau hyd at ddiwedd Chwefror yn dangos nad oes unrhyw un o'r grwpiau yn agos at gyrraedd yr uchafswm, ond, wrth reswm, os bydd cynnydd eto yn y defnydd, byddwn yn edrych ar y swm ac yn sicrhau bod swm priodol ar gael i alluogi Aelodau i gyflawni'u gwaith yn y naill iaith neu'r llall, yn ôl eu

**Rhodri Glyn Thomas:** The Commission is keeping an eye on the situation. The figures are in front of me. There is an allowance of £400 per Member and it is allocated to the groups in accordance with the number of Members in the group. The figures for up until the end of February show that not one group is close to reaching the maximum, but, of course, if there is a further increase in usage, we will look at the sum and ensure that an appropriate sum is in place to allow Members to carry out their work in either

dewis.

language, according to their choice.

**Strwythurau Tâl**

**Pay Structures**

***4. Ann Jones:*** *Pa werthusiad y mae'r Comisiwn wedi'i wneud o'i strwythurau tâl cyfredol. OAQ(4)0045(AC)*

***4. Ann Jones:*** *What evaluation has the Commission made of its current pay structures. OAQ(4)0045(AC)*

**Peter Black:** The Commission received a report at its February meeting about pay and reward for Assembly staff prior to the negotiations that are about to take place for staff pay from April 2012. Comprehensive pay benchmarking research is undertaken to inform the setting and monitoring of pay levels. Annual equal pay reviews are done to ensure that our pay arrangements are fair and transparent. When pay is considered, advice is sought from the Commission's independent remuneration committee.

**Peter Black:** Cafodd y Comisiwn adroddiad yn ei gyfarfod ym mis Chwefror am gyflogau a thaliadau staff y Cynulliad cyn y trafodaethau sydd ar fin cael eu cynnal ynghylch cyflogau staff o fis Ebrill 2012. Gwneir gwaith ymchwil cynhwysfawr ar feincnodi cyflogau a fydd yn sail i'r gwaith o bennu a monitro lefelau cyflogau. Cynhelir adolygiadau cyflog cyfartal bob blwyddyn i sicrhau bod ein trefniadau o ran cyflogau yn deg ac yn dryloyw. Pan gaiff cyflogau eu hystyried, gofynnir am gyngor gan bwyllgor cyflogau annibynnol y Comisiwn.

**Ann Jones:** Thank you for that. On 1 February, in response to a question from Lynne Neagle, you stated that no direct employee or contract employee was earning less than the living wage of £7.20 an hour. You went on to say that contractors were also required to meet the living wage obligation, which is set at the minimum wage plus 15%. The minimum wage is currently £6.08, and, if you add 15%, that works out as £6.99 an hour, which is not the living wage of £7.20. Will the Commission once again clarify whether any staff are currently paid below the living wage, and, if this is the case, will the Commission write to all employees concerned to apologise for having given the impression that the living wage is being paid?

**Ann Jones:** Diolch am hynny. Ar 1 Chwefror, mewn ymateb i gwestiwn gan Lynne Neagle, bu ichi ddweud nad oedd unrhyw weithiwr uniongyrchol neu weithiwr contract yn ennill llai na'r cyflog byw o £7.20 yr awr. Aethoch yn eich blaen i ddweud bod yn rhaid i gontractwyr fodloni'r rhwymedigaeth o ran talu cyflog byw hefyd, sydd wedi'i osod ar 15% uwchben yr isafswm cyflog. Ar hyn o bryd, mae'r isafswm cyflog yn £6.08, ac, os byddwch yn ychwanegu 15%, mae'n £6.99 yr awr, nad yw'n cyfateb i'r cyflog byw o £7.20. A wnaiff y Comisiwn egluro unwaith eto a oes unrhyw staff yn cael eu talu llai na'r cyflog byw ar hyn o bryd, ac os yw hynny'n wir, a wnaiff y Comisiwn ysgrifennu at yr holl weithwyr dan sylw i ymddiheuro am fod wedi rhoi'r argraff bod y cyflog byw yn cael ei dalu?

**Peter Black:** The lowest hourly rate for any Assembly Member support staff is £9.05, and it is something similar for the staff of Assembly Commission, at £9.01. That is the lowest hourly rate for anyone employed by us. We operate a policy that contracts should also apply a living wage, and clearly that can only be applied as contracts come up for renewal, but, if you are aware of any particular contract where the living wage is not being applied correctly, then I am happy to look at it if you would bring that to my

**Peter Black:** Y gyfradd isaf yr awr i unrhyw aelod o staff cymorth sy'n gweithio i Aelod Cynulliad yw £9.05, ac mae cyfradd debyg o £9.01 yn cael ei thalu i staff Comisiwn y Cynulliad. Dyna'r gyfradd isaf yr awr i unrhyw un a gaiff ei gyflogi gennym. Rydym yn gweithredu polisi sy'n nodi y dylai contractau hefyd gynnwys cyflog byw, ac yn amlwg dim ond pan fydd yn bryd adnewyddu contractau y gellir cynnwys hynny, ond, os gwyddoch am unrhyw gontract penodol lle nad yw'r cyflog byw yn cael ei weithredu'n

attention outside the Chamber.

gywir, yna rwyf yn fodlon edrych arno pe baech yn ei ddwyn i'm sylw y tu allan i'r Siambr.

**Antoinette Sandbach:** Can you confirm what plans the Commission has to review its decision to spend £30,000 to fund a full-time trade union representative, and what discussions have been held with the trade unions about how they could support this position themselves in the light of—

**Antoinette Sandbach:** A allwch gadarnhau pa gynlluniau sydd gan y Comisiwn i adolygu ei benderfyniad i wario £30,000 i ariannu cynrychiolydd undebau llafur amser llawn, a pha drafodaethau sydd wedi eu cynnal â'r undebau llafur ynghylch sut y gallent gefnogi'r swydd hon eu hunain yng ngoleuni—

**The Presiding Officer:** Order. I do not think that that question relates to pay structures. That is a totally separate issue, and you should write to the Commission if you want to know the answer to that. If you want to ask a question on pay structures, please do.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid wyf yn credu bod y cwestiwn hwn yn ymwneud â strwythurau tâl. Mae hynny'n fater sy'n hollol ar wahân, a dylech ysgrifennu at y Comisiwn os ydych am wybod yr ateb i hynny. Os ydych am ofyn cwestiwn am strwythurau tâl, mae croeso ichi wneud hynny.

**Peter Black:** I am happy to give a general answer, Presiding Officer. The Commission values the trade union representation that we have, and we are currently engaged in negotiations with the trade unions on the pay structures. It is therefore necessary that members of staff who represent other staff on trade unions are available to take part in negotiations, and that will inevitably lead to a level of subsidy.

**Peter Black:** Rwyf yn fodlon rhoi ateb cyffredinol, Lywydd. Mae'r Comisiwn yn rhoi gwerth ar y gynrychiolaeth sydd gennym o'r undebau llafur, ac rydym yn cynnal trafodaethau â'r undebau llafur ar hyn o bryd am y strwythurau tâl. Felly, mae angen i aelodau o staff sy'n cynrychioli staff eraill ar undebau llafur fod ar gael i gymryd rhan mewn trafodaethau, a bydd hynny'n arwain yn anochel at lefel o gymhorthdal.

**The Presiding Officer:** Questions 5, OAQ(4)0048(AC), and 6, OAQ(4)0052(AC), will not be asked.

**Y Llywydd:** Ni fydd Cwestiynau 5, OAQ(4)0048(AC), a 6, OAQ(4)0052(AC), yn cael eu gofyn.

**Busnes y Cynulliad**

**Assembly Business**

***7. Mike Hedges:*** *Pa waith y mae'r Comisiwn yn ei wneud i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r cyhoedd am fusnes y Cynulliad. OAQ(4)0049(AC)*

***7. Mike Hedges:*** *What work is the Commission doing to keep members of the public up-to-date with Assembly business. OAQ(4)0049(AC)*

**Rhodri Glyn Thomas:** One of the four goals that we have set as a Commission is to engage with the people of Wales to create an environment that encourages interest in the work of the Assembly and helps people to take part in the Assembly's roles of legislation, scrutiny and representation. The outreach, visitors, education, media and web teams make sure that up-to-date information about Assembly business is available to the public in as wide a range of media as possible.

**Rhodri Glyn Thomas:** Un o'r pedwar nod a osodwyd gennym fel Comisiwn yw ymgysylltu â phobl Cymru i greu amgylchedd sy'n annog diddordeb yng ngwaith y Cynulliad ac sy'n helpu pobl i gymryd rhan yn rolau deddfwriaeth, craffu a chynrychiolaeth y Cynulliad. Mae'r timau allgymorth, ymwelwyr, addysg, y cyfryngau a'r we yn gwneud yn siŵr bod y wybodaeth ddiweddaraf am fusnes y Cynulliad ar gael i'r cyhoedd mewn ystod mor eang ag sy'n bosibl o gyfryngau.

**Mike Hedges:** As you are well aware, about a third of the population now use smartphones—perhaps more successfully than I do. However, a number of apps exist for all smartphones for different things, so would you consider bringing out an Assembly app so that people who want to know what is happening in the Assembly and to have access to their Assembly Member can use a smartphone app to do so? It seems to me that a lot of younger people especially want an app for everything; that is the way that they tend to access information.

**Mike Hedges:** Fel y gwyddoch yn iawn, mae tua thraean o'r boblogaeth bellach yn defnyddio ffonau deallus—yn fwy llwyddiannus na mi, efallai. Fodd bynnag, mae nifer o 'apps' ar gyfer gwahanol bethau yn bodoli ar gyfer pob ffôn deallus, felly a fyddech yn ystyried cyflwyno 'app' y Cynulliad fel y gall pobl sydd am wybod beth sy'n digwydd yn y Cynulliad ac sydd am gael cyswllt â'u Haelod Cynulliad ddefnyddio 'app' ffôn deallus i wneud hynny? Mae'n ymddangos i mi bod llawer o bobl iau yn enwedig am gael 'app' ffôn deallus ar gyfer popeth; dyna sut maent yn tueddu i gael gafael ar wybodaeth.

**Rhodri Glyn Thomas:** Thank you for the question, Mike. The Assembly tries to engage with the people of Wales in any form of media that they use, and, as the smartphone is becoming more popular, we will certainly look at the possibility of allowing people to use smartphone apps to engage with the Assembly. I should point out, as we are talking about outreach work, that the outreach work undertaken by the Assembly is seen as an exemplar for all political institutions, and, indeed, a study by the Hansard Society published in 2011 recognised the Assembly as having one of the most comprehensive strategies for public engagement among the 29 Parliaments and legislatures from around the work that were studied. However, we can certainly look at smartphone apps to increase that engagement.

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolch am y cwestiwn, Mike. Mae'r Cynulliad yn ceisio ymgysylltu â phobl Cymru drwy unrhyw gyfrwng y maent yn ei ddefnyddio, a chan fod y ffôn deallus yn dod yn fwy poblogaidd, byddwn yn sicr yn edrych ar y posibilrwydd o alluogi pobl i ddefnyddio 'apps' ffonau deallus i ymgysylltu â'r Cynulliad. Dylwn nodi, wrth inni sôn am waith allgymorth, bod y gwaith allgymorth a wneir gan y Cynulliad yn cael ei ystyried yn esiampl ar gyfer pob sefydliad gwleidyddol, ac, yn wir, roedd astudiaeth gan y Gymdeithas Hansard a gyhoeddwyd yn 2011 yn cydnabod mai'r Cynulliad oedd ag un o'r strategaethau mwyaf cynhwysfawr ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd o blith y 29 Senedd a deddfwrfa o bob rhan o'r byd a oedd yn rhan o'r astudiaeth. Fodd bynnag, gallwn yn sicr edrych ar 'apps' ffonau deallus i gynyddu'r ymgysylltiad hwnnw.

**The Presiding Officer:** Question 8, OAQ(4)0046(AC), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd Cwestiwn 8, OAQ(4)0046(AC), yn ôl.

### Gwastraff ac Ailgychu

### Waste and Recycling

***9. Julie Morgan:*** *Beth y mae Comisiwn y Cynulliad yn ei wneud i atal gwastraff, ochr yn ochr â hyrwyddo ailgylchu. OAQ(4)0047(AC)*

***9. Julie Morgan:*** *What is the Assembly Commission doing to prevent waste, alongside promoting recycling. OAQ(4)0047(AC)*

**Peter Black:** The Commission is committed to minimising waste and maximising resource efficiency across our operations. We apply best-practice principles to minimise the amount of waste sent to landfill and to maximise recycling and reuse. We have annual targets and aim to achieve zero waste

**Peter Black:** Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i leihau gwastraff a chynyddu effeithlonrwydd o ran adnoddau ar draws ein gweithrediadau. Rydym yn dilyn egwyddorion arfer gorau i leihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi ac i ailgylchu ac ailddefnyddio cymaint o wastraff ag sy'n

to landfill by 2018. In 2010-11, we reused or recycled 91 tonnes, or 68% of our waste.

bosibl. Mae gennym dargedau blynyddol a'n nod yw cyrraedd sefyllfa erbyn 2018 lle nad oes dim gwastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Yn 2010-11, cafodd 91 tunnell, neu 68% o'n gwastraff ei ailgylchu neu ei ailddefnyddio.

3.15 p.m.

**Julie Morgan:** I thank the Commissioner for that reply. A recent Wales Audit Office report, 'Public Participation in Waste Recycling', highlighted that waste prevention is the best environmental option. What steps has the Assembly Commission taken to prevent waste, for example, by reducing the amount of packaging and cardboard cups used in the refreshment area? Perhaps the Commission could encourage Members and staff to use their own cups to prevent such a lot of waste of packaging.

**Julie Morgan:** Diolch i'r Comisiynydd am yr ateb hwnnw. Mae adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru 'Cyfranogiad y Cyhoedd o ran Ailgylchu Gwastraff' wedi tynnu sylw at y ffaith mai atal gwastraff yw'r opsiwn amgylcheddol gorau. Pa gamau y mae Comisiwn y Cynulliad wedi eu cymryd i atal gwastraff, er enghraifft, trwy leihau faint o ddeunydd pacio a chwpanau cardfwrdd a ddefnyddir yn yr ardal luniaeth? Efallai y gallai'r Comisiwn annog Aelodau a staff i ddefnyddio eu cwpanau eu hunain er mwyn osgoi gwastraffu cymaint o ddeunydd pacio.

**Peter Black:** Thank you for that supplementary question. We clearly do not manufacture stuff, so we try to keep our packaging to a minimum. However, you may be aware of the cup-for-life initiative, which was introduced, I think, in the previous Assembly, and may be worth revisiting, to reduce the number of disposable cups used in the on-site restaurant. We apparently operate a one-napkin-per-customer policy in the canteen, which is important. We have also replaced paper towels in the toilets with efficient low-energy hand dryers. Therefore, we are doing our best to reduce waste; it is a major priority for us. Reduction, as opposed to reuse and recycling, is the first stage in terms of having a proper environmental policy.

**Peter Black:** Diolch am y cwestiwn atodol hwnnw. Yn amlwg nid ydym yn cynhyrchu pethau, felly rydym yn ceisio cadw ein deunydd pacio i isafswm. Fodd bynnag, efallai y byddwch yn ymwybodol o'r fenter cwpan am oes, a gyflwynwyd, rwyf yn credu, yn y Cynulliad blaenorol, ac y gallai fod yn werth ailedrych arni, er mwyn lleihau nifer y cwpanau untro a ddefnyddir yn y bwyty ar y safle. Mae'n debyg ein bod yn gweithredu polisi un-napcyn-y-cwsmer yn y ffreutur, sy'n bwysig. Rydym hefyd wedi gosod peiriannau sychu dwylo effeithlon a rhad-ar-ynni yn y toiledau yn lle tywelion papur. Felly, rydym yn gwneud ein gorau i leihau gwastraff; mae'n flaenoriaeth fawr i ni. Lleihau, yn hytrach nag ailddefnyddio ac ailgylchu, yw'r cam cyntaf o ran cael polisi amgylcheddol priodol.

**System Gwaith Achos**

**Casework System**

***10. Antoinette Sandbach:*** *A wnaiff y Comisiynydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am welliannau i system gwaith achos y Cynulliad. OAQ(4)0044(AC)*

***10. Antoinette Sandbach:*** *Will the Commissioner provide an update on improvements to the Assembly's casework system. OAQ(4)0044(AC)*

**Peter Black:** Thank you for that question. The upgrade to the Assembly's casework system is currently undergoing robust testing prior to its release to users. The upgrade has taken much longer than we planned. As this is the only legislature in the UK to offer a fully supported and networked casework

**Peter Black:** Diolch am y cwestiwn hwnnw. Mae'r gwaith a wnaed i uwchraddio system gwaith achos y Cynulliad yn cael ei brofi'n drwyadl ar hyn o bryd cyn i'r system gael ei rhyddhau i ddefnyddwyr. Mae'r gwaith uwchraddio wedi cymryd yn hwy o lawer nag yr oeddem wedi bwriadu. Gan mai hon yw'r

system to all Members, we are breaking new ground, and I ask for your patience a little longer.

unig ddeddfwrfa yn y DU i gynnig system gwaith achos sydd wedi'i chefnogi a'i rhwydweithio'n llawn i'r holl Aelodau, rydym yn torri tir newydd, a gofynnaf ichi fod yn amyneddgar am ychydig yn hwy.

**Antoinette Sandbach:** The lack of upgrade to the casework system affects my work as an Assembly Member, and I am sure the work of many others as well. Although you may be commissioning a purpose-designed casework system, have you looked at using something like CMITS, which is used effectively as a means of managing casework in Parliament and, no doubt, in other organisations and institutions, or at the kind of software that is used by legal firms to provide that kind of casework support to their employees?

**Antoinette Sandbach:** Mae'r ffaith nad yw'r system gwaith achos wedi cael ei huwchraddio yn effeithio ar fy ngwaith fel Aelod Cynulliad, a gwaith llawer o rai eraill hefyd, rwyf yn siŵr. Er eich bod, efallai, yn comisiynu system gwaith achos wedi'i chynllunio'n arbennig, a ydych wedi edrych ar ddefnyddio rhywbeth fel CMITS, sy'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol fel ffordd o reoli gwaith achos yn Senedd y DU ac, yn ddiau, mewn mudiadau a sefydliadau eraill, neu ar y math o feddalwedd a ddefnyddir gan gwmnïau cyfreithiol i ddarparu'r math hwnnw o gymorth gwaith achos i'w gweithwyr?

**Peter Black:** CMITS is not provided by the Assembly, and neither is it supplied by Westminster, although it is a system that is available for politicians if they purchase it directly. When we last investigated CMITS, it was not Windows 7 compliant, nor was it bilingual. It was, of course, the other system that was presented to us when the contract was awarded to Tricostar. There are party-based systems available, which Members are free to use if they wish, however, these are generally not designed to work over corporate information technology networks, they are not fully bilingual, and they are not supported under the ICT contract.

**Peter Black:** Nid yw CMITS yn cael ei ddarparu gan y Cynulliad, ac nid yw'n cael ei gyflenwi gan San Steffan chwaith, er ei bod yn system sydd ar gael i wleidyddion os ydynt yn ei phrynu'n uniongyrchol. Pan fuom yn edrych ar CMITS ddiwethaf, nid oedd yn gydnaws â Windows 7, ac nid oedd yn ddwyieithog chwaith. Hon, wrth gwrs, oedd y system arall a gyflwynwyd inni pan ddyfarnwyd y contract i Tricostar. Mae systemau sy'n berthnasol i bleidiau ar gael, ac mae croeso i Aelodau eu defnyddio os ydynt yn dymuno, fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r rhain wedi'u cynllunio i weithio dros rwydweithiau technoleg gwybodaeth corfforaethol, nid ydynt yn gwbl ddwyieithog, ac nid ydynt yn cael eu cefnogi dan y contract TGCh.

There are, in fact, 26 Assembly Members actively using the current casework system, and four are awaiting training, which will take place after the upgrade. Therefore, the system itself is in active use by nearly half the Assembly. My staff and I use it, and although there are problems due to its lack of compliance with Windows 7 because it has not been upgraded, I am confident that once that upgrade takes place, which we hope will happen shortly, we will have a system that is fully fit for purpose.

Mewn gwirionedd, mae 26 o Aelodau'r Cynulliad yn defnyddio'r system gwaith achos bresennol ar hyn o bryd, ac mae pedwar yn aros i gael hyfforddiant, a fydd yn digwydd ar ôl y gwaith uwchraddio. Felly, mae'r system ei hun yn cael ei defnyddio gan bron i hanner y Cynulliad. Mae fy staff a mi yn ei defnyddio, ac er bod problemau o ran diffyg cydnawsedd â Windows 7 am nad yw wedi cael ei huwchraddio, rwyf yn hyderus, unwaith y bydd y gwaith uwchraddio yn digwydd, ac rydym yn gobeithio y bydd yn digwydd cyn bo hir, y bydd gennym system sy'n gwbl addas i'w diben.

## Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)
## Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv)

### Teithio Cynaliadwy
### Sustainable Travel

*Cynnig NNDM4863 Llyr Huws Gruffydd, Rebecca Evans, William Powell*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*Yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn hybu cyllid a gweithgarwch sy’n canolbwyntio ar alluogi ystod eang o ddulliau teithio cynaliadwy a charbon isel i gael eu defnyddio mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol.*

**Llyr Huws Gruffydd:** Cynigiaf y cynnig yn fy enw i ac enwau Rebecca Evans a William Powell, gydag enw Antoinette Sandbach yn ei gefnogi.

Mae’n bleser gennyf ddod â’r cynnig hwn gerbron y Cynulliad. Mae’r cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i alluogi ystod eang o ddulliau teithio cynaliadwy a charbon isel, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Rwy’n ddiolchgar i Rebecca Evans, Bill Powell ac i Antoinette Sandbach am eu cefnogaeth i’r cynnig. Gwn y byddant hwy ac eraill yn cyfrannu i’r ddadl.

Mae’r ddadl hon yn hynod amserol, oherwydd cyhoeddiad yr wythnos diwethaf bod pris petrol di-blwm wedi cyrraedd ei lefel uchaf erioed, a bod disel hefyd yn torri record o safbwynt ei gost. Mewn ambell le, rhaid talu £1.50 y litr am ddisel, ac mae hynny, fel rydym wedi clywed ar y newyddion, wedi sbarduno protestiadau yn Llundain heddiw yn galw am weithredu yng nghyllideb y Deyrnas Unedig. Er ei bod hi’n berffaith deg i ni alw am leihau’r dreth ar danwydd, ac mae Plaid Cymru wedi gwneud hynny drwy alw am reoleiddiwr treth tanwydd yn San Steffan, does dim dianc rhag y ffaith mai mewn un cyfeiriad yn unig y bydd pris tanwydd yn mynd yn y tymor hirach—boed hynny oherwydd ansefydlogrwydd yn y dwyrain canol neu

*Motion NNDM4863 Llyr Huws Gruffydd, Rebecca Evans, William Powell*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Urges the Welsh Government to ensure that the National Transport Plan promotes funding and activity focused on enabling a wide variety of low carbon, sustainable modes of travel in rural areas, including National Parks.*

**Llyr Huws Gruffydd:** I move the motion in my name and the names of Rebecca Evans and William Powell, with the name of Antoinette Sandbach in support.

It is a pleasure to bring this motion before the Assembly, calling on the Welsh Government to do more to enable the use of a wide range of sustainable and low-carbon modes of transport, particularly in rural areas. I am grateful to Rebecca Evans, Bill Powell and Antoinette Sandbach for their support for the motion. I know that they and others will contribute to the debate.

This debate is very timely because of last week’s announcement that the price of unleaded petrol had reached its highest ever point and that diesel had also broken a record in terms of its cost. In some places, it is £1.50 a litre for diesel, and that, as we have heard on the news, has sparked protests in London today calling for action to be taken in the UK’s budget. While it is entirely fair for us to call for a reduction in fuel duty, and Plaid Cymru has done so by calling for a fuel price regulator in Westminster, there is no escaping the fact that fuel prices are moving in one direction only in the longer term—be that because of instability in the middle east or because of peak oil, with more demand for less and less resource.

oherwydd *peak oil* a mwy o alw am lai o adnodd.

Yr wythnos ddiwethaf, rhyddhawyd ystadegau am dlodi trafnidiaeth yn dangos y gallai fod dros 1 miliwn o bobl yng Nghymru bellach yn ei chael hi'n anodd fforddio rhedeg eu ceir. Mae dros 300,000 o'r rheini yn fy rhanbarth i yng Ngogledd Cymru, sef 47.4% o'r boblogaeth. Ni wnaf ddweud mwy am hynny yn awr, oherwydd yr wyf yn siŵr y bydd Aelodau eraill yn cyfeirio at yr adroddiad hwnnw yn nes ymlaen. Sylwais, ychydig cyn codi ar fy nhraed y prynhawn yma, bod datganiad ysgrifenedig wedi'i ryddhau gan y Llywodraeth ar ran pob Gweinidog a Dirprwy Weinidog, o dan y teitl, 'Mynd i'r Afael â Thlodi'. Rwyf wedi trio edrych arno yn sydyn, a gwelais gyfeiriad at dlodi tanwydd—cywirwch fi os rwyf yn anghywir—ond ni welais gyfeiriad at dlodi trafnidiaeth.

Last week, statistics were released on transport poverty that demonstrate that over 1 million people in Wales could now be finding it difficult to afford to run their cars. Over 300,000 of those are in my region in North Wales, which is 47.4% of the population. I will say no more about that now because I know that other Members will refer to that report later on. I noted, a short time before getting to my feet this afternoon, that a written statement had been issued by the Government on behalf of every Minister and Deputy Minister, under the title, 'Tackling Poverty'. I have tried to have a quick look at it, and I saw a reference to fuel poverty—correct me if I am wrong—but I did not see a reference to transport poverty.

Ar ben hynny, wrth i berchen ar gar fynd yn fwy anfforddiadwy, cyhoeddodd y Gweinidog trafnidiaeth yn ddiweddar doriadau i dros chwarter y grant gwasanaethau trafnidiaeth lleol a'r grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau. Bydd y toriadau yn arwain at grebachu yn y ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae'r galw yn fwy gwasgaredig.

On top of that, as car ownership becomes less and less affordable, the Minister with responsibility for transport recently announced cuts to over a quarter of the local transport services grant and the bus service operators grant. The cuts will lead to shrinkage in the provision of public transport in Wales, particularly in rural areas where the demand is more dispersed.

Mae ffocws polisi trafnidiaeth dros y degawdau wedi annog pobl i deithio mewn ceir. Ers canol yr 1980au mae'r pellterau sy'n cael eu teithio mewn ceir wedi cynyddu bron traean ac rydym wedi gweld cynnydd o bron 50% yn nifer y ceir ar y ffyrdd. Mae hynny'n golygu mai ceir yw un o'r cyfranwyr mwyaf arwyddocaol i lefel allyriadau carbon Cymru. Mae'r rheswm amgylcheddol yn ddigon yn ei hun i weithredu, heb sôn am y rhesymau economaidd rwyf wedi cyffwrdd â nhw eisoes.

The focus of transport policy over the decades has encouraged people to travel in cars. Since the mid-1980s the distances travelled by car have increased by almost a third and we have seen an increase of almost 50% in the number of cars on the roads. That means that cars are now one of the greatest contributors to carbon emission levels in Wales. The environmental reason is enough of a reason to take action, without considering the economic reasons that I have already touched upon.

Mae'r angen i deithio yn cael ei reoli gan leoliadau gwasanaethau sylfaenol, megis swyddi, gwasanaethau iechyd, siopau, safleoedd hamdden, ac ati. Mae lleoliadau'r gwasanaethau hynny yn aml yn cael eu cynllunio ar y dybiaeth fod gan bawb fynediad at drafnidiaeth bersonol. Wrth seilio cymdeithas ar y dybiaeth honno, mae

The need to travel is dictated by the location of essential services, such as jobs, health services, shops, leisure facilities and so on. The decision regarding the location of such services is often based on the presumption that everyone has access to personal transport. In basing society on that presumption, millions of people are forced

miloedd o bobl yn cael eu gorfodi i mewn i berchen car na allant ei fforddio mewn gwirionedd. Mae diffyg dewisiadau amgen i gar yn gorfodi pobl, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i ddewis rhwng mynd i ddyled neu gael eu torri i ffwrdd o swyddi, gwasanaethau iechyd, siopau, ac ati. Mae'r ddibyniaeth ar geir ar ei gwaethaf mewn cymunedau gwledig. Dangosodd is-bwyllgor gwledig y Cynulliad diwethaf fod pobl mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol na rhai mewn cymunedau trefol i orfod teithio 30 km neu fwy i gael gwaith.

into car ownership that they cannot really afford. A lack of alternative options to cars forces people, particularly those in rural areas, to choose between getting into debt or being cut off from jobs, health services, shops and so on. The dependence on cars is at its worst in rural communities. The Rural Development Sub-committee in the last Assembly demonstrated that people in rural areas were more likely than those in urban communities to have to travel 30 km or more to access employment.

Mae'r Cynghrair Cefn Gwlad wedi amcangyfrif bod pobl mewn ardaloedd gwledig yn gorfod teithio tua 10,000 milltir y flwyddyn i gael mynediad at wasanaethau hanfodol. Mae hynny 43% ymhellach na phobl mewn trefi. Mae hefyd wedi cyhoeddi ymchwil yr wythnos ddiwethaf sy'n dangos bod disel mewn ardaloedd gwledig yn costio 4c y litr yn fwy ar gyfartaledd nac mewn ardaloedd trefol. Mae pobl yn teithio 43% ymhellach ac yn talu 4c y litr yn fwy am danwydd—fe allwch chi wneud y sỳms.

The Countryside Alliance has estimated that people in rural areas have to travel some 10,000 miles per annum to access essential services. That is 43% further than people in urban areas. It has also published research last week that demonstrates that diesel in rural areas costs 4p more per litre on average than in urban areas. People travel 43% further and pay 4p more per litre for fuel—you can do the sums yourselves.

Oherwydd poblogaeth wasgaredig, dwysedd isel, a thirwedd anodd, mae darparu trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol mewn ardaloedd gwledig yn cael ei weld yn rhy ddrud ac yn rhy anodd. Mae polisi trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig yn draddodiadol wedi canolbwyntio ar ymestyn y rhwydwaith ffyrdd. Os bu erioed unrhyw amheuaeth, mae'r ymchwil a gyhoeddwyd yr wythnos ddiwethaf ynghylch rhwystrau i fynediad wedi dangos y tu hwnt i unrhyw amheuaeth nad yw hynny bellach yn gynaliadwy.

Due to the sparse population of low density and the difficult landscape, the provision of effective public transport in rural areas is seen as being too expensive and too difficult. Transport policy in rural areas has traditionally concentrated on extending the road network. If there was ever any doubt, the research published last week on barriers to access has shown beyond any doubt that that is no longer sustainable.

Mae angen newid y ffordd rydym yn meddwl am drafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig. Yn hytrach na cheisio gwneud i fodelau trefol ffitio cymunedau gwledig a gweld y gwasanaeth fel estyniad o ddarpariaeth drefol, mae angen man cychwyn gwahanol a throi'r peth ar ei ben. Ni ddylid creu polisi trafnidiaeth drefol ac yna asesu'r polisi yn erbyn anghenion cymunedau gwledig; dylid asesu anghenion cymunedau gwledig yn y lle cyntaf ac yna cyflwyno datrysiadau penodol. Trafnidiaeth yw un o'r ffactorau allweddol fydd yn helpu sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy i'r cymunedau hynny sy'n teimlo

We need to change the way in which we think about transport in rural areas. Instead of trying to make urban models fit rural communities and seeing the service as an extension of urban provision, we need a different starting point and to turn the whole thing on its head. We should not create an urban transport policy and then assess it against the needs of rural communities; the needs of rural communities should be assessed in the first place and specific solutions found. Transport is one of the key factors that will help to ensure a more sustainable future for those communities that

eu bod yn cael eu gwthio ymhellach ac yn bellach oddi wrth gwasanaethau sylfaenol.

feel that they are being pushed further and further away from basic services.

Mae trafnidiaeth, felly, yn cyflawni rôl gwbl ganolog i alluogi cymunedau gwledig i weithredu neu i beidio â gweithredu, i flodeuo neu i wywo. Gall trafnidiaeth fod yn *place maker* neu yn *place breaker*. Mae cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus amgen yn y parciau cenedlaethol ac yn yr ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol yng Nghymru wedi dangos yn gyson y buddiannau o leihau traffig ceir, o ddarparu modd trafnidiaeth amgen i dwristiaid ac o ddarparu gwasanaethau ychwanegol gwerthfawr i'r cymunedau gwledig y maen nhw'n teithio drwyddynt. Mae'r manteision, felly, yn glir: maent yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.

Transport, therefore, fulfils a key central role in enabling rural communities to work or not work, to prosper or to perish. Transport can be a place maker or a place breaker. Alternative public transport schemes in the national parks and in the areas of outstanding natural beauty in Wales have consistently shown the benefits of reducing car traffic, of providing alternative modes of transport to tourists and of providing additional valuable services to the rural communities through which they travel. The benefits, therefore, are clear: they are economic and social as well as environmental.

There are plenty of examples of proven alternative, more sustainable, modes of transport around. Demand-responsive transport is already well developed in parts of Europe, including Germany and Switzerland, and it has been successfully implemented, for example, in Monmouthshire, via the Grass Routes community local bus service for several years. Over 35,000 passenger journeys are currently undertaken throughout the county per annum, with passenger numbers increasing year on year. The authority has noted over £80,000-worth of cost savings through the withdrawal of previously under-utilised routes in favour of the more popular demand-responsive service.

Mae digon o enghreifftiau ar gael o ddulliau teithio amgen, mwy cynaliadwy, y profwyd eu bod yn gweithio. Mae trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw eisoes wedi'i datblygu'n dda mewn rhannau o Ewrop, gan gynnwys yr Almaen a'r Swistir, ac fe'i gweithredwyd yn llwyddiannus, er enghraifft, yn Sir Fynwy, drwy'r gwasanaeth bws cymunedol lleol 'Grass Routes' am nifer o flynyddoedd. Ar hyn o bryd, mae dros 35,000 o deithiau'n cael eu gwneud gan deithwyr ledled y sir bob blwyddyn, gyda nifer y teithwyr yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r awdurdod wedi nodi gwerth dros £80,000 o arbedion cost drwy ddileu llwybrau nad oeddent yn cael eu defnyddio ddigon yn flaenorol o blaid y gwasanaeth mwy poblogaidd sy'n ymateb i'r galw.

Dial-a-ride services provide demand-responsive door-to-door services for members, often using accessible vehicles and taking people to particular destinations such as the town centre or hospital, or even dropping them off anywhere within a defined area. Unlike conventional bus services, the routes are largely determined by where passengers live and where they wish to go. There are numerous examples of dial-a-ride services in rural Wales, delivered by community organisations such as Conwy Community Transport, the Preseli Rural Transport Association, Llanidloes Community Transport and Newtown and District Dial a Ride.

Mae gwasanaethau Galw'r Gyrrwr yn darparu gwasanaethau sy'n ymateb i'r galw ac sy'n cludo aelodau o ddrws i ddrws, a hynny'n aml gan ddefnyddio cerbydau hygyrch a mynd â phobl i fannau penodol megis canol y dref neu'r ysbyty, neu hyd yn oed eu gollwng yn unrhyw le mewn ardal benodol. Yn wahanol i wasanaethau bysiau confensiynol, caiff y llwybrau eu pennu i raddau helaeth gan ble mae'r teithwyr yn byw ac i ble maent yn dymuno mynd. Ceir nifer o enghreifftiau o wasanaethau Galw'r Gyrrwr yng nghefn gwlad Cymru, a ddarperir gan fudiadau cymunedol megis Cludiant Cymunedol Conwy, Cymdeithas Cludiant Gwledig y Preseli, Cludiant Cymunedol

Llanidloes a Chynllun Galw'r Gyrrwr y Drenewydd a'r Cylch.

Group transport services offer affordable transport for voluntary and community groups, usually using mini buses or MPVs. Most will also supply a driver, if required. Minibus brokerage schemes, such as the minibus match scheme in Pembrokeshire, can afford additional access to a pool of minibuses, too. There are social car schemes and lift-giving schemes, typically providing door-to-door and, in some cases, even room-to-room transport for individuals, providing essential journeys, such as shopping trips or trips to the doctor's. Social car schemes operate in most parts of rural Wales, where transport needs are not met via services using larger vehicles. Examples of such services are provided by the Women's Royal Voluntary Service's Country Cars scheme in Carmarthenshire, Pembrokeshire, Powys and Ceredigion. Car clubs, car sharing schemes and making walking and cycling safer for our rural communities can also make a significant contribution, and I know that others will be elaborating on these later.

Mae gwasanaethau trafnidiaeth grŵp yn cynnig trafnidiaeth fforddiadwy ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol, gan ddefnyddio bysiau mini neu gerbydau amlbwrpas fel rheol. Bydd y rhan fwyaf yn darparu gyrrwr hefyd, os oes angen. Gall cynlluniau broceriaeth bysiau mini, megis y cynllun bachu bws yn Sir Benfro, olygu bod modd cael mwy o fynediad i gronfa o fysiau mini hefyd. Ceir cynlluniau ceir cymdeithasol a chynlluniau rhoi lifft, sydd fel rheol yn darparu trafnidiaeth o ddrws i ddrws ac, mewn rhai achosion, hyd yn oed trafnidiaeth o ystafell i ystafell ar gyfer unigolion, gan ddarparu ar gyfer teithiau hanfodol, megis teithiau siopa neu ymweliadau â'r meddyg. Mae cynlluniau ceir cymdeithasol yn gweithredu yn y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig yng Nghymru, lle na chaiff anghenion o ran trafnidiaeth eu diwallu gan wasanaethau sy'n defnyddio cerbydau mwy o faint. Caiff enghreifftiau o wasanaethau o'r fath eu darparu gan gynllun Ceir Cefn Gwlad Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y Merched yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Powys a Cheredigion. Gall clybiau ceir, cynlluniau rhannu ceir, a gwneud cerdded a beicio yn fwy diogel i'n cymunedau gwledig hefyd wneud cyfraniad sylweddol, a gwn y bydd eraill yn ymhelaethu ar y rhain yn ddiweddarach.

These are just some of the various initiatives that are already in existence in rural areas. There is no reason why innovative transport alternatives such as these cannot be provided more widely if the desire and support is there to do so. Many of the existing schemes often reflect local initiatives rather than being part of a planned, strategic, national approach. They often have no long-term or stable funding and do not form part of any overall co-ordinated approach. The One Wales Government started to rebalance the priorities with a shift away from roads toward integrated public transport. This Government now needs to put its foot on the accelerator and do even more through a national strategy for the provision of sustainable rural transport in Wales. Only 1% of the huge sums being mooted yesterday in relation to just one M4 project would transform the potential for

Dyma rai yn unig o'r mentrau amrywiol sydd eisoes yn bodoli mewn ardaloedd gwledig. Nid oes dim rheswm pam na all dewisiadau arloesol o ran trafnidiaeth, megis y rhain, gael eu darparu yn fwy eang os yw'r awydd a'r gefnogaeth ar gael i wneud hynny. Yn aml, mae llawer o'r cynlluniau presennol yn adlewyrchu mentrau lleol yn hytrach na'u bod yn rhan o ddull gweithredu cenedlaethol, strategol, a gynlluniwyd. Yn aml, nid oes ganddynt gyllid hirdymor neu sefydlog ac nid ydynt yn rhan o unrhyw ddull gweithredu cydgysylltiedig cyffredinol. Dechreuodd Llywodraeth Cymru'n Un ailgydbwyso'r blaenoriaethau gan symud oddi wrth ffyrdd a thuag at drafnidiaeth gyhoeddus integredig. Yn awr, mae angen i'r Llywodraeth hon roi ei throed ar y sbardun a gwneud mwy fyth trwy strategaeth genedlaethol ar gyfer darparu trafnidiaeth wledig gynaliadwy yng

sustainable transport in rural areas. In doing so, it would help to address transport poverty, help to tackle climate change and help to give many of our rural communities a new lease of life.

Nghymru. Byddai 1% yn unig o'r symiau enfawr a grybwyllwyd ddoe mewn perthynas ag un prosiect yn unig ar gyfer yr M4 yn trawsnewid y potensial ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy mewn ardaloedd gwledig. Wrth wneud hynny, byddai'n helpu i fynd i'r afael â thlodi trafnidiaeth, yn helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac yn helpu i roi bywyd newydd i lawer o'n cymunedau gwledig.

**Rebecca Evans:** In a debate on sustainable rural transport in this Chamber in January, I talked about how new research had shown that car owners in the poorest households in Wales are spending nearly a quarter of their income on the cost of motoring, and about how buying and running a car is becoming a major cause of household debt. Last week, a new report jointly published by Sustrans Cymru, Save the Children, Citizens Advice Cymru and Age Cymru revealed the extent of the problem. 'Access Denied', a report on transport poverty in Wales showed how over 1 million people in Wales are struggling with rising car costs. In my region of Mid and West Wales, nearly 0.25 million people are likely to be feeling the strain.

**Rebecca Evans:** Mewn dadl ar drafnidiaeth wledig gynaliadwy yn y Siambr hon ym mis Ionawr, soniais am y modd yr oedd ymchwil newydd wedi dangos bod perchnogion ceir yn y cartrefi tlotaf yng Nghymru yn gwario bron i chwarter eu hincwm ar gost moduro, a soniais am y modd y mae prynu a rhedeg car yn dod yn un o'r prif bethau sy'n achosi dyled mewn cartrefi. Yr wythnos diwethaf, cafodd maint y broblem ei ddatgelu mewn adroddiad newydd a gyhoeddwyd ar y cyd gan Sustrans Cymru, Achub y Plant, Cyngor ar Bopeth Cymru ac Age Cymru. Dangosodd 'Access Denied', adroddiad ar dlodi trafnidiaeth yng Nghymru, fod dros 1 filiwn o bobl yng Nghymru yn cael trafferth ymdopi â chostau cynyddol cadw car. Yn fy rhanbarth i, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae'n debyg y bydd bron i 0.25 miliwn o bobl yn teimlo'r straen.

3.30 p.m.

Transport poverty is defined by charities as when a household spends more than 10% of its income on transport. The rising cost of transport, and the lack of access to public transport in many rural areas, means that many people feel excluded and isolated, unable to access the opportunities, from jobs to healthcare, to education and social opportunities, that many take for granted. This affects people of all ages and backgrounds, but I begin by drawing particular attention to the effect that the lack of transport can have on the lives of young people living in rural areas. The Joseph Rowntree Foundation published research on young people and transport in rural areas based on interviews in which young people were able to give their views and experiences. Although its research was undertaken in four locations in the south-west of England, it would be fair to say that some of the key issues would be the same here. Young people said that getting to see friends

Mae elusennau'n diffinio tlodi trafnidiaeth fel achosion lle y mae cartref yn gwario mwy na 10% o'i incwm ar drafnidiaeth. Mae cost gynyddol trafnidiaeth, a diffyg mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus mewn llawer o ardaloedd gwledig, yn golygu bod llawer o bobl yn teimlo'n unig ac wedi eu heithrio, heb fod ganddynt fynediad i'r cyfleoedd y mae llawer o bobl yn eu cymryd yn ganiataol, o swyddi i ofal iechyd, i addysg a chyfleoedd cymdeithasol. Mae hynny'n effeithio ar bobl o bob oed a chefndir, ond dechreuaf drwy dynnu sylw arbennig at yr effaith y gall diffyg trafnidiaeth ei chael ar fywydau pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Cyhoeddodd Sefydliad Joseph Rowntree ymchwil ar bobl ifanc a thrafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig yn seiliedig ar gyfweliadau lle'r oedd pobl ifanc yn gallu sôn am eu safbwyntiau a'u profiadau. Er i'r gwaith ymchwil gael ei gynnal mewn pedwar lleoliad yn ne-orllewin Lloegr, byddai'n deg dweud y byddai rhai o'r materion allweddol

or going out at night pose significant problems. Sometimes, they have no friends living locally, so socialising becomes dependent on transport. When young people do meet friends locally, their public presence in a group in a village can be so high profile that they feel open to scrutiny and comment. The research also demonstrated how limited public transport can mean that those young people entering employment and training are restricted in the choices that are available to them in terms of when and where they can learn or work.

yr un fath yng Nghymru. Dywedodd pobl ifanc fod gweld ffrindiau neu fynd allan gyda'r nos yn peri problemau sylweddol. Weithiau, nid oes ganddynt ffrindiau sy'n byw yn lleol, ac felly rhaid iddynt ddibynnu ar drafnidiaeth er mwyn cymdeithasu. Pan fydd pobl ifanc yn cwrdd â ffrindiau yn lleol, gall eu presenoldeb cyhoeddus mewn grŵp mewn pentref fod mor amlwg nes eu bod yn teimlo eu bod yn destun sylw a sylwadau gan eraill. Dangosodd yr ymchwil hefyd sut y gall trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig olygu bod llai o ddewis ar gael i'r bobl ifanc hynny sy'n dechrau ymwneud â chyflogaeth a hyfforddiant, o ran pryd a ble y gallant ddysgu neu weithio.

Indeed, the 'Access Denied' report shows that there are issues regarding access to learning for people of all ages. Evidence cited in that report show that breakfast and homework clubs, as well as sport and outdoor learning activities, can significantly improve pupils' attainment, attitude to school and attendance. Of equal importance is enabling adult learners and older people to access continuing training and lifelong learning opportunities. However, evidence suggests that those on low incomes, without private means of transport, can miss out on these opportunities. When it comes to finding a job, two out of five jobseekers say that lack of affordable transport is a barrier to getting a job. I welcome the Cabinet statement that has been issued in the last hour committing to removing barriers to employment, including accessibility.

Yn wir, mae'r adroddiad 'Access Denied' yn dangos bod pobl o bob oed yn wynebu problemau'n ymwneud â mynediad i ddysgu. Mae tystiolaeth a grybwyllir yn yr adroddiad hwnnw'n dangos y gall clybiau brecwast a gwaith cartref, yn ogystal â chwaraeon a gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored, arwain at welliant sylweddol yng nghyrhaeddiad disgyblion, eu hagwedd at yr ysgol a'u presenoldeb. Mae galluogi oedolion sy'n dysgu a phobl hŷn i gael mynediad i hyfforddiant parhaus a chyfleoedd dysgu gydol oes yr un mor bwysig. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y sawl sydd ar incwm isel, ac sydd heb ddull preifat o deithio, yn gallu colli'r cyfleoedd hynny. Pan ddaw'n fater o ddod o hyd i swydd, mae dau o bob pum ceisiwr gwaith yn dweud bod diffyg trafnidiaeth fforddiadwy yn rhwystr i gael swydd. Rwyf yn croesawu datganiad y Cabinet a gyhoeddwyd yn ystod yr awr ddiwethaf, lle y ceir ymrwymiad i ddileu rhwystrau i gyflogaeth, gan gynnwys hygyrchedd.

Access to childcare is important for enabling parents to return to work, but without accessible locations, as well as flexible and responsive transport options, this can result in a complicated chain of trips that can be expensive, time-consuming and arduous. To overcome barriers in accessing essential goods and services, car ownership can seem to many to be an essential lifestyle choice, but as fuel prices rise and become more volatile, people are being priced out of car ownership, or forced into debt. A quarter of households in Wales already have no car,

Mae mynediad i ofal plant yn bwysig o ran galluogi rhieni i ddychwelyd i'r gwaith, ond heb leoliadau hygyrch, yn ogystal â dewisiadau hyblyg ac ymatebol o ran trafnidiaeth, gall hynny arwain at gadwyn gymhleth o deithiau a all fod yn flinderus ac yn gostus o safbwynt arian ac amser. I lawer o bobl, gall bod yn berchen ar gar ymddangos yn ddewis hanfodol i'w ffordd o fyw er mwyn gallu goresgyn rhwystrau sy'n ymwneud â chael mynediad i nwyddau a gwasanaethau hanfodol, ond wrth i brisiau tanwydd godi a dod yn fwy anwadal, mae

including half of all lone parents and two thirds of single pensioners. On top of this, many people find that public transport is too expensive, inaccessible, or inappropriate to meet their needs. This is why I am joining Llyr and William Powell in calling for the promotion and funding of activity focused on enabling a wide variety of low carbon, sustainable modes of transport in rural areas.

bod yn berchen ar gar yn mynd yn rhy gostus i bobl, neu maent yn cael eu gorfodi i fynd i ddyled. Mae chwarter cartrefi Cymru eisoes heb gar, gan gynnwys hanner yr holl rieni sengl a dwy ran o dair o bensiynwyr sengl. At hynny, mae llawer o bobl yn gweld bod trafnidiaeth gyhoeddus yn rhy ddrud, yn anhygyrch, neu'n amhriodol i ddiwallu eu hanghenion. Dyna pam rwyf yn ymuno â Llyr a William Powell i alw am gamau i hybu ac ariannu gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar hwyluso amrywiaeth eang o ddulliau teithio cynaliadwy, carbon isel mewn ardaloedd gwledig.

There are some examples of very good practice and I would like to see much more of this good practice being delivered. Community and demand-responsive transport schemes, such as the award-winning Bwcabus scheme, offer flexible forms of public transport, as well as allowing local authorities to use resources more effectively where demand is dispersed. Car clubs and car-sharing schemes, where they exist, provide affordable alternatives to full car ownership, and I would like to see the Welsh Government explore how it can support communities to take the step of introducing such schemes, which may at first seem a daunting prospect. I would like to close by saying that the national transport plan is not the only tool available to us. The Government's forthcoming anti-poverty action plan provides an opportunity for tackling all kinds of poverty, and I would like to see transport poverty addressed robustly in that.

Ceir rhai enghreifftiau o arfer da iawn, a hoffwn weld llawer mwy o'r arfer da hwn yn cael ei weithredu. Mae cynlluniau trafnidiaeth gymunedol a chynlluniau sy'n ymateb i'r galw, megis y cynllun Bwcabus arobryn, yn cynnig trafnidiaeth gyhoeddus hyblyg, ac maent hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol lle y mae'r galw yn wasgaredig. Yn y mannau lle y maent yn bodoli, mae clybiau ceir a chynlluniau rhannu ceir yn cynnig dewisiadau amgen fforddiadwy yn lle bod yn berchen ar eich car eich hun, a hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn archwilio sut y gall gynorthwyo cymunedau i gymryd y cam o gyflwyno cynlluniau o'r fath, a allai ymddangos yn frawychus i ddechrau. Hoffwn gloi drwy ddweud nad y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yw'r unig adnodd sydd ar gael inni. Mae cynllun gweithredu gwrthdlodi'r Llywodraeth, sydd ar ddod, yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â phob math o dlodi, a hoffwn ei weld yn mynd i'r afael yn gadarn â thlodi trafnidiaeth.

**William Powell:** I am very grateful for this opportunity to bring forward this important debate today, in conjunction with Llyr Huws Gruffydd and Rebecca Evans, and with the support of Antoinette Sandbach. Sustainable transport is, with no doubt, one of the biggest issues that face rural areas across Wales. As we have already heard, rural residents are disproportionately affected by increases in fuel costs, because of their location. For instance, petrol is, on average, some 5p per litre more costly in towns such as Aberystwyth, Llanidloes and Newtown than here in Cardiff, and the fact that there is often

**William Powell:** Rwyf yn ddiolchgar iawn am y cyfle hwn i gyflwyno'r ddadl bwysig hon heddiw, ar y cyd â Llyr Huws Gruffydd a Rebecca Evans, gyda chefnogaeth Antoinette Sandbach. Heb os, trafnidiaeth gynaliadwy yw un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu ardaloedd gwledig ledled Cymru. Fel y clywsom eisoes, mae cynnydd mewn prisiau tanwydd yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n byw yng nghefn gwlad, oherwydd eu lleoliad. Er enghraifft, ar gyfartaledd, mae petrol 5c y litr yn fwy drud mewn trefi megis Aberystwyth, Llanidloes a'r Drenewydd nag yma yng Nghaerdydd, ac mae'r ffaith bod yr

such a limited range of fuelling stations available exacerbates this problem. As Sustrans' 'Access Denied' report highlighted just last week, the impact of transport poverty on people's lives is real and far-reaching, thereby touching on access to work, learning and healthcare, shops and, most importantly, family. As we have just heard, it also touches on access to important leisure facilities and a social life.

ystod o orsafoedd tanwydd sydd ar gael mor gyfyngedig, yn aml, yn gwaethygu'r broblem hon. Fel y dangosodd adroddiad Sustrans 'Access Denied' mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf, mae effaith tlodi trafnidiaeth ar fywydau pobl yn real ac yn bellgyrhaeddol, ac yn effeithio ar fynediad i waith, dysgu a gofal iechyd, siopau ac, yn bwysicaf oll, y teulu. Fel yr ydym newydd glywed, mae'n effeithio hefyd ar fynediad i gyfleusterau hamdden pwysig a bywyd cymdeithasol.

When you are in rural Wales, these issues become even more acute. It is crucial that our plans address this in future. It is for this reason that any transport plans must have the dual focus of shortening journeys through improvements to infrastructure, while reducing our reliance on high carbon transport methods. On the former, it is fair to say that the national transport plan includes many innovative initiatives. That has the capacity to reduce rural Wales's transport problem. However, it is abundantly clear that more work needs to be done in this area so as to prevent rural Wales from being left behind other regions and being further disadvantaged. That is why the enhancement of sustainable transport is essential for such areas.

Pan fyddwch yng nghefn gwlad Cymru, mae'r problemau hyn hyd yn oed yn fwy difrifol. Mae'n hanfodol bod ein cynlluniau yn rhoi sylw i hyn yn y dyfodol. Dyma'r rheswm pam mae'n rhaid i unrhyw gynlluniau trafnidiaeth ganolbwyntio ar ddau beth, sef byrhau teithiau drwy welliannau i'r seilwaith, a lleihau ein dibyniaeth ar ddulliau teithio sy'n drwm ar garbon. O ran byrhau teithiau, mae'n deg dweud bod y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yn cynnwys llawer o fentrau arloesol. Mae gan hynny'r gallu i leihau'r broblem drafnidiaeth yng nghefn gwlad Cymru. Fodd bynnag, mae'n gwbl amlwg bod angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn er mwyn atal cefn gwlad Cymru rhag cael ei adael ar ôl rhanbarthau eraill a bod dan fwy o anfantais fyth. Dyna pam mae gwella trafnidiaeth gynaliadwy yn hanfodol ar gyfer ardaloedd o'r fath.

Such transport can take many forms. One method is to simply allow people to abandon their cars more frequently and to use public transport. That is why I have consistently called for additional stops to be considered on the Cambrian line, such as the initiatives that have come forward at Bow Street and Carno and within the area of St Clears on the west Wales line, where the campaign is growing to bring forward similar demands.

Gall trafnidiaeth o'r fath fod ar sawl ffurf. Un dull yw galluogi pobl i adael eu ceir yn fwy aml a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Dyna pam rwyf wedi galw'n gyson am ystyried cynnwys arosfannau ychwanegol ar lein y Cambrian, megis y mentrau sydd wedi'u cyflwyno yn Bow Street a Charno ac yn ardal Sanclêr ar linell gorllewin Cymru, lle y mae'r ymgyrch yn tyfu i gyflwyno gofynion tebyg.

Another method is to reduce our reliance on high carbon by supporting new and innovative technology. Anyone who knows rural Wales well will know that the car is, unfortunately, king. However, while public transport can reduce that effect to some extent, we must also realise that, in many practical cases, it will always be a choice of using your car or going nowhere. That is why we need to do all that we can to promote innovative technologies. For example, we

Dull arall yw lleihau ein dibyniaeth ar ddulliau teithio sy'n drwm ar garbon drwy gefnogi technoleg newydd ac arloesol. Bydd unrhyw un sy'n gyfarwydd iawn â chefn gwlad Cymru yn gwybod bod y car yn teyrnasu, yn anffodus. Fodd bynnag, er y gall trafnidiaeth gyhoeddus leihau'r effaith honno i ryw raddau, mae'n rhaid inni sylweddoli hefyd, mewn llawer o achosion ymarferol, mai'r dewis bob amser fydd defnyddio eich car neu aros yn eich unfan. Dyna pam mae

need to look at such initiatives as electric and hybrid vehicles. They clearly offer a method by which we can reduce our over-reliance on carbon. For example, we should not only be enabling, but requiring, businesses such as out-of-town supermarkets to provide recharge points in their car parks to facilitate this.

angen inni wneud popeth o fewn ein gallu i hybu technolegau arloesol. Er enghraifft, mae angen inni edrych ar fentrau megis cerbydau trydan a hybrid. Maent yn amlwg yn cynnig modd inni leihau ein gorddibyniaeth ar garbon. Er enghraifft, yn ogystal â galluogi, dylem fod yn gorfodi busnesau megis archfarchnadoedd y tu allan i drefi i ddarparu pwyntiau ailwefru yn eu meysydd parcio i hwyluso hynny.

Looking to other schemes, it is important to note successes that we have seen such as, for example, in the Brecon Beacons National Park Authority, the b-bug scheme, which is again based around battery vehicles. That is how, to quote the former Secretary of State for the environment, national parks are showing themselves to be ‘test beds’ of sustainable practice. Powered entirely by electricity derived from hydro projects in the area, these schemes enable cheap and ultra low-energy vehicles to be used by both residents and visitors; it is also buttressing the visitor economy. To get these projects off the ground, the groups involved had to install their own recharge facilities. While this scheme is limited to just two people per car, there is no reason why such a concept cannot be extended to the community transport that has already played such a key role in our community.

Gan edrych ar gynlluniau eraill, mae’n bwysig nodi’r llwyddiannau yr ydym wedi eu gweld, megis y cynllun bygi trydan yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, er enghraifft, sy’n seiliedig eto ar gerbydau batri. A dyfynnu’r cyn-Ysgrifennydd Gwladol dros yr amgylchedd, dyna sut mae parciau cenedlaethol yn dangos eu bod yn fannau arbrofi ar gyfer arferion cynaliadwy. Mae’r cynlluniau hyn yn galluogi trigolion ac ymwelwyr i ddefnyddio cerbydau rhad sy’n defnyddio bach iawn o ynni a ddaw’n gyfan gwbl o drydan a gynhyrchir gan brosiectau ynni dŵr yn yr ardal; mae’r cynlluniau hefyd yn cynnal yr economi ymwelwyr. Er mwyn dechrau’r prosiectau hyn, bu’n rhaid i’r grwpiau dan sylw osod eu cyfleusterau ailwefru eu hunain. Er bod y cynllun hwn wedi’i gyfyngu i ddim ond dau o bobl ym mhob cerbyd, nid oes rheswm pam na all y cysyniad gael ei ymestyn i’r cynlluniau trafnidiaeth gymunedol sydd eisoes wedi chwarae rhan mor allweddol yn ein cymuned.

Finally, and returning to the ‘Access Denied’ report, it is clear that, while the Welsh Government has little influence on global events that constantly force up fuel prices, it does have the influence to embrace and to help enhance the schemes that reduce our dependency on the car. By supporting this proposal today, I hope that we will further increase the Welsh Government’s influence in this vital area.

Yn olaf, a dychwelyd i’r adroddiad ‘Access Denied’, mae’n amlwg, er mai ychydig o ddylanwad sydd gan Lywodraeth Cymru ar ddigwyddiadau byd-eang sy’n gwthio prisiau tanwydd i fyny o hyd, bod ganddi’r dylanwad i wneud yn fawr o’r cynlluniau sy’n lleihau ein dibyniaeth ar y car, a helpu i’w gwella. Drwy gefnogi’r cynnig hwn heddiw, rwyf yn gobeithio y byddwn yn cynyddu ymhellach ddylanwad Llywodraeth Cymru yn y maes hollbwysig hwn.

**Antoinette Sandbach:** I am particularly happy to add my support to this motion. People living in Wales’s rural communities are often isolated by the lack of transport links. Growing numbers, as highlighted by the ‘Access Denied’ report, are facing transport poverty. The relative absence of

**Antoinette Sandbach:** Rwyf yn falch iawn o ychwanegu fy nghefnogaeth i’r cynnig hwn. Mae pobl sy’n byw yng nghymunedau gwledig Cymru yn cael eu hynysu’n aml gan ddiffyg cysylltiadau trafnidiaeth. Fel y mae’r adroddiad ‘Access Denied’ yn dangos, mae nifer cynyddol o bobl yn wynebu tlodi

rural Wales from consideration in the national transport plan needs to be addressed by this Government. It is a basic fact of life in many rural areas that there simply is no alternative to the car as a mode of transport, yet the costs are considerable. Now, more so than ever, at a time when incomes are under pressure, we have fuel prices at a record high. Rural motorists would have been facing even higher costs if the UK Government had not introduced a fuel duty stabiliser. However, in particular, for those people who are unable to run a car—those on low incomes, the elderly, students, and all of the groups that have been highlighted in 'Access Denied—are the worst affected and are isolated from services and amenities, such as healthcare, work opportunities and education that those in urban areas have taken for granted. Llyr Huws Gruffydd, in his address to the Assembly, pointed out very effectively where those issues lie.

trafnidiaeth. Mae angen i'r Llywodraeth hon fynd i'r afael â'r ffaith nad yw cefn gwlad Cymru yn cael ei ystyried fawr ddim yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Mae'n ffaith syml mewn llawer o ardaloedd gwledig nad oes dewis arall yn lle'r car fel dull o deithio, ac eto mae'r costau'n sylweddol. Yn awr, yn fwy nag erioed, ar adeg pan fo incwm pobl dan bwysau, mae gennym brisiau tanwydd sy'n uwch nag erioed. Byddai modurwyr gwledig wedi bod yn wynebu costau uwch fyth pe na bai Llywodraeth y DU wedi cyflwyno camau i sefydlogi treth ar danwydd. Fodd bynnag, y bobl hynny'n benodol na allant redeg car—y rheini sydd ar incwm isel, yr henoed, myfyrwyr, a phob un o'r grwpiau sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad 'Access Denied'—yw'r rhai yr effeithir arnynt waethaf, a chânt eu hynysu oddi wrth wasanaethau ac amwynderau, megis gofal iechyd, cyfleoedd gwaith ac addysg, y mae'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd trefol wedi eu cymryd yn ganiataol. Wrth annerch y Cynulliad nododd Llyr Huws Gruffydd yn effeithiol iawn ble'n union mae'r problemau hynny.

With regard to students getting to college, I have been contacted by people in my region who, every day, face a 45-minute-plus bus journey to and from their sixth form college. If there are any problems with the route, as unfortunately there often are, they can miss a whole day's attendance, which is obviously enormously disruptive to their education. Another example is the students of Coleg Menai, who each day travel two hours to attend their courses, changing buses along the route.

O ran myfyrwyr sy'n mynd i'r coleg, rwyf wedi cael cyswllt â phobl yn fy rhanbarth i, sy'n wynebu taith 45 munud a mwy mewn bws yn ôl ac ymlaen i'w coleg chweched dosbarth bob dydd. Os oes unrhyw broblemau â'r llwybr, sy'n digwydd yn aml yn anffodus, gallant golli diwrnod cyfan yn y coleg, sy'n amlwg yn tarfu'n fawr iawn ar eu haddysg. Enghraifft arall yw'r myfyrwyr o Goleg Menai, sy'n teithio dwy awr y dydd i fynychu eu cyrsiau, gan newid bysiau ar hyd y ffordd.

The national transport plan, the revised version of which is just five pages long, does not provide adequate support for sustainable transport in rural Wales. As it currently stands, the investment is concentrated in urban areas and is still focused on road improvements and car-based transport, the cost of which is rapidly escalating. Traditionally, the UK Department for Transport in London has expected transport schemes to demonstrate benefits of at least double the construction costs; only seven of the 26 trunk road schemes in the Welsh Government's national transport plan pass that test, according to figures disclosed by the

Nid yw'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, y mae'r fersiwn diwygiedig ohono'n gwta pum tudalen, yn rhoi digon o gefnogaeth i drafnidiaeth gynaliadwy yng nghefn gwlad Cymru. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae'r buddsoddiad wedi'i grynhoi mewn ardaloedd trefol ac mae'n canolbwyntio o hyd ar welliannau i ffyrdd a thrafnidiaeth sy'n seiliedig ar y car, ac mae cost hynny'n cynyddu'n gyflym. Yn draddodiadol, mae Adran Drafnidiaeth y DU yn Llundain wedi disgwyl i gynlluniau trafnidiaeth ddangos manteision sydd o leiaf ddwywaith y costau adeiladu; dim ond saith o'r 26 o gynlluniau cefnffyrdd yng nghynllun trafnidiaeth

Welsh Government in response to a freedom of information request last year. Almost two years since the initial national transport plan, Machynlleth-based transport consultant Ian Taylor has claimed that the plans' schemes would score even lower if that analysis was repeated today, because car use, and therefore the predicted benefits of new roads, has reduced in recent years thanks to high fuel and insurance prices, the economic downturn and other factors. Mr Taylor, who was the director of the Transport for Quality of Life consultancy, said that the Welsh Government was accepting ridiculously low levels of benefit as justification for spending money on road schemes.

cenedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n bodloni'r prawf hwnnw, yn ôl ffigurau a ddatgelwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i gais rhyddid gwybodaeth y llynedd. Bron i ddwy flynedd ers cyhoeddi'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol gwreiddiol, mae'r ymgynghorydd trafnidiaeth o Fachynlleth, Ian Taylor, wedi honni y byddai'r cynigion a amlinellir yn y cynllun yn sgorio'n is eto pe bai'r dadansoddiad hwnnw'n cael ei ailadrodd heddiw, oherwydd bod y defnydd o geir, ac felly'r manteision a ragwelir o adeiladu ffyrdd newydd, wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, diolch i brisiau tanwydd ac yswiriant uchel, y dirywiad yn yr economi a ffactorau eraill. Dywedodd Mr Taylor, a oedd yn gyfarwyddwr yr ymgynghoriaeth Transport for Quality of Life, fod Llywodraeth Cymru yn derbyn manteision chwerthinllyd o fach fel cyfiawnhad dros wario arian ar gynlluniau ffyrdd.

I highlight the support for community transport schemes across the parties in the Assembly and, as Llyr and Rebecca Evans have already highlighted, very successful schemes are being run in Monmouthshire and elsewhere. There are schemes operating in Flintshire and in Llanrwst, but their future is uncertain and their funding is subject to review. This Government has considerable resources within the transport budget, the majority of which are concentrated on capital-intensive road improvement works. While those schemes that have had a proven track record in addressing transport poverty and reducing car dependence receive only a sliver of funding, the Government can do more and, indeed, in terms of carbon-neutral travel, the Government could look at introducing among its own fleet and in the public sector the use of more electric vehicles. That would help to provide the infrastructure for more carbon-neutral transport and travel, by having the charging points at set points, where there is already the delivery of public services.

Tynnaf sylw at y gefnogaeth i gynlluniau trafnidiaeth gymunedol ar draws y pleidiau yn y Cynulliad, ac fel y mae Llyr a Rebecca Evans eisoes wedi nodi, ceir cynlluniau llwyddiannus iawn yn Sir Fynwy ac mewn mannau eraill. Mae cynlluniau ar waith yn Sir y Fflint ac yn Llanrwst, ond mae eu dyfodol yn ansicr ac mae eu cyllid yn cael ei adolygu. Mae gan y Llywodraeth hon adnoddau sylweddol yn y gyllideb drafnidiaeth, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio ar waith gwella ffyrdd, sy'n defnyddio llawer iawn o gyfalaf. Ar y llaw arall, bach iawn o gyllid a roddir i'r cynlluniau hynny y profwyd eu bod yn mynd i'r afael â thlodi trafnidiaeth ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar geir; gall y Llywodraeth wneud mwy, ac yn wir, o ran dulliau teithio carbon-niwtral, gallai'r Llywodraeth ystyried defnyddio mwy o gerbydau trydan yn ei fflyd ei hun ac yn y sector cyhoeddus. Byddai hynny'n helpu i ddarparu seilwaith ar gyfer mwy o ddulliau teithio a thrafnidiaeth carbon-niwtral, drwy gael pwyntiau ailwefru mewn mannau penodol, lle y mae gwasanaethau cyhoeddus eisoes yn cael eu darparu.

**Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** Diolch am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon, ar fater sy'n hynod o bwysig nid yn unig i unigolion, teuluoedd a chymunedau, ond i'r economi hefyd. Rwy'n sylwi bod y

**The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** Thank you for the opportunity to take part in this debate, on an issue that is extremely important not only for individuals, families and communities, but also for the

cynnig yn canolbwyntio ar drafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig ac, yn naturiol, rwy'n deall y rhesymau dros wneud hynny—yn bennaf oherwydd diffyg darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus mewn rhannau helaeth o Gymru. Mae Ynys Môn, fy etholaeth i, yn syrthio i'r categori hwnnw. Fodd bynnag, mae'n rhaid cofio bod y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol—ac rwy'n hawlio cyfrifoldeb am y ddogfen gyntaf gan mai yn ystod fy nghyfnod fel Gweinidog dros drafnidiaeth y cafodd ei llunio.

economy. I note that the motion focuses on transport in rural areas, and, naturally, I understand the reasons for that—mainly because of the lack of public transport provision in large parts of Wales. My constituency of Anglesey falls into that category. However, we must bear in mind that the national transport plan—and I claim responsibility for the original document, as it was during my time as Minister for transport that it was drawn up.

3.45 p.m.

Mae'r cynllun hwnnw'n darparu ar gyfer Cymru gyfan, ac mae'n rhaid inni dderbyn fod arbedion mawr i'w gwneud er mwyn lleihau allyriadau carbon o ddefnydd o geir mewn ardaloedd trefol, yn arbenning yn ein dinasoedd a gogledd-ddwyrain Cymru.

That scheme makes provision for all of Wales, and we have to accept that there are great savings to be made in order to reduce carbon emissions from car use in urban areas, particularly in our cities and north-east Wales.

Mae problem enfawr wrth geisio diwallu'r angen am system drafnidiaeth gyhoeddus ar hyn o bryd oherwydd y toriadau mewn gwariant cyhoeddus. Mae cefnogaeth ariannol, fel y bydd y Gweinidog yn ymwybodol, yn dibynnu ar gyfuniad o arian refeniw ac arian cyfalaf. Mae'r ddwy ffynhonell honno yn wynebu toriadau mawr.

There is a huge problem in trying to meet the need for a public transport system at the moment because of the cuts in public spending. Financial support, as the Minister will be aware, depends upon a combination of revenue funding and capital funding. Those two sources face huge cuts.

Un peth na chyfeiriwyd ato heddiw, ond sy'n bwysig cofnodi, yw bod problemau mawr gan y Gweinidog—roeddwn yn yr un sefyllfa—o ran telerau'r fasnachfraint bresennol gyda Trenau Arriva Cymru. Gwnaed y cytundeb gwreiddiol yn 2003 mewn cyfnod pan nad oedd modd rhagweld y cynnydd aruthrol yn nifer y bobl sy'n dymuno teithio ar drenau. O ganlyniad, nid yw Arriva yn fodlon cyllido'r gwasanaethau ychwanegol sydd eu hangen i ateb y galw, na phwrcasu'r stoc sydd ei angen. Mae'r cyfrifoldeb yn syrthio ar y pwrs cyhoeddus bron yn llwyr i ddarparu, er enghraifft, y gwasanaethau ychwanegol o'r de i'r gogledd, y gwasanaethau bob hanner awr rhwng Merthyr a Chaerdydd a'r gwasanaethau i Abergwaun. Pan fydd y cytundeb hwnnw'n dod i ben, mae angen ystyried o ddifrif sefydlu corff newydd, tebyg i Glas Cymru, i redeg gwasanaethau trên yng Nghymru. Gallwn wedyn lunio trefn sy'n ein galluogi i wella'r gwasanaeth yn sylweddol, a rhyddhau arian i wella gwasanaethau bysiau ledled y

One thing that has not been referred to today, but which is important to place on record, is that the Minister faces great problems—we were in the same situation—with regard to the terms in the current franchise with Arriva Trains Wales. The original agreement was made in 2003 in a period when the huge increase in the number of people wishing to travel by train could not have been foreseen. As a result, Arriva is not willing to fund the additional services that are required to meet the demand, nor to purchase the stock that is required. The responsibility falls upon the public purse entirely to provide, for example, the additional services from south Wales to north Wales, the half-hourly services between Merthyr and Cardiff, and the services to Fishguard. When that agreement comes to an end, we need to seriously consider establishing a new body, similar to Glas Cymru, to run train services in Wales. We can then formulate an arrangement that will allow us to improve the service substantially and release money to improve bus services

wlad. Ar hyn o bryd, mae'r Gweinidog yn gorfod ychwanegu at yr arian mae'n ei roi i Arriva i sicrhau bod gennym wasanaethau trên ychwanegol, ac wedyn, yn anffodus, nid yw'n gallu rhyddhau'r arian hwnnw i wella gwasanaethau bysiau. Rwyf yn gobeithio y bydd unoliaeth yn y Cynulliad ar symud tuag at newid y telerau yn y fasnachfraint newydd.

across the country. At present, the Minister has to add to the funding that he gives to Arriva to ensure that we have additional train services, and then, unfortunately, he cannot release that money to improve bus services. I hope that there will be unanimous agreement in the Assembly on moving towards changing the terms in the new franchise.

Fodd bynnag, rwyf yn falch fod y Llywodraeth yn cadw at y cynllun i wella'r trac rhwng Abertawe a Thre-gŵyr, a rhwng Wrecsam a Chaer. Bydd hynny'n cyflymu a gwella'r gwasanaeth. Yn naturiol, byddai trydaneiddio rhan helaeth o'r isadeiledd rheilffyrdd yng Nghymru o gymorth—nid yn unig i Abertawe ond hefyd ar hyd arfordir y gogledd ac yn y Cymoedd.

I am, however, pleased that the Government is keeping to the plan to improve the track between Swansea and Gowerton, and between Wrexham and Chester. That will speed up and improve the service. Naturally, electrification of the majority of the railway infrastructure in Wales would be of assistance—not only to Swansea but along the north Wales coast and in the Valleys.

Cynllun sy'n mynd ati o ddifrif i sicrhau cynlluniau trafnidiaeth integredig yw'r cynllun trefi teithio cynaliadwy a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru'n Un. Mae nifer o drefi ac ardaloedd yn rhan o'r cynlluniau hyn, megis Caerdydd, Môn a Menai, Aberystwyth, Caerfyrddin a Hwlffordd. Y bwriad o gael cyfuniad o ardaloedd trefol a gwledig oedd dangos bod ffordd o gael system integredig ar draws Cymru mewn ardaloedd trefol a gwledig. Mae'n rhaid inni gofio mai nid cynlluniau cyfalaf yw'r rhain yn unig, megis lonydd bysiau neu traciau beicwyr, ond yr angen i annog pobl i ddod allan o'u ceir drwy gynlluniau teithio personol. Un o'r pethau yr wyf yn ymwybodol ohonynt—ac roeddwn yn gwybod hynny pan oeddwn yn Weinidog—yw bod sialens enfawr i dynnu pobl allan o'u ceir a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae o leiaf bedair o bob pump siwrnai heddiw yn cael ei gwneud â fodur, a nifer fawr o'r siwrneiau hynny yn cael eu gwneud mewn ceir gydag un person yn teithio ynddo. Mae gennym oll gyfrifoldeb personol i symud allan o'n ceir i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Rwyf yn gobeithio y bydd y Llywodraeth yn cario ymlaen gyda'r cynllun y gwnaethom ei osod i symud oddi wrth wario gymaint ar ffyrdd tuag at gynllun fwy integredig o safbwynt trafnidiaeth cyhoeddus.

A scheme that is seriously tackling the need to ensure integrated travel plans is the sustainable travel towns initiative that was launched by the One Wales Government. Several towns and regions are part of this initiative, such as Cardiff, Môn a Menai, Aberystwyth, Carmarthen and Haverfordwest. The aim in having a combination of urban and rural areas was to show that it is possible to have an integrated system across Wales in urban areas and rural areas. We must remember that this is not only about capital schemes, such as bus lanes and cycle tracks, but the need to encourage people to get out of their cars through personal travel plans. One of the things that I am aware of—and I knew it when I was a Minister—is that we face a great challenge in getting people out of their cars and using public transport. At least four out of five journeys today are made by car, and a great number of those journeys are made in cars with one person travelling in them. We all have a personal responsibility to get out of our cars and to use public transport. I hope that the Government will continue with the plan that we set out to move away from spending so much on roads and towards a more integrated scheme in terms of public transport.

**Byron Davies:** I rise to support this motion, which has been presented within the context of the national transport plan. However, I want to raise some caveats while doing so. The first relates to our ambitious and cross-

**Byron Davies:** Rwyf yn codi i gefnogi'r cynnig hwn, a gyflwynwyd yng nghyd-destun y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Fodd bynnag, wrth wneud hynny rwyf am godi ambell gafeat. Mae'r cyntaf yn

party-endorsed target for carbon reduction. I support that reduction, as does my party, but I want to correct the misapprehension peddled by some. The fact is that if we increase the capacity of our roads and build new roads to prevent congestion that will undoubtedly help us to reach the carbon reduction targets. That is common sense. We have to ensure that cars, buses and lorries are always moving at an appropriate speed and that they spend as little time as possible idling or, indeed, stopping and starting. By way of illustration, we have only to look at Swansea to see what congestion has done to the air quality on its eastern approaches and the knock-on effect of that congestion on carbon emissions. Swansea now has to reroute traffic to ease congestion to prevent the city breaking EU regulations on air quality. That is down to poor planning over the years, resulting in a lack of capacity, and a reluctance to build new roads or increase capacity. I put it to the Chamber that, to have a truly sustainable transport plan, the road needs to be at the heart of the strategy and not an afterthought.

ymwneud â'n targed uchelgeisiol ar gyfer lleihau carbon, a gafodd gymeradwyaeth drawsbleidiol. Rwyf yn cefnogi'r gostyngiad hwnnw, fel y mae fy mhlaid, ond rwyf am gywiro'r gamddealltwriaeth y mae rhai yn ei phedlera. Y ffaith yw, os byddwn yn cynyddu capasiti ein ffyrdd ac yn adeiladu ffyrdd newydd i atal tagfeydd, bydd hynny, heb os, yn ein helpu i gyrraedd y targedau ar gyfer lleihau carbon. Mae hynny'n synnwyr cyffredin. Mae'n rhaid inni sicrhau bod ceir, bysiau a lorïau yn symud ar gyflymder priodol bob amser a'u bod yn treulio cyn lleied o amser ag sy'n bosibl yn segura neu, yn wir, yn stopio ac yn ailddechrau. Mae Abertawe yn darlunio i'r dim yr hyn y mae tagfeydd wedi ei wneud i ansawdd yr aer ar y ffyrdd dynesu sydd i'r dwyrain o'r ddinas, ac effaith y tagfeydd hynny ar allyriadau carbon. Erbyn hyn, mae Abertawe yn gorfod ailgyfeirio traffig i leihau tagfeydd er mwyn atal y ddinas rhag torri rheoliadau'r UE ar ansawdd aer. Cynllunio gwael ar hyd y blynyddoedd sydd i gyfrif am hynny, sydd wedi arwain at ddiffyg capasiti, ac amharodrwydd i adeiladu ffyrdd newydd neu gynyddu capasiti. Er mwyn cael cynllun trafnidiaeth sy'n wirioneddol gynaliadwy, rwyf yn awgrymu wrth y Siambr bod yn rhaid i ffyrdd fod yn ganolog i'r strategaeth yn hytrach nag yn rhywbeth a ystyrir wedyn.

The next caveat is with regard to sustainable transport cities and the lack of targets or reasoned evidence for success or, indeed, failure. Many of this Government's baseline figures for sustainable modes of travel are so badly behind at the moment that it cannot realistically be expected that the targets will be met by 2013. We have always supported many of the Government's targets and ambitions, but the delivery has been almost embarrassing. I am aware that this has cross-party support, but, frankly, you cannot and will not achieve anywhere near your targets. To carry on in this vein is, I believe, waste of public money.

Mae'r cafeat nesaf yn ymwneud â dinasoedd trafnidiaeth gynaliadwy a'r diffyg targedau neu dystiolaeth resymegol ar gyfer llwyddiant neu, yn wir, ar gyfer methiant. Mae llawer o ffigurau gwaelodlin y Llywodraeth hon ar gyfer dulliau teithio cynaliadwy mor bell ar ei hôl hi ar hyn o bryd, fel na ellir disgwyl yn realistig i'r targedau gael eu cyrraedd erbyn 2013. Rydym bob amser wedi cefnogi llawer o dargedau ac uchelgeisiau'r Llywodraeth, ond mae'r gwaith o'u cyflawni wedi ymylu ar fod yn destun cywilydd. Gwn fod cefnogaeth drawsbleidiol i'r mater hwn, ond, a dweud y gwir, ni allwch ac ni fyddwch yn dod yn agos at gyrraedd eich targedau. Credaf mai gwastraff arian cyhoeddus yw parhau fel hyn.

Looking at the sustainable travel centres initiative, the Government commits to making available £5 million over three years to maximise investment in sustainable travel centres, of which, as you know, there are

O edrych ar y fenter canolfannau teithio cynaliadwy, mae'r Llywodraeth yn ymrwymo i ddarparu £5 miliwn dros dair blynedd i sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl mewn canolfannau teithio cynaliadwy,

five: Cardiff, Mon a Menai, Haverfordwest, Carmarthen and Aberystwyth. The funding therefore amounts to roughly a third of £1 million each per year. I submit that that is spreading the funding too thinly. The evidence from English sustainable travel towns clearly demonstrated that concentrating investment in one location, underpinned by targets and highly motivated local authorities, could produce cuts in car use of around 10%. I have asked the Government in the Chamber before why the Welsh STCs do not have targets. I do not believe that you should spend significant amounts of public money without key factors and targets for success. That is basic business sense. You must rethink this element of your plan and publish new targets if you are genuinely intent on a feasible realisation of STCs.

ac fel y gwyddoch, mae pump o'r rhain: Caerdydd, Môn a Menai, Hwlffordd, Caerfyrddin ac Aberystwyth. Mae'r arian, felly, yn gyfwerth â rhyw draean o £1 filiwn y flwyddyn. Rwyf fi o'r farn bod y cyllid yn cael ei rannu'n rhy denau. Dangosodd y dystiolaeth o drefi teithio cynaliadwy Lloegr yn glir y gallai crynhoi buddsoddiad mewn un lleoliad, wedi'i ategu gan dargedau ac awdurdodau lleol brwdfrydig, arwain at ostyngiad o ryw 10% yn y defnydd o geir. Rwyf wedi gofyn o'r blaen i'r Llywodraeth yn y Siambr pam nad oes gan drefi teithio cynaliadwy Cymru dargedau. Nid wyf yn credu y dylech wario symiau sylweddol o arian cyhoeddus heb ffactorau a thargedau allweddol ar gyfer llwyddiant. Synnwyr busnes sylfaenol yw hynny. Mae'n rhaid ichi ailystyried yr elfen honno o'ch cynllun a chyhoeddi targedau newydd os ydych yn wirioneddol o ddifrif ynghylch gwireddu trefi teithio cynaliadwy yn ymarferol.

In closing, I wish to reiterate that building and upgrading roads—particularly the M4—fit easily into the sustainable transport category and the Government should certainly not be afraid to prioritise that aspect of the plan as it will contribute significantly to carbon emission reductions.

Wrth gloi, hoffwn ailadrodd bod adeiladu a gwella ffyrdd—yn enwedig yr M4—yn perthyn yn rhwydd i'r categori trafnidiaeth gynaliadwy, ac yn sicr ni ddylai'r Llywodraeth ofni blaenoriaethu'r agwedd honno ar y cynllun gan y bydd yn cyfrannu'n sylweddol at leihau allyriadau carbon.

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I am grateful for the opportunity to respond to this debate today. I would like to place on record my thanks to Llyr Huws Gruffydd, Rebecca Evans and William Powell for bringing this debate around the national transport plan to the Chamber and to Members for their contributions this afternoon. I was particularly pleased with the contribution made by the former Minister for transport, who has a clear understanding of the facts relating to the issues that we are dealing with in terms of financing and some of the difficult decisions that I have faced, which he also faced when he was the Minister. I am grateful for his acknowledgement of that. We are already actively funding a wide variety of low-carbon, sustainable modes of travel in rural areas across Welsh Government portfolios and working in partnership with other agencies, such as the national park authorities. For example, the Pembrokeshire Coast National Park Authority is a partner in

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i ymateb i'r ddadl hon heddiw. Hoffwn gofnodi fy niolch i Llyr Huws Gruffydd, Rebecca Evans a William Powell am ddod â'r ddadl hon ynghylch y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol i'r Siambr, a chofnodi fy niolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau'r prynhawn yma. Roeddwn yn arbennig o falch o'r cyfraniad a wnaed gan y cyn-Weinidog trafnidiaeth, sydd â dealltwriaeth glir o'r ffeithiau sy'n gysylltiedig â'r materion yr ydym yn ymdrin â hwy o ran ariannu a rhai o'r penderfyniadau anodd yr wyf wedi eu hwynebu, ac a wynebodd yntau pan oedd yn Weinidog. Rwyf yn ddiolchgar iddo am gydnabod hynny. Rydym wrthi eisoes yn ariannu amrywiaeth eang o ddulliau teithio cynaliadwy, carbon isel mewn ardaloedd gwledig ar draws portffolios Llywodraeth Cymru, ac yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, megis awdurdodau'r parciau cenedlaethol. Er enghraifft, mae

the Pembrokeshire Greenways initiative. That initiative has been working for more than 10 years to encourage local residents and visitors of all abilities to access the coast and countryside by sustainable modes of transport, such as walking, cycling and bus and train travel.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn bartner yn y fenter Lonydd Glas Sir Benfro. Bu'r fenter hon yn gweithio am 10 mlynedd a mwy i annog trigolion lleol ac ymwelwyr o bob gallu i fynd i'r arfordir ac i gefn gwlad gan ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy, megis cerdded, beicio a theithio ar fws a thrên.

I was interested to hear some Members' contributions. I can openly declare that I travelled on a bus only last week. I would be interested to know when some Members who made have contributions today last had sight of a bus and last used one. I mentioned the Pembrokeshire Coast National Park Authority's initiative, which has introduced five coastal bus services to help reduce car usage and to improve the accessibility of the whole countryside. These include the 'Poppit Rocket' and the 'Strumble Shuttle', which I am sure many Members are familiar with.

Roedd yn ddiddorol clywed cyfraniadau rhai o'r Aelodau. Gallaf ddatgan yn agored fy mod wedi teithio ar fws mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf. Byddai gennyf ddiddordeb mewn gwybod pryd oedd y tro diwethaf i rai o'r Aelodau sydd wedi cyfrannu heddiw weld bws a theithio ar un. Cyfeiriais at fenter Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sydd wedi cyflwyno pum gwasanaeth bws arfordirol er mwyn helpu i leihau'r defnydd o geir a gwneud cefn gwlad yn ei gyfanrwydd yn fwy hygyrch. Mae'r rhain yn cynnwys 'Roced Poppit' a 'Gwibiwr Strwmbl', yr wyf yn siŵr bod llawer o'r Aelodau yn gyfarwydd â hwy.

Sustainable travel and transport have featured in the annual strategic grant letter to the national park authorities for a number of years. For the coming financial year, I understand that the Minister for Environment and Sustainable Development will be asking the park authorities to champion sustainable transport provision within and around the parks for the benefit of visitors and local communities. When I prioritised the national transport plan, I focused on improving mobility and connectivity. The plan includes specific interventions targeted at improving rural and sustainable travel in communities. The sustainable travel centres initiative involves continued investment in programmes in Carmarthenshire, Haverfordwest and Aberystwyth, in addition to Cardiff and Môn a Menai, as Members have referred to. We have invested more than £23 million in the STCs since 2009 and a number of strategic capital projects have been completed, for example, the Little Green Bus that runs on recycled vegetable oil in Haverfordwest and Pont Felin Hen, the link on the Lôn Las Ogwen walking and cycling route.

Mae teithio a thrafnidiaeth gynaliadwy wedi bod yn rhan o'r llythyr grant strategol blynyddol i awdurdodau'r parciau cenedlaethol ers nifer o flynyddoedd. Ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, rwyf yn deall y bydd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn gofyn i awdurdodau'r parciau hyrwyddo darparu trafnidiaeth gynaliadwy o fewn ac o amgylch y parciau er budd ymwelwyr a chymunedau lleol. Wrth bennu blaenoriaethau'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, canolbwyntiais ar wella symudedd a chysylltedd. Mae'r cynllun yn cynnwys ymyriadau penodol sydd â'r nod o wella teithio gwledig a theithio cynaliadwy mewn cymunedau. Mae'r fenter canolfannau teithio cynaliadwy yn golygu buddsoddiad parhaus mewn rhaglenni yn Sir Gaerfyrddin, Hwlffordd ac Aberystwyth, yn ogystal â Chaerdydd a Môn a Menai, fel y mae'r Aelodau wedi sôn. Er 2009, rydym wedi buddsoddi dros £23 miliwn yn y canolfannau teithio cynaliadwy, ac mae nifer o brosiectau cyfalaf strategol wedi cael eu cwblhau, er enghraifft, y Bws Bach Gwyrdd sy'n rhedeg ar olew llysiau wedi'i ailgylchu yn Hwlffordd a Phont Felin Hen, a'r ddolen gyswllt ar lwybr cerdded a beicio Lôn Las Ogwen.

The sustainable travel centres initiative is

Mae'r fenter canolfannau teithio cynaliadwy

achieving less congestion, less pollution and healthier lifestyles through infrastructure enhancements and behavioural change in relation to the way that people travel. It is a huge challenge, as was mentioned, given the number of people who make significant use of cars, to try to get a change of ethos and a modal shift and to present opportunities other than car travel. I will be bringing forward legislation in the near future that will help to develop the infrastructure needed to make walking and cycling a more viable option.

yn arwain at lai o dagfeydd, llai o lygredd a ffyrdd o fyw mwy iach trwy welliannau i'r seilwaith a newid yn ymddygiad pobl o safbwynt y modd y maent yn teithio. Fel y dywedwyd, o ystyried nifer y bobl sy'n gwneud defnydd sylweddol o geir, mae ceisio newid ethos, newid dulliau teithio a chyflwyno cyfleoedd ar wahân i deithio mewn car yn her enfawr. Byddaf yn cyflwyno deddfwriaeth yn y dyfodol agos a fydd yn helpu i ddatblygu'r seilwaith y mae ei angen i wneud cerdded a beicio yn opsiwn mwy ymarferol.

Nationally, my commitment to supporting the concessionary bus pass scheme brings real benefits to local and rural communities, as it helps older and disabled people to access public transport services without having to worry about the cost. Many Members here have written to me about their concerns about the decision to lower the bus service operators grant and to end the six-year pilot of the community transport concessionary fares initiative. I want to place the facts on record today. Let me explain about the bus service operators grant and clear up the misunderstanding around it. The bus service operators grant is a subsidy that I pay to bus operators for fuel duty—not for routes—which goes straight to the Treasury in London. I pay it regardless of whether the bus is carrying passengers or whether it is running empty back to depot. We pay for fuel duty, not for service provision. I do not consider that to be a good use of my limited budget and I cannot believe that you think that it is either. Consequently, I am in discussions with the bus industry, with local authorities and with the four transport consortia about a phased approach to the bus service operators grant reductions and on delivering ways of funding the bus industry to deliver the best services for the people of Wales, which they quite rightly deserve. That work will be taken forward over the next few months and I will make a further announcement in due course. I would be surprised to see any local authority cuts to bus services before we finalise our decisions.

Yn genedlaethol, mae fy ymrwymiad i gefnogi'r cynllun tocynnau bws rhatach yn cynnig manteision gwirioneddol i gymunedau lleol a gwledig, gan ei fod yn helpu pobl hŷn ac anabl i gael mynediad i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus heb orfod poeni am y gost. Mae llawer o Aelodau yn y fan hon wedi ysgrifennu ataf am eu pryderon ynghylch y penderfyniad i ostwng y grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau a rhoi terfyn ar gynllun peilot chwe mlynedd y fenter tocynnau teithio rhatach ar drafnidiaeth gymunedol. Rwyf am i'r ffeithiau gael eu cofnodi heddiw. Gadewch imi egluro'r grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau ac unioni unrhyw gamddealltwriaeth yn ei gylch. Mae'r grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau yn gymhorthdal yr wyf yn ei dalu i weithredwyr bysiau ar gyfer treth ar danwydd—nid ar gyfer llwybrau—sy'n mynd yn syth i'r Trysorlys yn Llundain. Rwyf yn ei dalu ni waeth a yw'r bws yn cludo teithwyr ynteu'n teithio'n ôl i'r depo yn wag. Rydym yn talu am dreth ar danwydd, nid am ddarparu gwasanaethau. Nid wyf o'r farn bod hynny'n ffordd dda o ddefnyddio fy nghyllideb gyfyngedig, ac ni allaf gredu eich bod chithau'n credu hynny chwaith. O ganlyniad, rwyf yn cael trafodaethau â'r diwydiant bysiau, ag awdurdodau lleol ac â'r pedwar consortiwm trafnidiaeth ynghylch dull graddol o gyflwyno toriadau i'r grant gweithredwyr bysiau a chyflwyno ffyrdd o ariannu'r diwydiant bysiau i ddarparu'r gwasanaethau gorau i bobl Cymru, y maent yn gwbl haeddiannol ohonynt. Bydd y gwaith hwnnw'n cael ei ddatblygu dros yr ychydig fisoedd nesaf, a byddaf yn gwneud cyhoeddiad arall maes o law. Byddwn yn synnu pe bai unrhyw awdurdod lleol yn torri gwasanaethau bysiau cyn inni wneud

penderfyniadau terfynol.

I have also decided to extend the community transport concessionary fares initiative while each individual project is reviewed. Community transport helps to meet the travel and social needs of people to whom these services would otherwise be denied, providing accessible, reliable and affordable transport to achieve social inclusion. We are now considering innovative and more affordable ways to support the community transport sector and I am working with the Minister for health to discuss new ways to support this. I am also keen to see more demand-responsive services under the section 22 permits and flexible bus services provided under section 53 of the Transport Act 2008, such as services for funding the all-Wales concessionary travel scheme. A good example of this is the grass-roots scheme in Monmouthshire, mentioned by Members earlier. The Bwcabus scheme has already proven to be hugely successful and I am providing an additional £400,000 over 2012 to 2014 to support the expansion of the Bwcabus demand-responsive scheme in rural Carmarthenshire and Ceredigion. That will help us to provide better connectivity to the core bus network and the new Arriva bus services between Aberystwyth and Carmarthen.

Rwyf hefyd wedi penderfynu ymestyn y fenter tocynnau teithio rhatach ar drafnidiaeth gymunedol tra bydd pob prosiect unigol yn cael ei adolygu. Mae trafnidiaeth gymunedol yn helpu i ddiwallu anghenion teithio ac anghenion cymdeithasol pobl na fyddai'r gwasanaethau hyn ar gael iddynt fel arall, gan ddarparu trafnidiaeth hygyrch, ddibynadwy a fforddiadwy i sicrhau cynhwysiant cymdeithasol. Yn awr, rydym yn ystyried ffyrdd arloesol a mwy fforddiadwy o gefnogi'r sector trafnidiaeth gymunedol, ac rwyf yn gweithio gyda'r Gweinidog iechyd i drafod ffyrdd newydd o gefnogi hyn. Rwyf hefyd yn awyddus i weld mwy o wasanaethau sy'n ymateb i'r galw dan drwyddedau adran 22, a gwasanaethau bysiau hyblyg a ddarperir dan adran 53 Deddf Trafnidiaeth 2008, megis gwasanaethau ar gyfer ariannu'r cynllun teithio rhatach ar draws Cymru gyfan. Enghraifft dda o hyn yw'r cynllun 'Grass Routes' yn Sir Fynwy, a grybwyllwyd gan yr Aelodau yn gynharach. Mae'r cynllun Bwcabus eisoes wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac rwyf yn darparu £400,000 ychwanegol yn ystod y cyfnod 2012-2014 i gefnogi ehangu'r gwasanaeth Bwcabus sy'n ymateb i'r galw yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Bydd hynny'n ein helpu i ddarparu gwell cysylltiadau â'r rhwydwaith bysiau craidd ac â gwasanaethau bysiau newydd Arriva rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin.

With regard to rail, I confirm that the popular concessionary fare scheme is to continue for the four rural routes across Wales for the next two years. That scheme covers the Heart of Wales line, the Cambrian coast line, the Borderlands line and the Conwy valley line. The Member for Anglesey quite rightly raised the issue of the franchise and an opportunity for a sustainable, integrated transport system for Wales—including not only rail, but buses, walking, cycling and car journeys. There has to be a view on how we look to the future in the delivery of this. The prioritised national transport plan will help me to develop that structure. We will examine the issues around a not-for-dividend, not-for-profit rail franchise and I have asked my team to start work on that already.

O ran y rheilffyrdd, rwyf yn cadarnhau y bydd y cynllun tocynnau teithio rhatach poblogaidd yn parhau ar gyfer y pedwar llwybr gwledig ar draws Cymru ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Mae'r cynllun hwnnw'n cynnwys rheilffordd Calon Cymru, lein Arfordir y Cambrian, lein y Gororau a rheilffordd Dyffryn Conwy. Cododd yr Aelod dros Ynys Môn, yn gywir ddigon, fater y fasnachfraint a chyfle i gael system drafnidiaeth integredig a chynaliadwy i Gymru—gan gynnwys bysiau, cerdded, beicio a theithiau mewn car, yn ogystal â theithiau ar drên. Rhaid cael barn am sut y byddwn yn edrych i'r dyfodol i gyflawni hynny. Bydd y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol sy'n cynnwys blaenoriaethau yn fy helpu i ddatblygu'r strwythur hwnnw. Byddwn yn archwilio'r materion

sy'n ymwneud â masnachfraint rheilffyrdd sy'n ddi-ddifidend ac yn ddi-elw, ac rwyf eisoes wedi gofyn i'm tîm ddechrau gweithio ar hynny.

4.00 p.m.

Through the ongoing work with stakeholders, we can continue to address the issues of transport poverty through concessionary fares and more sustainable transport options. I welcome the contributions made by Members today and look forward to the Member summing up this debate, so that I can take them forward and learn more about delivering a public transport service for both rural and urban Wales, and ensure that we have a transport system that is fit for the future.

Trwy'r gwaith parhaus gyda rhanddeiliaid, gallwn barhau i fynd i'r afael â phroblemau tlodi trafnidiaeth drwy docynnau teithio rhatach a dewisiadau mwy cynaliadwy o ran trafnidiaeth. Croesawaf y cyfraniadau a wnaed gan Aelodau heddiw ac edrychaf ymlaen at glywed yr Aelod yn crynhoi'r ddadl hon, fel y gallaf symud pethau yn eu blaen a dysgu mwy am ddarparu gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer ardaloedd gwledig a threfol Cymru, a sicrhau bod gennym system drafnidiaeth sy'n addas i'r dyfodol.

**Llyr Huws Gruffydd:** Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y drafodaeth hon. Roeddwn yn cytuno, fwy neu lai, â phob sylw a wnaed tan tuag at y diwedd. Roedd Rebecca Evans yn berffaith iawn i dynnu sylw at sefyllfa pobl ifanc yn enwedig sydd yn ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus. Gall diffygion yn y cyd-destun hwnnw effeithio ar ansawdd eu bywydau, eu profiadau addysg allgyrsiol a'u cyfleoedd gwaith ac yn y blaen. Gwnaeth Antoinette Sandbach ein hatgoffa hefyd am yr effaith mae'n ei gael ar bobl ar incwm isel, yr henoed, myfyrwyr ac eraill. Roedd Aelodau yn iawn i'n hatgoffa nad y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yn unig a fydd yn gadael argraff ar y maes hwn. Yn yr un modd, nid y Gweinidog dros drafnidiaeth yn unig sydd â chyfrifoldeb, mewn gwirionedd, am y maes hwn. Mae'r datganiad y cyfeiriais ato a ryddhawyd heddiw, 'Mynd i'r Afael â Thlodi', yn ddatganiad ar y cyd gan bob Gweinidog ac nid wyf yn credu y gall unrhyw strategaeth ystyrlon sy'n trio mynd i'r afael â thlodi anwybyddu tlodi trafnidiaeth.

**Llyr Huws Gruffydd:** I thank everyone who has contributed to the debate. I agreed with more or less every comment made up until towards the end. Rebecca Evans was quite right to draw attention to the situation of young people, particularly those dependent on public transport. The deficiencies in that context can have an effect on the quality of life of young people, on their extracurricular activities, on their job opportunities and so on. Antoinette Sandbach reminded us of the impact that it can have on people on low incomes, the elderly, students and others. Members were right to remind us that it is not just the national transport plan that will make an impression in this area. Likewise, in reality, it is not just the Minister for transport who has responsibilities in this area. The statement to which I referred, released today, 'Tackling Poverty', is a joint statement by all Ministers, and I do not think that any strategy that endeavours to get to grips with poverty can ignore transport poverty.

Rwy'n cytuno â Bill Powell am yr angen i gynyddu'r defnydd o geir trydan, a'r pwynt a wnaeth Antoinette Sandbach am fflyd ceir y Cynulliad. Yr unig beth y byddwn yn ei ddweud yw bod angen inni ddatgarboneiddio'r modd rydym yn cynhyrchu trydan hefyd cyn inni weld yr holl geir trydan hyn ar ein ffyrdd.

I agree with Bill Powell on the need to increase the use of electric vehicles, and with the point that Antoinette Sandbach made on the Assembly's fleet. The only thing that I would say is that we also need to decarbonise the way that we produce electricity before we see all these electric vehicles on our roads.

Rwy'n cydsynio'n llwyr â sylwadau Ieuan

I entirely agree with the comments made by

Wyn Jones—ni fyddech yn disgwyl yn wahanol, rwy'n siŵr—ynglŷn â masnachfraint Trenau Arriva Cymru. Yn sicr, bydd angen corff newydd pan ddaw'r amser, yn debyg i Glas Cymru, i edrych ar y ddarpariaeth achos byddai hynny'n rhyddhau adnoddau prin i wella'r ddarpariaeth.

Ieuan Wyn Jones—I am sure that you would expect nothing less—about the Arriva Trains Wales franchise. There certainly needs to be a new body put in place, on the Glas Cymru model, when the time comes to look at that provision, as it would release resources, which are few and far between, to improve provision.

Yn sicr, mae angen adeiladu ar gynlluniau teithio personol, a nodais fod pedwar o bob pum taith, rwy'n meddwl, yn digwydd mewn car. Gyda'r holl sylw sydd wedi bod ar dlodi trafnidiaeth a gorddibyniaeth ar geir, mae hynny'n tanlinellu maint yr her.

Personal travel plans certainly need to be built upon, and I noted that four out of five journeys, I think, are made by car. Given all the attention that has been paid to transport poverty and the overdependence on cars, that underlines the size of the challenge.

Nid wyf 100% yn siŵr fy mod yn cytuno â'r hyn roedd Byron Davies yn ei ddweud. Mae'n anodd imi weld bod trafnidiaeth gynaliadwy yn gyfystyr â chodi mwy o ffyrdd er mwyn cadw traffig i symud. I mi, byddai hynny'n creu mwy o draffig a mwy o ddibyniaeth ar geir, ond efallai fy mod wedi camddeall, ac rwy'n siŵr y gallwn drafod hyn ymhellach dros baned nes ymlaen.

I am not 100% sure that I agree with what Byron Davies had to say. It is difficult for me to see that sustainable transport means building more roads to keep traffic moving. For me, that would create more traffic and more dependence on cars, but I may have misunderstood that; I am sure that we can discuss that further over a cup of tea later on.

Mae'r Gweinidog wedi gosod her fach inni i gyd o safbwynt ein defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Rwy'n falch i ddweud bod pob un ond dau o'm teithiau i Gaerdydd ers cael fy ethol wedi bod ar drên. [*Torri ar draws.*] Rydym ni'n dau wedi defnyddio'r trên, er nad ydym wedi gweld ein gilydd; ond dyna ni. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod yr angen i weld newid diwylliannol o safbwynt agwedd pobl at drafnidiaeth gyhoeddus a'u defnydd o drafnidiaeth fwy cynaliadwy. Mae hynny, wrth gwrs, yn ddibynnol ar argaeledd y dulliau amgen hynny.

The Minister has set a challenge for us all in terms of our own use of public transport. I am proud to say that all but two of my journeys to Cardiff since being elected have been by train. [*Interruption.*] We both use the same train, although we have not seen each other; there we go. However, I acknowledge the need for a change of culture in terms of people's attitude towards public transport and their use of more sustainable transport. That, of course, is very dependent on the availability of alternative services.

Rwy'n edrych ymlaen at y ddeddfwriaeth arfaethedig y cyfeiriwyd ati fel cyfle i weithio tuag at gael y maen i'r wal. O safbwynt yr adwaith i'r cyhoeddiad ar y grantiau trafnidiaeth a'r grant gwasanaethau bysiau, rwy'n tybio y bydd yn rhaid inni weld beth fydd canlyniad y trafodaethau hynny. Fodd bynnag, mae'r ymateb wedi bod yn lled glir, yn fy marn i.

I look forward to the proposed legislation that was referred to as an opportunity to work towards achieving our aims in this area. In terms of the response to the announcement on transport grants and bus services grants, I believe that we will have to wait to see what the result will be. However, the response has been quite clear, in my view.

Felly, ar adeg pan fo Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflawni toriadau sylweddol mewn allyriadau carbon, pan fo mynediad i swyddi a gwasanaethau yn gwbl hanfodol i fynd i'r afael â thlodi yn ein cymunedau ar draws

Therefore, at a time when the Welsh Government is looking to achieve significant cuts in carbon emissions, when access to jobs and services is entirely crucial in order to tackle poverty in our communities right

Cymru, pan fo tlodi trafnidiaeth yn dod yn broblem fwyfwy dyrys a phris tanwydd yn mynd yn uwch fyth, mae'r amser wedi dod, er cymaint sydd yn cael ei wneud, fel mae'r Gweinidog wedi dweud, i ddwysáu ein hymdrechion ymhellach i symud oddi wrth ein gorddibyniaeth ar geir tuag at bolisi trafnidiaeth yng Nghymru sydd â llawer mwy o ffocws ar ddulliau teithio cynaliadwy a charbon isel, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru.

across Wales, when transport poverty is becoming more and more of a problem, and as fuel prices continue to increase, the time has come, despite all that has been done, as the Minister has said, to intensify our efforts still further, to move away from our overdependence on cars and towards a transport policy in Wales that has a far greater focus on sustainable and low-carbon transport modes, particularly in rural Wales.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Medlding) i'r Gadair am 4.05 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 4.05 p.m.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig
## Welsh Conservatives Debate

### Y Dreth Gyngor
### Council Tax

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 3 a 4 yn enw Jane Hutt a gwelliannau 2, 5, 6 a 7 yn enw Peter Black. Os derbynir gwelliant 4, bydd gwelliannau 5 a 6 yn cael eu dad-ddethol.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 3 and 4 in the name of Jane Hutt and amendments 2, 5, 6 and 7 in the name of Peter Black. If amendment 4 is agreed, amendments 5 and 6 will be deselected.

*Cynnig NDM4930 William Graham*

*Motion NDM4930 William Graham*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU i ddyrannu cyllid i roi'r cyfle i awdurdodau lleol Lloegr rewi'r Dreth Gyngor am yr ail flwyddyn yn olynol, ac yn nodi y bydd oddeutu 90% o Gynghorau Lloegr yn defnyddio'r arian hwn i sicrhau na fydd cartrefi'n wynebu cynnydd yn y Dreth Gyngor y flwyddyn nesaf.*

*1. Welcomes the UK Government's decision to allocate funding to provide English local authorities with the opportunity to freeze Council tax for the second successive year, and notes that approximately 90% of Councils in England will utilise these funds to ensure households benefit from no Council tax rise next year.*

*2. Yn nodi cyhoeddiad Llywodraeth yr Alban y bydd pob awdurdod lleol yn yr Alban yn rhewi'r Dreth Gyngor ar gyfer 2012/2013, ac*

*2. Notes the Scottish Government's announcement that all local authorities in Scotland will be freezing Council tax for*

*yn nodi ei bod wedi dechrau rhewi'r Dreth Gyngor yn 2008/2009.*

*2012/2013, and notes that the freeze began in 2008/2009.*

*3. Yn gresynu'n fawr wrth fethiant Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r £38.9 miliwn o arian canlyniadol i gynghorau Cymru, gan wrthod y cyfle i'r 22 awdurdod lleol rewi'r dreth gyngor.*

*3. Deeply regrets the Welsh Government's failure to pass on the £38.9 million consequential funding to Welsh councils, denying 22 local authorities the opportunity to freeze council tax.*

*4. Yn gresynu ymhellach yr amcangyfrifir y bydd y dreth gyngor yng Nghymru yn cynyddu bron i 2.2% ar gyfartaledd dros y flwyddyn nesaf.*

*4. Further regrets that council tax in Wales is estimated to increase by nearly 2.2% on average over the next year.*

*5. Yn mynegi siom nad yw'r rhan fwyaf o gartrefi Cymru wedi cael cymorth gyda chostau byw beunyddiol o ganlyniad i fethiant Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r £38.9 miliwn o arian canlyniadol i awdurdodau lleol.*

*5. Expresses disappointment that a majority of Welsh households have been denied assistance with daily living costs as a consequence of the Welsh Government's failure to pass on the £38.9 million consequential funding to local authorities.*

**Janet Finch-Saunders:** I move the motion.

**Janet Finch-Saunders:** Cynigiaf y cynnig.

I welcome the opportunity to open this important debate. All local authorities in Scotland have frozen council tax for the fifth consecutive year, saving households an estimated £500 annually. Local authorities in England have been given an opportunity to freeze council tax for the second consecutive year, and 90% have done just that. Council tax rises in England will be 0.3% and those in Scotland will be 0%. However, households in Wales face average increases of 2.2%, and in some cases nearly double that, in their council tax bills from April, putting a further squeeze on already stretched household budgets. The Welsh Conservative motion today regrets that the opportunity to freeze council tax in Wales was denied to local authorities by this Welsh Government, despite a £38.9 million funding provision being handed down by the UK Government. In other words, the Welsh Government has decided that it knows better than our own householders as to how they should spend their own money.

Croesawaf y cyfle i agor y ddadl bwysig hon. Mae pob awdurdod lleol yn yr Alban wedi rhewi'r dreth gyngor am y bumed flwyddyn yn olynol, gan arbed tua £500 i gartrefi bob blwyddyn. Mae awdurdodau lleol yn Lloegr wedi cael cyfle i rewi'r dreth gyngor am yr ail flwyddyn yn olynol, ac mae 90% ohonynt wedi gwneud hynny. Bydd y cynnydd yn y dreth gyngor yn Lloegr yn cyfateb i 0.3%, a bydd yn cyfateb i 0% yn yr Alban. Fodd bynnag, mae cartrefi yng Nghymru yn wynebu cynnydd o 2.2% ar gyfartaledd, a bron i ddwbl hynny mewn rhai achosion, yn eu biliau treth gyngor o fis Ebrill ymlaen, a fydd yn rhoi pwysau pellach ar gyllidebau cartrefi sydd eisoes dan straen. Mae cynnig y Ceidwadwyr Cymreig heddiw yn gresynu bod y Llywodraeth hon yng Nghymru wedi gwrthod rhoi cyfle i awdurdodau lleol rewi'r dreth gyngor yng Nghymru, er gwaethaf y ffaith bod cyllid gwerth £38.9 miliwn wedi ei ddarparu gan Lywodraeth y DU. Mewn geiriau eraill, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ei bod yn gwybod yn well na'n deiliaid tai ni ein hunain sut y dylent wario eu harian eu hunain.

Indeed, since 1997, council tax in Wales has risen by an average of nearly 140%. Blaenau Gwent, for example, has seen a rise of over 190%. Since 2008-09, annual council tax for

Yn wir, er 1997, mae'r dreth gyngor yng Nghymru wedi codi bron i 140% ar gyfartaledd. Mae Blaenau Gwent, er enghraifft, wedi gweld cynnydd o dros

a band E property in Scotland has been subject to no increase. In England, the figure has increased by just £70. However, in Wales, annual council tax has increased by more than double that amount—it has increased by £143. That is for a band E property. Many higher band properties have seen considerably larger increases.

190%. Er 2008-09, nid yw'r dreth gyngor flynyddol ar gyfer eiddo band E yn yr Alban wedi cynyddu o gwbl. Yn Lloegr, mae'r ffigur wedi cynyddu £70 yn unig. Fodd bynnag, yng Nghymru, mae'r dreth gyngor flynyddol wedi cynyddu dros ddwbl y swm hwnnw—mae wedi cynyddu £143. Mae hynny ar gyfer eiddo band E. Mae llawer o eiddo mewn bandiau uwch wedi gweld cynnydd sydd gryn dipyn yn fwy.

**Rhodri Glyn Thomas:** Are you making the case that council tax in Wales is higher than it is in England? Is that what you are saying?

**Rhodri Glyn Thomas:** A ydych yn cyflwyno'r achos bod y dreth gyngor yng Nghymru yn uwch nag y mae yn Lloegr? Ai dyna'r ydych yn ei ddweud?

**Janet Finch-Saunders:** What I am saying is that the money has been allocated in England and it came over to Wales as a Barnett consequential, but has unfortunately been withheld by the Welsh Labour Government and spent on other pet projects. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.']

**Janet Finch-Saunders:** Yr hyn yr wyf yn ei ddweud yw bod yr arian wedi'i ddyrannu yn Lloegr, a'i fod wedi dod draw i Gymru fel arian canlyniadol Barnett ond ei fod yn anffodus wedi'i ddal yn ôl gan Lywodraeth Lafur Cymru a'i wario ar hoff brosiectau eraill. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.']

It really beggars belief that, for all of the rhetoric that we hear so often in this Chamber, when push comes to shove, it is our council tax payers who are now being penalised by this Welsh Labour Government. So often, we hear the common cry that council tax is cheaper in Wales overall. However, that gap is shrinking dramatically. In 2008-09, the difference between Wales and England was 31.5%. By 2012-13, that will have declined to just 20%. You can see the way in which we are going. Of course, we cast our minds back to 2005, when the Welsh Government introduced the revaluation of properties for council tax. This alone saw four times as many homes move up one or more bands than the number of homes that moved down. This was another hit on our hard-pressed families here in Wales—a double blow.

Mae'n wirioneddol anodd credu, er gwaethaf yr holl rethreg a glywn mor aml yn y Siambr hon, mai'r sawl sy'n talu'r dreth gyngor a gosbir yn awr gan y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru, pan ddaw i'r pen. Clywn yn aml yr honiad cyffredin bod y dreth gyngor yn rhatach yng Nghymru yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r bwlch hwnnw'n lleihau yn ddramatig. Yn 2008-09, y gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr oedd 31.5%. Erbyn 2012-13, bydd y gwahaniaeth wedi gostwng i ddim ond 20%. Gallwch weld y cyfeiriad yr ydym yn mynd iddo. Wrth gwrs, rydym yn cofio'n ôl i 2005, pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru yr ymarfer ailbrisio eiddo ar gyfer y dreth gyngor. Yn sgîl yr ymarfer hwnnw'n unig, roedd nifer y cartrefi a ddringodd un neu ragor o fandiau bedair gwaith yn uwch na nifer y cartrefi a ddisgynnodd i fand is. Roedd hynny'n ergyd arall i'n teuluoedd sydd dan straen yma yng Nghymru—ergyd ddwbl.

Additionally, after almost 13 years of Labour-led Welsh Governments, Wales is now one of the poorest areas of the UK, with much lower wages. The average wage in Wales is £86.10 less per week than the average wage in the UK. That is almost £375 a month, or £4,500 a year. The people of Wales are suffering due to the Welsh Labour

Yn ogystal, ar ôl bron i 13 blynedd o Lywodraethau yng Nghymru a arweinir gan y Blaid Lafur, mae Cymru bellach yn un o ardaloedd tlotaf y DU, gyda chyflogau sy'n is o lawer. Mae'r cyflog cyfartalog yng Nghymru £86.10 yr wythnos yn llai na'r cyflog cyfartalog yn y DU. Mae hynny'n gyfwerth â bron i £375 y mis, neu £4,500 y

Government's decision not to pass on this £38.9 million consequential to local authorities. The First Minister dismissed this option out of hand, saying that he did not think that saving people from paying an extra £5 a month would make a difference. I am sorry, but he is wrong. I say that £60 a year does make a difference to many people. That is what they are telling us on their doorsteps. Maybe it would not make a difference to those on salaries like that of the First Minister or like that of many of the Members here today, however, it certainly makes a difference to those struggling to find the money for everyday items.

flwyddyn. Mae pobl Cymru yn dioddef o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth Lafur Cymru i beidio â throsglwyddo'r arian canlyniadol hwn gwerth £38.9 miliwn i awdurdodau lleol. Gwrthododd y Prif Weinidog yr opsiwn hwn yn syth, gan ddweud nad oedd yn meddwl y byddai arbed pobl rhag talu £5 ychwanegol y mis yn gwneud gwahaniaeth. Mae'n ddrwg gennyf, ond mae'n anghywir. Rwyf fi'n credu bod £60 y flwyddyn yn gwneud gwahaniaeth i lawer o bobl. Dyna y maent yn ei ddweud wrthym ar garreg eu drws. Efallai na fyddai'n gwneud gwahaniaeth i'r sawl sydd ar gyflogau tebyg i gyflog y Prif Weinidog neu gyflog llawer o'r Aelodau sydd yma heddiw, ond mae'n sicr yn gwneud gwahaniaeth i'r sawl sy'n ei chael yn anodd dod o hyd i arian i dalu am eitemau pob dydd.

Some households in Ynys Môn are even paying an extra £110 on their council tax bills from April. This is based on a proposed 4.5% increase—a rise that would trigger a local referendum elsewhere, and a rise for which the island's commissioners cannot be held accountable by the people, and neither can the Minister. It is a rise that could have been prevented had the £38.9 million Barnett consequential from the UK Government been passed on for what it was originally intended. Over £36 million-worth of council tax in Wales is going unpaid. Clearly, people are already struggling to pay. The costs of this failure should not be passed on to our ratepayers. To add insult to injury, the Welsh Government has spent the £38.9 million consequential on nothing new whatsoever, but its own pet projects.

Bydd rhai o gartrefi Ynys Môn hyd yn oed yn talu £110 ychwanegol ar eu biliau treth gyngor o fis Ebrill ymlaen. Mae hynny'n seiliedig ar gynnydd arfaethedig o 4.5%—cynnydd a fyddai'n sbarduno refferendwm lleol mewn mannau eraill, a chynnydd na all y bobl ddwyn comisiynwyr yr ynys, na'r Gweinidog chwaith, i gyfrif amdano. Mae'n gynnydd a allai fod wedi'i atal pe bai arian canlyniadol Barnett, sef £38.9 miliwn, gan Lywodraeth y DU wedi'i drosglwyddo ar gyfer yr hyn yr oedd wedi'i fwriadu ar ei gyfer yn wreiddiol. Nid yw gwerth dros £36 miliwn o dreth gyngor yng Nghymru wedi'i thalu. Mae'n amlwg bod pobl eisoes yn cael trafferth talu. Ni ddylai costau'r methiant hwn gael eu trosglwyddo i'n trethdalwyr. I rwbio halen i'r briw, mae Llywodraeth Cymru wedi gwario'r £38.9 miliwn canlyniadol ar ei hoff brosiectau ei hun yn hytrach nag ar rywbeth newydd.

We should be encouraging efficiency savings in local authorities. They should not be allowed to rely on increasing council tax levels year on year. However, Welsh Labour's attitude is that there is nothing to be done, that efficiencies cannot be found, and that council tax rises and hitting our ratepayers are the only answer. Clearly, there is room for efficiency. Estimates suggest that as much as 10% of the Welsh Government's hypothecated grants to local authorities are swallowed up by associated administrative costs alone. Neath Port Talbot and Bridgend

Dylem fod yn annog arbedion effeithlonrwydd mewn awdurdodau lleol. Ni ddylid caniatáu iddynt ddibynnu ar gynyddu lefelau'r dreth gyngor o'r naill flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, agwedd Llafur Cymru yw nad oes dim i'w wneud, nad oes modd dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd, ac mai cynnydd yn y dreth gyngor a gwneud i'n trethdalwyr ddioddef yw'r unig ateb. Mae'n amlwg bod lle i effeithlonrwydd. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod cymaint â 10% o'r grantiau a neilltuir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn cael eu llyncu

councils spent over £500,000 each on consultancy fees last financial year, while Conservative-led Monmouthshire County Council has successfully saved £900,000 per annum by reforming senior management structures, and it has frozen the council tax for next year. That is the way that it should be. Conservative-led Newport City Council has made savings of £2.3 million through staff restructuring, procurement changes and efficiency reviews of services. Finally, there is a £90,000 difference between the highest and lowest pay for the chief executives of Welsh local authorities. Senior management should lead by example and start the drive for efficiency at the top.

gan gostau gweinyddol cysylltiedig yn unig. Gwariodd cynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr dros £500,000 yr un ar ffïoedd ymgynghori yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, tra mae Cyngor Sir Fynwy a arweinir gan y Ceidwadwyr wedi llwyddo i arbed £900,000 y flwyddyn drwy ddiwygio strwythurau rheoli uwch, ac mae wedi rhewi'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf. Dyna sut y dylai pethau fod. Mae Cyngor Dinas Casnewydd a arweinir gan y Ceidwadwyr wedi gwneud arbedion o £2.3 miliwn drwy ailstrwythuro staff, newid prosesau caffael ac adolygu effeithlonrwydd gwasanaethau. Yn olaf, mae £90,000 o wahaniaeth rhwng cyflog uchaf a chyflog isaf prif weithredwyr awdurdodau lleol Cymru. Dylai uwch-reolwyr arwain drwy esiampl a dechrau'r ymgyrch i sicrhau effeithlonrwydd ar y brig.

The people of Wales deserve the same council tax freeze as those living in Scotland and England. It is simply unfair that our ratepayers should be penalised because of inefficient council spending and the failure of this Welsh Government to pass on the £38.9 million given to the people of Wales for this purpose. You have a moral duty to pass the benefits of this funding to our ratepayers. Through this motion, we in this Chamber can send a message to the people of Wales, who will be receiving their council tax bills for the next year in just a matter of weeks, that we are on their side, that we do want to freeze council tax, and that we want to put money in their pockets, as this funding was originally intended to do.

Mae pobl Cymru yn haeddu cael eu treth gyngor wedi'i rhewi, yr un fath â'r sawl sy'n byw yn yr Alban ac yn Lloegr. Mae'n hollol annheg bod ein trethdalwyr yn cael eu cosbi oherwydd gwariant aneffeithlon cynghorau a methiant y Llywodraeth hon yng Nghymru i drosglwyddo'r £38.9 miliwn a roddwyd i bobl Cymru at y diben hwnnw. Mae gennych ddyletswydd foesol i drosglwyddo manteision y cyllid hwn i'n trethdalwyr. Drwy'r cynnig hwn, gallwn ni yn y Siambr hon anfon neges i bobl Cymru, a fydd yn cael eu biliau treth gyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf ymhen rhai wythnosau, ein bod ar eu hochr hwy, ein bod yn dymuno rhewi'r dreth gyngor, a'n bod yn dymuno rhoi arian yn eu pocedi, sef bwriad gwreiddiol yr arian hwn.

**Llyr Huws Gruffydd:** If you are so adamant that you are on their side, why did three Conservative county borough councillors in Conwy vote in favour of a 4% increase? Do you agree with your party's proposal to expel them?

**Llyr Huws Gruffydd:** Os ydych mor bendant eich bod ar eu hochr hwy, pam y pleidleisiodd tri chynghorydd Ceidwadol ym mwrdeistref sirol Conwy o blaid cynnydd o 4%? A ydych yn cytuno â bwriad eich plaid i'w diarddel?

**Janet Finch-Saunders:** The majority of Conservative councillors in Conwy voted for a council tax freeze, and that is our policy on these benches. Shame on you that it is not yours.

**Janet Finch-Saunders:** Pleidleisiodd mwyafrif y cynghorwyr Ceidwadol yng Nghonwy o blaid rhewi'r dreth gyngor, a dyna yw ein polisi ar y meinciau hyn. Rhag eich cywilydd nad dyna yw eich polisi chi.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Ym mhwynt 1, dileu 'croesawu' a rhoi 'nodi' yn ei le.*

*In point 1, delete 'welcomes' and replace with 'notes'.*

*Gwelliant 3 Jane Hutt*

*Amendment 3 Jane Hutt*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:*

*Insert as new point 3 and renumber accordingly:*

*Yn nodi bod y dreth gyngor yng Nghymru eisoes 19% yn is nag yn Lloegr ac y bydd yn parhau i fod yn sylweddol is eleni.*

*Notes that council tax in Wales is already 19% lower than England and it will continue to be significantly lower this year.*

*Gwelliant 4 Jane Hutt*

*Amendment 4 Jane Hutt*

*Dileu pwyntiau 3, 4 a 5 a rhoi'r canlynol yn eu lle:*

*Delete point 3, 4 and 5 and replace with:*

*Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn darparu 1.3% yn rhagor o gyllid ar gyfer cynghorau yng Nghymru dros gyfnod yr adolygiad o wariant nag y mae Llywodraeth y DU yn ei roi i gynghorau yn Lloegr, ac y gallai cynghorau ddefnyddio'r arian hwn mewn perthynas â rhewi'r dreth gyngor, os dymunant wneud hynny.*

*Notes that Welsh Government is providing 1.3% more funding for councils in Wales over the spending review period than the UK Government is providing to councils in England and that this funding could be used by councils to assist with the council tax freezes if they choose to do so.*

*Yn nodi y rhagwelir, ar ôl i bob awdurdod bennu ei gyllideb ar gyfer 2012-13, y bydd y cynnydd yn y dreth gyngor yng Nghymru yn is nag erioed.*

*Notes that it is anticipated that once all authorities have set their budgets for 2012-13, Wales will see the lowest council tax rises ever.*

*Yn mynegi ei fod yn gresynu wrth gynlluniau Llywodraeth y DU i ddiddymu budd-dal y dreth gyngor sy'n effeithio'n negyddol ar y bobl sydd fwyaf agored i niwed.*

*Expresses regret at the UK Government's plans to abolish council tax benefit which impacts negatively on those who are most vulnerable.*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I move amendments 1, 3 and 4 in the name of Jane Hutt.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cynigiaf welliannau 1, 3 a 4 yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Amendment 2 Peter Black*

*Ym mhwynt 1, ar ôl 'y flwyddyn nesaf' rhoi 'ac yn croesawu'r £38.9 miliwn o gyllid ychwanegol i Gymru o ganlyniad'.*

*In point 1, after 'next year' insert 'and welcomes the £38.9 million of additional funding for Wales as a result'.*

*Gwelliant 5 Peter Black*

*Amendment 5 Peter Black*

*Dileu pwynt 3.*

*Delete point 3.*

*Gwelliant 6 Peter Black*

*Amendment 6 Peter Black*

*Dileu pwynt 5.*

*Delete point 5.*

*Gwelliant 7 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn credu y bydd cynghorau'n elwa ar refeniw ychwanegol drwy fwy o weithgarwch economaidd yn eu hardaloedd, ac yn croesawu'r pecyn ysgogi economaidd gwerth £38.9 miliwn, a fydd yn ceisio darparu gweithgarwch economaidd ychwanegol.*

*Amendment 7 Peter Black*

*Add as new point at end of motion:*

*Believes that councils will benefit from additional revenue through increased economic activity in their areas, and welcomes the £38.9 million economic stimulus package, which aims to provide additional economic activity.*

**Peter Black:** I move amendments 2, 5, 6 and 7 in my name.

**Peter Black:** Cynigiaf welliannau 2, 5, 6 a 7 yn fy enw i.

Let me start by saying that if Monmouthshire was able to freeze its council tax, we would have clearly wasted money if we had given it extra funding, because it has done so already, as, of course, have Bridgend, Swansea and Caerphilly. One council from each party has managed to freeze its council tax without any additional money from the Welsh Government.

Gadewch imi ddechrau drwy ddweud ei bod yn amlwg, os oedd Cyngor Sir Fynwy yn gallu rhewi ei dreth gyngor, y byddem wedi gwastraffu arian pe baem wedi rhoi cyllid ychwanegol iddo, oherwydd mae wedi gallu rhewi'r dreth gyngor eisoes, fel y mae Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe a Chaerffili wrth gwrs. Mae un cyngor o bob plaid wedi llwyddo i rewi ei dreth gyngor heb unrhyw arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Let us face it, this is about making choices. Devolution is about making choices and making decisions here in Wales that relate to Wales. It is not about blindly following what Westminster gives us. If Westminster gives us £38.9 million, it is for us to decide how we spend that money. I have to say that giving £38.9 million this year to local councils to freeze council tax would not have been sustainable. What would they do next year? They will not have the money the next year and, as a result, they would have to put council tax up even more. It would just lead to a deferral of the decision to increase council tax.

Gadewch inni wynebu'r gwir, mae a wnelo hyn â gwneud dewisiadau. Mae a wnelo datganoli â gwneud dewisiadau a gwneud penderfyniadau yma yng Nghymru sy'n berthnasol i Gymru. Nid oes a wnelo â dilyn yn ddall yr hyn y mae San Steffan yn ei roi inni. Os yw San Steffan yn rhoi £38.9 miliwn inni, mater i ni yw penderfynu sut mae gwario'r arian hwnnw. Rhaid imi ddweud na fyddai rhoi £38.9 miliwn eleni i gynghorau lleol i rewi'r dreth gyngor wedi bod yn gynaliadwy. Beth y byddent yn ei wneud y flwyddyn nesaf? Ni fyddai'r arian ganddynt y flwyddyn nesaf, ac o ganlyniad byddai'n rhaid iddynt gynyddu'r dreth gyngor yn fwy fyth. Ni fyddai ond yn arwain at ohirio'r penderfyniad i gynyddu'r dreth gyngor.

The fact is, across Wales, councils are keeping their council tax rises as low as possible—

Y gwir amdani, ar draws Cymru, yw bod cynghorau'n cadw eu cynnydd o ran y dreth gyngor mor fach ag sy'n bosibl—

4.15 p.m.

**Darren Millar:** You referred to Swansea. I will tell you what is unsustainable: robbing reserves in order to freeze council tax in an election year, which is what all councils have done.

**Darren Millar:** Bu ichi gyfeirio at Abertawe. Mi ddywedaf wrthych beth sy'n anghynaliadwy: dwyn arian o gronfeydd wrth gefn er mwyn rhewi'r dreth gyngor mewn blwyddyn etholiad, sef yr hyn y mae pob cyngor wedi'i wneud.

**Peter Black:** Absolutely; it is unfair. That is why Swansea has frozen its council tax by making £35 million of back-office savings over the last four years. It did not rob reserves, as you stated. We resisted the Conservative amendment that wanted to put another £0.75 million of reserves into the budget on top of what we had already done. The Conservatives were the ones who were proposing to rob the reserves in Swansea. We delivered a sustainable freeze in council tax in Swansea by delivering savings—£35 million over four years. [*Interruption.*]

**Peter Black:** Yn hollol; mae'n annheg. Dyna pam mae cyngor Abertawe wedi rhewi ei dreth gyngor drwy sicrhau £35 miliwn o arbedion cefn swyddfa dros y pedair blynedd diwethaf. Ni fu'n dwyn o gronfeydd wrth gefn, fel yr oeddech chi'n dweud. Bu inni wrthsefyll gwelliant gan y Ceidwadwyr a oedd yn awyddus i roi £0.75 miliwn arall yn y gyllideb allan o'r cronfeydd wrth gefn, ar ben yr hyn yr oeddem wedi'i roi eisoes. Y Ceidwadwyr oedd yn cynnig dwyn arian o'r cronfeydd wrth gefn yn Abertawe. Bu inni rewi'r dreth gyngor yn gynaliadwy yn Abertawe drwy sicrhau arbedion—£35 miliwn dros bedair blynedd. [*Torri ar draws.*]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I would remind Members that, when they make interventions, they should listen to the reply calmly, so that they know what the Member is saying, otherwise they should not ask to make interventions. I am not looking at anyone in particular.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Hoffwn atgoffa'r Aelodau y dylent wrando ar yr ateb yn dawel, pan fyddant yn ymyrryd, er mwyn gwybod beth y mae'r Aelod yn ei ddweud. Fel arall, ni ddylent ofyn am gael ymyrryd. Nid wyf yn edrych ar neb yn benodol.

**Julie James:** Swansea council was advised by its financial officers not to freeze the council tax, but to put it up by 1.5% or 2%.

**Julie James:** Cafodd cyngor Abertawe gyngor gan ei swyddogion ariannol i beidio â rhewi'r dreth gyngor, ond i'w chodi 1.5% neu 2%.

**Peter Black:** Absolutely. We were advised and we took a political decision to freeze council tax because we believed that people are finding things tough this year. We were doing our best to help people. Swansea council is not run by officers; it is run by the Liberal Democrats, and we are delivering decisions for the benefit of the people of Swansea. That is how local government should be operating.

**Peter Black:** Yn hollol. Cawsom gyngor, a gwnaethom benderfyniad gwleidyddol i rewi'r dreth gyngor oherwydd ein bod yn credu bod pobl yn ei chael yn anodd eleni. Roeddem yn gwneud ein gorau i helpu pobl. Ni chaiff cyngor Abertawe ei redeg gan swyddogion; caiff ei redeg gan y Democratiaid Rhyddfrydol, ac rydym yn gwneud penderfyniadau er budd pobl Abertawe. Dyna sut y dylai llywodraeth leol fod yn gweithredu.

Janet Finch-Saunders talked about the £38.9 million being spent on pet projects. I am astonished that she believes that capital money for schools and money that is going to help improve toilets all across Wales—an issue highlighted by the Children's Commissioner for Wales—are pet projects. I am surprised that she thinks that extra provision for new homes is a pet project. Is extra money for enterprise zones, which her party and mine have been urging the Welsh Government to deliver, a pet project? As for money for energy efficiency, delivering

Soniodd Janet Finch-Saunders am y £38.9 miliwn sy'n cael ei wario ar hoff brosiectau. Rwyf yn synnu ei bod yn credu bod arian cyfalaf ar gyfer ysgolion ac arian a fydd yn helpu i wella toiledau ledled Cymru—sy'n fater y tynnodd Comisiynydd Plant Cymru sylw ato—yn hoff brosiectau. Rwyf yn synnu ei bod yn credu bod darpariaeth ychwanegol ar gyfer cartrefi newydd yn hoff brosiect. A yw arian ychwanegol ar gyfer ardaloedd menter, y mae ei phlaid hithau a'm plaid innau wedi bod yn annog Llywodraeth Cymru i'w cyflwyno, yn

energy-efficient homes to help people afford their heating bills is not a pet project, in my view. I believe that the £38.9 million was well spent on capital investment. It is not only going to help people, but it will also generate jobs and help stimulate the economy. That should have been the priority of this Welsh Government, because the council tax that is decided upon at a local level is a matter for local councils.

hoff brosiect? O safbwynt arian ar gyfer effeithlonrwydd ynni, nid yw darparu cartrefi effeithlon o ran ynni i helpu pobl i allu fforddio eu biliau gwresogi yn hoff brosiect, yn fy marn i. Credaf fod y £38.9 miliwn wedi'i wario yn dda ar fuddsoddiad cyfalaf. Yn ogystal â helpu pobl, bydd hefyd yn creu swyddi ac yn helpu i ysgogi'r economi. Dyna ddylai fod wedi bod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon yng Nghymru, oherwydd mater i gynghorau lleol yw'r dreth gyngor a gaiff ei phennu ar lefel leol.

We should expect local councils to deliver the most efficient service possible and deliver the lowest council tax possible to be able to help their inhabitants while maintaining services. That is what has happened in Swansea and Cardiff. The Vale of Glamorgan Council is going to have a higher council tax than Cardiff Council—a Conservative-led council with a higher council tax than a Liberal-Democrat-led council.

Dylem ddisgwyl i gynghorau lleol ddarparu'r gwasanaeth mwyaf effeithlon posibl a sicrhau'r dreth gyngor isaf posibl er mwyn gallu helpu eu trigolion a chynnal gwasanaethau ar yr un pryd. Dyna sydd wedi digwydd yn Abertawe a Chaerdydd. Bydd gan Gyngor Bro Morgannwg dreth gyngor a fydd yn uwch na Chyngor Caerdydd—cyngor a arweinir gan y Ceidwadwyr â threth gyngor sy'n uwch na chyngor a arweinir gan y Democratiaid Rhyddfrydol.

**Byron Davies:** You talk about maintaining services. Would you like to come with me to the Gowerton and Gorseinon area, where I will show you some of the worst roads in disrepair that you could possibly find in Wales, just for the sake of saving your neck at next May's council election?

**Byron Davies:** Rydych yn sôn am gynnal gwasanaethau. A hoffech ddod gyda mi i ardal Tre-gŵyr a Gorseinon, lle'r hoffwn ddangos ichi rai o'r ffyrdd gwaethaf y gallech ddod ar eu traws yng Nghymru, dim ond er mwyn achub eich croen yn etholiad y cyngor fis Mai nesaf?

**Peter Black:** Byron, I am happy to come to Gorseinon and Gowerton with you; I go there quite often. I have to tell you that roads in that area are no worse than those in any other part of Wales. As you know, according to the Welsh Local Government Association, there is a huge backlog in roads maintenance, but in Swansea, the council has generated a road investment project tackling potholes and road repairs, which has made a major difference in that area. We have put an extra £2.4 million into education, which is £0.5 million more than the Minister asked us to do, and £2 million more into children's services, while freezing the council tax. Those are the sorts of decisions made locally by local councils that help local people and maintain services. It is for them to deliver on low council taxes, not for this Welsh Government. The Welsh Government provides funding and support for local councils and the local councils deal

**Peter Black:** Byron, rwyf yn fodlon dod i Orseinon a Thre-gŵyr gyda chi; byddaf yn mynd yno'n eithaf aml. Rhaid imi ddweud wrthych nad yw'r ffyrdd yn yr ardal honno'n ddim gwaeth na'r ffyrdd sydd mewn unrhyw ardal arall yng Nghymru. Fel y gwyddoch, yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae gwaith cynnal a chadw ffyrdd wedi ôl-gronni'n ddifrifol, ond yn Abertawe mae'r cyngor wedi creu prosiect buddsoddi mewn ffyrdd er mwyn mynd i'r afael â thyllau yn y ffyrdd a gwaith atgyweirio ffyrdd, sydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr yn yr ardal honno. Rydym wedi rhoi £2.4 miliwn ychwanegol i addysg, sydd £0.5 miliwn yn fwy na'r hyn y gofynnodd y Gweinidog inni ei wneud, a £2 filiwn yn fwy i wasanaethau plant, gan rewi'r dreth gyngor ar yr un pryd. Dyna'r mathau o benderfyniadau lleol gan gynghorau lleol sy'n helpu pobl leol ac sy'n cynnal gwasanaethau. Mater iddynt hwy

with it as they can. Frankly, it is very difficult for the Conservatives to start arguing that councils should be freezing council tax when the money is being spent in such a meaningful and worthwhile way to help people, and yet Conservative-led councils, with the exception of Monmouth Council, are putting council tax up in their councils and not managing their own finances as they should.

yw sicrhau trethi cyngor isel, nid mater i'r Llywodraeth hon yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid a chymorth i gynghorau lleol, ac mae'r cynghorau lleol yn ymdrin â hwy fel y gallant. A dweud y gwir, mae'n anodd iawn i'r Ceidwadwyr ddechrau dadlau y dylai cynghorau fod yn rhewi'r dreth gyngor pan gaiff yr arian ei wario mewn modd mor ystyrlon a gwerth chweil i helpu pobl, ac eto i gyd mae cynghorau a arweinir gan y Ceidwadwyr, ac eithrio Cyngor Sir Fynwy, yn codi'r dreth gyngor yn eu cynghorau ac yn methu â rheoli eu harian fel y dylent.

**Mike Hedges:** I will avoid the temptation to turn this into a debate on Swansea council. I will be opposing the motion. The Welsh Labour Government has provided a fair settlement to local authorities, given the savage cuts that are being imposed on Wales by the Tories and Lib Dems at Westminster. There is a far better settlement in Wales than in England. Over the four-year spending review period, funding for local government increases by 0.7% in Wales. I would say, as somebody who will be a councillor up until 3 May, that that is not enough, but it is better than the situation in England, where, on a like-for-like basis, council funding set by the Government at Westminster is to decrease by 0.6%. Local authorities expected a far worse deal than they have had. This fair deal has been acknowledged by local government leaders and provides councils in Wales with the maximum flexibility possible. Some have frozen council tax, and some have increased it. The Welsh Local Government Association fully welcomes the relative protection that the Minister has given to education and social services budgets, and the prioritisation of front-line services. John Davies, an independent councillor in Pembrokeshire who is the WLGA leader, has said that

**Mike Hedges:** Rwyf am osgoi'r demtasiwn i droi'r ddadl hon yn ddadl am gyngor Abertawe. Byddaf yn gwrthwynebu'r cynnig. Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi darparu setliad teg i awdurdodau lleol, o ystyried y toriadau llym a orfodir ar Gymru gan y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan. Ceir setliad llawer gwell yng Nghymru nag yn Lloegr. Dros gyfnod yr adolygiad o wariant, sef pedair blynedd, cynyddodd cyllid ar gyfer llywodraeth leol 0.7% yng Nghymru. Fel rhywun a fydd yn gynghorydd hyd at 3 Mai, byddwn i'n dweud nad yw hynny'n ddigon, ond mae'n well na'r sefyllfa yn Lloegr lle, o gymharu tebyg â thebyg, y bydd cyllid cynghorau a bennir gan y Llywodraeth yn San Steffan yn gostwng 0.6%. Roedd awdurdodau lleol yn disgwyl setliad gwaeth o lawer na'r un y maent wedi'i gael. Mae'r setliad teg hwnnw wedi'i gydnabod gan arweinwyr llywodraeth leol, ac mae'n rhoi'r hyblygrwydd mwyaf posibl i gynghorau yng Nghymru. Mae rhai wedi rhewi'r dreth gyngor, ac mae rhai wedi ei chynyddu. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn croesawu'n llwyr y modd y mae'r Gweinidog wedi diogelu'n gymharol y cyllidebau ar gyfer addysg a gwasanaethau cymdeithasol, a'r modd y mae blaenoriaeth wedi'i rhoi i wasanaethau rheng flaen. Mae John Davies, cynghorydd annibynnol yn Sir Benfro sy'n arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi dweud

'comparisons will inevitably be made with the council tax freeze in England but it is also important to remember that the average total band D council tax bill in Wales is around 25% less than in England'.

'mae'n anochel y bydd pobl yn dweud na fydd treth cynghorau Lloegr yn cynyddu ond rhaid cofio hefyd fod pobl ym Mand D yng Nghymru yn talu tua 25% yn llai na'u cyfatebion yn Lloegr, ar gyfartaledd'.

John Davies is not a Labour Party member or supporter. Remember the budget debate that we had here last year—more money was requested by the Conservatives for health, by the Liberal Democrats for education and by Plaid Cymru for the economy. If we had done that, there is only one place where that money could have been found—and that would have been from local government. There was no mention of a council tax freeze then. A substantial reduction in local government expenditure—

Nid yw John Davies yn aelod o'r Blaid Lafur nac yn un o'i chefnogwyr. Cofiwch y ddadl ar y gyllideb a gawsom yma y llynedd—gofynnodd y Ceidwadwyr am ragor o arian ar gyfer iechyd, gofynnodd y Democratiaid Rhyddfrydol am ragor o arian ar gyfer addysg, a gofynnodd Plaid Cymru am ragor o arian ar gyfer yr economi. Pe baem wedi gwneud hynny, dim ond mewn un lle y gellid bod wedi dod o hyd i'r arian hwnnw—sef gan lywodraeth leol. Nid oedd unrhyw sôn am rewi'r dreth gyngor bryd hynny. Byddai gostyngiad sylweddol yng ngwariant llywodraeth leol—

**Nick Ramsay:** On that point about calling for more money for health, we were not doing that—we were just calling for your Government not to make the cuts that it is making to the health budget.

**Nick Ramsay:** O ran y pwynt ynghylch galw am ragor o arian ar gyfer iechyd, nid dyna'r oeddem yn ei wneud—yr unig beth yr oeddem yn ei wneud oedd gofyn i'ch Llywodraeth beidio â gwneud y toriadau y mae'n eu gwneud i'r gyllideb iechyd.

**Mike Hedges:** Which is more money than was in the budget. It comes back to the only place that it could be taken from. There was only one place with a budget of that size: local government. All of a sudden, that has become important, because of something that will be happening on 3 May. A substantial reduction in local government expenditure would have been inevitable if those three requests had been met.

**Mike Hedges:** Sy'n fwy o arian nag a oedd ar gael yn y gyllideb. Mae hynny'n mynd â ni'n ôl at yr unig fan lle y gellid cael gafael ar yr arian. Dim ond un lle oedd â chyllideb o'r maint hwnnw: llywodraeth leol. Yn sydyn, mae hynny wedi dod yn bwysig, oherwydd rhywbeth a fydd yn digwydd ar 3 Mai. Byddai gostyngiad sylweddol yng ngwariant llywodraeth leol wedi bod yn anochel pe bai'r tri chais hynny wedi eu bodloni.

This Welsh Labour Government has set out to meet the urgent priorities of people in Wales: employment and public services. It has used the £38.9 million council tax consequential from the UK Government to fund an economic stimulus package. This is an important part of the effort to boost the Welsh economy, support the construction industry, develop key public services, and, yes, get our people back into work, generating immediate benefits for our economy and for the people of Wales. Council tax rises in Wales are set to be at a record low this year. Four local authorities have set the rise at zero. As Peter Black said earlier, there is one such authority for each of the political parties. What would have happened if that money had not been given to local authorities?

Mae'r Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru wedi mynd ati i fodloni blaenoriaethau brys pobl yng Nghymru, sef cyflogaeth a gwasanaethau cyhoeddus. Mae wedi defnyddio'r £38.9 miliwn canlyniadol ar gyfer y dreth gyngor gan Lywodraeth y DU i ariannu pecyn ysgogi economaidd. Mae hynny'n rhan bwysig o'r ymdrech i roi hwb i economi Cymru, cefnogi'r diwydiant adeiladu, datblygu gwasanaethau cyhoeddus allweddol, ac ie, galluogi ein pobl i ailddechrau gweithio, gan greu manteision ar unwaith i'n heconomi ac i bobl Cymru. Disgwylir y bydd y cynnydd yn y dreth gyngor yng Nghymru ar ei lefel isaf erioed eleni. Mae pedwar awdurdod lleol wedi dweud na fydd y dreth gyngor yn cynyddu o gwbl. Fel y dywedodd Peter Black yn gynharach, mae un awdurdod o'r fath i bob un o'r pleidiau gwleidyddol. Beth fyddai wedi digwydd pe na byddai'r arian wedi'i roi i awdurdodau lleol?

Let us look at England. Tory-led Surrey increased council tax by 2.99%; Tory-led South Hampshire is increasing council tax by 2.5%; Tory-led Cambridgeshire is increasing council tax by 2.95%; Tory-led East Cambridgeshire is increasing council tax by the same amount; Tory-led Peterborough is increasing council tax by 2.95%. [*Interruption.*] So much for this much-heralded council tax freeze in England.

Gadewch inni edrych ar Loegr. Cynyddodd Surrey a arweinir gan y Torïaid y dreth gyngor 2.99%; mae De Hampshire a arweinir gan y Torïaid yn cynyddu'r dreth gyngor 2.5%; mae Swydd Gaergrawnt a arweinir gan y Torïaid yn cynyddu'r dreth gyngor 2.95%; mae Dwyrain Swydd Gaergrawnt a arweinir gan y Torïaid yn cynyddu'r dreth gyngor 2.95% hefyd; mae Peterborough a arweinir gan y Torïaid yn cynyddu'r dreth gyngor 2.95%. [*Torri ar draws*.] Wfft i'r holl sôn am rewi'r dreth gyngor yn Lloegr.

**Antoinette Sandbach:** Real devolution is about trusting people and devolving things down to a local level. [*Interruption.*] Do you agree that those councils were given the choice of whether or not to take the money and freeze council tax? They chose not to, but they were given a choice.

**Antoinette Sandbach:** Mae datganoli go iawn yn ymwneud ag ymddiried mewn pobl a datganoli pethau i lefel leol. [*Torri ar draws*.] A ydych yn cytuno bod y cynghorau hynny wedi cael dewis rhwng cymryd neu beidio â chymryd yr arian a rhewi'r dreth gyngor? Bu iddynt ddewis peidio â'i gymryd, ond cawsant ddewis.

**Mike Hedges:** Absolutely, in exactly the same way as local authorities in Wales, which had a 0.9% increase, had the opportunity to use that to freeze council tax, as four of them did, or to use it to provide services. Local decisions made by local councillors: that is exactly the right way for it to be done.

**Mike Hedges:** Yn hollol, yn yr un modd yn union ag y cafodd awdurdodau lleol yng Nghymru, a welodd gynnydd o 0.9%, gyfle i ddefnyddio'r arian hwnnw i rewi'r dreth gyngor, fel y gwnaeth pedwar ohonynt, neu'i ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau. Penderfyniadau lleol yn cael eu gwneud gan gynghorwyr lleol: dyna'r ffordd hollol gywir o weithredu.

We talked about education, and Peter Black was on about how well Swansea was doing; here are some facts. Swansea spent only 97.7% of its indicative budget allocation on education, and it is twenty-first out of 22 authorities in Wales in 2011-12, down from twentieth the previous year, on education expenditure.

Buom yn siarad am addysg, a bu Peter Black yn sôn am gyflawniadau Abertawe; dyma rai ffeithiau. Gwariodd cyngor Abertawe 97.7% yn unig o'i ddyraniad cyllideb ddangosol ar addysg, ac mae yn yr unfed safle ar hugain o blith 22 o awdurdodau Cymru yn 2011-12 o safbwynt gwariant ar addysg, ac wedi disgyn o fod yn yr ugeinfed safle y flwyddyn flaenorol.

**Peter Black:** Swansea continues to try to redress that by putting more money into education than the Minister asks us to do. We are aware of that, and we are clearly doing something about it.

**Peter Black:** Mae Abertawe yn parhau i geisio unioni hynny drwy roi mwy o arian i addysg nag y mae'r Gweinidog yn gofyn inni ei wneud. Rydym yn ymwybodol o hynny, ac mae'n amlwg ein bod yn gwneud rhywbeth am y peth.

**Mike Hedges:** In the current year, Swansea is spending 97.7% of its education IBA compared with an average of 99.5% across Wales as a whole. In Swansea, the gross school budget expenditure per pupil for 2011-

**Mike Hedges:** Yn y flwyddyn gyfredol, mae Abertawe yn gwario 97.7% o'i ddyraniad cyllideb ddangosol yng nghyswllt addysg o'i gymharu â chyfartaledd o 99.5% ar draws Cymru gyfan. Yn Abertawe, mae

12 is £5,163; the highest is £6,439, placing Swansea twenty-first out of 22 in Wales. I hope that Members will reject this motion.

gwariant gros o ran y gyllideb ysgolion ar bob disgybl ar gyfer 2011-12 yn cyfateb i £5,163; yr uchaf yw £6,439, sy'n golygu bod Abertawe yn yr unfed safle ar hugain o blith 22 o awdurdodau yng Nghymru. Rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau yn gwrthod y cynnig hwn.

**Antoinette Sandbach:** Time and again in the Chamber we hear rhetoric about the cutting of services and how the poor settlement from Westminster affects services here in Wales. However, here was a settlement of £38.9 million that could go to local councils and could help deliver services locally, on the ground.

**Antoinette Sandbach:** Dro ar ôl tro yn y Siambr, clywn rethreg am dorri gwasanaethau a sut mae'r setliad gwael gan San Steffan yn effeithio ar wasanaethau yma yng Nghymru. Fodd bynnag, yma cafwyd setliad o £38.9 miliwn a allai fynd i gynghorau lleol ac a allai helpu i ddarparu gwasanaethau yn lleol, ar lawr gwlad.

Devolution is about trusting people to deliver locally. I agree with some of what Peter Black said, but the problem is that this Welsh Government does not trust councillors to deliver in their local area and will not give them the means to do that. In effect, it is a typical top-down approach. In north Wales, councils have looked at the budget settlements from Welsh Labour administrations, which, time and again, have been below inflation. They have watched their local councillors be forced for the past 10 years to look at whether or not they are going to deliver local services or impose council tax rises on their council tax payers. They invariably compromise, and sometimes they put in those rises. It is ordinary hard-working people who have to pay those rises, and they see a transfer of assets from north Wales. It is, in effect, an indirect taxation.

Mae datganoli'n ymwneud ag ymddiried mewn pobl i gyflawni'n lleol. Rwyf yn cytuno â rhywfaint o'r hyn a ddywedodd Peter Black, ond y broblem yw nad yw'r Llywodraeth hon yng Nghymru yn ymddiried mewn cynghorwyr i gyflawni yn eu hardal leol ac nad yw'n fodlon rhoi'r modd iddynt wneud hynny. Mewn gwirionedd, mae'n ddull nodweddiadol o weithredu o'r brig i lawr. Yn y gogledd, mae cynghorau wedi bod yn edrych ar y setliadau cyllideb gan weinyddiaethau Llafur Cymru, sydd wedi bod yn is na chwyddiant dro ar ôl tro. Maent wedi gwylio eu cynghorwyr lleol yn cael eu gorfodi yn ystod y 10 mlynedd diwethaf i ystyried a fyddant yn darparu gwasanaethau lleol ynteu'n gorfodi cynnydd yn y dreth gyngor ar y sawl sy'n talu'r dreth honno. Yn ddieithriad maent yn cyfaddawdu, ac weithiau'n cyflwyno'r cynnydd hwnnw. Pobl gyffredin sy'n gweithio'n galed sy'n gorfod ymdopi â'r cynnydd hwnnw, ac maent yn gweld asedau'n cael eu trosglwyddo o'r gogledd. I bob pwrpas, mae'n drethiant anuniongyrchol.

**Kenneth Skates:** Today in Wrexham is a bad day, because, given your Government's position in Westminster, we are going to see the Remploy factory close. We also have a record number of homeless people. Given developments to date, do you not think that it is grotesquely insensitive to be calling for a measure that will benefit the richest millionaires in my constituency by about £50, but will only benefit the soon-to-be redundant Remploy workers by 20p a week?

**Kenneth Skates:** Mae heddiw'n ddiwrnod gwael yn Wrecsam oherwydd, o ystyried safbwynt eich Llywodraeth yn San Steffan, byddwn yn gweld ffatri Remploy yn cau. Mae gennym hefyd y nifer uchaf erioed o bobl ddigartref. O gofio'r datblygiadau hyd yma, onid ydych o'r farn ei bod yn wrthun o ansensitif galw am fesur a fydd yn golygu bod y miliwnyddion cyfoethocaf yn fy etholaeth ar eu hennill o oddeutu £50, tra bydd gweithwyr Remploy, a fydd yn ddi-waith yn fuan, ar eu hennill o 20c

yr wythnos yn unig?

**Antoinette Sandbach:** A Labour Government in the UK shut 28 Remploy factories, making over 2,000 people redundant. Therefore, I am not going to take any lectures from you on that.

**Antoinette Sandbach:** Caeodd Llywodraeth Lafur yn y DU 28 o ffatrïoedd Remploy, gan wneud dros 2,000 o bobl yn ddi-waith. Felly, nid wyf yn bwriadu cymryd unrhyw gerydd gennych chi ynghylch hynny.

Going back to who pays council tax, many of the people who are eligible for support in paying their council tax bills are not taking up those opportunities. One in three households in Wales is eligible for some form of council tax benefit, but a Welsh Government report from 2008 found that £100 million of council tax benefit goes unclaimed in Wales each year. That is who you are hitting in the pocket. One of the reasons is the lack of knowledge and the stigma attached to claiming benefits. Just remember that when you are considering who has to pay these bills. The data demonstrate that you are hitting people who qualify for benefit, but who do not have the means or the willingness to claim it.

O fynd yn ôl i sôn am bwy sy’n talu’r dreth gyngor, nid yw llawer o’r bobl sy’n gymwys i gael cymorth i dalu eu biliau treth gyngor yn manteisio ar y cyfleoedd hynny. Mae un o bob tri chartref yng Nghymru yn gymwys i gael rhyw fath o fudd-dal treth gyngor, ond canfu adroddiad gan Lywodraeth Cymru yn 2008 na chaiff gwerth £100 miliwn o fudd-dal y dreth gyngor ei hawlio yng Nghymru bob blwyddyn. Dyna’r bobl yr ydych yn gwneud iddynt ddioddef yn ariannol. Un o’r rhesymau yw diffyg gwybodaeth a’r gwarth sy’n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau. Cofiwch hynny pan fyddwch yn ystyried pwy sy’n gorfod talu’r biliau hyn. Mae’r data yn dangos eich bod yn taro pobl sy’n gymwys i gael budd-dal, ond nad ydynt yn gallu ei hawlio neu nad ydynt yn barod i’w hawlio.

**Julie Morgan:** What about the fact that the UK Government is abolishing council tax benefit and is transferring to the Welsh Government 10% less than is actually used?

**Julie Morgan:** Beth am y ffaith bod Llywodraeth y DU yn diddymu budd-dal y dreth gyngor ac yn trosglwyddo i Lywodraeth Cymru 10% yn llai na’r hyn a ddefnyddir mewn gwirionedd?

**Antoinette Sandbach:** Presumably, some of that is administrative savings. One of the problems with council tax benefit is that it is now paid to the person— [*Interruption.*] Going back to my point, there will be an overall package of benefits that will enable people to return to work and allow people who work to be better off than those who are on benefits. That approach has an enormous amount of support throughout the country.

**Antoinette Sandbach:** Rhaid tybio bod rhywfaint o’r swm hwnnw’n arbedion gweinyddol. Un o’r problemau gyda budd-dal y dreth gyngor yw ei fod yn cael ei dalu’n awr i’r unigolyn—[*Torri ar draws*.] O ddychwelyd at fy mhwynt, bydd pecyn cyffredinol o fudd-daliadau a fydd yn galluogi pobl i ddychwelyd i’r gwaith ac a fydd yn caniatáu i bobl sy’n gweithio fod yn well eu byd na’r sawl sy’n cael budd-daliadau. Ceir cefnogaeth enfawr ledled y wlad i’r dull gweithredu hwnnw.

I will turn briefly to hypothecation. The bureaucracy and paperwork associated with hypothecation means that, effectively, 10% of the money that goes to local councils on hypothecated grants is not there to spend on services. That has been pointed out by the Wales Audit Office.

Hoffwn droi’n fyr at y broses neilltuo. Mae’r fiwrocratiaeth a’r gwaith papur sy’n gysylltiedig â neilltuo cyllid yn golygu, i bob pwrpas, nad yw 10% o’r arian sy’n mynd i gynghorau lleol ar ffurf grantiau a neilltuir ar gael i’w wario ar wasanaethau. Mae hynny wedi’i nodi gan Swyddfa Archwilio Cymru.

4.30 p.m.

It is clear that local councils should be trusted to make decisions and to decide how to spend money on services that are delivered locally. If you believe in devolution, then you believe in providing money so that people can make decisions locally about the services that are delivered locally.

Mae'n amlwg y dylid ymddiried mewn cynghorau lleol i wneud penderfyniadau a phenderfynu sut y dylid gwario arian ar wasanaethau a ddarperir yn lleol. Os ydych yn credu mewn datganoli, rydych yn credu mewn darparu arian er mwyn i bobl allu gwneud penderfyniadau'n lleol am y gwasanaethau a ddarperir yn lleol.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'n ddiddorol bod Antoinette Sandbach wedi dod â'i chyfraniad i ben drwy gyfeirio at ddatganoli. Yn ei hanfod, mae cynnig y Ceidwadwyr Cymreig yn un gwrth-ddatganoli. Mae'r cynnig yn datgan y dylem wneud yr hyn y mae Llywodraeth San Steffan yn ei ddweud yn union, gan anwybyddu'r sefyllfa yng Nghymru yn gyfan gwbl. Fel sydd eisoes wedi'i ddweud, mae'r setliad llywodraeth leol yng Nghymru yn wahanol iawn i'r setliad llywodraeth leol yn Lloegr. Mae'r setliad yn llawer gwell yng Nghymru ac, ar gyfartaledd, mae'r dreth gyngor yn llawer is yng Nghymru nag yn Lloegr. Felly, mae'r sefyllfa yn gwbl wahanol, ond mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn dweud wrthym heddiw bod rhaid inni wneud yr hyn mae David Cameron yn Llundain yn dweud wrthym ei wneud, beth bynnag yw'r sefyllfa yng Nghymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** It is interesting that Antoinette Sandbach concluded her contribution by referring to devolution. At its core, the Welsh Conservatives' motion is anti-devolution. It is a motion that says that we should do exactly what the Westminster Government tells us to do, ignoring the situation in Wales completely. As has been said already, the local government settlement in Wales is very different from the local government settlement in England. The settlement is much better in Wales and, on average, council tax is much lower in Wales than in England. Therefore, the situation is entirely different, but the Welsh Conservatives are telling us today that we have to do what David Cameron in London is telling us to do, whatever the situation in Wales.

**Andrew R.T. Davies:** I am grateful to the local government spokesperson for Plaid Cymru for taking an intervention. We are not saying that things have to be the same as England, but Scotland has also had a five-year suspension of council tax. The money was sent from the Treasury and the Welsh Government is perfectly entitled to make its own choices about how to spend the money. However, we believe that it has made the wrong choice and we are highlighting that there was an opportunity to freeze council tax in Wales, as is happening in Scotland and England.

**Andrew R.T. Davies:** Rwyf yn ddiolchgar i lefarydd Plaid Cymru dros lywodraeth leol am dderbyn ymyriad. Nid ydym yn dweud bod yn rhaid i bethau fod yr un fath â Lloegr, ond mae'r Alban hefyd wedi gweld cynnydd yn y dreth gyngor yn cael ei atal am bum mlynedd. Cafodd yr arian ei anfon gan y Trysorlys, ac mae gan Lywodraeth Cymru berffaith hawl i wneud ei dewisiadau ei hun ynghylch sut i wario'r arian. Fodd bynnag, credwn ei bod wedi gwneud y dewis anghywir, ac rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod cyfle wedi codi i rewi'r dreth gyngor yng Nghymru, fel sy'n digwydd yn yr Alban ac yn Lloegr.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae Andrew Davies, wrth wneud hynny, yn anwybyddu'r angen yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae angen ysgogiad economaidd yng Nghymru er mwyn gwrthweithio'r toriadau enbyd a wnaed gan y glymblaid yn San Steffan mewn arian cyfalaf. Rydym wedi rhybuddio'r glymblaid

**Rhodri Glyn Thomas:** In doing that, Andrew Davies is ignoring the need in Wales. At present, we need an economic stimulus in Wales in order to counteract the swingeing cuts made by the coalition in Westminster to capital funding. We have warned the coalition that the effects of that

y bydd effeithiau hynny lawer yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr. Rydym wedi ei rhybuddio bod y toriadau'n cael eu cyflwyno'n llawer rhy fuan, eu bod yn llawer rhy ddwfn, a'u bod yn peryglu sefydlogrwydd economi Cymru. Rydym yn gweld hynny erbyn hyn. Mae ffigurau diweithdra 9% yn uwch yng Nghymru nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig ac mae ffigurau diweithdra ymhlith pobl ifanc lawer yn waeth yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn dweud wrthym heddiw i anwybyddu hynny ac i beidio ag edrych ar fuddsoddi arian yn y meysydd a fydd yn gwneud gwahaniaeth sylfaenol i fywydau pobl Cymru. Maent yn dweud wrthym i wneud yr hyn mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei wneud yn Lloegr.

will be much greater in Wales than in England. We have warned it that the cuts are being made too soon, that they are far too deep, and that they endanger the stability of the economy in Wales. We are now seeing that happen. Unemployment figures are 9% higher in Wales than in the rest of the UK and the figures for unemployment among young people are much worse in Wales. However, the Welsh Conservatives are telling us today to ignore that and not to look at investing money in the areas that will make a fundamental difference to the lives of people in Wales. They tell us to do what the UK Government is doing in England.

Mae hynny'n dangos yr hyn sydd wedi digwydd i'r Ceidwadwyr Cymreig. Roedd y newid mawr a oedd wedi digwydd i'r Ceidwadwyr Cymreig yn codi calon rhywun—rhaid talu teyrnged i Nick Bourne am ei arweinyddiaeth yn hynny o beth—wrth i'r blaid symud o fod yn blaid John Redwood cyn y refferendwm, a oedd yn gwrthwynebu datganoli i Gymru, i fod yn blaid a oedd yn ceisio cyfrannu'n greadigol at y broses ddatganoli yng Nghymru. Erbyn hyn, o dan arweinyddiaeth Andrew R.T. Davies, mae'r blaid wedi mynd yn hôl, ac mae'n gwrthwynebu datganoli yn llwyr. Nid yw'r Ceidwadwyr Cymreig eisiau i Lywodraeth Cymru wneud unrhyw benderfyniad drosti ei hun.

That shows us what has happened to the Welsh Conservatives. The great change that had happened to the Welsh Conservatives was encouraging—tribute must be paid to Nick Bourne for his leadership in that respect—as the party went from being the party of John Redwood before the referendum, which opposed devolution for Wales, to being a party that tried to contribute creatively to the devolution process in Wales. Now, under the leadership of Andrew R.T. Davies, the party has gone back and it opposes devolution entirely. The Welsh Conservatives do not want the Welsh Government to make any decisions for itself.

**Darren Millar:** Will you give way?

**Darren Millar:** A wnewch chi ildio?

**Rhodri Glyn Thomas:** Gwnaf. Dyma'r union ddyn i ddod mewn ar y pwynt hwnnw.

**Rhodri Glyn Thomas:** I will. He is the very man to come in on that point.

**Darren Millar:** I am grateful to you for taking an intervention. Do you accept that this was also our policy under Nick Bourne's leadership and that it was included in our Assembly election manifesto last year? Will you therefore withdraw those remarks?

**Darren Millar:** Rwyf yn ddiolchgar ichi am dderbyn ymyriad. A ydych yn derbyn mai dyma oedd ein polisi dan arweinyddiaeth Nick Bourne hefyd, a'i fod wedi'i gynnwys yn ein maniffesto ar gyfer etholiad y Cynulliad y llynedd? Felly, a wnewch chi dynnu'r sylwadau hynny'n ôl?

**Rhodri Glyn Thomas:** Cyn yr etholiad diwethaf roeddech yn dweud—ac roeddech chi'n fwy llafar na neb, Darren Millar—mai'r unig beth pwysig mewn gwirionedd oedd diogelu'r gyllideb ar gyfer iechyd. Nid oedd

**Rhodri Glyn Thomas:** Before the last election you were saying—and you were more vocal than anyone, Darren Millar—that the only important thing was to safeguard the health budget. It did not matter about cuts of

ots am doriadau hyd at 20% mewn addysg a meysydd eraill—y peth pwysig i Gymru a'i phobl oedd diogelu'r gyllideb iechyd. Erbyn hyn, mae David Cameron wedi dweud rhywbeth gwahanol wrthych, sef y dylid rhewi'r dreth gyngor. Felly, erbyn hyn, y peth pwysig yw rhewi'r dreth gyngor, ac rydych wedi anghofio am y gyllideb iechyd.

up to 20% in education or other areas—the important thing for Wales and its people was to safeguard the health budget. Now David Cameron has told you something different, namely that council tax should be frozen. Therefore, now the important thing is to freeze council tax, and you have forgotten about the health budget.

Fy mhwynt am Nick Bourne oedd bod y Ceidwadwyr Cymreig, o dan ei arweinyddiaeth ef, wedi magu hunaniaeth Gymreig. Roedd rhywun yn gallu gweld bod y Ceidwadwyr Cymreig yn gorff gwahanol iawn i'r Ceidwadwyr yn Llundain. Erbyn hyn, mae hynny wedi'i ddileu i raddau helaeth. Y cwbl rydych yn ei wneud erbyn hyn yw cyflwyno negeseuon o Lundain sy'n gofyn inni anwybyddu cyd-destun ac anghenion Cymru a chynnig rhyw fath o *diktat* o 10 Downing Street i bobl Cymru.

My point about Nick Bourne was that the Welsh Conservatives, under his leadership, had developed a Welsh identity. You could see that the Welsh Conservatives were a very different organisation to the Conservatives in London. By now, that has been done away with to a great extent. All that you do now is to present messages from London that ask us to ignore the Welsh context and the needs of Wales and offer some kind of diktat from10 Downing Street to the people of Wales.

**Nick Ramsay:** I do not want to interrupt your eulogy to Nick Bourne, but you must accept that, while devolution gives you the ability to do things differently in Wales—which we all agree with—it does not mean that you have to do so, if a policy decision has been taken elsewhere that would also help people in Wales.

**Nick Ramsay:** Nid wyf am dorri ar draws eich molawd i Nick Bourne, ond er bod datganoli yn rhoi'r gallu ichi wneud pethau'n wahanol yng Nghymru—ac rydym i gyd yn cytuno â hynny— rhaid ichi dderbyn nad yw hynny'n golygu bod yn rhaid ichi wneud pethau'n wahanol os oes penderfyniad polisi wedi'i wneud rywle arall a fyddai'n helpu pobl yng Nghymru hefyd.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn yr un modd, nid oes rhaid ichi wneud yr hyn sy'n cael ei wneud yn Lloegr. Yr hyn rydym ni'n ei ddweud yw bod y sefyllfa'n wahanol yng Nghymru. Yn ei hanfod, hyd y gwelaf i, mae'r cynnig hwn yn gynnig gwrth-ddatganoli, sy'n anwybyddu'r hyn a ddigwyddodd yn y refferendwm a'r 12 mlynedd diwethaf o ddatganoli yng Nghymru. Am y rheswm hwnnw, byddwn yn gwrthwynebu nid yn unig y cynnig ond y gwelliannau, ac yn canolbwyntio ar weld beth yw anghenion pobl Cymru yn hytrach na gwrando ar alwadau'r Blaid Geidwadol yn Llundain.

**Rhodri Glyn Thomas:** By the same token, you do not have to do what is being done in England. What we are saying is that the situation is different in Wales. In essence, as far as I see it, this is an anti-devolution motion that ignores what happened in the referendum and the last 12 years of devolution in Wales. For that reason, we will oppose not only the motion, but the amendments, and we will focus on seeing what the needs of the people of Wales are rather than listening to the demands of the Conservative Party in London.

**Russell George:** I will be brief, because many of the points that I wished to raise have already been made. It is disappointing that it is not a priority of this Government, in this economic climate, to keep hard-earned money in taxpayers' pockets. While the savings may be modest, there is a tangible

**Russell George:** Byddaf yn gryno, gan fod llawer o'r pwyntiau yr oeddwn am eu codi wedi'u gwneud eisoes. Mae'n siomedig nad yw galluogi trethdalwyr i gadw'r arian y maent wedi gweithio'n galed i'w ennill yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Er y

return, which hard-pressed families and pensioners would welcome and appreciate. We should not underestimate the power and value that that amount of money can have in the hands of those who have earned it. I was disappointed that the First Minister scoffed at that in this Chamber. Frankly, that was arrogant and shows how out of touch this Government is.

gallai'r arbedion fod yn fach, ceir budd pendant y byddai teuluoedd a phensiynwyr sydd dan straen yn ei groesawu ac yn ei werthfawrogi. Ni ddylem fychanu grym a gwerth posibl y swm hwnnw o arian yn nwylo'r sawl sydd wedi'i ennill. Roeddwn yn siomedig bod y Prif Weinidog wedi dilorni hynny yn y Siambr hon. A dweud y gwir, roedd hynny'n drahaus ac mae'n dangos y graddau mae'r Llywodraeth hon wedi colli cysylltiad â phobl.

**Sandy Mewies:** I appreciate the comments that have been made by people on your side about how even a small amount of money can make a huge difference to people. Therefore, would you join me in condemning the increase in VAT that your coalition Government has introduced, as well as the cuts to the winter fuel allowance, which have hit people extremely hard?

**Sandy Mewies:** Rwyf yn gwerthfawrogi'r sylwadau a wnaed gan bobl ar eich ochr chi ynghylch sut y gall hyd yn oed ychydig bach o arian wneud gwahaniaeth enfawr i bobl. Felly, a fyddech yn fodlon ymuno â mi i gondemnio'r cynnydd mewn TAW y mae eich Llywodraeth glymblaid wedi'i gyflwyno, yn ogystal â'r toriadau i'r lwfans tanwydd gaeaf, sydd wedi taro pobl yn eithriadol o galed?

**Russell George:** I find it unbelievable that the UK Government was left with the mess that it was. That is the fact of the matter. This Government has to clear up the mess that the last Government made. That is the way that it has been for decades.

**Russell George:** Yn fy marn i, mae'n anghredadwy bod Llywodraeth y DU wedi cael ei gadael gyda'r llanastr a adawyd iddi. Dyna'r gwir amdani. Rhaid i'r Llywodraeth hon glirio'r llanastr a wnaed gan y Llywodraeth ddiwethaf. Dyna'r drefn ers degawdau.

The Welsh Government should not underestimate the consequences of its policy decision for how it is perceived throughout Wales. People in my constituency, having seen what is happening in England and Scotland, are wondering why the same assistance has not been afforded to them. Over the past few years, council tax increases in Powys have been far greater than the Welsh average. Someone came into my office on Monday—they happened to be walking past—and asked why there has been such an increase in Powys and what has happened to the £40 million. I had to explain to them, of course.

Ni ddylai Llywodraeth Cymru fychanu canlyniadau ei phenderfyniad polisi o safbwynt sut y caiff ei ystyried ledled Cymru. Mae pobl yn fy etholaeth i, ar ôl gweld beth sy'n digwydd yn Lloegr a'r Alban, yn meddwl tybed pam nad yw'r un cymorth wedi'i roi iddynt hwy. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae cynnydd yn y dreth gyngor ym Mhowys wedi bod yn fwy o lawer na chyfartaledd Cymru. Daeth rhywun i'm swyddfa ddydd Llun—roedd yn digwydd cerdded heibio—a gofyn pam y bu cymaint o gynnydd ym Mhowys a beth sydd wedi digwydd i'r £40 miliwn. Bu'n rhaid imi esbonio i'r sawl dan sylw, wrth gwrs.

There are other issues that need to be addressed by this Government to help local authorities maximise the money generated through council tax. I hope that the Minister will pick up on that in his response. We know that a significant amount of council tax—nearly £37 million—is not being collected. The Government has a role to play in

Ceir materion eraill y mae angen i'r Llywodraeth hon fynd i'r afael â hwy i helpu awdurdodau lleol i wneud y gorau o'r arian a gynhyrchir drwy'r dreth gyngor. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn rhoi sylw i hynny yn ei ymateb. Gwyddom na chaiff swm sylweddol o'r dreth gyngor—bron i £37 miliwn—ei gasglu. Mae gan y Llywodraeth

assisting local authorities to ensure that they have the most efficient collection systems and can get the highest tax yield.

rôl i'w chwarae o ran cynorthwyo awdurdodau lleol i sicrhau bod ganddynt y systemau casglu mwyaf effeithlon a'u bod yn gallu casglu cymaint o dreth ag sy'n bosibl.

Council tax really matters to households across Wales, and for this Government not to accept that by refusing to pass on that £40 million of UK Government money to local authorities is inexcusable.

Mae'r dreth gyngor yn wirioneddol bwysig i gartrefi ar draws Cymru, ac mae'r ffaith nad yw'r Llywodraeth hon yn derbyn hynny, drwy wrthod trosglwyddo'r £40 miliwn o arian Llywodraeth y DU i awdurdodau lleol, yn anfaddeuol.

**Lynne Neagle:** We should see this motion for exactly what it is: a cynical ploy by the Welsh Conservatives to try to bolster their vote ahead of the local government elections in May. In contrast, my party has proved itself to be a steadfast friend to local government in recent years, delivering challenging but fair settlements despite our own considerable budgetary challenges. Once again, we see the Tories in Wales falling back into the comfort zone of fantasy politics rather than addressing the real issues affecting people throughout this country. No-one wants to see big increases in council tax bills in these tough times. I recognise that every penny really does count for households who are struggling to make ends meet. However, the reality is that we are looking at increases that are at a record low across Wales this year. So let us inject some honesty into this debate. In Torfaen, the £27 a year increase facing band D householders is clearly a challenge, but it simply does not compare to the £500 a year that the increase of VAT to 20% has cost them. It is also less than the £50 to £100 cut to winter fuel payments that has faced every pensioner in my constituency since November last year. It is a drop in the ocean compared to the pernicious raft of changes to the housing benefit system that will leave some of the poorest households in Wales worse off to the tune of hundreds of pounds a year.

**Lynne Neagle:** Dylem sylweddoli gwir ddiben y cynnig hwn, sef cynllwyn sinigaidd gan y Ceidwadwyr Cymreig i geisio cryfhau eu pleidlais cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai. Mewn cyferbyniad, mae fy mhlaid i wedi profi ei bod yn ffrind ffyddlon i lywodraeth leol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, drwy ddarparu setliadau heriol ond teg er gwaethaf ein heriau cyllidebol sylweddol ni ein hunain. Unwaith eto, rydym yn gweld y Torïaid yng Nghymru yn troi'n ôl at wleidyddiaeth ffantasi gysurus yn hytrach na mynd i'r afael â'r materion gwirioneddol sy'n effeithio ar bobl ledled y wlad hon. Nid oes neb am weld cynnydd mawr mewn biliau treth gyngor yn ystod y cyfnod anodd hwn. Rwyf yn cydnabod bod pob ceiniog wir yn cyfrif i gartrefi sy'n cael trafferth cael deupen llinyn ynghyd. Fodd bynnag, y gwir amdani yw ein bod yn edrych ar gynnydd sydd gyda'r isaf erioed ledled Cymru eleni. Felly, gadewch inni ddechrau bod yn onest yn y ddadl hon. Yn Nhorfaen, mae'r £27 y flwyddyn o gynnydd sy'n wynebu deiliaid tai band D yn amlwg yn her, ond nid yw'n cymharu o gwbl â'r £500 y flwyddyn y mae'r cynnydd o 20% mewn TAW wedi'i gostio iddynt. Mae hefyd yn llai na'r gostyngiad o £50 i £100 mewn taliadau tanwydd gaeaf y mae pob pensiynwr yn fy etholaeth wedi'i wynebu er mis Tachwedd y llynedd. Mae'n gam pitw iawn o'i gymharu â'r llu o newidiadau dinistriol i'r system budd-dal tai a fydd yn gadael rhai o'r cartrefi tlotaf yng Nghymru gannoedd o bunnoedd y flwyddyn yn waeth eu byd.

The motion tabled by the Welsh Conservatives talks about assistance with daily living costs. Those calls would be easier to stomach were it not for the fact that we have not heard a peep from any of them in the Chamber on any of those critical issues.

Mae'r cynnig a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig yn sôn am gymorth gyda chostau byw beunyddiol. Nid yw'n hawdd stumogi'r galwadau hynny gan nad ydym wedi clywed gair gan yr un ohonynt yn y Siambr am unrhyw rai o'r materion

hollbwysig hynny.

**Antoinette Sandbach:** As I recall, plans were leaked from the Treasury that showed that Alistair Darling planned to raise VAT to 21% following the election. The changes to housing benefit will, at most, affect 2,000 households in Wales and no more. That is absolutely clear. No more than 2,000 households in Wales will be affected. The rest will continue to receive support.

**Antoinette Sandbach:** O'r hyn a gofiaf, cafodd cynlluniau eu datgelu'n answyddogol gan y Trysorlys, a oedd yn dangos bod Alistair Darling yn bwriadu codi TAW i 21% yn dilyn yr etholiad. Bydd y newidiadau i'r budd-dal tai'n effeithio, ar y mwyaf, ar 2,000 o gartrefi yng Nghymru, a dim mwy. Mae hynny'n gwbl glir. Ni fydd y newidiadau'n effeithio ar fwy na 2,000 o gartrefi yng Nghymru. Bydd y gweddill yn parhau i gael cymorth.

**Lynne Neagle:** I strongly recommend that you look at those housing benefit proposals in detail, because they are a pernicious set of proposals that will have a massive impact, and they a tsunami heading towards some of the poorest families in this country.

**Lynne Neagle:** Rwyf yn argymell yn gryf eich bod yn edrych ar y cynigion ynghylch budd-dal tai yn fanwl, oherwydd maent yn set ddinistriol o gynigion a fydd yn cael effaith enfawr ac maent yn tswnami sy'n symud i gyfeiriad rhai o deuluoedd tlotaf y wlad hon.

Even in England, where Eric Pickles has virtually held a gun to the heads of local authorities, 15% of councils are putting council tax up this year, including Tory-controlled Surrey, which has publicly described the freeze as 'short-term gain for long-term pain'. I did not think that I would find myself agreeing with a Tory council leader from the south-east of England, but Conservatives in this Chamber should listen to him on this point. Decisions on council tax levels should be taken locally, based upon the economic reality facing councils. If local authorities feel that they have sufficient resources to allow them to keep council tax down, then that is up to them, but it is simply not economically sustainable or responsible for them to do so on the basis of a one-off grant from central Government.

Hyd yn oed yn Lloegr, lle y mae Eric Pickles i bob pwrpas wedi bod yn bygwth penaethiaid awdurdodau lleol, mae 15% o gynghorau yn cynyddu'r dreth gyngor eleni, gan gynnwys Surrey a reolir gan y Torïaid, sydd wedi dweud yn gyhoeddus bod rhewi'r dreth gyngor yn fudd byrdymor a fydd yn boen hirdymor. Nid oeddwn yn meddwl y byddwn yn fy nghael fy hun yn cytuno ag arweinydd cyngor Torïaidd o dde-ddwyrain Lloegr, ond dylai Ceidwadwyr yn y Siambr hon wrando arno ynghylch y pwynt hwn. Dylai penderfyniadau ynghylch lefelau'r dreth gyngor gael eu gwneud yn lleol, ar sail y realiti economaidd sy'n wynebu cynghorau. Os yw awdurdodau lleol yn teimlo bod ganddynt adnoddau digonol i'w galluogi i gadw'r dreth gyngor yn isel, mater iddynt hwy yw hynny, ond nid yw cadw'r dreth gyngor yn isel ar sail grant a geir unwaith yn unig gan y Llywodraeth ganolog yn gynaliadwy nac yn gyfrifol o safbwynt economaidd.

What happens when the money runs out? The gap in funding will still be there and we will be looking at inflation-busting council tax increases in the future. Perhaps that is why Newport, Denbighshire and the Vale of Glamorgan—all councils where the Tories are in power—are not freezing council tax this year, despite being better funded than their counterparts in England. In contrast to the Welsh Conservatives in the Chamber,

Beth fydd yn digwydd pan fydd yr arian yn darfod? Bydd y bwlch o ran cyllid yn parhau, a byddwn yn edrych ar gynnydd yn y dreth gyngor yn y dyfodol a fydd dipyn yn uwch na chwyddiant. Efallai mai dyna pam nad yw Casnewydd, Sir Ddinbych a Bro Morgannwg—sydd i gyd yn gynghorau lle y mae'r Torïaid mewn grym—yn rhewi'r dreth gyngor eleni, er eu bod yn cael eu hariannu'n well na'u cymheiriaid yn Lloegr. Yn wahanol

they must recognise that freezing council tax, and thus risking local finances by placing them on a footing that is essentially unsustainable, is a policy that could put the vital services that they deliver in jeopardy. It is exactly the same when the Tories get up in the Chamber to talk about their so-called pledge to protect health spending. It is as if the NHS exists in isolation and other public services do not exist. Just like when it emerged that their plans to protect health spending meant swingeing cuts in education, I wonder whether they have given a second thought to the impact that a council tax freeze could have on vulnerable children in my constituency who need safeguarding, on older people who rely on council support to get by, or on local third sector organisations that depend on local authorities.

i'r Ceidwadwyr Cymreig yn y Siambr, rhaid eu bod yn cydnabod bod rhewi'r dreth gyngor, a pheryglu materion ariannol lleol hefyd, felly, drwy eu gosod ar sylfaen sydd yn ei hanfod yn anghynaliadwy, yn bolisi a allai beryglu'r gwasanaethau hanfodol a ddarperir ganddynt. Dyna'n union sy'n digwydd pan fydd y Torïaid yn codi yn y Siambr i siarad am yr hyn y maent yn ei alw'n addewid i ddiogelu gwariant ar iechyd. Mae fel pe bai'r GIG yn bodoli ar ei ben ei hun ac nad oes gwasanaethau cyhoeddus eraill i'w cael. Yn union fel y daeth i'r amlwg bod eu cynlluniau i ddiogelu gwariant ar iechyd yn golygu toriadau llym ym maes addysg, tybed a ydynt wedi meddwl ddwywaith pa effaith y gallai rhewi'r dreth gyngor ei chael ar blant agored i niwed y mae angen eu hamddiffyn yn fy etholaeth i, ar bobl hŷn sy'n dibynnu ar gymorth gan y cyngor i ymdopi, neu ar fudiadau lleol yn y trydydd sector sy'n dibynnu ar awdurdodau lleol.

Despite the protections afforded to them by the Welsh Labour Government, we know that councils are facing enormous pressures in trying to cope with the sharp rise in demand for their services sparked by the downturn, at the same time as delivering huge efficiency savings. With the actions of the coalition Government wreaking havoc on the Welsh economy, I believe that the Welsh Government has made exactly the right decision in allocating this Barnett consequential towards a fiscal stimulus. With big increases not on the cards this time, these calls for a council tax freeze from the Tories are nothing more than electioneering and a distraction from the critical task facing local government at this time. The real task that we should all be focusing on is ensuring that local authorities have all of the resources and support that they need from the Welsh Government to carry out their vital work in our communities.

Er gwaethaf y mesurau diogelu a roddir iddynt gan Lywodraeth Lafur Cymru, rydym yn gwybod bod cynghorau'n wynebu pwysau aruthrol wrth geisio ymdopi â'r cynnydd sydyn yn y galw am eu gwasanaethau, sydd wedi'i achosi gan y dirywiad economaidd, ac wrth geisio sicrhau arbedion effeithlonrwydd enfawr ar yr un pryd. Wrth i weithredoedd y Llywodraeth glymblaid wneud llanastr o economi Cymru, credaf fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud y penderfyniad hollol gywir wrth ddyrannu arian canlyniadol Barnett ar gyfer ysgogiad ariannol. Gan nad yw'n fwriad cyflwyno cynnydd mawr y tro hwn, nid yw'r galwadau hyn gan y Torïaid i rewi'r dreth gyngor yn ddim byd mwy nag ymgyrchu etholiadol ac ymgais i dynnu sylw oddi ar y dasg hollbwysig sy'n wynebu llywodraeth leol ar hyn o bryd. Y dasg go iawn y dylai pob un ohonom fod yn canolbwyntio arni yw sicrhau bod gan awdurdodau lleol yr holl adnoddau a'r holl gymorth y mae arnynt eu hangen gan Lywodraeth Cymru i gyflawni eu gwaith hanfodol yn ein cymunedau.

**Mark Isherwood:** Average council tax bills have increased by 140% in Wales under Labour. It is sneaky and disingenuous for Welsh Labour to argue that council tax is on average substantially lower in Wales than in

**Mark Isherwood:** Mae biliau cyfartalog treth gyngor wedi cynyddu 140% yng Nghymru dan y Blaid Lafur. Cam cyfrwys ac annidwyll ar ran Llafur Cymru yw dadlau bod y dreth gyngor ar gyfartaledd yn is o

England when disposable household income is also lower in Wales than in any other UK nation. Of course, Welsh Labour has form in this area. It previously undermined public trust in the council tax system by mishandling the revaluation of properties. Despite its promises, revaluation was not cost neutral. A third of Welsh households went up a band or more, and only 8 per cent went down.

lawer yng Nghymru nag yn Lloegr, pan fo incwm gwario cartrefi hefyd yn is yng Nghymru nag yn unrhyw un o wledydd eraill y DU. Wrth gwrs, mae Llafur Cymru yn brofiadol yn y maes hwn. Bu iddi danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd yn system y dreth gyngor o'r blaen drwy gamreoli'r ymarfer ailbrisio eiddo. Er gwaethaf ei haddewidion, nid oedd yr ymarfer ailbrisio yn niwtral o ran cost. Dringodd traean cartrefi Cymru un band neu fwy, a dim ond 8 y cant a ddisgynnodd i fand is.

4.45 p.m.

It is now denying assistance to Welsh households with daily living costs by failing to pass on the £39 million provided by the UK coalition Government to freeze council tax in Wales. England has had funding to freeze council tax for two years, and households in approximately 90% of English council areas will have no council tax rise next year. As we have heard, Scotland has had no council tax increase for five years. However, in Wales, households are to be clobbered again.

Mae bellach yn gwrthod rhoi cymorth i gartrefi Cymru gyda chostau byw beunyddiol, drwy fethu â throsglwyddo'r £39 miliwn a ddarparwyd gan Lywodraeth glymblaid y DU i rewi'r dreth gyngor yng Nghymru. Mae Lloegr wedi cael cyllid i rewi'r dreth gyngor am ddwy flynedd, ac ni fydd cartrefi mewn tua 90% o ardaloedd cynghorau yn Lloegr yn gweld cynnydd yn y dreth gyngor y flwyddyn nesaf. Fel y clywsom, nid yw'r Alban wedi gweld cynnydd yn y dreth gyngor ers pum mlynedd. Fodd bynnag, yng Nghymru, bydd cartrefi'n cael eu taro unwaith eto.

A cynical Labour amendment to this motion notes that council tax in Wales is 19% lower than in England. However, it does not say that this gap has narrowed from 31.5% just four years ago. It also does not say that disposable household income in Wales is 15.3% lower than in England.

Mae gwelliant sinigaidd gan y Blaid Lafur i'r cynnig hwn yn nodi bod y dreth gyngor yng Nghymru 19% yn is nag yn Lloegr. Fodd bynnag, nid yw'n dweud bod y bwlch hwn wedi lleihau o 31.5% bedair blynedd yn unig yn ôl. Nid yw chwaith yn dweud bod incwm gwario cartrefi yng Nghymru 15.3% yn is nag yn Lloegr.

A Flintshire constituent e-mailed me to remind Jane Hutt that wages are far lower in Wales than in England, so it is only logical that Welsh council tax must be kept far lower than English council tax, else greater hardship would occur. He asked whether Mrs Hutt was unaware of this logic. He added that for those on low wages, but above the benefit thresholds, the cost of council tax is disproportionately high, therefore he asks for any council tax rises to be eliminated. He also said that money has been granted from the UK Government for this purpose, and that people with families to house and feed would be grateful to you for using it for its intended purpose.

Anfonodd etholwr yn Sir y Fflint e-bost ataf i atgoffa Jane Hutt bod cyflogau'n is o lawer yng Nghymru nag yn Lloegr. Felly, mae'n rhesymegol bod yn rhaid i'r dreth gyngor yng Nghymru gael ei chadw ar lefel is o lawer na'r dreth gyngor yn Lloegr, oherwydd fel arall byddai'n arwain at fwy o galedi. Gofynnodd a oedd Mrs Hutt yn ymwybodol o'r rhesymeg hon. Ychwanegodd fod cost y dreth gyngor, i'r sawl sydd ar gyflogau isel ond sy'n uwch na'r trothwyau ar gyfer budd-daliadau, yn anghymesur o uchel. Felly, mae'n gofyn am ddileu unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor. Dywedodd hefyd fod arian wedi'i roi gan Lywodraeth y DU at y diben hwn, ac y byddai pobl â theuluoedd i'w cartrefu a'u bwydo yn ddiolchgar ichi pe baech yn defnyddio'r arian at ei ddiben

arfaethedig.

**Mick Antoniw:** Can you explain why this grant is for only a year, and what the consequences for councils are of not making it an annual repeatable allowance?

**Mick Antoniw:** A allwch egluro pam mai grant am flwyddyn yn unig yw hwn, a beth yw'r canlyniadau ar gyfer cynghorau yn sgîl y ffaith nad yw'n lwfans a roddir bob blwyddyn?

**Mark Isherwood:** [*Inaudible.*]—dogma. Another constituent told me that if anyone should have their council tax frozen, we need to. We pay the same prices for things as the English do, yet get much lower wages. He said,

**Mark Isherwood:** *[Anghlywadwy.]*—dogma. Dywedodd etholwr arall wrthyf mai ein treth gyngor ni ddylai gael ei rhewi os oedd angen i dreth gyngor unrhyw un gael ei rhewi. Rydym yn talu'r un prisiau am bethau â phobl yn Lloegr, ond rydym yn cael cyflogau is o lawer. Meddai,

'Please ask Mrs Hutt to give us a break'.

Gofynnwch i Mrs Hutt roi seibiant inni.

A St Asaph constituent e-mailed to say,

Anfonodd etholwr yn Llanelwy e-bost ataf i ddweud,

'I am writing to you as my AM to ask you to support a freeze on council tax in Wales. The UK Government has given Wales the money to do this. Council tax penalises many people like me, just above the benefits threshold and having to pay the tax out of low wages.'

Rwyf yn ysgrifennu atoch fel fy Aelod Cynulliad i ofyn ichi gefnogi camau i rewi'r dreth gyngor yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi arian i Gymru wneud hynny. Mae'r dreth gyngor yn cosbi llawer o bobl fel fi, sydd ychydig yn uwch na'r trothwy ar gyfer budd-daliadau ac sy'n gorfod talu'r dreth allan o gyflogau isel.

There are many more like this. Spinning again, Labour seeks to amend this motion to express regret at the UK Government's plans to abolish council tax benefit, claiming that this impacts negatively on those most vulnerable. Of course, what they do not tell you is that pensioners will be protected, as will all vulnerable groups who cannot be expected to work.

Ceir llawer mwy o bobl debyg. Gan roi sbin ar bethau unwaith eto, mae'r Blaid Lafur yn ceisio gwella'r cynnig hwn drwy fynegi siom ynghylch cynlluniau Llywodraeth y DU i ddiddymu budd-dal y dreth gyngor, gan honni bod hynny'n cael effaith negyddol ar y sawl sydd fwyaf agored i niwed. Wrth gwrs, yr hyn nad ydynt yn ei ddweud wrthych yw y bydd pensiynwyr yn cael eu diogelu, fel y bydd pob grŵp sy'n agored i niwed, na ellir disgwyl iddynt weithio.

Labour does not say that, with council tax mostly frozen in England and frozen in Scotland, the proposed 4.5% rise in Ynys Môn will be largest rise in both Wales and the UK, with the Minister and unelected commissioners, including his Flintshire Labour crony, linking the acceptance of this budget to the return of council powers. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.']

Wrth i'r dreth gyngor gael ei rhewi gan mwyaf yn Lloegr a'i rhewi'n gyfan gwbl yn yr Alban, nid yw'r Blaid Lafur yn dweud mai'r cynnydd arfaethedig o 4.5% yn Ynys Môn fydd y cynnydd mwyaf yng Nghymru a'r DU, gyda'r Gweinidog a chomisiynwyr nad ydynt wedi'u hethol, gan gynnwys ei 'groni' yn y Blaid Lafur yn Sir y Fflint, yn cysylltu derbyn y gyllideb hon â dychwelyd pwerau'r cyngor. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.']

**The Deputy Presiding Officer:** Order,

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn, os gwelwch yn

please.

dda.

**Mark Isherwood:** Such a large rise is only necessary because the commissioners themselves have failed to deliver the savings mandated under Anglesey's approved affordable priorities programme.

**Mark Isherwood:** Yr unig reswm pam mae cynnydd mor fawr yn angenrheidiol yw oherwydd bod y comisiynwyr eu hunain wedi methu â sicrhau'r arbedion a oedd yn orfodol dan y rhaglen blaenoriaethau fforddiadwy a gymeradwywyd ar gyfer Ynys Môn.

Instead of spending the £39 million provided by the UK Government on a council tax freeze, the Welsh Labour Government has instead spent this on a fresh attempt to be seen to be acting on the economy, having already blown billions of pounds since devolution on relegating Wales to the bottom of the economic league table. It would be far more beneficial to give this money back to council tax payers.

Yn hytrach na gwario'r £39 miliwn a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU ar rewi'r dreth gyngor, mae Llywodraeth Lafur Cymru yn hytrach wedi gwario'r arian ar ymgais o'r newydd i ymddangos fel pe bai'n gweithredu yng nghyswllt yr economi, ar ôl gwario biliynau o bunnoedd eisoes ers datganoli ar sicrhau bod Cymru ar waelod y cynghrair economaidd. Byddai'n fwy buddiol o lawer rhoi'r arian hwn yn ôl i'r sawl sy'n talu'r dreth gyngor.

However, given the Government's stated refusal to deliver a council tax freeze, I called for consideration to be given to investing part of the funding provided in housing. After all, the Welsh Government is now slashing again the social housing grant, after already slashing the supply of new affordable homes by 60%.

Fodd bynnag, o ystyried y ffaith bod y Llywodraeth wedi datgan ei bod am wrthod rhewi'r dreth gyngor, gelwais arni i ystyried buddsoddi rhan o'r cyllid a ddarparwyd ym maes tai. Wedi'r cyfan, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n awr yn torri'r grant tai cymdeithasol unwaith eto, ar ôl sicrhau'n barod bod y cyflenwad o dai fforddiadwy newydd yn cael ei dorri 60%.

It has allocated £9.26 million of the money provided for a council tax freeze to affordable homes, but this does not even replace the £12 million previously given to it by the UK Government to help first-time buyers, which it directed elsewhere. During tough economic times, it beggars belief that Welsh households are being denied invaluable assistance with daily living costs. You should hang your heads in shame.

Mae £9.26 miliwn o'r arian a ddarparwyd i rewi'r dreth gyngor wedi'i ddyrannu ganddi ar gyfer cartrefi fforddiadwy, ond nid yw hynny hyd yn oed yn cymryd lle'r £12 miliwn a roddwyd iddi'n flaenorol gan Lywodraeth y DU i helpu prynwyr tro cyntaf, y bu iddi ei gyfeirio at feysydd eraill. Yn ystod cyfnod anodd o safbwynt economaidd, mae'n anghredadwy nad yw cartrefi Cymru yn cael cymorth amhrisiadwy gyda chostau byw beunyddiol. Dylai fod cywilydd arnoch.

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I always welcome the contributions of most Members in the Chamber. I welcome the opportunity to set out the Government's position on local government in Wales, and the support that we give it in terms of council tax payment.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Rwyf bob amser yn croesawu cyfraniadau mwyafrif yr Aelodau yn y Siambr. Rwyf yn croesawu'r cyfle i egluro safbwynt y Llywodraeth ar lywodraeth leol yng Nghymru, a'r cymorth yr ydym yn ei roi iddi o ran talu'r dreth gyngor.

Since the Assembly was formed, central Government funding for local government in Wales has more than doubled. The funding that we have provided has broadly kept pace

Ers i'r Cynulliad gael ei ffurfio, mae cyllid y Llywodraeth ganolog ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru wedi mwy na dyblu. Mae'r cyllid yr ydym ni wedi'i ddarparu

with increases in local authority expenditure. In real terms, local authority funding has increased by over 54% in this period. Even in these more straitened times, the Welsh Government is continuing to demonstrate its commitment to supporting local government and, as amendment 4 to the motion notes, the Welsh Government's financial support for local government over the current spending review period will continue to increase while the settlement in England on a like-for-like basis will decrease. Overall, there is a difference of about 1.3% between Wales and England over the spending review period. This is a political decision we have taken, a decision that shows how we value the services local authorities provide and how we believe they should be protected. Not only that, but as a result of our investment in local government now and over the lifetime of the Assembly, council tax for an average band D property in Wales continues to be lower than that in England by around 19%.

wedi cyd-fynd yn gyffredinol â chynnydd yng ngwariant awdurdodau lleol. Mewn termau real, mae cyllid awdurdodau lleol wedi cynyddu dros 54% yn ystod y cyfnod hwn. Hyd yn oed yn ystod y cyfnod anos hwn o safbwynt ariannol, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddangos ei hymrwymiad i gynorthwyo llywodraeth leol, ac fel y mae gwelliant 4 i'r cynnig yn nodi, bydd cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i lywodraeth leol dros gyfnod presennol yr adolygiad o wariant yn parhau i gynyddu tra bydd y setliad yn Lloegr ar sail debyg yn lleihau. At ei gilydd, mae gwahaniaeth o oddeutu 1.3% rhwng Cymru a Lloegr dros gyfnod yr adolygiad o wariant. Mae hwn yn benderfyniad gwleidyddol yr ydym wedi'i wneud, ac yn benderfyniad sy'n dangos sut rydym yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu darparu a sut rydym yn credu y dylent gael eu diogelu. Ar ben hynny, o ganlyniad i'n buddsoddiad mewn llywodraeth leol yn awr ac yn ystod oes y Cynulliad, mae'r dreth gyngor ar gyfer eiddo band D cyffredin yng Nghymru yn parhau tua 19% yn is nag y mae yn Lloegr.

Janet Finch-Saunders probably could not answer Rhodri Glyn Thomas's question, but I hope that clarifies that for the Member. I know that Rhodri Glyn knows the answer as well, but the amount here is significantly lower than in England. In England, to fund the council tax freeze in this financial year, there has been a top-slicing of the funding for local authorities in England. In comparison with Scotland, which is something that Members have raised today, only after four years of council tax freezes are their levels comparable with those set in Wales. Four years of an equivalent tax freeze in Wales would cost the Welsh Government more than £300 million. This is money we would have to take from the local government funding settlement directly, money that funds the education system, the social care system, transport and other services that the general public relies on, as Members have said today.

Mae'n debyg nad oedd Janet Finch-Saunders yn gallu ateb cwestiwn Rhodri Glyn Thomas, ond rwyf yn gobeithio bod hynny'n egluro'r mater i'r Aelod. Gwn fod Rhodri Glyn yn gwybod yr ateb yn ogystal, ond mae'r swm yn y fan hon yn is o lawer nag y mae yn Lloegr. Yn Lloegr, er mwyn ariannu'r penderfyniad i rewi'r dreth gyngor yn ystod y flwyddyn ariannol hon, brigdorrwyd y cyllid ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr. O gymharu â'r Alban, sy'n rhywbeth y mae'r Aelodau wedi'i godi heddiw, dim ond ar ôl pedair blynedd o rewi'r dreth gyngor y mae lefelau'r dreth yn debyg i'r rhai a bennir yng Nghymru. Byddai pedair blynedd cyfatebol o rewi'r dreth gyngor yng Nghymru yn costio dros £300 miliwn i Lywodraeth Cymru. Mae hwn yn arian y byddai'n rhaid inni ei gymryd yn uniongyrchol o'r setliad cyllid ar gyfer llywodraeth leol, sef yr arian sy'n cyllido'r system addysg, y system gofal cymdeithasol, trafnidiaeth a gwasanaethau eraill y mae'r cyhoedd yn dibynnu arnynt, fel y mae'r Aelodau wedi dweud heddiw.

The party opposite seems to be the party of spend but no solution. Every week, Russell George brings a new spending proposal for

Ymddengys fod y blaid gyferbyn yn blaid sydd am wario ond sy'n brin o atebion. Bob wythnos, mae Russell George yn cyflwyno

everything from the Newtown bypass to the bus service operators grant, but he never tells us where the money is coming from. I hope that, when his constituents pop into his shop, he tells them the real facts, that the cuts made by the Westminster Government, delivered to the consequentials for this Government, have a dramatic effect on the people he represents. Perhaps I should not be surprised that the Tories favour tax cuts over providing services to the most vulnerable. We know that they want to ditch the 50p tax rate for the highest earners when we face the biggest funding cuts to services to date.

cynnig newydd ynghylch gwariant ar gyfer popeth o ffordd osgoi'r Drenewydd i'r grant ar gyfer gweithredwyr gwasanaethau bysiau, ond nid yw byth yn dweud wrthym o ble y daw'r arian. Pan fydd ei etholwyr yn galw heibio i'w siop, rwyf yn gobeithio y bydd yn rhoi'r ffeithiau go iawn iddynt, sef bod y toriadau a wnaed gan Lywodraeth San Steffan, a gyflwynwyd i'r arian canlyniadol ar gyfer y Llywodraeth hon, yn cael effaith ddramatig ar y bobl y mae'n eu cynrychioli. Efallai na ddylwn synnu bod y Torïaid yn ffafrio torri trethi yn hytrach na darparu gwasanaethau i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed. Rydym yn gwybod eu bod am gael gwared ar y gyfradd dreth 50c ar gyfer y sawl sy'n ennill y cyflogau mwyaf, tra byddwn ni'n wynebu'r toriadau mwyaf mewn cyllid i wasanaethau hyd yma.

I welcome most of Peter Black's comments, but I cannot let him off the hook completely today, given Liberal Democrat policy. Although I welcome his contribution, they have obviously got themselves in a sort-of pickle on this—not an Eric Pickles—because, only today, we have learned that the Lib Dems are thinking about ditching yet another of their long-held beliefs, as they have done since the moment they climbed into bed with the Tories. We have learned that the leader of the Lib Dem-led Portsmouth City Council has said that local authorities should have greater discretion over council tax exemptions and discounts, such as student exemption. I would be interested to know what Peter Black or Rodney Berman would have to say to the students they represent in Swansea and Cardiff. I suppose it would be the same answer he gave them when he let them down on tuition fees. Peter Black?

Rwyf yn croesawu'r rhan fwyaf o sylwadau Peter Black, ond ni allaf adael iddo ddianc yn llwyr heddiw, o ystyried polisi'r Democratiaid Rhyddfrydol. Er fy mod yn croesawu ei gyfraniad, mae'n amlwg bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi mynd i ryw fath o bicil—ond nid Eric Pickles—yng nghyswllt y mater hwn, oherwydd hyd yn oed heddiw rydym wedi dysgu bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn ystyried cefnu ar un arall o'u hen gredoau, fel y maent wedi gwneud o'r eiliad iddynt ddringo i'r gwely gyda'r Torïaid. Rydym wedi dysgu bod arweinydd Cyngor Dinas Portsmouth a arweinir gan y Democratiaid Rhyddfrydol wedi dweud y dylai awdurdodau lleol gael mwy o ddisgresiwn ynghylch eithriadau a gostyngiadau'n ymwneud â'r dreth gyngor, megis eithriadau yng nghyswllt myfyrwyr. Byddai gennyf ddiddordeb mewn gwybod beth fyddai Peter Black neu Rodney Berman yn ei ddweud wrth y myfyrwyr y maent yn eu cynrychioli yn Abertawe a Chaerdydd. Rwyf yn tybio y byddai ei ateb yr un fath â'r ateb a roddodd iddynt pan fu iddo eu siomi yng nghyswllt ffïoedd dysgu. Peter Black?

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Minister, I call the speakers, thank you. Peter Black.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Weinidog, fi sy'n galw ar y siaradwyr, diolch. Peter Black.

**Peter Black:** Minister, you will know that Gerald Vernon-Jackson has absolutely rejected that report, saying it is untrue and that that is not in fact what he believes or what the Liberal Democrats believe. I am

**Peter Black:** Weinidog, byddwch yn gwybod bod Gerald Vernon-Jackson wedi gwrthod yr adroddiad hwnnw'n llwyr, gan ddweud nad yw'n wir ac nad dyna yw ei farn ef na barn y Democratiaid Rhyddfrydol mewn

happy to say that that policy is not supported by me, Rodney Berman or any Liberal Democrat in this Chamber or elsewhere.

gwirionedd. Rwyf yn falch o ddweud nad wyf fi, Rodney Berman nac unrhyw Ddemocrat Rhyddfrydol yn y Siambr hon nac yn rhywle arall yn cefnogi'r polisi hwnnw.

**Carl Sargeant:** Yes, with six weeks to an election, I would not expect you to say anything else.

**Carl Sargeant:** Wrth gwrs, gyda chwe wythnos tan etholiad, ni fyddwn yn disgwyl ichi ddweud dim byd arall.

I recognise that it is very difficult for our citizens, but I believe that the pressures on our schools and social services mean that it is important that money is spent properly and made available so that local government funding is used in support of these front-line services. I was a bit shocked, as were many Members in the Chamber, by the comments of Janet Finch-Saunders, who said that we were spending this money on pet projects. I do not consider school building improvements or educational attainment to be pet projects. This is about the delivery of the public services that we all expect.

Rwyf yn cydnabod ei bod yn anodd iawn i'n dinasyddion, ond credaf fod y pwysau ar ein hysgolion a'n gwasanaethau cymdeithasol yn golygu ei bod yn bwysig bod arian yn cael ei wario'n briodol a'i fod ar gael er mwyn i gyllid llywodraeth leol gael ei ddefnyddio i gynorthwyo'r gwasanaethau rheng flaen hyn. Cefais fy synnu braidd, fel y cafodd llawer o'r Aelodau yn y Siambr, gan sylwadau Janet Finch-Saunders a ddywedodd ein bod yn gwario'r arian hwn ar hoff brosiectau. Nid wyf o'r farn bod gwelliannau i adeiladau ysgolion neu gyrhaeddiad addysgol yn hoff brosiectau. Mae a wnelo hyn â darparu'r gwasanaethau cyhoeddus yr ydym oll yn eu disgwyl.

The setting of council tax is a matter for each local authority to determine. As for the two North Wales Members, Antoinette Sandbach and Mark Isherwood, I remember when you stood for election in Delyn, I think it was, and you did not win, unfortunately, but it was democratic. It is about people making choices. For example, the Conservative-run Flintshire local authority has now chosen not to have a council tax freeze, despite the fact that many other authorities have decided to do that. If authorities wish to freeze their council tax, of course, they are able to do it. Budget setting across Wales is not yet complete, but the evidence from the WLGA suggests that the overall council tax increase in Wales will be the lowest since the introduction of the council tax system.

Mae'r modd y caiff y dreth gyngor ei phennu yn fater i bob awdurdod lleol benderfynu yn ei gylch. O ran y ddau Aelod ar gyfer Gogledd Cymru, Antoinette Sandbach a Mark Isherwood, rwyf yn eich cofio'n sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad yn Nelyn, mi gredaf, ac yn colli'n anffodus, ond roedd yn ddemocrataidd. Mae a wnelo hyn â phobl yn gwneud dewisiadau. Er enghraifft, mae'r awdurdod lleol yn Sir y Fflint, a gaiff ei redeg gan y Ceidwadwyr, wedi dewis peidio â rhewi'r dreth gyngor yn awr, er bod llawer o awdurdodau eraill wedi penderfynu gwneud hynny. Os yw awdurdodau'n dymuno rhewi eu treth gyngor, wrth gwrs, gallant wneud hynny. Nid yw'r broses o bennu cyllidebau ar draws Cymru wedi'i chwblhau eto, ond mae'r dystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn awgrymu mai'r cynnydd cyffredinol yn y dreth gyngor yng Nghymru eleni fydd y cynnydd isaf ers cyflwyno system y dreth gyngor.

The funding for a further council tax freeze in England for 2012-13 is for one year only. Members keep suggesting that it is a Barnett consequential; it is not a Barnet consequential in the long term. It is a one-year settlement

Cyllid am flwyddyn yn unig yw'r cyllid ar gyfer rhewi'r dreth gyngor ymhellach yn Lloegr ar gyfer 2012-13. Mae'r Aelodau yn parhau i awgrymu ei fod yn arian canlyniadol Barnett; nid arian canlyniadol Barnett

figure. So, what are you trying to do? Are you trying to kid the electorate that you will freeze it for this year and then double it the year after, just because it is election year? Get real and tell people what you really intend to do. Evidence from authorities in England also indicates that a number of Conservative authorities, which Mike Hedges referred to this evening, will not be implementing the freeze either.

mohono yn y tymor hir. Mae'n ffigur setliad ar gyfer un flwyddyn yn unig. Felly, beth yr ydych yn ceisio ei wneud? A ydych yn ceisio twyllo'r etholwyr drwy rewi'r dreth am eleni ac yna ei dyblu'r flwyddyn ganlynol, dim ond oherwydd ei bod yn flwyddyn etholiad? Byddwch yn onest a dywedwch wrth bobl beth yr ydych yn bwriadu ei wneud mewn gwirionedd. Yn ogystal, mae tystiolaeth gan awdurdodau yn Lloegr yn dangos na fydd nifer o awdurdodau Ceidwadol, y cyfeiriodd Mike Hedges atynt heno, yn rhewi'r dreth gyngor chwaith.

More recently, we are using the additional £39 million, as we said earlier, to protect jobs. The Member has also failed to recognise that, while we are protecting jobs and while unemployment is rising, people who are unemployed cannot afford to pay council tax. We are in the business of ensuring that people keep their jobs and that we create jobs and protect the economy. Tax cuts at this time are not appropriate to secure economic growth for Wales.

Yn fwy diweddar, rydym yn defnyddio'r £39 miliwn ychwanegol, fel y bu inni ddweud yn gynharach, i ddiogelu swyddi. Mae'r Aelod hefyd wedi methu â chydnabod, wrth inni ddiogelu swyddi ac wrth i ddiweithdra gynyddu, na all pobl sy'n ddi-waith fforddio talu'r dreth gyngor. Ein gwaith ni yw sicrhau bod pobl yn cadw eu swyddi a'n bod yn creu swyddi ac yn diogelu'r economi. Nid yw torri trethi ar hyn o bryd yn briodol i sicrhau twf economaidd i Gymru.

**Nick Ramsay:** I am sure that you were just about to get to the part in your speech where you praise Monmouthshire County Council for the delivery of that freeze, so I do not want to hold you back too long—

**Nick Ramsay:** Rwyf yn siŵr eich bod ar fin cyrraedd y rhan yn eich araith lle y byddwch yn canmol Cyngor Sir Fynwy am rewi'r dreth gyngor, felly nid wyf am eich cadw i aros yn rhy hir—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I hope that you get to your intervention quickly.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Gobeithio y byddwch yn dod at eich ymyriad yn gyflym.

**Nick Ramsay:** There is a misunderstanding here, Minister, is there not? We are saying that local authorities in Wales should be given that money to freeze council tax. Yes, they have an ability to freeze it if they want, but it would be much easier for those local authorities if they were properly resourced by your department.

**Nick Ramsay:** Weinidog, onid oes camddealltwriaeth yma? Rydym yn dweud y dylai awdurdodau lleol yng Nghymru gael yr arian hwnnw i rewi'r dreth gyngor. Oes, mae ganddynt y gallu i rewi'r dreth gyngor os ydynt yn dymuno, ond byddai'n haws o lawer i'r awdurdodau lleol hynny pe baent yn cael adnoddau priodol gan eich adran.

**Carl Sargeant:** As I said earlier, local authorities in Wales are more favourably funded than anywhere else in the UK. We still fund them proportionally higher than England and, over a three-year settlement, there will be a clear difference between the stark cuts that the Westminster Government is imposing on local authorities and what is happening in Wales with this Government.

**Carl Sargeant:** Fel y dywedais yn gynharach, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael eu hariannu'n fwy ffafriol nag unrhyw le arall yn y DU. Rydym yn dal i roi cyllid iddynt sy'n uwch ar gyfartaledd na'r cyllid a roddir yn Lloegr, a thros setliad tair blynedd, bydd gwahaniaeth clir rhwng y toriadau llym y mae Llywodraeth San Steffan yn eu gorfodi ar awdurdodau lleol a'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru gyda'r

Llywodraeth hon.

The issue around council tax benefit was raised. Again, the Member made a bizarre comment around the 10% reduction that would probably relate to administration costs. Let me reassure the Member that the 10% reduction has nothing to do with administration costs; it is actually a straight 10% reduction in the value of the council tax benefits system, which will have a huge impact on all the people that we represent in Wales. You should be collectively ashamed of yourselves.

Codwyd y mater sy’n ymwneud â budd-dal y dreth gyngor. Unwaith eto, gwnaeth yr Aelod sylw rhyfedd ynghylch y gostyngiad o 10% a fyddai, fwy na thebyg, yn ymwneud â chostau gweinyddu. Gadewch imi sicrhau’r Aelod nad oes a wnelo’r gostyngiad o 10% ddim â chostau gweinyddu; yr hyn ydyw, mewn gwirionedd, yw gostyngiad uniongyrchol o 10% yng ngwerth system budd-daliadau’r dreth gyngor, a fydd yn cael effaith enfawr ar bawb yr ydym yn eu cynrychioli yng Nghymru. Dylai fod cywilydd ar bob un ohonoch.

Finally, to the Member who made reference to Anglesey, the commissioners are on the island, but the council tax setting was done democratically with the will of the full council. Indeed, the Members who claim to represent North Wales clearly have no idea what is happening on Anglesey. I welcome the comments from many Members today and move the amendments. I thank the Deputy Presiding Officer for his time.

Yn olaf, o ran yr Aelod a gyfeiriodd at Ynys Môn, mae’r comisiynwyr ar yr ynys, ond cafodd y dreth gyngor ei phennu’n ddemocrataidd yn unol ag ewyllys y cyngor llawn. Yn wir, mae’n amlwg nad oes gan yr Aelodau sy’n honni eu bod yn cynrychioli Gogledd Cymru ddim syniad beth sy’n digwydd ar Ynys Môn. Rwyf yn croesawu’r sylwadau a gafwyd gan nifer o’r Aelodau heddiw, ac rwyf yn cynnig y gwelliannau. Diolchaf i’r Dirprwy Lywydd am ei amser.

**Suzy Davies:** I thank everyone who took part in today’s debate. We certainly face tough economic times and we can always argue about the reason why, but when people are conscious about what they spend, I think that it really does raise the mood when the UK Government can say, ‘It may not be much, but we are able to make life a little bit easier for you by making it possible to freeze your council tax; you need that more money more than we do’. So, what an insult it is to know that this Labour Government in Wales, the self-proclaimed steadfast friend, turned around, took money intended directly for citizens and kept it to spend on its priorities. If they are priorities, we are entitled to ask why it did not finance them adequately in first place. There was never a guarantee that this money would arrive in the Welsh Government’s budget and relying on the politics of the highwayman to fund core priorities is a dangerous admission for this Government. As many Labour Members said today, this contribution is a one-off.

**Suzy Davies:** Hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y ddadl heddiw. Rydym yn sicr yn wynebu cyfnod anodd o safbwynt economaidd, a gallwn bob amser ddadlau ynghylch y rheswm pam, ond pan fydd pobl yn ymwybodol o’r hyn y maent yn ei wario, credaf yn wir eu bod yn teimlo’n well pan all Llywodraeth y DU ddweud, ‘Hwyrach nad yw’n llawer, ond gallwn wneud eich bywyd ychydig yn haws drwy ei gwneud yn bosibl i’ch treth gyngor gael ei rhewi; mae mwy o angen yr arian ychwanegol hwnnw arnoch chi nag arnom ni’. Felly, mae’n sarhad gwybod bod y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru, yr un sy’n honni ei bod yn ffrind ffyddlon, wedi troi o gwmpas, wedi cymryd arian y bwriadwyd iddo gael ei roi’n uniongyrchol i ddinasyddion, ac wedi’i gadw i’w wario ar ei blaenoriaethau ei hun. Os ydynt yn flaenoriaethau, mae gennym hawl i ofyn pam na chawsant eu hariannu’n ddigonol yn y lle cyntaf. Nid oedd sicrwydd byth y byddai’r arian hwn yn dod i gyllideb Llywodraeth Cymru, ac mae dibynnu ar wleidyddiaeth lleidr pen ffordd i ariannu blaenoriaethau craidd yn gyfaddefiad

peryglus ar ran y Llywodraeth hon. Fel y mae llawer o Aelodau Llafur wedi dweud heddiw, caiff yr arian hwn ei roi unwaith yn unig.

Janet Finch-Saunders was very clear about why £38.9 million should have been spent on a council tax freeze. Wages in Wales are significantly lower than in the UK generally, and have been for more than a decade, so claims that council tax is lower in Wales need to be weighed against that significantly lower income. Lynne Neagle may think that a council tax freeze is a drop in the ocean, but I suspect that she might be speaking more for herself than for many of her constituents when she uses that language.

Roedd Janet Finch-Saunders yn glir iawn ynghylch pam y dylai £38.9 miliwn fod wedi'i wario ar rewi'r dreth gyngor. Mae cyflogau yng Nghymru yn is o lawer nag yn y DU yn gyffredinol, ac maent wedi bod felly ers dros ddegawd. Felly, mae angen i honiadau ynghylch y ffaith bod y dreth gyngor yn is yng Nghymru gael eu pwyso a'u mesur yn erbyn y lefelau incwm hynny sy'n is o lawer. Efallai fod Lynne Neagle yn meddwl bod rhewi'r dreth gyngor yn gam pitw iawn, ond rwyf fi'n amau y gallai fod yn siarad mwy ar ei rhan ei hun nag ar ran nifer o'i hetholwyr wrth ddefnyddio iaith o'r fath.

5.00 p.m.

**Lynne Neagle:** I was not talking about the council tax rise, but about what you have done to people through the housing benefit changes that you have brought in, which will have a massive impact in my constituency. Will you acknowledge that now and put that in the context of what you were saying?

**Lynne Neagle:** Nid oeddwn yn sôn am y cynnydd yn y dreth gyngor; roeddwn yn sôn am yr hyn yr ydych wedi'i wneud i bobl drwy'r newidiadau yr ydych wedi'u cyflwyno i'r budd-dal tai, a fydd yn cael effaith enfawr yn fy etholaeth i. A wnewch chi gydnabod hynny'n awr a'i roi yng nghyd-destun yr hyn yr oeddech yn ei ddweud?

**Suzy Davies:** What I acknowledge, Lynne, is that you said that the council tax freeze is a drop in the ocean. You are welcome to check the Record.

**Suzy Davies:** Yr hyn yr wyf yn ei gydnabod, Lynne, yw ichi ddweud bod rhewi'r dreth gyngor yn gam pitw iawn. Mae croeso ichi edrych ar y Cofnod.

It should be a warning that £36 million of council tax remains unpaid. Does the Government expect that figure to improve if council tax continues to rise? Peter Black's contribution was interesting too, but what he did not say about why Swansea managed to freeze its council tax this year—[*Interruption.*]—is that it was because the Lib Dems turned down a £0.75 million investment for poorer school children and £100,000 investment meant to tackle child poverty. That is from the party that sold out on the budget in order to secure a pupil premium.

Dylai'r ffaith nad yw £36 miliwn o'r dreth gyngor wedi'i thalu o hyd fod yn rhybudd. A yw'r Llywodraeth yn disgwyl i'r ffigur hwnnw wella os bydd y dreth gyngor yn parhau i gynyddu? Roedd cyfraniad Peter Black yn ddiddorol hefyd, ond yr hyn na ddywedodd am y rheswm pam y llwyddodd Abertawe i rewi'r dreth gyngor eleni—[*Torri ar draws.*]—yw bod y cyngor wedi llwyddo i wneud hynny oherwydd bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi gwrthod buddsoddiad o £0.75 miliwn ar gyfer plant ysgol tlotach a buddsoddiad o £100,000 y bwriadwyd iddo fynd i'r afael â thlodi plant. Mae hynny gan y blaid a gyfaddawdodd yng nghyswllt y gyllideb er mwyn sicrhau premiwm disgyblion.

**Peter Black** *rose*—

**Peter Black** *a gododd*—

**Suzy Davies:** No, I will not take an

**Suzy Davies:** Na, nid wyf am dderbyn

intervention. I do not have any time.

ymyriad. Nid oes gennyf amser.

Mike Hedges talked about the economic stimulus package. That is surely a priority for the Government, and it should not rely on uncertain consequentials to fund a key objective. Antoinette Sandbach said that, again, there is an issue about trust—trusting councils and communities to spend their money that much better—and the Government's inability to let go of control. The energy that is expended on that level of control could be better spent on advising people on how to take up their benefit entitlement and on how to collect outstanding taxes, a point raised by Russell George.

Soniodd Mike Hedges am y pecyn ysgogi economaidd. Rhaid bod hynny'n flaenoriaeth i'r Llywodraeth, ac ni ddylai ddibynnu ar arian canlyniadol ansicr i ariannu amcan allweddol. Dywedodd Antoinette Sandbach, unwaith eto, fod ymddiriedaeth yn broblem—ymddiried mewn cynghorau a chymunedau i wario eu harian gymaint â hynny'n well—ac anallu'r Llywodraeth i ildio rheolaeth. Byddai'n well pe bai'r egni a gaiff ei sianelu i sicrhau'r lefel honno o reolaeth yn cael ei ddefnyddio i gynghori pobl ynghylch sut i fanteisio ar eu hawl i fudd-daliadau ac ar gasglu trethi nad ydynt wedi'u talu, sy'n bwynt a godwyd gan Russell George.

Rhodri Glyn Thomas accused the Welsh Conservatives of just following the Westminster line. Is he saying that, just to be different, we should punish Welsh council tax payers? His party certainly seems to think so, as all its councillors on Conwy County Borough Council chose to punish their council tax payers with a 4% hike. Perhaps he can speak to his colleagues in the SNP to see how they managed to cope with a council tax freeze.

Cyhuddodd Rhodri Glyn Thomas y Ceidwadwyr Cymreig o wneud dim byd mwy na dilyn polisi San Steffan. A yw'n dweud y dylem gosbi'r sawl sy'n talu'r dreth gyngor yng Nghymru, dim ond er mwyn bod yn wahanol? Ymddengys fod ei blaid ef yn sicr yn credu hynny, oherwydd dewisodd ei holl gynghorwyr ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gosbi'r sawl sy'n talu'r dreth gyngor yno drwy godi'r dreth 4%. Efallai y gallai siarad â'i gydweithwyr yn yr SNP i weld sut y bu iddynt hwy lwyddo i ymdopi â rhewi'r dreth gyngor.

**Rhodri Glyn Thomas:** The whole point of devolution is that you do not necessarily have to follow what is happening in either England or Scotland, and when the situation in Wales is different to the situation of those two countries, there is no reason for us to follow them. We should use that money in the best possible way for the people of Wales.

**Rhodri Glyn Thomas:** Holl bwynt datganoli yw nad oes yn rhaid ichi ddilyn yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr neu'r Alban, a phan fo'r sefyllfa yng Nghymru yn wahanol i sefyllfa'r ddwy wlad hynny, nid oes rheswm inni eu dilyn. Dylem ddefnyddio'r arian yn y ffordd orau posibl ar gyfer pobl Cymru.

**Suzy Davies:** I am sorry, Rhodri Glyn Thomas, that was too long an intervention for a point that you have already made—

**Suzy Davies:** Mae'n ddrwg gennyf, Rhodri Glyn Thomas, ond roedd yr ymyriad yn rhy hir ar gyfer pwynt yr ydych eisoes wedi'i wneud—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I will intervene if a Member is making a long intervention. Members from all parties today have made quite long interventions. You need to be succinct, but it is up to the Chair to bring proper order to bear in these debates.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Byddaf i'n ymyrryd os bydd ymyriad Aelod yn hir. Mae ymyriadau Aelodau o bob plaid heddiw wedi bod yn eithaf hir. Mae angen ichi fod yn gryno, ond mater i'r Cadeirydd yw sicrhau trefn briodol yn y dadleuon hyn.

**Suzy Davies:** I apologise. Lynne Neagle talked about inflation-busting council tax

**Suzy Davies:** Mae'n ddrwg gennyf. Siaradodd Lynne Neagle am gynnydd yn y

rises, but perhaps she would like to glance across the border to her neighbouring constituency of Blaenau Gwent, where council tax has gone up 190% in the last few years. [*Interruption.*] Mark Isherwood reminded us that, if the Government was determined to take this money from households—this is an interesting point that we should all listen to—then perhaps it would have been appropriate to redirect some of it towards the housing budget that has been so catastrophically cut in the last few years.

dreth gyngor a fydd dipyn yn uwch na chwyddiant, ond efallai yr hoffai fwrw golwg ar draws y ffin ar etholaeth gyfagos Blaenau Gwent, lle y mae'r dreth gyngor wedi cynyddu 190% yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. [*Torri ar draws*.] Cawsom ein hatgoffa gan Mark Isherwood, os oedd y Llywodraeth yn benderfynol o gymryd yr arian hwn oddi ar gartrefi—mae'n bwynt diddorol y dylem i gyd wrando arno—y byddai efallai wedi bod yn briodol ailgyfeirio rhywfaint ohono i'r gyllideb ar gyfer tai, sydd wedi'i thorri mewn modd mor drychinebus yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

I now come to the Minister's curious response about Tory spendthrifts, when, in the next breath, he turned on the Westminster Government and its cuts. Many of the savings that were made, which were necessary after the Labour spendathon, were made through huge efficiency savings in Whitehall. While efficiency savings can still be seen as a tall order, sometimes, we have heard about Monmouthshire's success, and it is also worth remembering that Labour's Bridgend County Borough Council quoted efficiency savings as the reason for its ability to freeze council tax. It certainly could not claim that it was good sense on the part of the First Minister and the Government Chief Whip—Labour Assembly Members who voted against their council having its share of that consequential money.

Dof yn awr at ymateb rhyfedd y Gweinidog a fu'n sôn am Doriaid yn gwastraffu arian, ond a aeth ati'n syth wedyn i feirniadu Llywodraeth San Steffan a'i thoriadau. Cafodd llawer o'r arbedion a wnaed, a oedd yn angenrheidiol ar ôl marathon gwario'r Blaid Lafur, eu gwneud drwy arbedion effeithlonrwydd enfawr yn Whitehall. Er y gellir ystyried o hyd bod arbedion effeithlonrwydd yn anodd weithiau, rydym wedi clywed am lwyddiant Sir Fynwy, ac mae'n werth cofio hefyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Llafur Pen-y-bont ar Ogwr wedi nodi mai arbedion effeithlonrwydd oedd y rheswm dros ei allu i rewi'r dreth gyngor. Yn sicr, ni allai honni mai'r rheswm dros hynny oedd synnwyr cyffredin ar ran y Prif Weinidog a Phrif Chwip y Llywodraeth— Aelodau Llafur y Cynulliad a bleidleisiodd yn erbyn gadael i'w cyngor gael ei gyfran o'r arian canlyniadol hwnnw.

Finally, Janet Finch-Saunders raised the important point of top officers' pay. We should, perhaps, come back to that in the Chamber at a future date.

Yn olaf, cododd Janet Finch-Saunders y pwynt pwysig ynghylch cyflogau uwch-swyddogion. Efallai y dylem ddod yn ôl at y pwynt hwnnw yn y Siambr rywbryd yn y dyfodol.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf bob pleidlais o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that the motion be agreed without amendment. Are there any objections? I see that there are. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Pwynt o Drefn
## Point of Order

**Ann Jones:** Under Standing Order No. 13.9(v), I request that you ask Mark Isherwood to withdraw the remarks that he made about one of the Anglesey commissioners, Deputy Presiding Officer. I found the way that he described one of the commissioners offensive, and he should withdraw that remark immediately or be removed from the Chamber.

**Ann Jones:** Dan Reol Sefydlog Rhif 13.9(v), gofynnaf ichi ofyn i Mark Isherwood dynnu'n ôl y sylwadau a wnaeth am un o gomisiynwyr Sir Fôn, Ddirprwy Lywydd. Roedd y modd y disgrifiodd un o'r comisiynwyr yn sarhaus yn fy marn i, a dylai dynnu'r sylw yn ôl ar unwaith neu gael ei orfodi i adael y Siambr.

**The Deputy Presiding Officer:** I did not hear anything that was directly out of order, and it is for the Chair to make any determination as to orderly conduct in relation to the Standing Order to which you correctly referred. However, I did hear the word 'crony', which I would not normally regard as being out of order. It is certainly pungent but it is permitted, I think, in general debate, unless severely aggravated by the context. I was unable to hear the full context because there was so much noise coming from benches other than the Conservative benches when Mark Isherwood was speaking. However, I will review the Record, and I or the Presiding Officer will make a further ruling on this matter, if necessary.

**Y Dirprwy Lywydd:** Ni chlywais i ddim a oedd yn amlwg yn groes i'r drefn, a'r Cadeirydd sydd i benderfynu ynghylch ymddygiad sy'n cydymffurfio â'r drefn yng nghyswllt y Rheol Sefydlog y bu ichi gyfeirio'n gywir ati. Fodd bynnag, clywais y gair 'croni', na fyddwn fel rheol yn ei ystyried yn air sy'n groes i'r drefn. Yn sicr, mae'n frathog, ond fe'i caniateir, mi gredaf, mewn dadleuon cyffredinol, oni bai bod y cyd-destun yn gwaethygu'n ddifrifol y defnydd a wneir o'r gair. Methais â chlywed y cyd-destun yn llawn gan fod cymaint o sŵn yn dod o feinciau ar wahân i feinciau'r Ceidwadwyr pan oedd Mark Isherwood yn siarad. Fodd bynnag, byddaf yn bwrw golwg ar y Cofnod a byddaf i neu'r Llywydd yn dyfarnu ymhellach ynghylch y mater hwn, os oes angen.

## Dadl Plaid Cymru
## Plaid Cymru Debate

### Buddsoddiad Cyfalaf
### Capital Investment

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, gwelliannau 2 a 5 yn enw Peter Black a gwelliannau 3 a 4 yn enw William Graham.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt, amendments 2 and 5 in the name of Peter Black, and amendments 3 and 4 in the name of William Graham.

*Cynnig NDM4931 Jocelyn Davies*

*Motion NDM4931 Jocelyn Davies*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i gyflwyno ysgogiad ariannol cynhwysfawr ar gyfer yr economi, sy'n cynnwys buddsoddiad cyfalaf a ddaw o*

*1. Regrets the Welsh Government's failure to bring forward a comprehensive fiscal stimulus for the economy, which includes capital investment sourced from funding*

*ffrydiau ariannu y tu allan i'r grant bloc; a*

*streams outside the block grant; and*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno pecyn o brosiectau cyfalaf a mesurau pellach i gefnogi busnesau ac i ddiogelu swyddi.*

*2. Calls on the Welsh Government to bring forward a package of capital projects and further measures to support businesses and safeguard jobs.*

**Alun Ffred Jones:** Cynigiaf y cynnig.

**Alun Ffred Jones:** I move the motion.

Nid ydym yn ymddiheuro am godi mater creu swyddi yng Nghymru drwy greu ffynonellau cyllid y tu allan i'r arian a ddaw o San Steffan. A dweud y gwir, mae cryn gytundeb yn y Cynulliad bod hynny'n angenrheidiol, yn wyneb colli £700 miliwn y flwyddyn o'r gyllideb gyfalaf. Y gwir yw bod hyder byd busnes yn y dyfodol yn isel, yn ôl adroddiad diweddar yr *UK Business Confidence Monitor*. Mae lefel diweithdra yng Nghymru yn parhau i fod gyda'r uchaf yn y Deyrnas Unedig. Mae chwarter ein pobl ifanc allan o waith. Gallem bwyntio bys at y dirwasgiad sy'n digwydd drwy Ewrop a thoriadau San Steffan, ond nid yw hynny'n mynd i helpu ein pobl ifanc sy'n chwilio am waith. Dylem gadw mewn cof adroddiad a gafwyd y bore yma, bod traean o raddedigion mewn swyddi sgiliau isel, yn ôl y ffigurau diweddaraf. Nid yw hyn o help i rai sy'n poeni am eu morgais, ac nid yw hyn o help i gwmnïau ar hyd a lled Cymru sy'n ceisio cadw eu pennau uwch y dŵr. Mae 90,000 o bobl yn cael eu cyflogi yng Nghymru yn y diwydiant adeiladu a pheirianneg—pobl sydd â sgiliau o bob math. Mae'r cwmnïau hyn yn greiddiol i'r economi ar hyd a lled Cymru. Oherwydd gwendid y sector preifat, mae cynnal gwariant cyhoeddus yn hanfodol.

We do not apologise for raising the issue of job creation in Wales by creating funding sources outwith the block provided from Westminster. To be honest, there is some agreement within the Assembly that that is necessary, in light of the loss of £700 million per annum from the capital budget. The truth of the matter is that business confidence in the future is low, according to the UK Business Confidence Monitor. Unemployment levels in Wales are still among the highest in the UK. A quarter of our young people are unemployed. We could point the finger at the recession throughout Europe and at the cuts emanating from Westminster, but that is not going to help our young people looking for employment. We should bear in mind the announcement this morning that a third of graduates are in low-skilled jobs, according to the latest figures. That is of no assistance to those who are worried about their mortgages, and it is of no help to companies right acros Wales that are trying to keep their heads above water. There are 90,000 people employed in the construction and engineering industries in Wales—people with skills of all sorts. These companies are at the heart of the economy right across Wales. Given the weakness of the private sector, maintaining public expenditure is vital.

Dewch inni gymryd cam yn ôl. Cyn yr etholiad, roedd ffigurau'r Trysorlys—ffigurau'r Llywodraeth Lafur—yn dangos bod cyllideb Cymru yn debyg o ostwng o £2.8 biliwn yn ystod y pedair blynedd ganlynol. Dyna ffigurau'r cyn-Ganghellor, Alistair Darling, a'r Trysorlys. Anghofiwch am roi'r bai ar yr orddibyniaeth a welwyd ar y Ddinas ac ati. Roedd pob ffŵl, felly, yn gallu rhagweld y byddai'r fwyell yn cwympo'n drymach ar y gyllideb gyfalaf, a bod hynny'n mynd i fod yn ergyd farwol i rai cwmnïau adeiladu. Felly, roedd dyletswydd ar y pleidiau yng Nghymru i ymateb i hynny.

Let us take a step back. Before the election, Treasury figures—the figures of the Labour Government—showed that the Welsh budget was likely to reduce by £2.8 billion over the ensuing four years. Those are the figures of the former Chancellor, Alistair Darling, and the Treasury. Forget putting the blame on overdependence on the City and so on. Any fool could have foreseen that the axe would fall more heavily on the capital budget, and that that was going to be a fatal blow for some construction companies. Therefore, there was a duty on the parties in Wales to respond to that. Plaid Cymru's proposal in its

Cynnig Plaid Cymru yn ei maniffesto oedd creu cwmni dim am elw, yn seiliedig ar fodel Glas Cymru, a fyddai'n codi arian ar y farchnad bondiau er mwyn ariannu cynlluniau cyfalaf yn y sector cyhoeddus. Dyma'r cynllun 'Adeiladu dros Gymru'. Ymateb y Blaid Lafur ar y pryd oedd taflu dŵr oer ar y syniad, er bod Gweinidogion Llafur yn Llywodraeth Cymru'n Un wedi ymateb yn gadarnhaol i'r awgrym hwnnw. Felly, mewn gwirionedd, ar ôl yr etholiad, nid oedd gan y Llywodraeth Lafur hon unrhyw gynllun o gwbl i gynyddu'r arian a oedd ar gael i wella cysylltiadau trafnidiaeth, i godi ysgolion newydd ac i wella cyfleusterau ym maes iechyd, y tu allan i'r grant bloc. Ymateb cwbl nodweddiadol y Llywodraeth oedd beio Llywodraeth San Steffan, er nad oedd y toriadau fawr gwaeth na'r rhai yn rhaglen Alistair Darling ei hun, mewn gwirionedd.

manifesto was to create a not-for-profit company, on the Glas Cymru model, that would generate funds on the bonds market in order to fund capital projects in the public sector. This was the 'Build for Wales' scheme. The Labour Party response was to throw cold water on the idea, although Labour Ministers in the One Wales Government responded positively to the suggestion. Therefore, in reality, after the election, this Labour Government had no plan whatsoever to increase the funds available to improve transport links, to build new schools and to improve facilities in health, outwith the block grant. The Government's typical response was to blame the Westminster Government, although the cuts were not, in reality, that much worse than those in Alistair Darling's programme.

However, we are where we are. There is a crying need to bolster capital expenditure beyond what the block grant allows. As the Civil Engineering Contractors Association has said, there is a desperate need for a comprehensive capital programme to allow companies in Wales to plan their future at these most difficult times. Gerry Holtham said bluntly in the spring of 2011 that the Welsh Government, with limited tools at its disposal, should aim to raise £2 billion in order to maintain employment and improve infrastructure in Wales over the Government's term of office. The Government's belated response in transferring some revenue spend into capital, and in using new Barnett consequential funds from London, is welcome. However, it is a far cry from the billions envisaged by Holtham and the borrowing potential of £3 billion mentioned in the Government's own submission to the Silk commission.

Fodd bynnag, dyna fel y mae hi. Ceir angen dybryd i gryfhau gwariant cyfalaf y tu hwnt i'r hyn y mae'r grant bloc yn ei ganiatáu. Fel y mae'r Gymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil wedi dweud, mae angen dybryd am raglen gyfalaf gynhwysfawr i alluogi cwmnïau yng Nghymru i gynllunio eu dyfodol yn y cyfnod anodd iawn hwn. Dywedodd Gerry Holtham yn blwmp ac yn blaen yn ystod gwanwyn 2011 y dylai Llywodraeth Cymru, gyda'i hadnoddau cyfyngedig, geisio codi £2 biliwn er mwyn cynnal cyflogaeth a gwella seilwaith yng Nghymru yn ystod tymor y Llywodraeth mewn grym. Mae ymateb hwyr y Llywodraeth wrth drosglwyddo rhywfaint o wariant refeniw i wariant cyfalaf, ac wrth ddefnyddio arian canlyniadol Barnett newydd o Lundain, i'w groesawu. Fodd bynnag, mae'n wahanol iawn i'r biliynau a ragwelwyd gan Holtham a'r potensial i fenthyca £3 biliwn a grybwyllir yng nghyflwyniad y Llywodraeth ei hun i gomisiwn Silk.

We are proposing today to raise £1 billion to get new transport, education and health capital projects already in the pipeline off the ground. The Government should begin talks with the Treasury on getting permission to launch a Build for Wales investment vehicle. Such a scheme could carry about £500 million-worth of projects, we believe. If this

Heddiw, rydym yn cynnig codi £1 biliwn i ddechrau prosiectau cyfalaf newydd sydd eisoes yn yr arfaeth ym maes trafnidiaeth, addysg ac iechyd. Dylai'r Llywodraeth ddechrau trafodaethau â'r Trysorlys ynghylch cael caniatâd i lansio cyfrwng buddsoddi Adeiladu dros Gymru. Credwn y gallai cynllun o'r fath

had been pursued from day one, the Government could well have been in a position to announce that the new source of funding for public capital schemes was ready to go. The idea is not original or new—the German state-sponsored investment bank, KfW, raises money on the private market, but uses it to support public infrastructure projects and to cushion downturns. I think that the Germans know a thing or two about that.

gynnal gwerth tua £500 miliwn o brosiectau. Pe bai'r Llywodraeth wedi mynd ar drywydd hynny o'r cychwyn cyntaf, gallai fod wedi bod mewn sefyllfa i gyhoeddi bod y ffynhonnell gyllid newydd ar gyfer cynlluniau cyfalaf cyhoeddus yn barod i fynd. Nid yw'r syniad yn wreiddiol nac yn newydd—mae KfW, y banc buddsoddi a noddir gan wladwriaeth yr Almaen, yn codi arian ar y farchnad breifat ond yn ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau seilwaith cyhoeddus a lleddfu unrhyw ddirywiad. Credaf fod yr Almaenwyr yn gwybod ambell beth am hynny.

It is worth considering the Glas Cymru model. It recently raised hundreds of millions of pounds in loans on the bond market at mind-bogglingly low interest-rates. Compared with the racket that was the private finance initiative, created by the Tories and promoted by Labour, this is the way forward.

Mae'n werth ystyried model Glas Cymru. Yn ddiweddar cododd gannoedd o filiynau o bunnoedd mewn benthyciadau ar y farchnad fondiau ar sail cyfraddau llog rhyfeddol o isel. O'i gymharu â'r raced mentrau cyllid preifat, a grëwyd gan y Torïaid ac a hyrwyddwyd gan Lafur, dyma'r ffordd ymlaen.

The local authority borrowing scheme, which has been taken up by the Government—for which I applaud it—should be expanded. Gerry Holtham believed that this vehicle, which is not constrained by Westminster, could raise £2 billion over the term of this Government. At this time, Plaid believes that the scheme should be doubled in size, so that it would be worth around £350 million. If more can be levered from this source, so much the better. In line with the comments made by Nick Bennett of Community Housing Cymru on 18 January, a similar programme for tapping into housing association borrowing powers must be drawn up, as that should generate up to £150 million.

Dylai'r cynllun benthyca ar gyfer awdurdodau lleol, sydd wedi cael ei fabwysiadu gan y Llywodraeth—ac rwyf yn ei chymeradwyo am hynny—gael ei ehangu. Roedd Gerry Holtham o'r farn y gallai'r cyfrwng hwn, nad yw wedi'i gyfyngu gan San Steffan, godi £2 biliwn dros dymor y Llywodraeth hon. Ar hyn o bryd, mae Plaid Cymru o'r farn y dylid dyblu maint y cynllun, fel y byddai'n werth tua £350 miliwn. Gorau oll os oes modd rhyddhau mwy o'r ffynhonnell hon. Yn unol â'r sylwadau a wnaed gan Nick Bennett o Gartrefi Cymunedol Cymru ar 18 Ionawr, rhaid llunio rhaglen debyg i fanteisio ar bwerau benthyca cymdeithasau tai, gan y dylai hynny gynhyrchu hyd at £150 miliwn.

Plaid Cymru says that investment, not austerity, is the route out of the current crisis. Estimates by the Local Government Association in England show that, for every £1 of investment in infrastructure, GDP increases by £2.84, with a tax take for central Government of 56p. Such investment leads to increased employment in the construction industry. There is also huge potential to improve the percentage of Wales-based companies that win public procurement tenders. The Enterprise and Business Committee has taken up my proposal to look

Mae Plaid Cymru yn dweud mai buddsoddi, ac nid cynilo, yw'r llwybr allan o'r argyfwng presennol. Dengys amcangyfrifon gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Lloegr fod pob £1 o fuddsoddiad mewn seilwaith yn arwain at gynnydd o £2.84 mewn Cynnyrch Mewnwladol Crynswth, gyda gwerth 56c o dreth i'r Llywodraeth ganolog. Mae buddsoddiad o'r fath yn arwain at fwy o gyflogaeth yn y diwydiant adeiladu. Ceir potensial mawr hefyd i wella canran y cwmnïau o Gymru sy'n ennill tendrau caffael cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes

at this area, and Plaid believes that we should aim to increase the number of Welsh companies that gain a share of public expenditure by a quarter. Potentially, that would see an extra £1 billion in circulation in the Welsh economy. No stone should remain unturned in making it easier for Welsh-based companies to win contracts in Wales.

wedi derbyn fy nghynnig i edrych ar y maes hwn, ac mae Plaid Cymru o'r farn y dylem geisio sicrhau bod chwarter yn fwy o gwmnïau o Gymru yn cael cyfran o wariant cyhoeddus. Gallai hynny olygu bod £1 biliwn yn fwy yn cylchredeg yn economi Cymru. Rhaid gwneud pob peth posibl i'w gwneud yn haws i gwmnïau o Gymru ennill contractau yng Nghymru.

Construction companies that I met recently were not asking for any favours; they wanted a fair crack of the whip. The framework agreements that have proliferated in Wales in recent years often work against small and medium-sized companies. Professor Kevin Morgan has written extensively on this matter, pointing out that other European countries operate in smarter ways that benefit their own companies. He reiterated that message in his evidence to the public procurement task and finish group recently.

Nid oedd y cwmnïau adeiladu y cyfarfûm â hwy'n ddiweddar yn gofyn am yr un gymwynas; dim ond am gyfle teg. Mae'r cytundebau fframwaith sydd wedi amlhau yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn aml yn gweithio yn erbyn cwmnïau bach a chanolig eu maint. Mae'r Athro Kevin Morgan wedi ysgrifennu'n helaeth ar y mater hwn, gan nodi bod gwledydd eraill yn Ewrop yn gweithredu mewn ffyrdd mwy craff sydd o fudd i'w cwmnïau eu hunain. Ailadroddodd y neges honno yn ei dystiolaeth i'r grŵp gorchwyl a gorffen ar gaffael cyhoeddus yn ddiweddar.

Today, responding to this debate, I would like to hear the Minister outline the details of what exactly the Government of Wales is asking the UK Government for in terms of seeking alternative sources of capital. I believe that it is the Government's duty to tell us exactly what those discussions are and what it is asking of the UK Government, along with the likely timetable for a resolution.

Heddiw, wrth ymateb i'r ddadl hon, hoffwn glywed y Gweinidog yn amlinellu manylion yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei geisio gan Lywodraeth y DU o ran chwilio am ffynonellau cyfalaf eraill. Credaf fod dyletswydd ar y Llywodraeth i ddweud wrthym beth yn union yw'r trafodaethau hynny a beth y mae'n ei geisio gan Lywodraeth y DU, ynghyd â'r amserlen debygol ar gyfer penderfyniad.

O ran y gwelliannau, rydym yn gwrthod gwelliant 1 y Llywodraeth. Nid yw perfformiad y Llywodraeth yn ddigonol i ateb yr argyfwng ar hyn o bryd. Byddwn yn gwrando'n ofalus ar ymateb y Gweinidog i'r ddadl hon.

Turning to the amendments, we reject the Government's amendment 1. The Government's performance is not adequate in dealing with the crisis at present. We will listen carefully to the Minister's response to this debate.

Rydym yn fodlon derbyn gwelliannau 2, 4 a 5, gan eu bod yn ychwanegu at y cynnig gwreiddiol.

We are willing to support amendments 2, 4 and 5, as they add to the original motion.

Rydym yn gwrthod gwelliant 3 y Torïaid, gan fod ein cynllun yn mynd llawer ymhellach i helpu busnesau bach. Nid ydym yn credu y byddai cefnogi'r gwelliant hwnnw'n fuddiol o gwbl.

We reject the Tories' amendment 3, as our programme goes much further in assisting small businesses. We do not believe that supporting that amendment would be at all beneficial.

I grynhoi, ydym, rydym yn credu bod yn rhaid chwilio am ddulliau newydd o gael

To summarise, yes, we believe that we must seek new ways of bringing funding forward

arian ar gyfer cynlluniau cyfalaf. Rydym wedi gosod ein cynlluniau yn fanwl heddiw, a chredwn eu bod yn rhesymol ac yn gyraeddadwy, ac y byddent yn gwneud gwahaniaeth ar lawr gwlad i gwmnïau ac unigolion ar hyd a lled Cymru.

for capital schemes. We have set out our plans in detail here today, and we believe that they are reasonable and achievable, and that they would make a real difference at grass-roots level to companies and individuals right across Wales.

5.15 p.m.

Rwyf yn gobeithio bydd y Llywodraeth yn gwrando ar y neges hon, fel mae hi wedi gwrando, a bod yn deg, ers i ni fod yn pregethu'r bregeth hon yn ystod y misoedd diwethaf. Mae hi wedi sylweddoli pwysigrwydd y mater hwn o safbwynt cynnal y gweithlu yng Nghymru a rhoi cyfle i bobl ifanc gael gwaith o fewn y diwydiant adeiladu a pheirianneg.

I hope that the Government will listen to this message, as it has listened, to be fair, since we have been preaching this particular sermon over the past few months. It has realised the importance of this issue to maintaining the workforce in Wales and to giving young people an opportunity to access employment in the construction and engineering industries.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 1 and replace with:*

*Yn nodi'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i gyflwyno pecyn ariannol cynhwysfawr er mwyn helpu i ysgogi'r economi, gan gynnwys darparu buddsoddiad cyfalaf, o ffynonellau traddodiadol a rhai nad ydynt yn draddodiadol; a*

*Notes the steps taken by the Welsh Government in bringing forward a comprehensive fiscal package to help stimulate the economy, including the provision of capital investment, both from traditional and non-traditional sources; and*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I move amendment 1 in the name of Jane Hutt.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Cynigiaf welliant 1 yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Amendment 2 Peter Black*

*Ym mhwynt 2, ar ôl 'pellach', rhoi ', fel gwell seilwaith a lefelau sgiliau uwch,'.*

*In point 2, after 'measures' insert ', such as improved infrastructure and higher skills levels,'.*

*Gwelliant 5 Peter Black*

*Amendment 5 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu y gellid darparu ysgogiad economaidd cynhwysfawr petai gan y Cynulliad bwerau benthyca a rhagor o gyfrifoldeb ariannol, ac yn croesawu sefydlu Comisiwn Silk sy'n ymchwilio i'r posibilrwydd hwn.*

*Believes that a comprehensive economic stimulus could be provided if the Assembly had borrowing powers and greater fiscal responsibility and welcomes the establishment of the Silk Commission which is investigating this possibility.*

**Eluned Parrott:** I move amendments 2 and 5 in the name of Peter Black.

**Eluned Parrott:** Cynigiaf welliannau 2 a 5 yn enw Peter Black.

First, I thank Plaid Cymru for bringing forward this interesting debate today and giving us the opportunity to discuss fiscal stimulus in more depth. However, I must confess that I am surprised at the wording of this motion at this time, because the £38.9 million supplementary budget agreed yesterday is exactly that, and you abstained in the vote on that budget. The supplementary budget provides nearly £5 million for 1,800 new apprenticeship places, £3 million for Skills Growth Wales, and £9 million for improving school buildings. It is focused on exactly the kind of smaller-scale building projects that are ideally suited to local SMEs in the construction sector, rather than on the big projects that are swept up by multi-national companies from elsewhere. There is £6 million to develop the Ely mill site in Cardiff for much needed housing, again stimulating local jobs, £3 million added to the Arbed scheme, an initiative that your own administration played a crucial part in setting up, £9 million for new social housing, and £3.5 million to address some of the infrastructure difficulties around our enterprise zones. You can hardly say that that is not a fiscal stimulus package.

Yn gyntaf, diolch i Blaid Cymru am gyflwyno’r ddadl ddiddorol hon heddiw ac am roi cyfle inni drafod ysgogiad ariannol yn fwy manwl. Fodd bynnag, rhaid imi gyfaddef fy mod yn synnu at eiriad y cynnig hwn ar yr adeg hon, gan mai dyna’n union yw’r gyllideb atodol o £38.9 miliwn y cytunwyd arni ddoe, a bu ichi ymatal yn y bleidlais ar y gyllideb honno. Mae’r gyllideb atodol yn darparu bron i £5 miliwn ar gyfer 1,800 o leoedd newydd i brentisiaid, £3 miliwn ar gyfer Sgiliau Twf Cymru, a £9 miliwn ar gyfer gwella adeiladau ysgolion. Mae’n canolbwyntio ar yr union fath o brosiectau adeiladu ar raddfa lai sy’n ddelfrydol ar gyfer busnesau bach a chanolig lleol yn y sector adeiladu, yn hytrach nag ar y prosiectau mawr sy’n cael eu hennill gan gwmnïau rhyngwladol o fannau eraill. Mae £6 miliwn ar gael i ddatblygu safle melin Trelái yng Nghaerdydd ar gyfer tai y mae eu hangen yn fawr, a fydd hefyd yn rhoi hwb i swyddi lleol, mae £3 miliwn wedi’i ychwanegu at gynllun Arbed, sef menter yr oedd eich gweinyddiaeth chi wedi chwarae rhan allweddol i’w sefydlu, mae £9 miliwn ar gael ar gyfer tai cymdeithasol newydd, ac mae £3.5 miliwn ar gael i fynd i’r afael â rhai o’r anawsterau’n ymwneud â seilwaith sydd o amgylch ein hardaloedd menter. Go brin y gallwch ddweud nad yw hynny’n becyn ysgogiad ariannol.

However, what I am perhaps most proud of as a Welsh Liberal Democrat, in looking at all of the things that we have agreed, is that, through negotiating in good faith with the Welsh Government, we have been able to agree Wales’s own version of the pupil premium. That is targeted help to ensure that the poorest children in Wales have the opportunity to escape the poverty trap and to leave school with the skills they need to build a better life for themselves. I can see you wondering how the pupil deprivation grant is related to fiscal stimulus. It is intimately related, because if our children do not have the skills to take our economy forward we will never attract investment, we will never be able to grow viable, indigenous businesses in Wales, and we will never be economically successful. That is why, in amendment 2, we recognise that both infrastructure and skills have a critical role to play in ensuring that Wales has economic health not only now, but

Fodd bynnag, yr hyn yr wyf yn fwyaf balch ohono, efallai, fel un o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, wrth edrych ar yr holl bethau yr ydym wedi cytuno arnynt, yw ein bod, trwy drafod yn ddidwyll â Llywodraeth Cymru, wedi gallu cytuno ar fersiwn Cymru o’r premiwm disgyblion. Mae’n gymorth wedi’i dargedu i sicrhau bod y plant tlotaf yng Nghymru yn cael cyfle i ddianc o’r trap tlodi a gadael yr ysgol gyda’r sgiliau y mae arnynt eu hangen i greu gwell bywyd iddynt eu hunain. Gallaf eich gweld yn meddwl tybed sut mae’r grant amddifadedd disgyblion yn gysylltiedig ag ysgogiad ariannol. Mae cysylltiad agos iawn rhwng y ddau beth, oherwydd os nad oes gan ein plant y sgiliau i symud ein heconomi yn ei blaen, ni fyddwn byth yn denu buddsoddiad, ni fyddwn byth yn gallu datblygu busnesau cynhenid, hyfyw yng Nghymru, ac ni fyddwn byth yn llwyddo’n economaidd. Dyna pam rydym yn cydnabod, yng ngwelliant 2, bod

in the future. However, I would agree that, as a country, Wales has a desperate need for investment in our infrastructure and, in that regard, there is a limit as to what this Assembly can achieve within the current fiscal regime.

gan seilwaith a sgiliau rôl allweddol i'w chwarae o ran sicrhau bod Cymru yn iach o safbwynt economaidd, nid yn unig yn awr ond yn y dyfodol hefyd. Fodd bynnag, byddwn yn cytuno bod angen dybryd i fuddsoddi yn seilwaith Cymru, fel gwlad, ac yn hynny o beth, bod terfyn ar yr hyn y gall y Cynulliad hwn ei gyflawni dan y drefn ariannol bresennol.

My party has consistently argued that, in order to be able to drive economic development in Wales, it is important for Wales to have economic levers similar to those of our cousins in Scotland. For that reason, we have tabled amendment 5, which recognises that without the ability to borrow, in particular, but also without other fiscal levers, this Assembly is not able to invest in the larger infrastructure projects that we really need. That is why I warmly welcome the establishment of the Silk Commission and thank all of those who have engaged in the consultation process thus far.

Mae fy mhlaid wedi dadlau'n gyson ei bod yn bwysig i Gymru gael ysgogiadau economaidd tebyg i'r rheini sydd gan ein cefndryd yn yr Alban, er mwyn gallu hybu datblygu economaidd yng Nghymru. Am y rheswm hwnnw, rydym wedi cyflwyno gwelliant 5, sy'n cydnabod nad yw'r Cynulliad hwn yn gallu buddsoddi yn y prosiectau seilwaith mwy o faint y mae arnom eu gwir angen, heb y gallu i fenthyca, yn benodol, a heb ysgogiadau ariannol eraill hefyd. Dyna pam rwyf yn croesawu'n fawr sefydlu Comisiwn Silk ac yn diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y broses ymgynghori hyd yn hyn.

Turning to some of the other amendments, I will not be supporting amendment 3 today, as I believe that the business rates regime needs a far more fundamental overhaul. It is a little bit like fiddling with the icing but forgetting the cake, frankly. I recognise, of course, that small businesses need quick and effective support now to survive, but this is not it. However, I will support amendment 4, as I believe that it is right that we should work together in good faith to deliver for the people of Wales. That is also why I regret that the Minister for business and enterprise has instructed her officials not to engage in the Enterprise and Business Committee's joint meeting with the Welsh Affairs Committee tomorrow, because it hardly signals the kind of mutual respect—

Gan droi at rai o'r gwelliannau eraill, ni fyddaf yn cefnogi gwelliant 3 heddiw, gan fy mod o'r farn bod angen gwneud gwaith ailwampio llawer mwy sylfaenol ar y gyfundrefn ardrethi busnes. A dweud y gwir, mae'n debyg braidd i ffidlan â'r eisin ond anghofio'r gacen. Rwyf yn cydnabod, wrth gwrs, bod angen cymorth cyflym ac effeithiol ar fusnesau bach yn awr i oroesi, ond nid dyma'r ateb. Fodd bynnag, byddaf yn cefnogi gwelliant 4, gan fy mod yn credu ei bod yn iawn inni weithio gyda'n gilydd yn ddidwyll i gyflawni dros bobl Cymru. Dyna hefyd pam rwyf yn gresynu bod y Gweinidog busnes a menter wedi dweud wrth ei swyddogion am beidio â chymryd rhan yn y cyfarfod a gynhelir ar y cyd rhwng y Pwyllgor Menter a Busnes a'r Pwyllgor Materion Cymreig yfory, oherwydd go brin bod hynny'n arwydd o'r math o barch rhwng y naill a'r llall—

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** We have received a request for officials to attend the committee. Carl Sargeant and I, who have joint responsbility for airports and ports, will be attending the committee with our officials at a later date to give proper evidence to it, as requested, with all the

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Rydym wedi cael cais i swyddogion fynychu'r pwyllgor. Bydd Carl Sargeant a minnau, sydd â chyfrifoldeb ar y cyd am feysydd awyr a phorthladdoedd, yn mynychu'r pwyllgor gyda'n swyddogion yn ddiweddarach i roi tystiolaeth briodol iddo, yn ôl y gofyn, gyda'r

appropriate courtesies.

holl gwrteisi priodol.

**Eluned Parrott:** Thank you for that clarification, Minister. I am glad that to hear that you intend to show the Welsh Affairs Committee the proper respect in the future.

**Eluned Parrott:** Diolch am yr eglurhad hwnnw, Weinidog. Rwyf yn falch o glywed eich bod yn bwriadu dangos y parch priodol i'r Pwyllgor Materion Cymreig yn y dyfodol.

**Edwina Hart:** I intend to show the proper respect, and I am always courteous to committees that sit in this Assembly. I am a Minister in the Welsh Government, and I deal with matters that are devolved to Wales.

**Edwina Hart:** Rwyf yn bwriadu dangos y parch priodol, ac rwyf bob amser yn gwrtais i bwyllgorau sy'n cwrdd yn y Cynulliad hwn. Rwyf yn Weinidog yn Llywodraeth Cymru, ac rwyf yn ymdrin â materion sydd wedi'u datganoli i Gymru.

**Eluned Parrott:** Thank you again, Minister, for that clarification, although I think that you will recognise that not all of the fiscal levers that are necessary to drive Wales's economy forward are held by this Assembly. While the Silk Commission will be looking at those issues, up until that point I think that it is right and proper that we liaise effectively and in good faith with our partners and our colleagues from Wales in Westminster.

**Eluned Parrott:** Diolch unwaith eto, Weinidog, am yr eglurhad, er y credaf y byddwch yn cydnabod nad oes gan y Cynulliad hwn yr holl ysgogiadau ariannol sy'n angenrheidiol i symud economi Cymru yn ei blaen. Er y bydd Comisiwn Silk yn edrych ar y materion hynny, hyd at y pwynt hwnnw credaf ei bod yn iawn ac yn briodol inni gysylltu yn effeithiol ac yn ddidwyll â'n partneriaid a'n cydweithwyr o Gymru yn San Steffan.

However, let us not forget that the budget has been passed because we were able to put aside that kind of little politics and work together in good faith. On that note, I will leave it there.

Fodd bynnag, gadewch inni gofio bod y gyllideb wedi'i phasio am ein bod ni wedi gallu rhoi'r math hwnnw o fân wleidyddiaeth o'r neilltu a gweithio gyda'n gilydd yn ddidwyll. Ar y nodyn hwnnw, rwyf am orffen.

*Gwelliant 3 Willam Graham*

*Amendment 3 William Graham*

*Cynnwys ar ddiwedd pwynt 2:*

*Insert at end of point 2:*

*'yn gynnwys diddymu ardrethi busnes ar gyfer cwmnïau hyd at werth ardrethol o £12,000'.*

*'including the abolition of business rates for companies up to a rateable value of £12,000'.*

*Gwelliant 4 Willam Graham*

*Amendment 4 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos â Llywodraeth y DU i wella economi Cymru.*

*Calls on the Welsh Government to work closely with the UK Government to improve the Welsh economy.*

**Nick Ramsay:** I move amendments 3 and 4 in the name of William Graham.

**Nick Ramsay:** Cynigiaf welliannau 3 a 4 yn enw William Graham.

You are scarier when you speak sitting down, Eluned.

Rydych yn fwy brawychus pan fyddwch yn siarad ar eich eistedd, Eluned.

I am grateful to Alun Ffred for his comments about what the committee should and should not look at. Where we would be without you and all your helpful advice? I am pleased to speak in this debate—the latest in a series of Plaid Cymru debates calling for a greater fiscal stimulus from the Welsh Government. Amendment 3 restates my party's belief that the Welsh Government has to make a real effort to reduce the burden on small businesses. I am sorry to hear that the Liberal Democrats feel unable to support that, because those members of the Enterprise and Business Committee who visited Caerphilly as part of the town-centre regeneration inquiry not so long ago heard from all business people in Caerphilly that dealing with business rates was one of the best ways to support them.

Rwyf yn ddiolchgar i Alun Ffred am ei sylwadau ar yr hyn y dylai'r pwyllgor edrych arno a'r hyn na ddylai edrych arno. Byddem ar goll heboch a'ch holl gyngor defnyddiol. Rwyf yn falch o gael siarad yn y ddadl hon—y ddiweddaraf mewn cyfres o ddadleuon gan Blaid Cymru sy'n galw am fwy o ysgogiad ariannol gan Lywodraeth Cymru. Mae gwelliant 3 yn ailddatgan cred fy mhlaid i bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud ymdrech wirioneddol i leihau'r baich ar fusnesau bach. Mae'n ddrwg gennyf glywed bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn teimlo na allant gefnogi hynny, gan fod yr aelodau hynny o'r Pwyllgor Menter a Busnes a ymwelodd â Chaerffili yn rhan o'r ymchwiliad i adfywio canol trefi ychydig yn ôl wedi clywed gan holl bobl fusnes Caerffili mai ymdrin ag ardrethi busnes oedd un o'r ffyrdd gorau o'u cefnogi.

At this point in time, when it is very difficult for businesses to access money from the banks in the way that they used to be able to do, there is an obligation on all of us here to do what we can to ensure that those businesses can survive through this difficult time.

Ar hyn o bryd, a hithau'n anodd iawn i fusnesau gael gafael ar arian gan y banciau fel yr oeddent yn arfer gallu gwneud, rhaid i bob un ohonom yma wneud yr hyn a allwn i sicrhau bod y busnesau hynny'n gallu goroesi'r cyfnod anodd hwn.

**Eluned Parrott:** We all recognise the need for small businesses to receive support. However, I hope that you will recognise that our position is that there should be a more nuanced response to business rates that recognises that the value of the property is not the only contributory factor to a business being able to pay, and therefore a more fundamental overhaul is required in order to address this issue.

**Eluned Parrott:** Rydym i gyd yn cydnabod yr angen i fusnesau bach gael cymorth. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio y byddwch yn cydnabod mai ein safbwynt ni yw y dylid cael ymateb llai du a gwyn i ardrethi busnes, sy'n cydnabod nad gwerth yr eiddo yw'r unig ffactor sy'n cyfrannu at allu busnes i dalu, ac felly mae angen gwaith ailwampio mwy sylfaenol er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

**Nick Ramsay:** Well you did not table an amendment to that effect, and, given that amendment 3 is the only one tabled on business rates, I think that it is splitting hairs not to support it. You spoke about it being icing on the cake. If you want to present a different cake, then that is fine, but if not, then icing is at least somewhere to start.

**Nick Ramsay:** Wel, ni chafodd gwelliant ei gyflwyno gennych i'r perwyl hwnnw, ac, o gofio mai gwelliant 3 yw'r unig un a gyflwynwyd ar ardrethi busnes, credaf mai hollti blew yw peidio â'i gefnogi. Bu ichi gyfeirio ato fel yr eisin ar y gacen. Os hoffech gyflwyno cacen wahanol, mae hynny'n iawn, ond os nad ydych am wneud hynny, mae'r eisin o leiaf yn fan cychwyn.

Our second amendment, amendment 4, calls on the Welsh Government to work closely with the UK Government to improve the

Mae ein hail welliant, gwelliant 4, yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i wella economi

Welsh economy. Our economy does not exist in isolation. I imagine that people out there would expect the UK Government to be working closely with the Government here to ensure that the right policies are being developed. That has not always happened in the past, but we would like to see it. We also have to recognise that, despite being dealt an appallingly poor hand by the previous UK Labour Government, the coalition Government has delivered on a number of aspects for Wales. Electrification of the railways is a case in point. I know that there are issues about how far the electrification goes, but, for the first time ever, we have a commitment from a UK Government that there will be electrification in Wales. I know that there is cross-party support for electrification of the Valleys lines as well, and I am happy to put my name to that; it would be an important development if we could provide that sort of infrastructure, which would put the economy of Wales on a sound footing for the future.

Cymru. Nid yw ein heconomi yn bodoli ar ei phen ei hun. Rwyf yn dychmygu y byddai pobl y tu allan i'r lle hwn yn disgwyl i Lywodraeth y DU weithio'n agos gyda'r Llywodraeth yn y fan hon i sicrhau bod y polisïau cywir yn cael eu datblygu. Nid yw hynny wedi digwydd bob amser yn y gorffennol, ond byddem yn hoffi ei weld yn digwydd. Mae'n rhaid inni gydnabod hefyd bod y Llywodraeth glymblaid wedi cyflawni dros Gymru yng nghyswllt nifer o agweddau, er iddi etifeddu sefyllfa ofnadwy o wael gan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU. Mae trydaneiddio'r rheilffyrdd yn un enghraifft o hynny. Gwn fod problemau ynghylch pa mor bell y bydd y gwaith trydaneiddio'n ymestyn, ond, am y tro cyntaf erioed, mae gennym ymrwymiad gan Lywodraeth y DU y bydd trydaneiddio'n digwydd yng Nghymru. Gwn fod cefnogaeth drawsbleidiol i drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd hefyd, ac rwyf yn fodlon cefnogi hynny; byddai'n ddatblygiad pwysig pe gallem ddarparu'r math hwnnw o seilwaith, a fyddai'n rhoi economi Cymru ar sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol.

However, you have to start somewhere. Listening to Members speak in earlier debates and yesterday, there seems to be a tendency to think that you can bury your head in the sand and not accept the tough economic situation that this country is in. Yes, the situation has been difficult globally, but we have to start somewhere in dealing with the problems that the last UK Government left this country with. I have heard some Members suggest that we can somehow borrow our way out of the crisis, but borrowing is part of the problem—you cannot borrow in order to get out of a problem caused by borrowing.

Fodd bynnag, rhaid ichi ddechrau yn rhywle. O wrando ar yr Aelodau yn siarad mewn dadleuon cynharach a ddoe, ymddengys fod tuedd i feddwl y gallwch gladdu eich pen yn y tywod a pheidio â derbyn y sefyllfa economaidd anodd y mae'r wlad hon ynddi. Ydy, mae'r sefyllfa wedi bod yn anodd yn fyd-eang, ond mae'n rhaid inni ddechrau yn rhywle i ymdrin â'r problemau a adawyd gan Lywodraeth ddiwethaf y DU ar gyfer y wlad hon. Rwyf wedi clywed rhai Aelodau yn awgrymu y gallwn fenthyca ein ffordd allan o'r argyfwng rywsut, ond mae benthyca'n rhan o'r broblem—ni allwch fenthyca eich ffordd allan o broblem a achoswyd gan fenthyca.

**Leanne Wood:** Could you name me one country where austerity measures are working, please? Just one.

**Leanne Wood:** A allech enwi imi un wlad lle y mae camau cynilo yn gweithio, os gwelwch yn dda? Dim ond un.

**The Deputy Presiding Officer:** That was a very good intervention in terms of length. I am not expressing a qualitative judgment, but I hope that its length will be emulated by other Members.

**Y Dirprwy Lywydd:** Roedd yr ymyriad hwnnw'n un da iawn o ran ei hyd. Nid wyf yn mynegi barn am ei ansawdd, ond gobeithio y bydd Aelodau eraill yn ei efelychu o ran hyd.

**Nick Ramsay:** Greece. [*Laughter.*] If you will listen, Leanne, it is because Greece did

**Nick Ramsay:** Gwlad Groeg. [*Chwerthin.*] Pe baech yn gwrando, Leanne, mae Gwlad

not deal with its problems earlier that it is now in the situation that it is. If you honestly think that we can go down the route of allowing borrowing to balloon out of control and then expect public servants—who you so often say that you seek to protect—to bear the brunt, as they are doing in Greece, then there is something seriously wrong. [*Interruption.*] Well, I thought that it was a good answer, but I suppose that I would say that.

Groeg yn y sefyllfa y mae ynddi ar hyn o bryd am iddi fethu ag ymdrin â'i phroblemau yn gynharach. Os ydych yn wir yn credu y gallwn fynd ar hyd y trywydd o ganiatáu i fenthyca gynyddu y tu hwnt i reolaeth ac yna disgwyl i weision cyhoeddus—yr ydych yn dweud mor aml eich bod yn ceisio eu hamddiffyn—ddwyn y baich, fel sy'n digwydd yng Ngwlad Groeg, yna mae rhywbeth mawr o'i le. [*Torri ar draws.*] Wel, roeddwn yn meddwl ei fod yn ateb da, ond mae'n debyg y byddwn i'n dweud hynny.

We will not be supporting the final Liberal Democrat amendment, amendment 5, because it puts the cart before the horse. It mentions the Holtham commission—sorry, it is the Silk commission; there are so many commissions, I am getting confused. We should allow the Silk commission to report. I agree that it is anomalous that this institution does not have borrowing powers when other devolved bodies in the UK and local authorities have those powers, but we should wait for that commission to report and see what it says. The wording of your amendment is also letting the Government off the hook in suggesting that it does not currently have the tools to provide a proper fiscal stimulus. I think that it has the tools to do far more than it is doing.

Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant olaf y Democratiaid Rhyddfrydol, sef gwelliant 5, am ei fod yn rhoi'r cart o flaen y ceffyl. Mae'n cyfeirio at gomisiwn Holtham—mae'n ddrwg gennyf, at gomisiwn Silk; mae cynifer o gomisiynau, rwyf yn dechrau drysu. Dylem ganiatáu i gomisiwn Silk adrodd. Rwyf yn cytuno bod anghysondeb yn y ffaith nad oes gan y sefydliad hwn bwerau benthyca pan fo gan gyrff datganoledig eraill yn y DU ac awdurdodau lleol y pwerau hynny, ond dylem aros i'r comisiwn hwnnw adrodd a gweld beth sydd ganddo i'w ddweud. Mae geiriad eich gwelliant hefyd yn achub croen y Llywodraeth drwy awgrymu nad oes ganddi, ar hyn o bryd, yr adnoddau i ddarparu ysgogiad ariannol priodol. Credaf fod ganddi'r adnoddau i wneud llawer mwy nag y mae'n ei wneud.

**Rhodri Glyn Thomas:** It is interesting that when Nick Ramsay was challenged to think of a country anywhere in Europe where austerity measures are working—

**Rhodri Glyn Thomas:** Pan gafodd Nick Ramsay ei herio i feddwl am wlad unrhyw le yn Ewrop lle y mae camau cynilo'n gweithio, mae'n ddiddorol—

**Simon Thomas:** We gave him the whole world. [*Laughter.*]

**Simon Thomas:** Rhoesom y byd i gyd iddo. [*Chwerthin.*]

**Rhodri Glyn Thomas:** Yes—the whole world and he chose Greece. He could have chosen the UK, but presumably he does not have much faith in the Cameron coalition in Westminster and its austerity measures. He could have chosen Wales, but he chose Greece. The reference in his speech to cake and icing perhaps explains his choice, given that he thinks that you could work on the icing without having a cake.

**Rhodri Glyn Thomas:** Do—y byd i gyd a dewisodd Wlad Groeg. Gallai fod wedi dewis y DU, ond mae'n debyg nad oes ganddo lawer o ffydd yng nghlymblaid Cameron yn San Steffan a'i chamau cynilo. Gallai fod wedi dewis Cymru, ond dewisodd Wlad Groeg. Mae'r cyfeiriad yn ei araith at gacen ac eisin yn esbonio ei ddewis efallai, o gofio ei fod yn credu y gallech weithio ar yr eisin heb fod gennych gacen.

Really, Nick, austerity measures have not worked anywhere in the world. All that they

Dewch, Nick, nid yw camau cynilo wedi gweithio yn unman yn y byd. Y cyfan y

have done is create more of a problem. If you look at the situation in Wales, we have increasing unemployment, at 9% above the UK average. We have a massive increase in unemployment among people aged under 25. The UK measures that have been introduced have not helped at all. The only thing that has helped is the measures that have been brought in by the Welsh Government. What we are arguing in this debate is that the Welsh Government should be doing more, and responding more quickly. It has had almost a year in Government, and we are disappointed that it has not used that year to create a stimulus for the economy in Wales.

maent wedi'i wneud yw creu mwy o broblem. Os edrychwch ar y sefyllfa yng Nghymru, mae diweithdra ar gynnydd ac mae 9% yn uwch na chyfartaledd y DU. Rydym wedi gweld cynnydd enfawr mewn diweithdra ymysg pobl dan 25 oed. Nid yw'r mesurau a gyflwynwyd yn y DU wedi helpu o gwbl. Yr unig beth sydd wedi helpu yw'r mesurau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Yr hyn yr ydym yn ei ddadlau yn y ddadl hon yw y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gwneud mwy, ac yn ymateb yn gynt. Bu mewn Llywodraeth ers bron i flwyddyn, ac rydym yn siomedig nad yw wedi defnyddio'r flwyddyn honno i greu ysgogiad ar gyfer yr economi yng Nghymru.

I want to concentrate on matters relating to transport. Again, we see a strange response from the Welsh Conservatives. They want to spend the entire transport budget, as I understand it, on an M4 relief road. They might as well be honest and say that they want to create a new motorway, because, to all intents and purposes, the relief road would be a new motorway. They have totally ignored the route identified by Ieuan Wyn Jones, which would alleviate traffic pressure, but would not cost the same amount of money or create the same amount of disruption.

Hoffwn ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Unwaith eto, gwelwn ymateb rhyfedd gan y Ceidwadwyr Cymreig. Maent am wario'r gyllideb gyfan ar gyfer trafnidiaeth, yn ôl a ddeallaf, ar ffordd liniaru i'r M4. Cystal iddynt fod yn onest a dweud eu bod am greu traffordd newydd, oherwydd, i bob pwrpas, byddai'r ffordd liniaru yn draffordd newydd. Maent wedi anwybyddu'n llwyr y llwybr a nodwyd gan Ieuan Wyn Jones, a fyddai'n lleddfu'r pwysau o ran traffig, ond na fyddai'n costio'r un faint o arian nac yn creu'r un faint o anghyfleustra.

Transport projects can make a real difference to the economy and to employment. I refer again to the Porthmadog bypass, which I have mentioned previously in Plenary. A number of local companies were used for that work, which made a tremendous difference to local employment and the local economy. Projects such as that, spread throughout Wales, would make a tremendous difference. However, we have had the national transport plan presented to us, at long last, by the Minister with responsibility for transport, and it is no different from the original transport plan that was put forward by the previous Government and the previous Minister, and there have been no new projects identified or started.

Gall prosiectau trafnidiaeth wneud gwahaniaeth go iawn i'r economi ac i gyflogaeth. Cyfeiriaf eto at ffordd osgoi Porthmadog, yr wyf wedi ei chrybwyll o'r blaen mewn Cyfarfod Llawn. Cafodd nifer o gwmnïau lleol eu defnyddio i wneud y gwaith, a gwnaeth hynny wahaniaeth aruthrol i gyflogaeth leol a'r economi leol. Byddai prosiectau o'r fath, wedi'u gwasgaru ar hyd a lled Cymru, yn gwneud gwahaniaeth aruthrol. Fodd bynnag, mae cynllun trafnidiaeth cenedlaethol wedi'i gyflwyno inni, o'r diwedd, gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am drafnidiaeth, ac nid yw'n ddim gwahanol i'r cynllun trafnidiaeth gwreiddiol a gyflwynwyd gan y Llywodraeth flaenorol a'r Gweinidog blaenorol, ac nid oes yr un prosiect newydd wedi'i nodi na'i ddechrau.

**Darren Millar:** Do you regret that, under the leadership of the former Deputy First Minister, the Department for the Economy and Transport, as it was then, spent up to

**Darren Millar:** A ydych yn gresynu bod Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, fel yr oedd bryd hynny, dan arweiniad y cyn-Ddirprwy Brif Weinidog, wedi gwario hyd at

three times the original forecasted cost on many transport projects in Wales because of poor management? Do you accept that that also needs to be addressed in taking projects forward?

dair gwaith yn fwy na'r gost a ragwelwyd yn wreiddiol ar lawer o brosiectau trafnidiaeth yng Nghymru oherwydd rheolaeth wael? A ydych yn derbyn bod angen mynd i'r afael â hynny hefyd wrth ddatblygu prosiectau?

5.30 p.m.

**Rhodri Glyn Thomas:** If you look at the facts, Darren, you will have seen that, during the One Wales Government, the project management process for those projects was completely changed because we identified that they were overspending. Every Government has overspent on those kinds of projects, including Conservative Governments in Westminster. In Wales, we have ensured that, from now on, the management of those projects will mean that we will not be overspending to the same extent and we will be able to use that money in a better and more effective way. At a time of recession, we can use that money to stimulate the economy to ensure that those projects will develop throughout Wales. We are calling on the Government to bring those projects forward. That is the thing to do at a time like this. There is an opportunity to bring forward those projects to create local work that will stimulate the local economy and ensure that we benefit from it.

**Rhodri Glyn Thomas:** Os edrychwch ar y ffeithiau, Darren, byddwch wedi gweld, yn ystod cyfnod Llywodraeth Cymru'n Un, bod y broses rheoli prosiect ar gyfer y prosiectau hynny wedi cael ei newid yn llwyr am inni weld bod gorwario'n digwydd arnynt. Mae pob Llywodraeth wedi gorwario ar brosiectau tebyg i'r rheini, gan gynnwys Llywodraethau Ceidwadol yn San Steffan. Yng Nghymru, rydym wedi sicrhau, o hyn ymlaen, y bydd y broses o reoli'r prosiectau hynny'n golygu na fyddwn yn gorwario i'r un graddau ac y byddwn yn gallu defnyddio'r arian hwnnw mewn ffordd well a mwy effeithiol. Mewn cyfnod o ddirwasgiad, gallwn ddefnyddio'r arian hwnnw i ysgogi'r economi i sicrhau y bydd y prosiectau hynny'n datblygu ledled Cymru. Rydym yn galw ar y Llywodraeth i gyflwyno'r prosiectau hynny'n gynt. Dyna y dylid ei wneud ar adeg fel hon. Mae cyfle i gyflwyno'r prosiectau hynny'n gynt er mwyn creu gwaith yn lleol a fydd yn ysgogi'r economi leol ac yn sicrhau ein bod yn cael budd ohono.

I concur with Alun Ffred Jones about the way in which other countries in Europe ensure that local contracts go to companies in their own countries. Kevin Morgan identified Italy in particular in his evidence today, but there are many other countries that do the same. Wales, as a small country, must ensure that local companies are able to access the tendering process in the first place and then ensure that tenders go to local companies. That is how we will address the recession and the problem with unemployment in Wales.

Rwyf yn cytuno ag Alun Ffred Jones ynghylch y modd y mae gwledydd eraill yn Ewrop yn sicrhau bod contractau lleol yn mynd i gwmnïau yn eu gwledydd eu hunain. Cyfeiriodd Kevin Morgan at yr Eidal yn benodol yn ei dystiolaeth heddiw, ond mae llawer o wledydd eraill yn gwneud yr un peth. Rhaid i Gymru, fel gwlad fach, sicrhau bod cwmnïau lleol yn gallu cael mynediad i'r broses dendro yn y lle cyntaf, ac yna sicrhau bod tendrau'n mynd i gwmnïau lleol. Dyna sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r dirwasgiad a'r broblem o ran diweithdra yng Nghymru.

**Joyce Watson:** I welcome the chance to discuss the merits of pursuing a policy of fiscal stimulus. In November, the Minister for business announced £55 million of new investment in Welsh small to medium-sized enterprises to support business growth. The Minister for Finance has announced an additional £87 million of capital investment in Wales over the next two years. We are

**Joyce Watson:** Rwyf yn croesawu'r cyfle i drafod rhinweddau dilyn polisi o ddarparu ysgogiad ariannol. Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd y Gweinidog busnes fuddsoddiad newydd o £55 miliwn mewn busnesau bach a chanolig yng Nghymru i gefnogi twf busnesau. Mae'r Gweinidog Cyllid wedi cyhoeddi y bydd £87 miliwn ychwanegol o fuddsoddiad cyfalaf yng

doing what we can in Wales, within our powers and our spending limit, to stimulate growth, attract inward investment, improve skills, and deliver jobs. That happens against the backdrop of the UK Government's inflexible policy of massive fiscal consolidation and austerity. It is the Tory party's mantra for our time. When looking after the household budget, 'Look after the pennies and the pounds will look after themselves' is good advice. However, when it comes to a nation's economy, George Osborne and David Cameron would do better to heed the advice of John Maynard Keynes, who said, 'Look after unemployment and the budget will look after itself'.

Nghymru dros y ddwy flynedd nesaf. Rydym yn gwneud yr hyn a allwn yng Nghymru, o fewn ein pwerau a'n terfyn gwariant, i ysgogi twf, denu mewnfuddsoddi, gwella sgiliau, a darparu swyddi. Mae hynny'n digwydd yn erbyn cefndir polisi anhyblyg Llywodraeth y DU o waith cynilo a chyfuno ariannol ar raddfa fawr. Dyna fantra'r blaid Dorïaidd ar gyfer ein hoes ni. Yng nghyswllt cyllideb y cartref, mae 'gofaler am y geiniog a bydd y bunt yn gofalu amdani ei hun' yn gyngor da. Fodd bynnag, yng nghyswllt economi gwlad, byddai'n ddoethach pe bai George Osborne a David Cameron yn gwrando ar gyngor John Maynard Keynes, a ddywedodd, 'gofaler am ddiweithdra a bydd y gyllideb yn gofalu amdani ei hun'.

From past experience, we know that Tory Governments will sacrifice employment in pursuit of ideological, economic purity. The people of Wales know that better than most and unemployment is at a 17-year high. Self-defeating austerity is a mistake. To disregard unemployment is morally bankrupt and economically illiterate. The best way to get the country on the path to growth is to get people into work and paying taxes.

O brofiad y gorffennol, gwyddom y bydd Llywodraethau Torïaidd yn aberthu cyflogaeth wrth geisio purdeb economaidd, ideolegol. Mae pobl Cymru yn gwybod hynny'n well na'r rhan fwyaf o bobl, ac mae diweithdra ar ei uchaf ers 17 o flynyddoedd. Camgymeriad yw cynilo hunanddinistriol. Mae diystyru diweithdra'n gyfystyr â methu'n foesol a bod yn anllythrennog yn economaidd. Y ffordd orau i gael y wlad i droedio'r llwybr tuag at dwf yw cael pobl i mewn i waith ac i dalu trethi.

Fiscal stimulus works elsewhere in the world today. Thanks to the American Recovery and Reinvestment Act 2009, which was brought in by President Obama, the US has had nearly two years of uninterrupted private sector growth and unemployment is at a four-year low. Fiscal stimulus was also used in Britain to bail out the banks, which needed to be done. That was four years ago. More recently, we have had waves of quantitative easing amounting to billions of pounds. Why can that newly created money not be used to create jobs and realise tangible projects in the real economy, instead of shoring up electronic balance sheets? Economic growth follows demand and fiscal stimulus can create the conditions for that demand. That is what we must seek to achieve in Wales. That will require maximum investment.

Mae ysgogiad ariannol yn gweithio mewn mannau eraill yn y byd heddiw. Diolch i Ddeddf Adfer ac Ailfuddsoddi America 2009, a gyflwynwyd gan yr Arlywydd Obama, mae'r Unol Daleithiau wedi cael bron i ddwy flynedd o dwf di-dor yn y sector preifat ac mae diweithdra ar ei isaf ers pedair blynedd. Defnyddiwyd ysgogiad ariannol ym Mhrydain hefyd i achub y banciau, ac roedd angen gwneud hynny. Roedd hynny bedair blynedd yn ôl. Yn fwy diweddar, cawsom don ar ôl ton o leddfu meintiol gwerth biliynau o bunnoedd. Pam na ellir defnyddio'r arian newydd hwnnw i greu swyddi a gwireddu prosiectau go iawn yn yr economi go iawn, yn hytrach na'i ddefnyddio i gynnal mantolenni electronig? Mae twf economaidd yn dilyn galw, a gall ysgogiad ariannol greu'r amodau ar gyfer y galw hwnnw. Dyna y mae'n rhaid inni geisio ei gyflawni yng Nghymru. Bydd angen y buddsoddiad mwyaf posibl ar gyfer hynny.

In answer to the debate, will the Minister

Wrth ymateb i'r ddadl, a wnaiff y Gweinidog

update Members on the latest discussions with Westminster with regard to fair funding and access to borrowing? Can the Minister outline how the Welsh Government is working with local authorities and other partners to maximise existing borrowing capacities in a strategic way?

roi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am y trafodaethau diweddaraf â San Steffan ynghylch ariannu teg a mynediad i drefniadau benthyca? A all y Gweinidog amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i wneud y gorau o alluoedd benthyca presennol mewn ffordd strategol?

**Bethan Jenkins:** Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn trafod yr economi heddiw yn sgîl y newyddion gwael am doriadau i swyddi Remploy. Rwy'n erfyn eto ar Lywodraeth Cymru i sefyll dros y bobl sy'n gweithio yn y ffatrïoedd hynny er mwyn sicrhau bod dyfodol llewyrchus iddynt, yn hytrach na'u bod yn ddi-waith ac heb ddim i'w wneud gyda'u bywydau.

**Bethan Jenkins:** It is important that we are discussing the economy today in the wake of the bad news about job cuts at Remploy. I urge the Welsh Government again to stand up for those people who work in those factories in order to ensure a prosperous future for them, rather than them being unemployed, with nothing to do with their lives.

Rwyf eisiau siarad am rôl busnesau ar-lein, rôl busnesau yn y sector digidol a'r cyfleoedd maent yn eu darparu ar gyfer tyfu ein heconomi. Bydd pobl yn y Siambr yn gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi estyn cefnogaeth i enwebu Nominet i wneud cais i ICANN, y gorfforaeth ryngrwyd ar gyfer enwau a rhifau, i sefydlu '.cymru' a '.wales' fel enwau parthau. Er fy mod i a llawer o fy nghydweithwyr ym Mhlaid Cymru yn siomedig ei fod yn edrych yn debyg na fydd dau gwmni yn mynd ymlaen gyda'r ceisiadau, hoffwn dalu teyrnged i'r gwaith caled a wnaed dros y blynyddoedd gan y sefydliad '.cym' ac i fynegi fy ngobaith y bydd Nominet yn gweld gwerth yn ei waith, yn enwedig yn ei ymdrechion i gryfhau'r iaith, ac y bydd yn mabwysiadu ei syniadau os yw'n llwyddiannus.

I want to talk about the role of online businesses, the role of businesses in the digital sector, and the opportunities that they provide to grow our economy. People in the Chamber will know that the Welsh Government has extended its support to nominate Nominet to make a bid to ICANN, the Internet Corporation for Assigned Names and Numbers, to establish '.cymru' and '.wales' as domain names. Although I, and my fellow Plaid Cymru colleagues, are disappointed that it looks as if there will not be two companies going ahead with the bids, I would like to pay tribute to the hard work done over the years by the '.cym' organisation and to express my hope that Nominet will see value in its work, especially in its attempts to strengthen the Welsh language, and that it will adopt its ideas if it is successful.

Cyhoeddodd Nominet ddarn o waith ymchwil yr wythnos diwethaf a oedd wedi'i gomisiynu gan London Economics Cymru ac a oedd yn ymdrin â'r mater y mae gen i fwyaf o ddiddordeb yn ei archwilio. Gan ddyfynu bod gan 84% o gartrefi Cymru fynediad at fand eang a bod chwarter oedolion Cymru yn derbyn gwasanaethau ar-lein drwy ffonau symudol, mae'n dadlau bod y rhyngrwyd yn darparu sianel i farchand bwysig i fusnesau bach a chanolig eu maint sy'n edrych i werthu i ddefnyddwyr Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn sôn am y Cymry ar wasgar, y *Welsh diaspora*, ac yn dadlau bod hyn yn darparu cronfa o gynifer â 5 miliwn o bobl a allai gyfuno o amgylch parth Cymru

Nominet published a piece of research last week that it had commissioned from London Economics Cymru that dealt with the issue that I am most interested in looking at. Stating that 84% of homes in Wales have access to broadband and that a quarter of adults in Wales receive online services through their mobile phones, it argues that the internet provides a channel to market that is important for small and medium-sized enterprises that are looking to sell to Welsh consumers. The report also talks about the Welsh diaspora and argues that this provides a source of as many as 5 million people who could come together around a Wales domain, bringing real value to those names and to

gan ddod â gwerth go iawn i'r enwau hynny ac i'w safle yma yng Nghymru.

their position here in Wales.

Mae gwerth yn cyflwyno cyfle a gall hyn fod o fudd i'n marchnadoedd mewnol, mwy traddodiadol, a'n marchnadoedd tramor drwy dwristiaeth, yn ogystal â'r marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg fel ein sector bwyd, sydd o ansawdd uchel iawn. Bydd presenoldeb ar-lein sefydlog gan Gymru yn canolbwyntio ar ein cyngion gorau ac yn helpu pobl i ddod o hyd i'r hyn sydd gennym yn barod. Bydd hefyd yn ychwanegu at ddatblygiadau yn ein hunaniaeth fel gwlad a chenedl. Y cwestiwn yw, sut yr ydym yn mynd ati i sicrhau y gall Cymru wneud y gorau o'r parth lefel uchel. Beth all y Cynulliad a Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod hyn yn digwydd?

Value provides opportunity and this could be of benefit to our internal, more traditional markets, our foreign markets through tourism, as well as the emerging markets, such as our food sector, which is of a very high standard. Wales will have a permanent online presence that will focus on our best offers and help people to find what we already have available. It will also add to developments in our identity as a country and a nation. The question is how we can ensure that Wales can make the most of this high-level domain name. What can the Assembly and the Welsh Government do to ensure that that happens?

We have to plan as if Nominet's bid will be successful and hit the ground running. There is no doubt that the Welsh Government is anticipating a greater role for Wales online, but it seems to be the same story of looking busy and achieving very little. We have had 'The Heart of Digital Wales' report from Ian Hargreaves for almost two years now, yet, from where I am standing and from some of the evidence that the task and finish group into the future outlook for the media in Wales has heard, progress appears to be painfully slow. All of us know that the digital economy moves with sometimes breath-taking speed, creating hitherto unimagined technologies. You cannot expect any Government to be able to anticipate such developments, but, conversely, neither is our participation assisted by the endless round of reports and reviews that Ministers here seem to be so fond of. The Welsh Government needs to be seen to be doing more and to be looking as if its policy reviews are more than rearranging the chairs in the office. Do not take my word for it: this is what digital and small businesses are telling us as Assembly Members and have told the task and finish group. It is about creating momentum, the critical mass, being busy and looking busy. That is the way in which I believe that we need to develop this particular element of the economy, and while the creative industries sector is still a smaller part of the economy in Wales, I hope that we can see its development in the future.

Mae'n rhaid inni gynllunio gan dybio y bydd cais Nominet yn llwyddiannus a bod yn barod i weithredu'n syth. Nid oes amheuaeth nad yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld mwy o rôl i Gymru ar-lein, ond ymddengys mai'r un hen stori sydd yma, sef ymddangos yn brysur a chyflawni fawr ddim. Mae bron i ddwy flynedd yn awr ers inni gael adroddiad Ian Hargreaves, 'Calon Cymru Ddigidol', ac eto, o'm safbwynt i ac o rywfaint o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r grŵp gorchwyl a gorffen ar ragolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru, ymddengys fod cynnydd yn boenus o araf. Gwyddom i gyd fod yr economi ddigidol yn datblygu'n syfrdanol o gyflym weithiau, gan greu technolegau nas dychmygwyd o'r blaen. Ni allwch ddisgwyl i unrhyw Lywodraeth allu rhagweld datblygiadau o'r fath, ond, ar y llaw arall, nid yw'r cylch diddiwedd o adroddiadau ac adolygiadau yr ymddengys fod Gweinidogion yn y fan hon mor hoff ohonynt, yn gwneud dim i helpu ein cyfranogiad chwaith. Mae angen i Lywodraeth Cymru gael ei gweld yn gwneud mwy, a rhaid iddi roi'r argraff bod ei hadolygiadau polisi yn fwy nag ymarfer i aildrefnu'r cadeiriau yn y swyddfa. Peidiwch â chymryd fy ngair i'n unig am hynny: dyna y mae busnesau digidol a busnesau bach yn ei ddweud wrthym fel Aelodau Cynulliad, a dyna y maent wedi'i ddweud wrth y grŵp gorchwyl a gorffen. Mae'n golygu creu momentwm, y màs critigol, bod yn brysur ac ymddangos yn brysur. Dyna sut mae angen inni ddatblygu'r elfen benodol hon o'r economi, yn fy marn i, ac er bod y sector

diwydiannau creadigol yn rhan lai o'r economi yng Nghymru o hyd, rwyf yn gobeithio y gallwn ei weld yn datblygu yn y dyfodol.

**Mark Isherwood:** The Welsh economy needs comprehensive enterprise-driven fiscal stimulus to support business and jobs, grow the economy and lift Wales out of the economic relegation zone. As today's motion states, this should include capital investment streams sourced from outside the Treasury block grant. Fiscal stimulus is about Government tax, borrow and spend, and we must deal with what is, rather than what may or may not be, in the future. Whatever the future may bring, Wales will still be bound by the fiscal discipline applying to both the UK and elsewhere.

**Mark Isherwood:** Mae ar economi Cymru angen ysgogiad ariannol cynhwysfawr a yrrir gan fenter i gefnogi busnesau a swyddi, tyfu'r economi a chodi Cymru o waelodion y cynghrair economaidd. Fel y mae'r cynnig heddiw yn nodi, dylai hynny gynnwys ffrydiau buddsoddi cyfalaf a ddaw o'r tu allan i grant bloc y Trysorlys. Mae a wnelo ysgogiad ariannol â threfniadau'r Llywodraeth o ran treth, benthyca a gwario, a rhaid inni ymdrin â'r sefyllfa sydd ohoni, yn hytrach na'r hyn a fydd neu na fydd yn y dyfodol. Ni waeth beth a ddaw yn y dyfodol, bydd Cymru yn rhwym o hyd wrth y ddisgyblaeth ariannol sy'n berthnasol i'r DU a mannau eraill.

Only last month, the UK's AAA rating was thrown into doubt by credit ratings agency Moody's because of the ongoing euro crisis and banking sector credit squeeze. Moody's was explicit that it was only the UK Government's necessary fiscal consolidation that stopped an immediate downgrade, which would happen if there were any reduced political commitment to fiscal consolidation. The AAA rating allows a country or a state to borrow at the lowest interest rates, which is vital to the economy of Wales.

Mor ddiweddar â'r mis diwethaf, cododd yr asiantaeth statws credyd, Moody's, amheuon ynghylch statws AAA y DU oherwydd yr argyfwng sy'n parhau yn ardal yr Ewro a gwasgfa gredyd y sector bancio. Dywedodd Moody's yn blaen mai camau cyfuno ariannol angenrheidiol Llywodraeth y DU oedd yr unig beth a rwystrodd y statws rhag cael ei israddio'n syth, a fyddai'n digwydd pe bai'r ymrwymiad gwleidyddol i gyfuno ariannol yn lleihau o gwbl. Mae'r statws AAA yn caniatáu i wlad neu wladwriaeth fenthyca ar sail y cyfraddau llog isaf, sy'n hanfodol i economi Cymru.

When you have inherited the largest deficit in the UK's peacetime history, you have to make hard choices, because we can then look our creditors in the eye and say that we are good on our word and good for our money. Few things are more morally wrong than passing our debts on to our children and if we do not take the difficult decisions now, we will not really be able to help those who really need it further down the line.

Pan fyddwch wedi etifeddu'r diffyg mwyaf yn hanes y DU mewn cyfnod o heddwch, rhaid ichi wneud dewisiadau anodd, oherwydd bydd hynny'n ein galluogi i edrych ym myw llygad ein credydwyr a dweud ein bod gystal â'n gair ac yn dda am ein harian. Prin yw'r pethau sy'n fwy anfoesol na throsglwyddo ein dyledion i'n plant, ac os na wnawn y penderfyniadau anodd yn awr, ni fyddwn mewn gwirionedd yn gallu helpu'r rheini y bydd gwir angen help arnynt yn ddiweddarach.

**David Rees:** Thank you for taking an intervention. You have stated that the AAA credit rating is very important; are you therefore worried that Moody's is forecasting that we could lose that because of the

**David Rees:** Diolch am dderbyn ymyriad. Rydych wedi dweud bod y statws credyd AAA yn bwysig iawn; a ydych yn poeni, felly, bod Moody's yn rhagweld y gallem golli'r statws hwnnw oherwydd y camau y

measures that the UK Government is taking at the moment?

mae Llywodraeth y DU yn eu cymryd ar hyn o bryd?

**Mark Isherwood:** No. I notice that it said that the UK Government must not relax its necessary fiscal consolidation, or we would lose it.

**Mark Isherwood:** Nac ydw. Sylwaf iddo ddweud na ddylai Llywodraeth y DU lacio ei threfniadau cyfuno ariannol angenrheidiol, neu y byddem yn ei golli.

We must welcome Monday's forecast by the British Chambers of Commerce that the UK will avoid a double-dip recession and note the statement by its director general that the UK Government should stick to its deficit reduction plan, but that there was room in its spending envelope for measures to encourage firms to export, invest and grow. If we want to raise Wales from the bottom of the economic league table and tackle long-standing worklessness and dependency, these should also be priorities for Wales.

Rhaid inni groesawu'r rhagolwg a gafwyd ddydd Llun gan Siambrau Masnach Prydain, sef y bydd y DU yn osgoi dirwasgiad dwbl, a nodi'r datganiad gan ei gyfarwyddwr cyffredinol a oedd yn dweud y dylai Llywodraeth y DU gadw at ei chynllun i leihau'r diffyg, ond bod lle yn ei hamlen wario ar gyfer mesurau i annog cwmnïau i allforio, buddsoddi a thyfu. Os ydym am godi Cymru o waelod y cynghrair economaidd a mynd i'r afael â diweithdra a dibyniaeth hirsefydlog, dylai'r rhain fod yn flaenoriaethau i Gymru hefyd.

When the UK coalition Government came to office, housebuilding rates across the UK had reached lows not seen in peacetime since the 1920s. The UK Government's housing strategy for England recognises that lower supply means lower growth and fewer jobs; that boosting housing output can make a real difference to economic growth, job creation and apprenticeships; that housing construction supports more jobs than many other sectors of the economy; and that every £1 million of housebuilding supports 12 net jobs

Pan ddaeth Llywodraeth glymblaid y DU i rym, roedd cyfraddau adeiladu tai ar draws y DU wedi disgyn i lefel nas gwelwyd mewn cyfnod o heddwch ers yr 1920au. Mae strategaeth dai Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr yn cydnabod bod cyflenwad is yn golygu twf is a llai o swyddi; bod hybu gwaith adeiladu tai yn gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i dwf economaidd, gwaith creu swyddi a phrentisiaethau; bod adeiladu tai yn cynnal mwy o swyddi na llawer o sectorau eraill yr economi; a bod pob £1 filiwn o waith adeiladu tai yn cynnal 12 o swyddi net.

The housebuilding strategy for England includes a new-build indemnity scheme, meaning that first-time buyers will have to provide only a 5% deposit, and help for first-time buyers is also offered through the First Buy scheme. By contrast, the construction sector in Wales is concerned by Welsh Government inaction after a year. It has highlighted to us the proactive way in which the UK Government is helping the English housebuilding industry and stated that the Welsh Government should prioritise affordable housing developments to kick-start local economies. The Minister for Finance's second supplementary budget announced £9.3 million more for affordable homes, but this was taken from funding provided to freeze council tax and did not even replace

Mae'r strategaeth adeiladu tai ar gyfer Lloegr yn cynnwys cynllun indemniad ar gyfer tai newydd, sy'n golygu mai dim ond 5% o flaendal y bydd angen i'r rheini sy'n prynu am y tro cyntaf ei ddarparu, a chaiff cymorth i'r rheini sy'n prynu am y tro cyntaf ei gynnig hefyd drwy'r cynllun First Buy. Mewn gwrthgyferbyniad, mae'r sector adeiladu yng Nghymru yn pryderu am fethiant Llywodraeth Cymru i weithredu ar ôl blwyddyn. Mae wedi tynnu ein sylw at y ffordd ragweithiol y mae Llywodraeth y DU yn helpu'r diwydiant adeiladu tai yn Lloegr, a dywedodd y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu datblygiadau tai fforddiadwy i roi hwb i economïau lleol. Yn ail gyllideb atodol y Gweinidog Cyllid cyhoeddwyd y byddai £9.3 miliwn yn fwy ar gael ar gyfer

the £12 million provided by the UK Government for this purpose, which it spent elsewhere.

cartrefi fforddiadwy, ond cafodd yr arian hwnnw ei gymryd o'r cyllid a ddarparwyd i rewi'r dreth gyngor, ac nid oedd hyd yn oed yn cymryd lle'r £12 miliwn a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU at y diben hwn, a gafodd ei wario ar bethau eraill.

Community Housing Cymru called on the Welsh Government to allocate to social housing £122.5 million of the additional £216 million capital funding for Wales announced in the Chancellor's autumn statement, to replace social housing grant cuts, lever in private finance and reinvigorate the Welsh economy. After all, since devolution, the Welsh Government has cut the supply of new affordable homes by 60% and is now cutting it further. Although new home registrations increased in England and Scotland last year, they fell by 17% in Wales.

Galwodd Cartrefi Cymunedol Cymru ar Lywodraeth Cymru i ddyrannu i dai cymdeithasol £122.5 miliwn o'r £216 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol i Gymru a gyhoeddwyd yn natganiad y Canghellor yn yr hydref, i gymryd lle'r toriadau yn y grant tai cymdeithasol, denu cyllid preifat ac adfywio economi Cymru. Wedi'r cyfan, ers datganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi torri'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy newydd 60%, ac yn awr mae'n ei dorri ymhellach. Er i nifer y cartrefi newydd a gofrestrwyd yn Lloegr a'r Alban gynyddu y llynedd, gwelwyd gostyngiad o 17% yng Nghymru.

We want a Wales in Britain that is solvent, sound and built on strong foundations. Ranged against us are a Welsh Labour Government and party that are trenchant in defence of failure. They put a failed ideology ahead of what is right for the people. We want Wales, where the heart of the Britons beats loudest, to be a place where opportunity is in the national bloodstream, where fairness is real and not a free-for-all that lets Welsh Labour politicians and cronies do as they wish, but where there is an expectation that all will play their part and where what you get out depends on what you put in.

Rydym am weld Cymru yn rhan o Brydain sy'n ddiddyled, sy'n gadarn ac sydd wedi'i hadeiladu ar seiliau cryf. Yn milwrio yn ein herbyn mae Llywodraeth a phlaid Lafur yng Nghymru sy'n amddiffyn methiant yn rymus. Maent yn rhoi ideoleg aflwyddiannus o flaen yr hyn sy'n iawn i'r bobl. Rydym am i Gymru, lle y mae calon Prydeinwyr yn curo gryfaf, fod yn fan lle y mae cyfle yn ein llif gwaed cenedlaethol, lle y mae tegwch yn realiti yn hytrach nag yn ysgarmes sy'n caniatáu i wleidyddion a 'chronis' Llafur Cymru wneud fel y mynnant, ond lle y mae disgwyl y bydd pawb yn chwarae eu rhan a lle y mae'r hyn yr ydych yn ei gael yn dibynnu ar yr hyn yr ydych yn ei gyfrannu.

**Kenneth Skates:** I must say in relation to those final comments that we are beginning to find that this sermon on the economy is being delivered with more regularity and being repeated more than *Eastenders*. Unfortunately, it does not quite have the same audience. [*Interruption.*] Indeed, nor the same interest.

**Kenneth Skates:** Mae'n rhaid imi ddweud, yng nghyswllt y sylwadau diwethaf, ein bod yn dechrau gweld y bregeth hon ar yr economi yn cael ei chyflwyno'n fwy rheolaidd ac yn cael ei hailadrodd yn amlach nag *Eastenders.* Yn anffodus, nid yw'n denu'r un gynulleidfa'n union. [*Torri ar draws*.] Yn wir, na'r un diddordeb.

Driving forward sustainable economic growth, reshaping our advanced manufacturing base for the twenty-first century and upskilling our workforce to power the new knowledge economy are some of the most pressing long-term economic

Ymhlith yr heriau economaidd hirdymor mwyaf taer sy'n ein hwynebu yng Nghymru y mae hybu twf economaidd cynaliadwy, ail-lunio ein sylfaen gweithgynhyrchu uwch ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, a gwella sgiliau ein gweithlu i yrru'r economi

challenges that we face in Wales. They are central to the future vitality of our economy and vital to the future prosperity of our communities. On this much, we can agree.

wybodaeth newydd. Maent yn ganolog i hyfywedd ein heconomi yn y dyfodol ac yn hanfodol i ffyniant ein cymunedau yn y dyfodol. Gallwn gytuno ar gymaint â hynny.

5.45 p.m.

I believe that the Welsh Government has a solid record of using all the economic levers at its disposal to stimulate our economy and to support new opportunities for job creation in every part of Wales. I endorse the comments made by Bethan Jenkins regarding Nominet's efforts to attract two top-level domain names for Wales. It is important that everyone who can sign a statement of opinion on that does so.

Credaf fod gan Lywodraeth Cymru hanes cadarn o ddefnyddio'r holl ysgogiadau economaidd sydd ar gael iddi er mwyn ysgogi ein heconomi a chefnogi cyfleoedd newydd i greu swyddi ym mhob rhan o Gymru. Cefnogaf y sylwadau a wnaed gan Bethan Jenkins ynghylch ymdrechion Nominet i gael dau enw parth ar y lefel uchaf i Gymru. Mae'n bwysig bod pawb sy'n gallu arwyddo datganiad barn ar y mater yn gwneud hynny.

Concrete action has been taken in Wales to deliver short-term stimulus and long-term economic growth. With regard to Plaid's motion, it sometimes disappoints me when there is a difference between what is said in the Chamber and what is delivered on the ground. To speak directly about my constituency, we have a position in the Wrexham area where Plaid Cymru talks in its manifesto about increasing the availability and the building of affordable homes, but in my constituency, councillors are opposing the increase in homes. This is against a backdrop of a threefold increase in homelessness in the Wrexham area since 2009.

Mae camau pendant wedi'u cymryd yng Nghymru i sicrhau ysgogiad byrdymor a thwf economaidd hirdymor. O ran cynnig Plaid Cymru, mae'n fy siomi weithiau pan fydd gwahaniaeth rhwng yr hyn a ddywedir yn y Siambr a'r hyn a gyflawnir ar lawr gwlad. Gan siarad yn uniongyrchol am fy etholaeth i, mae gennym sefyllfa yn ardal Wrecsam lle y mae Plaid Cymru yn sôn yn ei maniffesto am gynyddu argaeledd a gwaith adeiladu cartrefi fforddiadwy, ond yn fy etholaeth i, mae cynghorwyr yn gwrthwynebu'r cynnydd yn nifer y cartrefi. Mae hyn yn erbyn cefndir lle y mae digartrefedd wedi treblu yn ardal Wrecsam er 2009.

**Llyr Huws Gruffydd** *rose*—

**Llyr Huws Gruffydd** *a gododd*—

**Kenneth Skates:** I will give way in a moment. Waiting lists are stretched, and the construction industry is strained, but this is being driven by the dogma and prejudice of opposition. I give way to the Member.

**Kenneth Skates:** Ildiaf mewn munud. Mae rhestrau aros yn faith, ac mae'r diwydiant adeiladu dan bwysau, ond dogma a rhagfarn yr wrthblaid sy'n achosi hynny. Ildiaf i'r Aelod.

**Llyr Huws Gruffydd:** I am disappointed at the severe lack of understanding of the situation in relation to the comments being made about local development plans in Wrexham. The whole point is that housing is developed in an organic way that responds to local needs, and not in a top-down way based on figures dictated to local authorities. Would you not agree?

**Llyr Huws Gruffydd:** Rwyf yn siomedig â'r diffyg dealltwriaeth difrifol o'r sefyllfa yng nghyswllt y sylwadau sy'n cael eu gwneud am gynlluniau datblygu lleol yn Wrecsam. Yr holl bwynt yw bod tai yn cael eu datblygu mewn ffordd organig sy'n ymateb i anghenion lleol, ac nid o'r brig i lawr ar sail ffigurau a gaiff eu gorfodi ar awdurdodau lleol. Oni fyddech yn cytuno?

**Kenneth Skates:** You mention local needs, but on the ground, your councillors do not agree with the local needs. Your councillors

**Kenneth Skates:** Rydych yn sôn am anghenion lleol, ond ar lawr gwlad, nid yw eich cynghorwyr yn cytuno â'r anghenion

are fighting—

lleol. Mae eich cynghorwyr yn ymladd—

**Llyr Huws Gruffydd** *rose*—

**Llyr Huws Gruffydd** *a gododd*—

**Kenneth Skates:** No, I am not giving way again. The point is that your councillors are being driven by dogma and prejudice. You should know this—you employ one of them.

**Kenneth Skates:** Na, nid wyf am ildio eto. Y pwynt yw bod eich cynghorwyr yn cael eu symbylu gan ddogma a rhagfarn. Dylech chi wybod hynny—rydych yn cyflogi un ohonynt.

With regard to indigenous and inward investment, there is more hypocrisy. In Llangollen, Dobson and Crowther—an indigenous company—and Sainsbury's are ready to invest millions of pounds to secure and create 230 jobs. Who is at the forefront of opposition? Plaid Cymru activists.

O ran buddsoddi gan gwmnïau cynhenid a mewnfuddsoddi, ceir mwy o ragrith. Yn Llangollen, mae Dobson and Crowther—cwmni cynhenid—a Sainsbury's yn barod i fuddsoddi miliynau o bunnoedd i ddiogelu a chreu 230 o swyddi. Pwy sydd ar flaen y gad yn gwrthwynebu? Gweithredwyr Plaid Cymru.

This is a serious issue, and there is no time to take a Janus approach to development, job creation and house-building. It is appalling. Instead of engaging with the chamber of commerce and companies, Plaid Cymru is driving public scaremongering, not just on health but also on homes. It is unacceptable. It is also a betrayal of Welsh-speaking communities. The reason that we lost 3,000 young Welsh speakers last year was not because they went for holidays out of Wales—they left to get jobs and affordable homes. So, it is no good opposing it.

Mae hwn yn fater difrifol, ac nid oes amser i fabwysiadu agwedd ddauwynebog at ddatblygu, creu swyddi ac adeiladu tai. Mae'n warthus. Yn hytrach nag ymgysylltu â'r siambr fasnach a chwmnïau, mae Plaid Cymru wrthi'n codi bwganod ymhlith y cyhoedd, nid yn unig yng nghyswllt iechyd, ond yng nghyswllt cartrefi hefyd. Mae'n annerbyniol. Mae'n bradychu cymunedau Cymraeg eu hiaith hefyd. Bu inni golli 3000 o siaradwyr Cymraeg ifanc y llynedd, nid am eu bod wedi mynd ar wyliau y tu allan i Gymru—gadawsant er mwyn dod o hyd i swyddi a chartrefi fforddiadwy. Felly, nid oes diben gwrthwynebu.

**Llyr Huws Gruffydd** *rose*—

**Llyr Huws Gruffydd** *a gododd*—

**Kenneth Skates:** No, you have had your opportunity to lecture. Talking about daft ideas, Plaid Cymru's press release says that, for £1 billion, you could increase local procurement to 75%, which would result in a further £1 billion being pumped into the Welsh economy. I have checked with officials and found that such a target is anti-competitive; therefore, you would not be able to get that money. It is an unbelievable gaffe. It leaves your economic policy in tatters.

**Kenneth Skates:** Na, rydych wedi cael eich cyfle i bregethu. A sôn am syniadau hurt, mae datganiad i'r wasg Plaid Cymru yn dweud y gallech godi caffael lleol i 75% ag £1 biliwn, a fyddai'n arwain at bwmpio £1 biliwn arall i economi Cymru. Rwyf wedi gofyn i swyddogion ac wedi gweld bod targed o'r fath yn wrthgystadleuol; felly, ni fyddech yn gallu cael yr arian hwnnw. Mae'n gamgymeriad anhygoel. Mae'n gadael eich polisi economaidd yn deilchion.

**Llyr Huws Gruffydd** *rose*—

**Llyr Huws Gruffydd** *a gododd*—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Sit down; the Member is not giving way. He has indicated that he is not giving way, and you should not just stand there and remain

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Eisteddwch; nid yw'r Aelod am ildio. Mae wedi nodi na fydd yn ildio, ac ni ddylech sefyll yno ac aros ar eich traed i geisio bwlio Aelod i ildio. [*Torri*

standing trying to bully a Member into giving way. [*Interruption.*]

*ar draws.*]

**Kenneth Skates:** You see what people experience on the ground in Wrexham—this is what it is like. It is an unbelievable gaffe—a £1 billion economic policy left in tatters. This press release should carry a learner plate—it is about as serious as Morecambe and Wise.

**Kenneth Skates:** Dyna y mae pobl yn ei brofi ar lawr gwlad yn Wrecsam—dyna sut mae pethau. Mae'n gamgymeriad anhygoel—polisi economaidd gwerth £1 biliwn yn deilchion. Dylai fod arwydd dysgwr ar y datganiad i'r wasg—mae'r un mor ddifrifol â Morecambe and Wise.

My message today is that this is no time to gamble with the economy—it is no time for learners or for incompetent plans. If opposition parties really want to improve the conditions for economic growth, they should support the Welsh Government's plans for building a more prosperous economy for the future.

Fy neges heddiw yw nad yn awr yw'r adeg i hapchwarae â'r economi—nid dyma'r adeg i ddysgwyr neu i gynlluniau di-glem. Os yw'r gwrthbleidiau o ddifrif ynghylch gwella'r amodau ar gyfer twf economaidd, dylent gefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer creu economi fwy ffyniannus ar gyfer y dyfodol.

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I welcome this debate, as it continues the focus of this Chamber on the economic prospects of our country. Increasing growth and sustainable jobs are at the heart of our programme for government, and a key priority in the steps that we are taking to bring forward a comprehensive fiscal package to help stimulate the Welsh economy. Yesterday, I wrote to the Chief Secretary to the Treasury urging him to consider further action in the forthcoming budget to boost capital investment in 2012-13.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Croesawaf y ddadl hon, gan ei bod yn parhau â ffocws y Siambr hon ar ragolygon economaidd ein gwlad. Mae cynyddu twf a swyddi cynaliadwy wrth wraidd ein rhaglen lywodraethu, ac mae'n flaenoriaeth allweddol yn y camau yr ydym yn eu cymryd i gyflwyno pecyn ariannol cynhwysfawr i helpu i ysgogi economi Cymru. Ddoe, ysgrifennais at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i'w annog i ystyried camau pellach yn y gyllideb sydd ar ddod i roi hwb i fuddsoddiad cyfalaf yn 2012-13.

I assure Rhodri Glyn Thomas that that included asking him to ensure that we had the opportunity to bring forward capital budgets from 2013-14 and 2014-15 to boost investment, as the One Wales Government did before to address the impact of the recession. Of course, that would include our transport infrastructure. We all know that the UK Government's financial strategy is not working. The recent GDP data were disappointing, showing that the UK economy has barely grown over two years. This is sapping business confidence, undermining investment and dissuading companies from hiring people. Despite the major cuts of more than 40% to our capital budget over the next four years, which Alun Ffred Jones acknowledges are of great concern, the Welsh Government continues to provide significant support to the Welsh economy.

Gallaf sicrhau Rhodri Glyn Thomas bod hynny'n cynnwys gofyn iddo sicrhau ein bod yn cael cyfle i ddwyn cyllidebau cyfalaf ymlaen o 2013-14 a 2014-15 i hybu buddsoddi, fel y gwnaeth Llywodraeth Cymru'n Un o'r blaen i fynd i'r afael ag effaith y dirwasgiad. Wrth gwrs, byddai hynny'n cynnwys ein seilwaith trafnidiaeth. Gwyddom i gyd nad yw strategaeth ariannol Llywodraeth y DU yn gweithio. Roedd y data diweddar am Gynnyrch Mewnwladol Crynswth yn siomedig, ac yn dangos mai prin y mae economi'r DU wedi tyfu dros ddwy flynedd. Mae hynny'n lladd hyder busnesau, yn tanseilio buddsoddiad ac yn cymell cwmnïau i beidio â chyflogi pobl. Er gwaethaf y toriadau mawr o dros 40% i'n cyllideb gyfalaf dros y pedair blynedd nesaf, y mae Alun Ffred Jones yn cydnabod eu bod yn peri

pryder mawr, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cymorth sylweddol i economi Cymru.

We have been working hard and effectively to ensure that capital expenditure is delivering outcomes. As a result of our direct interventions this year, acknowledged in the debate yesterday, we have increased the level of investment by allocating an additional £320.6 million in the supplementary budget to support our strategic priorities, including more than £170 million in support of capital investment. This extra capital funding provides an important economic boost and has allowed us to reduce the impact of UK Government cuts. I am glad that, at some point this afternoon, Mark Isherwood welcomed the fact that social housing will benefit from an extra £22.5 million, an increase of more than 30% this year compared with previously published plans. That enables us to build 250 additional homes. This includes £15 million of private finance levered in by registered social landlords. Mark Isherwood and Alun Ffred Jones both mentioned the important role and partnership that we have with Community Housing Cymru to ensure that we exploit the opportunities that RSLs have in terms of their borrowing powers to access private finance.

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed ac yn effeithiol i sicrhau bod gwariant cyfalaf yn cyflawni canlyniadau. O ganlyniad i'n hymyriadau uniongyrchol eleni, a gydnabuwyd yn y ddadl ddoe, rydym wedi cynyddu lefel y buddsoddiad drwy ddyrannu £320.6 miliwn ychwanegol yn y gyllideb atodol i gefnogi ein blaenoriaethau strategol, gan gynnwys mwy na £170 miliwn i gefnogi buddsoddiad cyfalaf. Mae'r cyllid cyfalaf ychwanegol hwn yn rhoi hwb economaidd pwysig, ac mae wedi ein galluogi i leihau effaith toriadau Llywodraeth y DU. Rwyf yn falch bod Mark Isherwood, ryw adeg y prynhawn yma, wedi croesawu'r ffaith y bydd tai cymdeithasol yn elwa ar £22.5 miliwn ychwanegol, sy'n gynnydd o fwy na 30% eleni o'i gymharu â chynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol. Mae hynny'n ein galluogi i adeiladu 250 o gartrefi ychwanegol. Mae'n cynnwys £15 miliwn o gyllid preifat a ddenwyd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Soniodd Mark Isherwood ac Alun Ffred Jones ill dau am y rôl a'r bartneriaeth bwysig sydd gennym gyda Chartrefi Cymunedol Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o ran eu pwerau benthyca i gael mynediad i gyllid preifat.

The NHS will benefit from an additional £49.5 million of capital, an increase of more than 20% on previously published plans. Importantly, for our early years provision, reflecting Eluned Parrott's concern about young people, £6 million will enhance the Flying Start capital programme for the early years. There is also an additional £35 million of capital for education, over and above our previously published plans. Despite this action, our capital DEL next year will be more than 14% lower in real terms than this year. We have to take mitigating action where we can, but a reduction on this scale will undoubtedly have a major impact on the Welsh economy. I made this point at Monday's quadrilateral meeting for Ministers for finance. I made it clear that we need action in the forthcoming UK budget, and I made it clear that we have schemes with

Bydd y GIG yn elwa ar £49.5 miliwn ychwanegol o gyfalaf, sy'n gynnydd o fwy nag 20% o'i gymharu â chynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol. Yn bwysig, o ran ein darpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar, gan adlewyrchu pryder Eluned Parrott am bobl ifanc, bydd £6 miliwn yn gwella rhaglen gyfalaf Dechrau'n Deg ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Yn ogystal, mae £35 miliwn ychwanegol o gyfalaf ar gael ar gyfer addysg, sy'n ychwanegol at yr hyn a nodwyd mewn cynlluniau a gyhoeddwyd gennym yn flaenorol. Er gwaethaf y camau hyn, bydd ein Terfyn Gwariant Adrannol o ran cyfalaf y flwyddyn nesaf yn fwy nag 14% yn is nag eleni mewn termau real. Mae'n rhaid inni gymryd camau lliniaru lle y gallwn, ond bydd gostyngiad ar y raddfa hon yn siŵr o gael effaith fawr ar economi Cymru. Gwneuthum y pwynt hwn ddydd

strong economic cases ready to go.

Llun yn y cyfarfod pedairochrog i Weinidogion cyllid. Dywedais yn glir fod arnom angen camau gweithredu yng nghyllideb y DU sydd ar ddod, a dywedais yn glir fod gennym gynlluniau ag achosion economaidd cryf sy'n barod i fynd.

In addition to committing more of our existing resources, we are levering in investment through innovative means, combining public and private capital to boost the Welsh economy. I would like to thank Members, including Alun Ffred Jones, for recognising that we have taken action with the local government borrowing initiative, which will enable up to £170 million of investment in highways improvements. Carl Sargeant and I were in Rhondda Cynon Taf to see the impact of that in terms of the positive environmental improvements there. That will happen over the next three years. Without this innovative approach, these improvements would simply be unaffordable. It is engaging all 22 authorities, and it can be the start of further initiatives with a borrowing programme of this kind.

Yn ogystal â chlustnodi mwy o'n hadnoddau presennol, rydym yn denu buddsoddiad trwy ddulliau arloesol, gan gyfuno cyfalaf cyhoeddus a phreifat i hybu economi Cymru. Hoffwn ddiolch i'r Aelodau, gan gynnwys Alun Ffred Jones, am gydnabod ein bod wedi cymryd camau â'r fenter fenthyca ar gyfer llywodraeth leol, a fydd yn galluogi hyd at £170 miliwn o fuddsoddiad mewn gwella priffyrdd. Roedd Carl Sargeant a minnau yn Rhondda Cynon Taf i weld effaith hynny o ran y gwelliannau cadarnhaol a wneir i'r amgylchedd yno. Bydd hynny'n digwydd dros y tair blynedd nesaf. Heb y dull gweithredu arloesol hwn, ni fyddai'r gwelliannau hyn wedi bod yn fforddiadwy. Mae'n cynnwys pob un o'r 22 awdurdod, a gall fod yn fan cychwyn i fwy o fentrau â rhaglen fenthyca o'r math hwn.

In the housing sector, we are implementing the £16 million Welsh Housing Partnership and making progress with innovative approaches that use public sector assets to attract private investment. It could help us to deliver considerably more social housing and affordable homes to address the housing pressures that Ken Skates was talking about earlier. There is also our innovative waste programme, enabling local authorities to work together to procure revenue-funded residual waste treatment facilities. These innovative finance initiatives will lever in additional investment of around £1 billion to the Welsh economy over the next few years.

Yn y sector tai, rydym yn gweithredu Partneriaeth Tai Cymru sy'n werth £16 miliwn ac yn gwneud cynnydd gyda dulliau gweithredu arloesol sy'n defnyddio asedau'r sector cyhoeddus i ddenu buddsoddiad preifat. Gallai ein helpu i ddarparu cryn dipyn yn fwy o dai cymdeithasol a chartrefi fforddiadwy i fynd i'r afael â'r pwysau o ran tai yr oedd Ken Skates yn sôn amdano yn gynharach. At hynny, mae gennym raglen wastraff arloesol, sy'n galluogi awdurdodau lleol i weithio gyda'i gilydd i gaffael cyfleusterau trin gwastraff gweddilliol a gaiff eu hariannu gan gyllid refeniw. Bydd y mentrau cyllid arloesol hyn yn denu buddsoddiad ychwanegol o oddeutu £1 biliwn i economi Cymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

I particularly welcome the amendment from the Welsh Liberal Democrats on borrowing powers and greater fiscal responsibility, because this will help us to smooth our capital deficit. It will offset the damaging impact of the cuts, supporting economic recovery through construction and the development of public sector infrastructure.

Croesawaf yn arbennig y gwelliant gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ar bwerau benthyca a mwy o gyfrifoldeb ariannol, oherwydd bydd hynny'n ein helpu i leddfu ein diffyg cyfalaf. Bydd yn gwneud iawn am effaith niweidiol y toriadau, ac yn cefnogi adferiad economaidd drwy adeiladu a datblygu seilwaith y sector cyhoeddus.

In response to Joyce Watson's contribution today, I can assure Joyce and colleagues that the First Minister and I are continuing to press the UK Government to allow us to borrow to invest. I made the case again to the Chief Secretary to the Treasury on Monday and I know that this is supported across this Chamber. This would provide the ability for the Welsh Government to borrow from commercial organisations without a corresponding reduction in our capital budget.

Mewn ymateb i gyfraniad Joyce Watson heddiw, gallaf sicrhau Joyce a'i chydweithwyr bod y Prif Weinidog a minnau yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ganiatáu inni fenthyca i fuddsoddi. Cyflwynais yr achos eto i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ddydd Llun, a gwn fod cefnogaeth i hynny ar draws y Siambr hon. Byddai'n rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru fenthyca gan sefydliadau masnachol heb ostyngiad cyfatebol yn ein cyllideb gyfalaf.

There are several potential routes to borrowing, but there is no one-size-fits-all approach. We are deploying a variety of approaches—initially using innovative routes, but increasingly using more traditional borrowing routes, as and when the Treasury allows us to do this. Of course, we look forward to engaging positively with the Silk commission as it deliberates this issue. We must not forget that levering in more capital investment is only part of the equation. As Ken Skates said, investing in the right infrastructure is vital for much-needed economic stimulus, providing the conditions for increasing growth in the longer term.

Mae sawl dull posibl o fenthyca, ond nid oes un dull sy'n ateb pob diben. Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau—gan ddechrau gyda dulliau arloesol, ond gan ddefnyddio dulliau benthyca mwy traddodiadol yn gynyddol, yn ôl fel y mae'r Trysorlys yn caniatáu inni wneud hynny. Wrth gwrs, edrychwn ymlaen at ymwneud yn gadarnhaol â chomisiwn Silk wrth iddo ystyried y mater hwn. Rhaid inni beidio ag anghofio mai rhan o'r hafaliad yn unig yw denu mwy o fuddsoddiad cyfalaf. Fel y dywedodd Ken Skates, mae buddsoddi yn y seilwaith cywir yn hanfodol o safbwynt cael ysgogiad economaidd y mae ei angen yn fawr, gan ddarparu'r amodau ar gyfer twf cynyddol yn y tymor hwy.

That takes us to our Wales infrastructure investment plan, which we will be publishing on 22 May. Indeed, a vital part of that, in terms of economic stimulus, as Bethan Jenkins and Ken Skates have both mentioned, is the digital economy. This will include investment of millions of pounds in next generation broadband over the next four years, as well as those all-important transport, health, housing and twenty-first century schools projects. We are taking a long-term strategic approach to developing public infrastructure and helping businesses in Wales with funds of a capital value of around £130 million, as a result of the SME investment plan, the economic growth fund and the newly announced Welsh microbusiness fund.

Daw hynny â ni at ein cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru, a gaiff ei gyhoeddi gennym ar 22 Mai. Yn wir, rhan hanfodol o hynny, o ran ysgogiad economaidd, fel y mae Bethan Jenkins a Ken Skates ill dau wedi crybwyll, yw'r economi ddigidol. Bydd hynny'n cynnwys buddsoddi miliynau o bunnoedd ym mand eang y genhedlaeth nesaf yn ystod y pedair blynedd nesaf, yn ogystal â'r prosiectau hollbwysig hynny o safbwynt trafnidiaeth, iechyd, tai ac ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Rydym yn mabwysiadu dull strategol hirdymor o ddatblygu seilwaith cyhoeddus a helpu busnesau yng Nghymru â chyllid cyfalaf gwerth tua £130 miliwn, o ganlyniad i'r cynllun buddsoddi mewn busnesau bach a chanolig, y gronfa twf economaidd a chronfa microfusnesau Cymru y cafwyd cyhoeddiad yn ei chylch yn ddiweddar.

I know that Plaid Cymru joins the Welsh Government in deploring the depth and scale

Gwn fod Plaid Cymru yn ymuno â Llywodraeth Cymru i resynu at ddyfnder a

of cuts imposed on us by the UK coalition Government and in recognising that we are exploring new and innovative means of attracting capital investment in public sector infrastructure, engaging proactively with Gerry Holtham to support us. At the council for economic renewal meeting last week, the private sector supported the development of our Wales infrastructure investment plan, and I hope that Members today will also join us in sharing that ambition for moving forward and making our case, which is welcomed by business and is about investing in jobs and growth for young people and for our economy.

maint y toriadau a orfodwyd arnom gan Lywodraeth glymblaid y DU ac i gydnabod ein bod yn archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o ddenu buddsoddiad cyfalaf i seilwaith y sector cyhoeddus, gan ymwneud yn rhagweithiol â Gerry Holtham i'n cefnogi. Yng nghyfarfod y cyngor adnewyddu'r economi yr wythnos diwethaf, roedd y sector preifat yn cefnogi datblygu ein cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru, a gobeithiaf y bydd yr Aelodau hefyd yn ymuno â ni heddiw i rannu'r uchelgais hwnnw ar gyfer symud ymlaen a chyflwyno ein hachos, sy'n cael ei groesawu gan fyd busnes ac sy'n ymwneud â buddsoddi mewn swyddi a thwf ar gyfer pobl ifanc ac ar gyfer ein heconomi.

**Ieuan Wyn Jones:** Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl hon heddiw. Yn naturiol, mae'n bwnc amserol iawn o gofio sefyllfa fregus yr economi a'r problemau sy'n parhau yn ardal yr ewro. Yn ddigon syml, felly, ein dadl ni yw: oherwydd nad oes gan y Cynulliad hwn bwerau macro-economaidd, cyfrifoldeb dros bolisi ariannol na'r cyfle i amrywio trethi, yr unig beth y gall y Llywodraeth hon ei wneud yw rhoi *stimulus* economaidd llawer iawn mwy uchelgeisiol nag a roddwyd hyd yma. O ran gwariant cyfalaf, mae bron i flwyddyn wedi mynd heibio ers yr etholiad, ac er ein bod wedi cael sawl datganiad o fwriad, arolwg ac archwiliad, nid ydym gam yn nes at gael yr un geiniog ychwanegol i'r bloc.

**Ieuan Wyn Jones:** I thank everyone who has taken part in this debate today. Naturally, it is a very timely issue, given the fragile position of the economy and the continuing problems in the eurozone. Simply enough, therefore, our argument is this: given that the Assembly does not have macro-economic powers, responsibility for financial policy and the ability to vary taxation, the only thing that the Government can do is provide much more ambitious fiscal stimulus than has hitherto been the case. On capital spending, nearly a year has passed since the election, and even though we have had several declaractions of intent, reviews and investigations, we are not a step closer to attracting an additional penny to the block.

Dyma'r cefndir. Rhwng 2010 a 2014, bydd Llywodraeth Cymru yn colli £772 miliwn o arian cyfalaf mewn termau real, neu 44%. Felly, fel mae pethau'n sefyll, bydd y Llywodraeth yn gorfod torri'n ôl yn sylweddol ar gynlluniau sydd ganddi ar y gweill i adeiladu ysbytai, ysgolion, ffyrdd, tai ac yn y blaen. Nid oes sgôp i feddwl am gynlluniau newydd, a dyna pam nad yw'r Llywodraeth wedi gwneud unrhyw gyhoeddiad o'r newydd ers yr etholiad. Pan wnaethom herio'r Llywodraeth ar ei chynlluniau cyfalaf, beth a wnaeth? Cyhoeddi rhaglen 'Cymru'n Un' unwaith eto—dyna oedd y rhaglen gyfalaf £1.3 biliwn. Hon oedd rhaglen gyfalaf Llywodraeth Cymru'n Un. Heb honno, mae cwpwrdd cyfalaf y Llywodraeth yn gwbl wag.

This is the background. Between 2010 and 2014, the Welsh Government will lose £772 million—or 44%—of capital funding in real terms. Therefore, as things stand, the Government will have to cut back significantly on its ongoing schemes to build hospitals, schools, roads, housing and so on. There is no scope to think about new schemes, which is why the Government has not made any new announcements since the election. When we challenged the Government on its capital projects, what did it do? It republished the 'One Wales' programme—that is what made up the £1.3 billion capital programme. It was the One Wales Government's capital programme. Without that, the Government's capital cupboard is entirely empty.

6.00 p.m.

Roedd y cynlluniau ddoe ar gyfer yr M4 fel breuddwyd gwrach yng nghyd-destun argyfyngus y sefyllfa o ran gwariant cyfalaf. Ar hyn o bryd, mae angen £800 miliwn yn ychwanegol dim ond i weithredu'r hyn sydd ar y gweill gan y Llywodraeth, heb sôn am gynlluniau newydd. Wrth reswm, mae angen sicrhau ffrwd refeniw i dalu'r llog ar yr arian a fydd yn cael ei fenthyg neu ei godi'n ychwanegol a sicrhau arian cyfalaf. Dyna pam, yn y tymor canol, mae pwerau amrywio trethi mor bwysig.

Yesterday's plans for the M4 were like a bad dream in the dire context of the capital spend situation. At present, an additional £800 million is required only to implement what the Government currently has ongoing, not to mention new schemes. It stands to reason that there is a need to establish a revenue stream to pay the interest on the funding that will be borrowed or raised in addition and to ensure that there is capital funding. That is why, in the medium term, tax-varying powers are so important.

Buasem wedi gobeithio y buasai'r Gweinidog wedi gallu dweud wrthym beth yn union yw statws y drafodaeth mae hi wedi ei chael gyda'r Trysorlys. Rydym wedi cynnig Adeiladu dros Gymru, rhywbeth roedd y Llywodraeth yn ddilornus ohono adeg yr etholiad, ond ni chlywsom ddim gan y Gweinidog heddiw ynglŷn â'r trafodaethau hynny. Pam, tybed?

We would have hoped that the Minister could have told us the exact status of the discussions that she has had with the Treasury. We have proposed Build for Wales, something that the Government was disparaging of at the time of the election, but we heard nothing from the Minister today in relation to those discussions. I wonder why.

Ken Skates's speech makes me despair. I really despair. Where are the Labour Party's ideas? Where is the creativity? Where is its ambition for Wales? There is absolutely none. All that he could do was to falsely accuse Plaid Cymru of saying that we did not want jobs in Llangollen. That is totally wrong. Plaid Cymru would not oppose the creation of jobs in Llangollen.

Mae araith Ken Skates yn gwneud imi anobeithio. Rwyf yn anobeithio'n wir. Ble mae syniadau'r Blaid Lafur? Ble mae'r creadigrwydd? Ble mae ei huchelgais i Gymru? Nid oes dim. Y cyfan y gallai ei wneud oedd cyhuddo Plaid Cymru ar gam o ddweud nad oeddem am gael swyddi yn Llangollen. Mae hynny'n hollol anghywir. Ni fyddai Plaid Cymru yn gwrthwynebu creu swyddi yn Llangollen.

**Kenneth Skates** *rose*—

**Kenneth Skates** *a gododd*—

**Ieuan Wyn Jones:** No, you did not give way, Ken. The One Wales Government—[*Interruption.*]—Let me finish my point. The One Wales Government did everything possible in order to increase the amount of procurement contracts that went to Welsh companies. When we came into office in 2003, 35% of procurement contracts went to Welsh companies When Andrew Davies was in charge of finance, he was proud of the fact, as was the One Wales Government, that we pushed that up to 50%. You do not want Welsh companies to go higher than that. Where is your ambition? Why does the Labour Party have such paucity of ambition about creating jobs in Wales? I have to say that I am disappointed by the way that you

**Ieuan Wyn Jones:** Na, ni wnaethoch chi ildio, Ken. Gwnaeth Llywodraeth Cymru'n Un—[*Torri ar draws.*]—
Gadewch imi orffen fy mhwynt. Gwnaeth Llywodraeth Cymru'n Un bopeth posibl i gynyddu nifer y contractau caffael a aeth i gwmnïau o Gymru. Pan ddaethom i rym yn 2003, aeth 35% o'r contractau caffael i gwmnïau o Gymru. Pan oedd Andrew Davies yn gyfrifol am gyllid, roedd yn falch o'r ffaith, fel yr oedd Llywodraeth Cymru'n Un, inni godi hynny i 50%. Nid ydych chi am i gwmnïau o Gymru fynd yn uwch na hynny. Ble mae eich uchelgais? Pam mae gan y Blaid Lafur gyn lleied o uchelgais o ran creu swyddi yng Nghymru? Rhaid imi ddweud fy mod wedi fy siomi gan eich

approach this topic, Ken. I am pleased that when you put—

agwedd at y pwnc hwn, Ken. Rwyf yn falch, pan roesoch—

**Kenneth Skates** *rose*—

**Kenneth Skates** *a gododd*—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. The Member has indicated that he will not give way to you, and you should not stand and force the point.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae’r Aelod wedi nodi na fydd yn ildio ichi, ac ni ddylech sefyll a gorfodi’r pwynt.

**Ieuan Wyn Jones:** Yr hyn rydym yn ei ddweud yn y ddadl hon yw nad yw pwerau benthyg cynhwysfawr yn gynaliadwy yn y tymor hir heb yr hawl i amrywio trethi. Mae angen llawer mwy o bwerau trethu na’r rheini mae’r Prif Weinidog yn sôn amdanynt ar hyn o bryd. Buasent yn ychwanegu tua £200 miliwn yn unig i gronfa refeniw’r Llywodraeth, sef llai na 2% o’r grant bloc ar hyn o bryd. Ble mae uchelgais Llywodraeth Cymru? Dyna rydym yn ei ofyn. A yw am weld economi Cymru yn llusgo ymlaen heb fawr o gynnydd a bod mewn sefyllfa, fel roedd Joyce Watson yn ei wneud heddiw, i feio Llundain bob tro mae rhywbeth yn mynd o’i le? Rydym eisiau i Lywodraeth Cymru ddangos penderfyniad yn hyn o beth a chymryd cyfrifoldeb go iawn am ddyfodol ein gwlad.

**Ieuan Wyn Jones:** What we are saying in this debate is that comprehensive borrowing powers are not sustainable in the long term without tax-varying powers. We need many more tax powers than the First Minister is discussing at present. They would add only about £200 million to the Government’s revenue fund, which is less than 2% of the block grant as it stands. Where is the Welsh Government’s ambition? That is what we are asking. Does it want to see the Welsh economy lumbering on without much growth and to be in a situation to be able to blame London, as Joyce Watson did today, every time that something goes wrong? We want the Welsh Government to show determination in this regard and to take real responsibility for the future of our country.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf bob pleidlais o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that the motion be agreed without amendment. Are there any objections? I see that there are. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

Before we proceed with the votes, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

Cyn inni fwrw ymlaen â’r pleidleisiau, a oes tri Aelod yn dymuno i’r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Cynnig NDM4930: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 40.*
*Motion NDM4930: For 13, Abstain 0, Against 40.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff

Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette
Whittle, Lindsay

Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4930: O blaid 27, Ymatal 0, Yn erbyn 26.*
*Amendment 1 to NDM4930: For 27, Abstain 0, Against 26.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette

Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4930: O blaid 44, Ymatal 0, Yn erbyn 9.*
*Amendment 2 to NDM4930: For 44, Abstain 0, Against 9.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4930: O blaid 32, Ymatal 0, Yn erbyn 21.*
*Amendment 3 to NDM4930: For 32, Abstain 0, Against 21.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM4930: O blaid 27, Ymatal 0, Yn erbyn 26.*
*Amendment 4 to NDM4930: For 27, Abstain 0, Against 26.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Lewis, Huw

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Parrott, Eluned

Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Cafodd gwelliannau 5 a 6 eu dad-ddethol.*
*Amendments 5 and 6 deselected.*

*Gwelliant 7 i NDM4930: O blaid 32, Ymatal 0, Yn erbyn 21.*
*Amendment 7 to NDM4930: For 32, Abstain 0, Against 21.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Jenkins, Bethan
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

Cynnig NDM4930 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM4930 as amended:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn nodi penderfyniad Llywodraeth y DU i ddyrannu cyllid i roi'r cyfle i awdurdodau lleol Lloegr rewi'r Dreth Gyngor am yr ail flwyddyn yn olynol, ac yn nodi y bydd oddeutu 90% o Gynghorau Lloegr yn defnyddio'r arian hwn i sicrhau na fydd cartrefi'n wynebu cynnydd yn y Dreth Gyngor y flwyddyn nesaf ac yn croesawu'r £38.9 miliwn o gyllid ychwanegol i Gymru o ganlyniad.*

*1. Notes the UK Government's decision to allocate funding to provide English local authorities with the opportunity to freeze Council tax for the second successive year, and notes that approximately 90% of Councils in England will utilise these funds to ensure households benefit from no Council tax rise next year and welcomes the £38.9 million of additional funding for Wales as a result.*

*2. Yn nodi cyhoeddiad Llywodraeth yr Alban y bydd pob awdurdod lleol yn yr Alban yn rhewi'r Dreth Gyngor ar gyfer 2012/2013, ac yn nodi ei bod wedi dechrau rhewi'r Dreth Gyngor yn 2008/2009.*

*2. Notes the Scottish Government's announcement that all local authorities in Scotland will be freezing Council tax for 2012/2013, and notes that the freeze began in 2008/2009.*

*3. Yn nodi bod y dreth gyngor yng Nghymru eisoes 19% yn is nag yn Lloegr ac y bydd yn parhau i fod yn sylweddol is eleni.*

*3. Notes that council tax in Wales is already 19% lower than England and it will continue to be significantly lower this year.*

*4. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn darparu 1.3% yn rhagor o gyllid ar gyfer cynghorau yng Nghymru dros gyfnod yr adolygiad o wariant nag y mae Llywodraeth y DU yn ei roi i gynghorau yn Lloegr, ac y gallai cynghorau ddefnyddio'r arian hwn mewn perthynas â rhewi'r dreth gyngor, os dymunant wneud hynny.*

*4. Notes that Welsh Government is providing 1.3% more funding for councils in Wales over the spending review period than the UK Government is providing to councils in England and that this funding could be used by councils to assist with the council tax freezes if they choose to do so.*

*5. Yn nodi y rhagwelir, ar ôl i bob awdurdod bennu ei gyllideb ar gyfer 2012-13, y bydd y cynnydd yn y dreth gyngor yng Nghymru yn is nag erioed.*

*5. Notes that it is anticipated that once all authorities have set their budgets for 2012-13, Wales will see the lowest council tax rises ever.*

*6. Yn mynegi ei fod yn gresynu wrth gynlluniau Llywodraeth y DU i ddiddymu budd-dal y dreth gyngor sy'n effeithio'n negyddol ar y bobl sydd fwyaf agored i niwed.*

*6. Expresses regret at the UK Government's plans to abolish council tax benefit which impacts negatively on those who are most vulnerable.*

*7. Yn credu y bydd cynghorau'n elwa ar refeniw ychwanegol drwy fwy o weithgarwch economaidd yn eu hardaloedd, ac yn croesawu'r pecyn ysgogi economaidd gwerth £38.9 miliwn, a fydd yn ceisio darparu gweithgarwch economaidd ychwanegol.*

*7. Believes that councils will benefit from additional revenue through increased economic activity in their areas, and welcomes the £38.9 million economic stimulus package, which aims to provide additional economic activity.*

*Cynnig NDM4930 fel y'i diwygiwyd: O blaid 27, Ymatal 0, Yn erbyn 26.*
*Motion NDM4930 as amended: For 27, Abstain 0, Against 26.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Jenkins, Bethan
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM4930 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4930 as amended agreed.*

*Cynnig NDM4931: O blaid 9, Ymatal 0, Yn erbyn 44.*
*Motion NDM4931: For 9, Abstain 0, Against 44.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Keith
Davies, Paul
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren

Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4931: O blaid 33, Ymatal 0, Yn erbyn 20.*
*Amendment 1 to NDM4931: For 33, Abstain 0, Against 20.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4931: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 2 to NDM4931: For 53, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Keith
Davies, Paul
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4931: O blaid 12, Ymatal 0, Yn erbyn 41.*
*Amendment 3 to NDM4931: For 12, Abstain 0, Against 41.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:

The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM4931: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 4 to NDM4931: For 53, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Keith
Davies, Paul

Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 5 i NDM4931: O blaid 41, Ymatal 12, Yn erbyn 0.*
*Amendment 5 to NDM4931: For 41, Abstain 12, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws

Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

Cynnig NDM4931 fel y'i diwygiwyd

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn nodi'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i gyflwyno pecyn ariannol cynhwysfawr er mwyn helpu i ysgogi'r economi, gan gynnwys darparu buddsoddiad cyfalaf, o ffynonellau traddodiadol a rhai nad ydynt yn draddodiadol; a*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno pecyn o brosiectau cyfalaf a mesurau pellach, fel gwell seilwaith a lefelau sgiliau*

Motion NDM4931 as amended

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Notes the steps taken by the Welsh Government in bringing forward a comprehensive fiscal package to help stimulate the economy, including the provision of capital investment, both from traditional and non-traditional sources; and*

*2. Calls on the Welsh Government to bring forward a package of capital projects and further measures, such as improved*

*uwch, i gefnogi busnesau ac i ddiogelu swyddi.*

*infrastructure and higher skills levels, to support businesses and safeguard jobs.*

*3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos â Llywodraeth y DU i wella economi Cymru.*

*3. Calls on the Welsh Government to work closely with the UK Government to improve the Welsh economy.*

*4. Yn credu y gellid darparu ysgogiad economaidd cynhwysfawr petai gan y Cynulliad bwerau benthyca a rhagor o gyfrifoldeb ariannol, ac yn croesawu sefydlu Comisiwn Silk sy'n ymchwilio i'r posibilrwydd hwn.*

*4. Believes that a comprehensive economic stimulus could be provided if the Assembly had borrowing powers and greater fiscal responsibility and welcomes the establishment of the Silk Commission which is investigating this possibility.*

*Cynnig NDM4931 fel y'i diwygiwyd: O blaid 32, Ymatal 0, Yn erbyn 21.*
*Motion NDM4931 as amended: For 32, Abstain 0, Against 21.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM4931 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4931 as amended agreed.*

## Dadl Fer
## Short Debate

### 'Clywch, Clywch'—Gwella Acwsteg yn yr Ystafell Ddosbarth
### 'Fair Hearing'—Improving Acoustics in the Classroom

**Aled Roberts:** Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r ddadl hon y prynhawn yma. Diolchaf i bob Aelod a gysylltodd â mi ynglŷn â chymryd rhan, ac estynnaf ymddiheuriadau i'r rheini a gafodd eu siomi. Mae Mark Isherwood, Keith Davies, Rhodri Glyn Thomas a Mike Hedges wedi cytuno i gymryd rhan yn y ddadl hon, a diolchaf iddynt ymlaen llaw am eu cyfraniadau.

**Aled Roberts:** It is a pleasure to bring this debate forward this afternoon. I thank all Members who contacted me with regard to participating and I apologise to those who were disappointed. Mark Isherwood, Keith Davies, Rhodri Glyn Thomas and Mike Hedges have agreed to take part in this debate and I thank them beforehand for their contributions.

Roeddwn yn falch iawn i noddi achlysur ym mis Ionawr ar ran Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar i hyrwyddo ei hymgyrch. Braf oedd gweld 24 Aelod Cynulliad yn bresennol ar y noson ac, erbyn hyn, mae 38 Aelod wedi cefnogi ei hymgyrch. Braf fyddai gweld pob Aelod yn cefnogi'r ymgyrch yn y pen draw, wrth gwrs.

I was very pleased to sponsor an event in January on behalf of the National Deaf Children's Society to promote its campaign. It was good to see 24 Assembly Members in attendance on the evening and, by now, 38 Members have supported its campaign. It would be great to see every Member supporting its campaign eventually, of course.

Since becoming an Assembly Member I cannot help but notice how topics for debate are often repeated in the Assembly. Last week's wheelchair debate was a prime example, and it underlines the fact that, try as we might, we at times fail as Assembly Members to deal with the actual issues being faced by people in our regions and constituencies.

Ers dod yn Aelod o'r Cynulliad, ni allaf ond sylwi sut y caiff pynciau dadleuon eu hailadrodd yn aml yn y Cynulliad. Roedd y ddadl a gafwyd yr wythnos diwethaf am gadeiriau olwyn yn enghraifft berffaith o hynny, ac mae'n pwysleisio'r ffaith ein bod ni fel Aelodau'r Cynulliad, er ein holl ymdrechion, weithiau'n methu ag ymdrin â'r problemau gwirioneddol y mae pobl yn ein rhanbarthau a'n hetholaethau yn eu hwynebu.

In September last year, prior to the devolution of building regulations to the Welsh Government, Mike Hedges brought a short debate on the hidden disability of hearing loss to the Chamber. We heard then about the link between hearing loss and under-achievement in education and how we might use building regulations to make a major difference to the classroom learning environment. We heard that research conducted by the National Deaf Children's Society reveals large attainment gaps between hearing and non-hearing children at every key stage. Research in 2008 found that deaf pupils in Wales were 30 per cent less likely to achieve five GCSEs at grades A to C

Fis Medi y llynedd, cyn i reoliadau adeiladu gael eu datganoli i Lywodraeth Cymru, cyflwynodd Mike Hedges ddadl fer i'r Siambr ynghylch yr anabledd cudd o golli clyw. Clywsom bryd hynny am y cysylltiad rhwng colli clyw a thangyflawni mewn addysg, a sut y gallem ddefnyddio rheoliadau adeiladu i wneud gwahaniaeth mawr i'r amgylchedd dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Clywsom fod ymchwil a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) yn datgelu bod bylchau mawr rhwng cyrhaeddiad plant sy'n gallu clywed a phlant nad ydynt yn gallu clywed ym mhob cyfnod allweddol. Darganfu ymchwil a gynhaliwyd yn 2008 fod disgyblion byddar yng Nghymru

than their peers. Today's debate seeks to build on the earlier debate and take it forward, with cross-party support, to make the practical differences that we all want to see.

30 y cant yn llai tebygol o ennill pum cymhwyster TGAU graddau A i C na'u cyfoedion. Mae'r ddadl hon heddiw yn ceisio adeiladu ar y ddadl flaenorol a'i symud ymlaen, gyda chefnogaeth drawsbleidiol, i wneud y gwahaniaethau ymarferol y mae pob un ohonom am eu gweld.

Last September, in response to a debate, Jane Hutt, as the Minister with responsibility, said that in her time as Minister for education, discussions about compliance with acoustic standards in schools were already ongoing. The Minister stated that she believed that compliance with regulations and building bulletin 93 was a condition of obtaining grants for all future schools funding contracts. There was also a Government commitment that the second tranche of funding contracts that were issued through the capital programme in 2010-11 would be made on the condition that they comply with BB93. The Minister at that time stated that,

Wrth ymateb i ddadl fis Medi diwethaf, dywedodd Jane Hutt, y Gweinidog â chyfrifoldeb, fod trafodaethau ynghylch cydymffurfio â safonau acwsteg mewn ysgolion eisoes ar waith yn ystod ei chyfnod fel Gweinidog addysg. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn credu bod cydymffurfio â rheoliadau a bwletin adeiladu 93 yn un o'r amodau yr oedd yn rhaid i bob contract ariannu ysgolion yn y dyfodol gydymffurfio ag ef i gael grant. Cafwyd ymrwymiad gan y Llywodraeth hefyd y byddai ail gyfran o gontractau ariannu, a gyhoeddwyd trwy'r rhaglen gyfalaf yn 2010-11, yn cael eu cyflwyno ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â bwletin adeiladu 93. Meddai'r Gweinidog ar y pryd,

'It is a requirement for local authorities to obtain a pre-completion test to ensure compliance.'

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gael prawf cyn cwblhau'r gwaith er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r safonau perthnasol.

Crucially, however, the NDCS tell us that although it is mandatory for new school buildings to achieve minimum acoustic standards, testing to demonstrate compliance with this standard is not mandatory.

Yr hyn sy'n hollbwysig, fodd bynnag, yw'r ffaith bod yr NDCS yn dweud wrthym, er ei bod yn orfodol i adeiladau ysgol newydd gyrraedd safonau gofynnol ar gyfer acwsteg, nad yw'n orfodol cynnal prawf i ddangos y cydymffurfir â'r safonau hynny.

It is important that children and young people of all ages are able to listen and learn effectively. That is why NDCS Cymru is also urging the Welsh Government to extend the minimum acoustic standard to cover all new nursery and college builds, as well as schools, because they are currently not covered by the regulations. The current regulations make it relatively simple for authorities to opt out of meeting acoustic standards. It would be possible, however, for the Welsh Government to use its new powers over building regulations to ensure that the law on meeting acoustic standards is more robust.

Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc o bob oed yn gallu gwrando a dysgu'n effeithiol. Dyna pam mae NDCS Cymru hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i ymestyn y safon ofynnol ar gyfer acwsteg i gynnwys pob meithrinfa a choleg newydd a adeiledir yn ogystal ag ysgolion, oherwydd ar hyn o bryd ni chânt eu cynnwys yn y rheoliadau. Mae'r rheoliadau cyfredol yn ei gwneud yn gymharol hawdd i awdurdodau ddewis peidio â bodloni safonau acwsteg. Fodd bynnag, byddai'n bosibl i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei phwerau newydd dros reoliadau adeiladu i sicrhau bod y gyfraith ynghylch bodloni safonau acwsteg yn fwy cadarn.

NDCS Cymru surveyed local authorities

Cynhaliodd NDCS Cymru arolwg o

across Wales to find out more about how the acoustic standards and regulations were used between 2003, when they were introduced at UK level, and 2010. Surprisingly, not all local authorities were able to provide details of how the new school builds in their areas had taken account of acoustic regulations. Of the 262 school buildings identified in the survey, only 11% of the building projects identified had been tested for compliance with acoustic standards, and only 29% of the projects had involved any consultation with an acoustic specialist. The feedback from the NDCS survey suggests that there is both confusion and complacency around meeting the standards. It is clear that, unless building authorities are asked to demonstrate compliance with the standards, they will often be ignored.

awdurdodau lleol ledled Cymru i gael gwybod rhagor am sut y cafodd y safonau a’r rheoliadau acwsteg eu defnyddio rhwng 2003, pan gawsant eu cyflwyno ar lefel y DU, a 2010. Yn rhyfedd iawn, nid oedd pob awdurdod lleol yn gallu darparu manylion ynghylch sut roedd yr ysgolion newydd a adeiladwyd yn eu hardal wedi ystyried y rheoliadau acwsteg. O’r 262 o adeiladau ysgol a nodwyd yn yr arolwg, dim ond ar 11% o’r prosiectau adeiladu yr oedd profion wedi’u cynnal i weld a oeddent yn cydymffurfio â safonau acwsteg, a dim ond 29% o’r prosiectau oedd wedi cynnwys unrhyw waith ymgynghori ag arbenigwr ym maes acwsteg. Roedd yr adborth a gafwyd o arolwg yr NDCS yn awgrymu bod dryswch a hunanfodlonrwydd ynghylch cyflawni’r safonau. Mae’n amlwg y bydd awdurdodau adeiladau’n aml yn anwybyddu’r safonau oni bai bod gofyn iddynt ddangos eu bod yn cydymffurfio â hwy.

NDCS and, I hope, the Members in the Siambr tonight acknowledge the fact that the Government has taken steps to make sure that new school buildings under the twenty-first century schools programme comply with these higher acoustic standards. My reason for bringing forward this debate tonight is to ensure that we have more robust and mandatory testing processes and to ask the Government to indicate whether schools built prior to the introduction of the twenty-first century schools programme, or those funded outside the scheme, will be required to meet those same acoustic standards. I have taken steps to write to all the chief education officers in Wales asking them to outline whether this is the case. I look forward to the Minister’s confirmation that building bulletin 93 will be complied with and that a pre-compliance check will be undertaken for these school buildings.

Mae’r NDCS, a’r Aelodau yn y Siambr heno, rwyf yn gobeithio, yn cydnabod y ffaith bod y Llywodraeth wedi cymryd camau i sicrhau bod adeiladau ysgol newydd a gaiff eu codi dan y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn cydymffurfio â’r safonau uwch hyn ar gyfer acwsteg. Rwyf yn cyflwyno’r ddadl hon heno er mwyn sicrhau bod gennym brosesau profi mwy cadarn a gorfodol ar waith, ac er mwyn gofyn i’r Llywodraeth nodi a fydd yn ofynnol i ysgolion a gafodd eu hadeiladu cyn cyflwyno’r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, neu ysgolion a ariannwyd y tu allan i’r cynllun, fodloni’r un safonau ar gyfer acwsteg. Rwyf wedi cymryd camau i ysgrifennu at yr holl brif swyddogion addysg yng Nghymru i ofyn iddynt egluro a yw hynny’n wir. Edrychaf ymlaen at gael cadarnhad gan y Gweinidog y cydymffurfir â bwletin adeiladu 93 yn y dyfodol ac y cynhelir archwiliad cyn cwblhau gwaith yng nghyswllt yr adeiladau ysgol hynny.

6.15 p.m.

Good acoustics in learning environments are important for all children. All children need to hear their teachers effectively. However, there are some groups that are particularly vulnerable to the effects of poor acoustics in the classroom. These groups include children with a hearing loss—even the 80% of all

Mae cael acwsteg dda mewn amgylcheddau dysgu yn bwysig i bob plentyn. Mae angen i bob plentyn glywed ei athrawon yn effeithiol. Fodd bynnag, ceir rhai grwpiau sy’n arbennig o sensitif i effeithiau acwsteg wael yn yr ystafell ddosbarth. Mae’r grwpiau hynny’n cynnwys plant sydd wedi colli rhywfaint o’u

children who will experience a temporary hearing loss—children with visual impairments, children on the autistic spectrum and children with speech and language difficulties.

clyw—hyd yn oed yr 80% o blant a fydd yn colli rhywfaint o'u clyw dros dro—plant â nam ar eu golwg, plant ar y sbectrwm awtistig a phlant ag anawsterau o ran lleferydd ac iaith.

We know from studies and research papers on this subject that noise both inside and outside the classroom can affect learning. Statistics provided to us at the January event by acoustics specialists at Cole Jarman show that noise from outside a school, such as road traffic, affects children's test scores: a 10 dB increase, equivalent to a doubling of loudness, in external noise causes an average 5% drop in test scores at key stage 1 and a 7% drop in scores at key stage 2, according to evidence submitted in England. Noise inside the classroom, for example from pupils, also affects test scores, leading to an average 13% drop in scores at key stage 1 and a 12% drop in scores at key stage 2.

Gwyddom o astudiaethau a phapurau ymchwil ar y pwnc hwn y gall sŵn y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth effeithio ar ddysgu. Mae ystadegau a ddarparwyd inni yn y digwyddiad ym mis Ionawr gan yr arbenigwyr ym maes acwsteg yn Cole Jarman yn dangos bod sŵn o'r tu allan i'r ysgol, megis traffig ar ffyrdd, yn effeithio ar sgorau plant mewn profion: mae cynnydd o 10 dB mewn sŵn o'r tu allan, sy'n cyfateb i ddyblu lefel y sŵn, yn achosi gostyngiad o 5% ar gyfartaledd mewn sgorau profion yng nghyfnod allweddol 1, a gostyngiad o 7% ar gyfartaledd mewn sgorau profion yng nghyfnod allweddol 2, yn ôl y dystiolaeth a gyflwynwyd yn Lloegr. Mae sŵn y tu mewn i'r ystafell ddosbarth, er enghraifft gan ddisgyblion, hefyd yn effeithio ar sgorau profion, gan arwain at ostyngiad o 13% ar gyfartaledd mewn sgorau profion yng nghyfnod allweddol 1, a gostyngiad o 12% ar gyfartaledd mewn sgorau profion yng nghyfnod allweddol 2.

Children with special needs are more seriously affected by noise than others. The impact on their performance in spelling and reading is three times that of the impact on other children. Hearing-impaired children require lower noise levels and better acoustic conditions in order to be able to hear their teacher. It is worth remembering that, today, around 35,000 deaf children are educated in mainstream schools in the UK, and that up to 40% of primary school children have temporary or permanent hearing loss at any one time.

Mae sŵn yn effeithio'n fwy difrifol ar blant ag anghenion arbennig na phlant eraill. Mae ei effaith ar eu perfformiad hwy o ran sillafu a darllen deirgwaith yn fwy na'i effaith ar berfformiad plant eraill. Mae angen lefelau sŵn is ac amodau gwell o safbwynt acwsteg ar blant sydd â nam ar eu clyw er mwyn gallu clywed eu hathro. Mae'n werth cofio bod oddeutu 35,000 o blant byddar yn cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd yn y DU heddiw, a bod hyd at 40% o blant ysgolion cynradd ar unrhyw adeg wedi colli rhywfaint o'u clyw dros dro neu'n barhaol.

Teachers can also be affected, and poor acoustic classroom design leads to voice problems among teachers due to straining their voices to be heard. Studies undertaken by the Association of Teachers and Lecturers show that nearly seven out of 10 UK primary school teachers experience voice problems. This has a financial impact, because a quarter have to take time off work. Interestingly, surveys by the UK Department of Health show that teachers form a disproportionate

Gall sŵn effeithio ar athrawon hefyd, ac mae dylunio gwael mewn ystafell ddosbarth o safbwynt acwsteg yn arwain at broblemau llais ymysg athrawon gan eu bod yn straenio eu llais er mwyn cael eu clywed. Mae astudiaethau a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr yn dangos bod bron i saith o bob 10 athro mewn ysgolion cynradd yn y DU yn cael problemau â'u llais. Mae hynny'n arwain at effaith ariannol, gan fod eu chwarter yn gorfod cymryd amser i ffwrdd

percentage of voice-clinic patients. At a UK level, more than 70,000 teacher days are lost every year in primary schools due to voice strain, at a cost of over £15 million. Teachers are eight times more likely than other workers to have voice problems.

o'r gwaith. Yn ddiddorol iawn, mae arolygon a gynhaliwyd gan Adran Iechyd y DU yn dangos bod canran anghymesur o gleifion clinigau llais yn athrawon. Ar lefel y DU, caiff dros 70,000 o ddiwrnodau athrawon eu colli bob blwyddyn mewn ysgolion cynradd o ganlyniad i straen ar y llais, sy'n costio dros £15 miliwn. Mae athrawon wyth gwaith yn fwy tebygol na gweithwyr eraill o gael problemau â'u llais.

Therefore, we see that the cost of poor acoustics can be high, both for children and teachers. It is surprising that, against this backdrop, across the UK, lessons are being learned very slowly. I read, for example, when looking at some notes for today, that a recently built academy in England had to have £600,000 spent on it, two years after it opened, to reduce noise problems. Surely, it is much cheaper to get the acoustics right in the first place. In Wales, in this as in many other areas, we now, at long last, have the capacity to lead the way. The Welsh Government gained the power to change building regulations on 31 December 2011. I would hope that the Government uses these new powers in a positive way to extend the commitment that it has already shown under the terms of its twenty-first century schools programme to provide good acoustics. Placing a compulsory requirement on building authorities to demonstrate compliance with acoustic standards is the only way to ensure that all new school buildings, funded under the twenty-first century schools programme or not, sound good.

Felly, gwelwn fod acwsteg wael yn gallu costio'n ddrud, o safbwynt plant ac athrawon. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'n syndod mai'n araf iawn y caiff gwersi eu dysgu ar draws y DU. Er enghraifft, wrth edrych ar rai nodiadau ar gyfer heddiw, darllenais fod yn rhaid gwario £600,000 ar academi a adeiladwyd yn ddiweddar yn Lloegr, ddwy flynedd ar ôl iddi agor, er mwyn lleihau problemau sŵn. Does bosibl na fyddai'n llawer rhatach sicrhau bod yr acwsteg yn iawn yn y lle cyntaf. Yng Nghymru, mae gennym y gallu yn awr, o'r diwedd, i arwain y ffordd yn y maes hwn ac mewn llawer o feysydd eraill. Cafodd Llywodraeth Cymru y pŵer i newid rheoliadau adeiladu ar 31 Rhagfyr 2011. Fy ngobaith yw y bydd y Llywodraeth yn defnyddio'r pwerau newydd hyn yn gadarnhaol i ymestyn yr ymrwymiad a ddangosodd eisoes, dan delerau ei rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, i ddarparu acwsteg dda. Cyflwyno gofyniad gorfodol ar awdurdodau adeiladu i ddangos eu bod yn cydymffurfio â safonau acwsteg yw'r unig ffordd o sicrhau bod pob adeilad ysgol newydd yn bodloni safonau acwsteg, p'un a ydynt wedi'u hariannu gan y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ai peidio.

**Mark Isherwood:** As somebody with hearing loss, which in my case fortunately happened in adulthood, and as the son, brother and father of people with hearing loss, I know how devastating it is to be disabled by the environment, particularly when that is within our control. I frequently find myself disabled by the buildings that I am in, or the locality, and my daughter suffers direct and indirect discrimination on the grounds of her hearing loss. I therefore call on the Government to respond positively to the National Deaf Children's Society campaign. I know that 38 Members have now

**Mark Isherwood:** Fel rhywun sydd wedi colli rhywfaint o'i glyw—fe'i collais, yn ffodus, pan oeddwn yn oedolyn— ac fel mab, brawd a thad pobl sydd wedi colli rhywfaint o'u clyw, gwn mor ddinistriol yw cael eich anablu gan yr amgylchedd, yn enwedig pan fo hynny o fewn ein rheolaeth. Rwyf yn aml yn gweld fy mod yn cael fy anablu gan yr adeiladau yr wyf ynddynt, neu gan yr ardal, ac mae fy merch yn dioddef o wahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol oherwydd ei bod wedi colli rhywfaint o'i chlyw. Rwyf, felly, yn galw ar y Llywodraeth i ymateb yn gadarnhaol i ymgyrch y Gymdeithas

signed up, which is phenomenal support. Let us drive the change that is necessary and address the deficit that Aled referred to in terms of the freedom of information response from local authorities, which shows a woeful lack of knowledge about the acoustic regulations. Let us respond to the NDCS campaign for all future schools in Wales to sound good, regardless of how they are funded.

Genedlaethol i Blant Byddar. Gwn fod 38 o Aelodau bellach wedi cefnogi’r ymgyrch, sy’n gefnogaeth aruthrol. Gadewch inni hybu’r newid sy’n angenrheidiol a mynd i’r afael â’r diffyg y cyfeiriodd Aled ato o ran yr ymateb rhyddid gwybodaeth gan awdurdodau lleol, sy’n dangos diffyg gwybodaeth truenus am y rheoliadau acwsteg. Gadewch inni ymateb i ymgyrch yr NDCS, sydd am i bob ysgol yng Nghymru yn y dyfodol fodloni safonau acwsteg, ni waeth sut y cânt eu hariannu.

**Keith Davies:** Mae addysg yn ddiffinio’r gymdeithas heddiw. Mae’n angen sylfaenol, sy’n bwysig i bawb. Mae angen addysg arnom i greu cymdeithas deg a chynhwysol. Mae’n bwysig, felly, sicrhau bod ei safon yn cyfateb â hynny, a bod y ddarpariaeth o’r ansawdd orau. Dyna pam rwy’n falch o gael y cyfle i gyfrannu ar bwnc lle mae angen gweithredu i sicrhau na chaiff safonau eu cyfaddawdu.

**Keith Davies:** Education defines society today. It is a fundamental requirement, and is important to all. We need education in order to create a fair and inclusive society. It is, therefore, important to ensure that its quality is up to scratch, and that provision is of the highest standard. That is why I am pleased to have an opportunity to contribute on a subject on which action is needed to ensure that standards are not compromised.

I blant sy’n drwm eu clyw, a chanddynt nam ar eu golwg, sy’n cael trafferthion siarad, ac i rai ar y sbectrwm awtistiaeth, mae’n bwysig gweithredu i wneud yn siŵr eu bod yn derbyn yr addysg orau, heb ymyrraeth gan acwsteg wan. Mae ymchwil yn dangos y bydd pedwar allan o bump yn cael profiad dros dro o fyddardod cyn cyrraedd 10 mlwydd oed. Fel cyn athro, mae gennyf brofiad uniongyrchol o’r pwnc hwn. Mae angen sicrhau bod pob ystafell ddosbarth yn amgylchedd dysgu cyfforddus i bawb. Mae gan ddosbarthiadau heddiw offer fel carpedi a deunyddiau meddal, ac mae’r ffordd y’u gosodwyd yn wahanol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gweithredu rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, lle mae dilyn canllawiau’r Llywodraeth yn amod cyllidol. Drwy waith y pwyllgor cynghori a’r rheoliadau adeiladu, gobeithiaf y bydd adeiladau newydd yn cyrraedd y safonau awcsteg gofynnol. Rwy’n falch o gefnogi’r ddadl hon heddiw.

For children who are hard of hearing, who have sight problems and difficulties with speaking, and for some on the autistic spectrum, it is important to take action to ensure that they are given the best possible education without intervention by poor acoustics. Research shows that four out of five will experience temporary hearing loss before reaching the age of 10. As a former teacher, I have direct experience of this. We need to ensure that every classroom is a comfortable learning environment for all. Classes today include things like carpets and soft furnishings, and they have been laid out in a different way. The Welsh Government has already implemented the twenty-first century schools programme, where following Government guidance is a condition of funding. Through the work of the advisory committee and building regulations, I hope that new buildings will reach the required acoustic standards. I am pleased to support the debate today.

**Rhodri Glyn Thomas:** Llongyfarchaf Aled ar gyflwyno’r pwnc hwn, sy’n eithriadol o bwysig. Rwy’n falch o’i gefnogi. Nid wyf am ailadrodd yr hyn sydd wedi’i ddweud. Tanlinellwyd ei fod yn faes eithriadol o bwysig. Roeddwn yn falch o gael y cyfle i lofnodi adduned blwyddyn newydd arbennig

**Rhodri Glyn Thomas:** I congratulate Aled for introducing this extremely important subject. I am very pleased to support him. I do not intend to repeat what has been said. It has been underlined that it is an extremely important area. I was pleased to have the opportunity to sign NDCS Wales’s special

mudiad NDCS Cymru, ac rwy'n barod iawn i gefnogi ei alwad am sicrhau safonau acwsteg mewn adeiladau addysgol newydd yng Nghymru.

new year's resolution, and I am very willing to support its call for improved acoustics in educational establishments in Wales.

**Mike Hedges:** I thank Aled Roberts for allowing me to take part in this debate, and for bringing it forward. As he mentioned, I brought forward a debate on a similar topic last term, and it is important that we push hearing loss up the political agenda. Nothing can hinder a child's academic development as much as not being able to hear in the classroom. Imagine being a child unable to hear what the teacher is saying, or, as is more likely, being able to hear some of it but having to guess what the rest of it is. Those hearing problems will not be solved by better acoustics—the profoundly deaf, for example, will not benefit. However, many will have an improved learning outcome, and more importantly, an improved learning experience. The ability to hear what is going on in the classroom will make their learning experience better and will make them happier about attending school, and make them want to carry on in school. It will not just improve their academic attainment but will improve them as citizens and their ability to relate to others in society. It is tremendously important that something is done about acoustics, and I fully support Aled Roberts on this.

**Mike Hedges:** Hoffwn ddiolch i Aled Roberts am ganiatáu imi gymryd rhan yn y ddadl hon, ac am ei chyflwyno. Fel y soniodd, cyflwynais ddadl ar bwnc tebyg y tymor diwethaf, ac mae'n bwysig inni sicrhau bod colli clyw yn symud i fyny'r agenda wleidyddol. Ni all dim lesteirio datblygiad academaidd plentyn yn fwy na methu â chlywed yn yr ystafell ddosbarth. Dychmygwch fod yn blentyn nad yw'n gallu clywed yr hyn y mae'r athro yn ei ddweud, neu, fel sy'n fwy tebygol, yn blentyn sy'n gallu clywed rhan o'r hyn y mae'r athro yn ei ddweud ond sy'n gorfod dyfalu'r gweddill. Ni fydd gwell acwsteg yn datrys y problemau clywed hynny—er enghraifft, ni fydd plant sy'n ddifrifol fyddar yn elwa. Fodd bynnag, bydd llawer ohonynt yn cael canlyniad dysgu gwell, ac yn bwysicach fyth, yn cael profiad dysgu gwell. Bydd gallu clywed yr hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth yn gwella eu profiad dysgu, yn golygu y byddant yn teimlo'n hapusach ynghylch mynychu'r ysgol, ac yn golygu y byddant am barhau yn yr ysgol. Yn ogystal â gwella eu cyrhaeddiad academaidd, bydd hefyd yn eu gwneud yn well dinasyddion ac yn gwella eu gallu i uniaethu ag eraill yn y gymdeithas. Mae'n eithriadol o bwysig bod rhywbeth yn cael ei wneud am acwsteg, ac rwyf yn cefnogi Aled Roberts yn llwyr yng nghyswllt y mater hwn.

**The Deputy Minister for Skills (Jeff Cuthbert):** I thank Aled Roberts very much for the opportunity to take part in today's debate on improving acoustics in the classroom. I recall the earlier short debate that Mike Hedges led on a related subject. This is important for the delivery of the twenty-first century schools programme. All schools funded through the programme must demonstrate compliance with acoustic standards as per building bulletin 93 as a condition of grant for the funding contracts. We will continue to work with local authorities to ensure that this requirement is achieved. The effective design of school buildings has been a cornerstone of the programme so far and we have received input from leading architectural organisations, both

**Y Dirprwy Weinidog Sgiliau (Jeff Cuthbert):** Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Aled Roberts am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl heddiw ynghylch gwella acwsteg yn yr ystafell ddosbarth. Rwyf yn cofio'r ddadl fer a gafwyd yn gynharach ar bwnc cysylltiedig, a arweiniwyd gan Mike Hedges. Mae'r mater hwn yn bwysig wrth gyflwyno'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Rhaid i bob ysgol a ariennir drwy'r rhaglen ddangos ei bod yn cydymffurfio â'r safonau acwsteg, fel y maent wedi'u nodi ym mwletin adeiladu 93, fel amod grant ar gyfer y contractau ariannu. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau y bodlonir y gofyniad hwn. Mae dylunio adeiladau ysgol yn effeithiol wedi bod yn un o gonglfeini'r rhaglen hyd yn hyn, ac rydym

within Wales and outside the principality, exploring innovative ways of delivering school buildings. Welsh Government officials have worked with the National Deaf Children's Society Cymru on this matter; we meet on a number of occasions to discuss these issues, and will continue to do so. I welcome the willingness of a number of Assembly Members to support the society's campaign.

wedi cael mewnbwn gan sefydliadau pensaernïol blaenllaw, yng Nghymru a thu hwnt, sy'n archwilio ffyrdd arloesol o ddarparu adeiladau ysgol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yng Nghymru ynghylch y mater hwn; rydym wedi cyfarfod droeon i drafod y materion hyn, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Rwyf yn croesawu parodrwydd llawer o Aelodau'r Cynulliad i gefnogi ymgyrch y gymdeithas.

Following the devolution of building regulations to Wales on 31 December last year, it is for Welsh Ministers to decide, through guidance from the Building Regulations Advisory Committee for Wales, whether further work is needed in this subject area. I understand that representatives of the society have been given the opportunity to present their case to the committee in May, which demonstrates our continued engagement with the society. Compliance will continue to be a requirement of future contracts.

Ers datganoli rheoliadau adeiladu i Gymru ar 31 Rhagfyr y llynedd, mater i Weinidogion Cymru, gydag arweiniad gan Bwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu, yw penderfynu a oes angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn. Rwyf ar ddeall bod cynrychiolwyr y gymdeithas wedi cael cynnig cyfle i gyflwyno eu hachos i'r pwyllgor ym mis Mai, sy'n dangos ein bod yn ymgysylltu'n barhaus â'r gymdeithas. Bydd cydymffurfio yn parhau yn un o ofynion contractau yn y dyfodol.

The Welsh Government will continue to explore the issue of acoustics in the classroom in order to find the most effective way of achieving appropriate building standards for our schools. That, of course, as Keith Davies emphasised, is all about improving learning opportunities. Our commitment to ensuring compliance underlines our commitment to investing in our schools and to providing twenty-first century school buildings that are fit for all learners and all abilities. The twenty-first century schools programme has been designed to bring great benefits to pupils and teachers to deliver the Welsh Government's vision of providing a first-class education to all learners. As Aled Roberts pointed out, deaf children face barriers to learning as it is, and that should cease to be a problem at the earliest opportunity.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio'r mater sy'n ymwneud ag acwsteg yn yr ystafell ddosbarth er mwyn dod o hyd i'r ffordd fwyaf effeithiol o fodloni safonau adeiladu priodol ar gyfer ein hysgolion. Wrth gwrs, mae a wnelo hynny â gwella cyfleoedd dysgu, fel y pwysleisiodd Keith Davies. Mae ein hymrwymiad i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau'n pwysleisio ein hymrwymiad i fuddsoddi yn ein hysgolion a darparu adeiladau ysgol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain sy'n addas i bob dysgwr o bob gallu. Mae'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain wedi'i chynllunio i sicrhau bod disgyblion ac athrawon yn elwa'n fawr ohoni er mwyn gallu cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru, sef darparu addysg o'r radd flaenaf i bob dysgwr. Fel y dywedodd Aled Roberts, mae plant byddar yn wynebu rhwystrau i ddysgu fel y mae, a dylid cael gwared ar y broblem honno cyn gynted ag sy'n bosibl.

We are sympathetic to the issues of ensuring that deaf and partially deaf learners can engage fully in the classroom. A difficult challenge in many schools is that they are based in older buildings. I want schools in

Rydym yn cydymdeimlo â'r problemau sy'n gysylltiedig â sicrhau bod dysgwyr byddar a rhannol fyddar yn gallu cymryd rhan yn llawn yn yr ystafell ddosbarth. Un her anodd a geir mewn llawer o ysgolion yw'r ffaith eu

Wales to be places that inspire all of our young people. I want them to be places that can accommodate twenty-first century technology and can be adapted to meet the changing needs of learners of all abilities.

bod mewn adeiladau hŷn. Rwyf am i ysgolion yng Nghymru fod yn fannau sy’n ysbrydoli ein holl bobl ifanc. Rwyf am iddynt fod yn fannau sy’n gallu dygymod â thechnoleg yr unfed ganrif ar hugain, ac yn fannau y gellir eu haddasu i ddiwallu anghenion newidiol dysgwyr o bob gallu.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today’s proceedings to a close.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.27 p.m.*
*The meeting ended at 6.27 p.m.*

**Aelodau a’u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)

Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)